# Rhagair

***Mae gan y Pecyn Gweithgarwch yma gyfoeth o wybodaeth i helpu gyda rheoli mynwent eich eglwys, eich mynwent gyhoeddus neu eich safle claddu lleol yn sensitif.***

Ceir canllawiau ar reoli cynefinoedd bywyd gwyllt fel glaswelltir a choed, a nodweddion arbennig fel pyrth mynwentydd, waliau terfyn a hen waith carreg. Hefyd cewch wybodaeth am sut mae cynnwys eraill a sut mae gwneud defnydd o'r mannau hyn ar gyfer dysgu a gweithgarwch cymunedol.

Mae'r Pecyn Gweithgarwch yn rhoi sylw i amrywiaeth eang o bynciau fel bod posib edrych ynddo i ateb cwestiynau bach a mawr:

- **Beth gall ein gwirfoddolwyr ei wneud i gadw coed yn iach ac yn ddiogel?**
- **Pa ddarn ydi'r darn gorau o laswellt i'w dorri'n fyr a pha ddarn ddylid ei adael i dyfu'n hirach?**
- **Sut gallwn ni annog mwy o anifeiliaid fel adar a glöynnod byw i ymweld â'n safle ni?**
- **Pa weithgareddau fedrwn ni eu cynnig i bobl ifanc?**

Fel dewis arall, gall yr wybodaeth gynhwysfawr yn y Pecyn Gweithgarwch yma eich arwain chi i ymwneud â phrosiect cymunedol arbennig, yn seiliedig ar fynwent eich eglwys leol neu eich safle claddu lleol.

Pa ddulliau rheoli bynnag fyddwch chi'n eu dewis ar gyfer eich safle claddu, bydd y Pecyn Gweithgarwch yma'n eich arwain chi drwy beth sydd orau er mwyn 'gwarchod bywyd gwyllt, cynnal y dreftadaeth a chynnwys pobl'.

Os yw'n cael ei ddefnyddio i gefnogi prosiect cymunedol ar raddfa lawn neu am gyngor yn ôl yr angen, rydym yn gobeithio y byddwch chi'n teimlo bod Pecyn Gweithgarwch Gofalu am Erw Duw o help i chi.

A chofiwch roi gwybod i ni sut mae pethau'n datblygu gyda rheoli mynwent eich eglwys leol neu eich safle claddu lleol.



Gofalu am Erw Duw
11 Drovers House,
The Auction Yard,
Craven Arms.
Swydd Amwythig SY7 9BZ

Ffôn: 01588 673041

www.caringforgodsacre.org.uk

© Caring for God's Acre Elusen gofrestredig 1084504

# Mynegai

## Adran A

### RHEOLI MYNWENTYDD EGLWYSI A SAFLEOEDD CLADDU


1 Y Pump Cam i Ofalu am Fynwentydd Eglwysi a Safleoedd Claddu
2 Gofalu am Laswelltir
3 Torri Glaswellt Tal a Delio â'r Glaswellt Sydd Wedi'i Dorri
4 Arolygu a Gofalu am Goed
5 Coed Yw a Choed Feteran Eraill
6 Rheolaeth Ymarferol ar Goed a Llwyni
7 Gofalu am Wrychoedd
8 Creu Dôl o Flodau Gwyllt a Helpu Bywyd Gwyllt
9 Planhigion ac Anifeiliaid Sy'n Niwsans
10 Gofalu am Waith Carreg, Gwaith Metel a Gwaith Coed
11 Gofalu am Waliau Cerrig
12 Gwella Ôl Troed Carbon Eich Safle Claddu


## Adran B

### HAFAN I FYWYD GWYLLT


1 Nadroedd Defaid ac Ymlusgiaid ac Amffibiaid Eraill
2 Draenogod a Mamaliaid Eraill
3 Ystlumod yn y Clochdy
4 Gwenoliaid Duon ac Adar Eraill
5 Cacwn a Gwenyn Eraill, Gwenyn Meirch a Morgrug
6 Glöynnod Byw, Gwyfynod a Phryfed Eraill
7 Dysgu am Gennau
8 Capiau Cwyr Campus a Ffyngau Eraill
9 Mwsoglau, Llysiau'r Afu a Rhedyn
10 Arolygu am Blanhigion ac Anifeiliaid
11 Safleoedd Claddu Ledled Prydain


## Adran C

### SAFLEOEDD CLADDU DRWY'R OESOEDD


1 Archeoleg a Nodweddion Adeiledig Hanesyddol
2 Hanes, Llên Gwerin a Thraddodiadau
3 Daeareg y Cerrig
4 Hanes Cymdeithasol Tiroedd Claddu


## Adran D

### CYNNWYS POBL


1 Cynnwys Gwirfoddolwyr
2 Iechyd a Diogelwch
3 Hamdden a Dysgu – Pethau i'w gwneud
4 Adrodd y Stori – Gwybodaeth
5 Gwneud Cais am Grantiau
6 Cynaliadwyedd


## CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

# 1. Y Pump Cam i Ofalu am Fynwentydd Eglwysi a Safleoedd Claddu

*Bydd y daflen hon yn eich helpu chi i ddechrau meddwl am sut mae rheoli eich safle. Bydd yn rhoi fframwaith i chi ar gyfer dechrau arni ac i helpu pobl i gymryd rhan.*

Mae cynllunio'r gwaith o reoli unrhyw safle'n helpu i gadw'r gwaith o dan reolaeth. Yn hytrach nag ymateb i broblemau neu dasgau hwyr yn cael eu gwneud, mae cyfle i ystyried yn ofalus pa adnoddau sydd gennych chi (gall fod yn bobl, arian, adnoddau) a beth gellir ei gyflawni'n rhesymol. Drwy fynd drwy'r pump cam yma, byddwch yn llunio cynllun rheoli sy'n realistig ac yn gynaliadwy. Hefyd, efallai y gwelwch chi bod y broses gynllunio hon yn ennill momentwm yn y gymuned drwyddi draw ac yn denu gwirfoddolwyr newydd i'r safle.

**1. Ymchwilio** i gofnodion sy'n bodoli eisoes.

**2. Mapio'r** safle a dechrau cynnwys gwybodaeth am yr hyn rydych chi'n ei wybod a beth rydych chi'n ei ddarganfod am blanhigion, anifeiliaid a nodweddion adeiledig.

**3. Cynllunio** beth rydych chi eisiau ei wneud a sut byddwch yn rheoli'r safle. Siarad gyda phobl a dod i gytundeb ar reoli.

**4. Rhoi gwybod** i bobl am y cynlluniau a'u gwahodd i gymryd rhan. Cynnal digwyddiadau a dyddiau hyfforddi, helpu pobl i ddysgu mwy am y safle.

**5. Adolygu'r** cynllun; ydi o'n gweithio?

Gwirio i weld pa mor ymarferol ydi'r cynllun a sut mae pobl yn teimlo amdano.



## 1. YMCHWIL

### Yswiriant

Mae'n ddoeth gwirio pa lefel o yswiriant sydd gan eich safle. Efallai eich bod yn cynnal digwyddiadau, yn gweithio gyda gwirfoddolwyr ac yn annog plant i archwilio. Gan fod safleoedd claddu ar agor i'r cyhoedd, maent yn debygol o fod ag yswiriant priodol, ond mae'n syniad da gwirio hynny.

### Caniatâd

**Gwnewch yn siŵr bod y bobl sy'n gyfrifol am fynwent yr eglwys neu'r safle claddu'n gwybod am eich cynlluniau. Gobeithio y byddant yn cymryd rhan.**

Gyda mynwent gyhoeddus, cysylltwch â rheolwyr eich awdurdod lleol a gyda mynwent eglwys, cysylltwch â chyngor yr eglwys, y ficer neu'r warden.

### Gwarchodaeth gynllunio

#### *Yr amgylchedd naturiol*



*Dwyddalen*

Mae safleoedd claddu'n safleoedd pwysig ac efallai bydd ganddynt warchodaeth arbennig. Er enghraifft, mae nifer o safleoedd claddu wedi'u dynodi yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), sy'n ddynodiad cyfreithiol. Ydi eich safle claddu chi mewn Parc Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol? Mae gan awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau natur restri o safleoedd sydd o ddiddordeb penodol o ran bywyd gwyllt, fel 'Safleoedd Bywyd Gwyllt' neu 'Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur'. Mae'r rhain yn amrywio o sir i sir ac yn arwydd o fodolaeth nodweddion sydd wedi'u cydnabod fel nodweddion prin neu o ddiddordeb arbennig. Hefyd gall eich tir claddu gynnwys 'rhywogaethau dan warchodaeth' fel ystlumod, madfallod cribog mawr neu nadroedd defaid.

#### *Treftadaeth adeiledig*

Ceir amrywiaeth o ddynodiadau, o gofadeiladau unigol i safleoedd archeolegol a thirluniau wedi'u cynllunio. Gall safleoedd claddu fod oddi mewn i ddynodiadau treftadaeth ehangach, Ardal Gadwraeth er enghraifft. Holwch eich awdurdod lleol ac edrychwch ar gofnod yr amgylchedd hanesyddol am ddynodiadau a

gofynnwch am unrhyw wybodaeth sydd ganddynt am y safle ac unrhyw gyngor. Gall yr wybodaeth yma fod yn ddefnyddiol hefyd wrth greu gwybodaeth, fel taflenni neu arddangosfeydd.

Os oes gan eich safle ddynodiad, neu os yw'n cynnwys rhywogaethau dan warchodaeth, yna efallai y byddwch yn dymuno cysylltu â'r asiantaethau cadwraeth statudol am gyngor (gweler y cysylltiadau defnyddiol ar ddiwedd y daflen hon).

### Os ydych chi eisiau gwybod mwy...

Mae rhagor o wybodaeth ar gael os oes gennych chi ddiddordeb arbennig:

*Cofnodion biolegol*

Mae enwau'r planhigion a'r anifeiliaid sydd wedi cael eu cofnodi eisoes yn eich ardal yn cael eu cadw mewn cofnodion biolegol. Cysylltwch â'r awdurdod lleol neu'r ymddiriedolaeth natur a gofynnwch iddynt sut mae cael eu gweld. Bydd y rhain ar gael ar-lein efallai.

*Cofnodion archeolegol a hanesyddol*

I gael rhagor o wybodaeth am strwythurau adeiledig fel cofadeiladau neu gofebau, cysylltwch ag adran archeolegol eich awdurdod lleol, cofnod yr amgylchedd hanesyddol ac, yn achos y safleoedd Anglicanaidd, pwyllgor ymgynghorol yr esgobaeth neu bencadlys yr eglwys.

## 2. MAPIO'R SAFLE

Mae'n syniad da sicrhau map mor fanwl gywir â phosib, o faint hawdd ei drin (A3 neu A2). Efallai fod map yn bodoli eisoes, neu gallwch lunio un drwy fesur y safle. Y dewis arall ydi prynu un gan yr Arolwg Ordnans neu adran gynllunio'r awdurdod lleol (gwnewch sawl copi o'r map safle sylfaenol yma).

### Marciwch y nodweddion allweddol canlynol arno:

• Mynedfeydd, terfynau, llwybrau a sylfaen yr adeilad.

• Graddfa'r map neu arwynebedd y safle claddu.


• Cyfeiriad – Gogledd, De, Dwyrain, Gorllewin, gellir gwneud hyn drwy naill ai edrych ar fap Arolwg Ordnans neu ddefnyddio cwmpawd.

• Ardaloedd sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd; ble mae claddu o'r newydd yn digwydd, a oes unrhyw feddau rhyfel, a oes cofeb rhyfel, ble mae torchau o flodau'n cael eu gosod yn flynyddol?

• Strwythurau neu feddau yr ymwelir â hwy'n rheolaidd.

• Rheolaeth bresennol; ardaloedd o laswellt wedi'i dorri'n fyr, glaswellt twmpathog tal, ardaloedd nad ydynt yn cael eu rheoli ar hyn o bryd.

• Coed, llwyni, gwelyau blodau, bylbiau gwanwyn, tomenni compost. Os yw'n bosib, dylid nodi enwau'r rhywogaethau o goed a llwyni.



NODIADAU 15/1/2013

Waliau: Yn dechrau mynd yn ansefydlog i'r de o'r safle. Pob un efo cennau, planhigion, rhedyn neu fwsoglau.

Gwrych: Cael ei docio i 1.5m yn yr hydref. 3 bwlch mawr. Drain gwynion, drain duon, cyll, llwyfenni, celyn

Blodyn taranau, Pidyn y gog, blodyn y gwynt, clychau'r gog

Glaswelltir: Ardal gyda bylbiau'r gwanwyn : eirlysiau, cennin Pedr, briallu Mair sawrus, pys y ceirw. Gweddill y glaswellt yn cael ei gadw'n fyr drwy gydol y flwyddyn. Sawl planhigyn gwahanol yn bresennol (heb eu hadnabod) a hefyd capiau cwyr coch, oren a melyn.

Coed Yw: 1 hen iawn, heb ei thocio, rhai eraill yn cael eu tocio'n flynyddol.

Derw: hen goeden gyda phren marw a nyth tylluan frech.

Cyll: yn gwthio'n erbyn y wal.

Danadl poethion a llwyni: ardal yn cynyddu. Y llwyni yw mieri, drain duon a choed mêl

Ystlumod: i'w gweld yn rheolaidd yn yr haf

Adar: aderyn du, bronfraith, tylluan, dryw, gwybedog, siglen.

Llyffant a Madfall: wedi'u gweld wrth y compost.

Dyma eich map sylfaen, sy'n rhoi man cychwyn ar gyfer penderfynu beth i'w wneud a ble. Does dim ots os nad ydych chi'n gallu adnabod popeth ar hyn o bryd; byddwch yn creu darlun manylach yn raddol, wrth i amser fynd heibio .

### Os ydych chi eisiau cael gwybod mwy

Efallai eich bod eisiau adnabod blodau gwyllt, darganfod oes gennych chi nadroedd defaid neu weld pa adar sy'n nythu ac ymhle ...

#### *Beth am gynnal eich arolygon eich hun*

- Mae llawer o fywyd gwyllt a hanes diddorol i'w darganfod drwy ymweld â safle'n rheolaidd drwy gydol y tymhorau a gwneud nodyn o'r hyn rydych yn ei weld. Mae canllawiau maes ar gyfer adnabod rhywogaethau'n ddefnyddiol ac mae taflenni plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes yn fan cychwyn ardderchog.
- Tynnwch lun y pethau nad ydych yn eu hadnabod a nodi'r dyddiad; yn hwyr neu'n hwyrach fe ddowch chi o hyd i rywun a fydd yn gallu dweud beth ydyw!

#### *Gofynnwch am help*

Efallai y bydd arbenigwyr a naturiaethwyr brwd lleol yn fodlon helpu:

- Defnyddiwch y cyfryngau lleol i ddweud wrth bobl beth sy'n digwydd a gofynnwch am wirfoddolwyr gyda sgiliau neu wybodaeth benodol. Botanegwyr, haneswyr lleol neu ffotograffwyr efallai?
- Efallai bydd Gofalu am Erw Duw yn gallu eich cysylltu chi â grŵp arall sy'n gwneud prosiect tebyg gerllaw.
- Cysylltwch â: yr ymddiriedolaeth natur, ecolegydd yr awdurdod lleol, y staff mewn gwarchodfa natur gerllaw, grwpiau diddordeb lleol. Gofynnwch iddynt am help neu awgrymiadau ynghylch pwy arall allai helpu.

#### *Chwiliwch am hyfforddiant a gwnewch gais am grant i dalu costau*

- Efallai bydd gan aelodau eich cymuned ddiddordeb mewn dysgu adnabod bywyd gwyllt, cofnodi cofadeiladau neu sgiliau newydd eraill. Edrychwch ar daflen B10, Arolygu am Blanhigion ac Anifeiliaid, am dechnegau arolygu pellach a thaflen D5, Gwneud Cais am Grantiau.

**Gellir casglu'r wybodaeth ychwanegol yma ar unrhyw adeg; does dim rhaid i hyn ddigwydd cyn i chi lunio'r map sylfaen a chynllunio'r gwaith rheoli.**

## 3. CYNLLUNIO BETH RYDYCH CHI EISIAU EI WNEUD

Unwaith rydych chi'n adnabod eich safle yna gallwch ddechrau cynllunio sut mae gofalu amdano. Mae'n bwysig cynnwys pobl a siarad drwy'r materion yn y cam hwn. Yn arbennig, rhaid siarad gyda'r bobl hynny sy'n gyfrifol am y safle a hefyd y bobl sy'n ymweld ag o.

Mae cynllun sy'n cael ei lunio gan nifer o bobl yn fwy tebygol o lwyddo. Mae pobl yn debygol o wirfoddoli unwaith mae'r cynllun yn dod yn glir ac unwaith maent yn gallu gweld bod pethau'n digwydd.



*Fioled*

Mae cael nodau ar gyfer rheoli'n syniad da, er enghraifft:

'Mae'r safle claddu yma'n cael gofal mewn ffordd sy'n ei wneud yn bleserus ac yn atyniadol i ymwelwyr, llecyn sy'n cyd-fynd â swyddogaeth claddedigaethau, lleoliad addas i'r eglwys a hafan i fywyd gwyllt'.

Y ddwy brif ystyriaeth ar gyfer rheoli yw: 'ble' a 'phryd'.

### Map rheoli i gynllunio 'ble'

Edrychwch ar gopi glân o'ch map a dechreuwch ystyried pa ardaloedd sy'n addas ar gyfer rheolaeth arbennig:

- Oes ardaloedd o fylbiau gwanwyn nad ydych yn eu torri nes eu bod wedi gorffen blodeuo?
- Oes llefydd ble mae cofadeiladau sydd ag arysgrif a chen diddorol arnynt yn cael eu gorchuddio â mieri?


• Ydi'r safle cyfan yn cael ei reoli fel glaswellt byr ac oes posib cael ardaloedd gyda gwahanol amseroedd torri gwair?

• Oes angen ailadeiladu'r wal derfyn?

Wrth gynllunio eich gwaith rheoli, cadwch y map safle a luniwyd gennych chi yng ngham 2 wrth law. Gall fod yn ddefnyddiol gwneud copi ar bapur dargopïo a gosod hwn arno os yw'r safle'n gymhleth.

### Calendr i gynllunio 'pryd'

Ar ôl cytuno ar y gwaith rheoli, rhaid llunio amserlen ar gyfer gwneud tasgau. Cynlluniwch beth sydd raid ei




Nodiadau Rheoli 20/1/2013

Waliau: Trwsio'r bylchau yn y wal ddeheuol; dyddiau gwirfoddoli gyda waliwr proffesiynol. Tynnu'r planhigion i ddechrau, eu cadw'n wlyb ac yna'u hailblannu wedyn. Maint y bylchau yw 3m, 5m, 1m.

Gwrych: Blaenoriaeth isel, gadael y bylchau am nawr.

Glaswellt byr: Dim newid ac eithrio casglu'r holl laswellt sydd wedi'i dorri a'i roi mewn bin compost.

Glaswellt canolig neu ddôl gwanwyn. Torri ar ôl i'r bylbiau flodeuo ac yna torri'n rheolaidd gyda llafn y peiriant torri gwair wedi'i osod i 10cm.

Glaswellt tal: Siop anifeiliaid anwes yn awyddus i brynu byrnau bach. Gwneud belar llaw ac yna cyflwyno'r arfer o dorri'r glaswellt tal a chynaeafu'r gwair. Bydd y Cyngor yn cymryd y glaswellt sydd wedi'i dorri os nad yw'r tywydd yn ddigon da ar gyfer cynaeafu gwair.

Glaswellt twmpathog: Torri ei hanner bob blwyddyn a'i gompostio.

Danadl Poethion a Phrysgwydd: Torri'r danadl poethion wrth dorri'r glaswellt tal a'u cynnwys yn y byrnau gwair. Torri'r prysgwydd i'r ddaear bob 3 blynedd, fel nad oes coed yn sefydlu.

Coed Yw: Tynnu'r eiddew oddi ar yr hen ywen (contractwr coed). Torri'r ysgaw a'r planhigion eraill o dan y coed yw bob blwyddyn.

Cyll: Blaenoriaeth isel, gadael nawr ond cynllunio i'w tocio yn y dyfodol.

Biniau Compost: Gwneud 2 fin allan o baledau a'u defnyddio allan yn flynyddol. Rhoi hen domen gompost mewn bin neu fynd â'r compost adref ar gyfer gerddi.

Tomen goed: Marcio 4 cornel y domen goed a dechrau pentyrru pren marw ynddi.

## Y Pump Cam i Ofalu am Fynwentydd Eglwysi a Safleoedd Claddu

**Cynllun Gwaith Blynyddol**

| ALLWEDD | BETH | CAM GWEITHREDU | I | Ch | M | E | M | M | G | A | M | H | T | Rh |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Glaswellt twmpathog | Torri unwaith y flwyddyn neu bob yn ail flwyddyn | | | | | | | | | ■ | | | |
| | Glaswellt tal dôl haf | Torri a symud neu wneud byrnau gwair | | ■ | | | | | ■ | | | ■ | | |
| | Danadl poethion | Torri gyda'r glaswellt tal | | | | | | | ■ | | | | | |
| | Glaswellt canolig | Torri'n rheolaidd a symud | | | | ■ | | ■ | | ■ | | ■ | | |
| | Glaswellt byr | Torri'n rheolaidd a symud | | | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | |
| | Hen ywen | Tynnu'r eiddew, a'r ysgaw oddi tanodd | | ■ | | | | | | | | | ■ | |
| | Yw eraill | Tynnu'r eiddew | | ■ | | | | | | | | | ■ | |
| | Coed/llwyni eraill | Brigdorri'r llwyni | ■ | | | | | | | | | | ■ | |
| | Gwirfoddolwyr yn arolygu'r coed | Gwirio'r coed i gyd | | | | | | | | | ■ | | | |
| | Prysgwydd | Torri i lefel y ddaear | ■ | | | | | | | | | ■ | ■ | ■ |
| | Biniau compost | Cylchdroi'r defnydd, cymysgu/gwagio | | | | | | | | | ■ | ■ | | |
| | Waliau | Trwsio'r waliau, tynnu'r tyfiant eiddew newydd | | | | | | | | | | ■ | | |
| | Tomen goed | Creu ac ychwanegu ato | ■ | ■ | | | | | | | | | ■ | ■ |

**Cynllun Gwaith Tair Blynedd** – dim angen cynnwys y tasgau sy'n digwydd yn flynyddol

| GWEITHGAREDD | BLWYDDYN 1 | BLWYDDYN 2 | BLWYDDYN 3 |
|---|---|---|---|
| Trwsio waliau | ■ | ■ | |
| Brigdorri llwyni | | ■ | |
| Adeiladu biniau compost | ■ | | |
| Dechrau rheoli er lles glaswellt tal a danadl poethion | | ■ | |
| Dechrau rheoli er lles glaswellt twmpathog | | | ■ |
| Tynnu'r eiddew a'r ysgaw oddi ar yr yw | ■ | | |
| Torri prysgwydd | | | ■ |

Gyda'i gilydd, mae'r Map Rheoli, y Cynllun Gwaith Blynyddol a'r Cynllun Gwaith Tair Blynedd yn ffurfio'r **Cynllun Rheoli**

wneud bob blwyddyn yn ogystal ag yn y tymor hwy; mae tair blynedd yn gweithio'n dda. Mae hyn yn rhoi cyfle i chi sefydlu gwaith fesul camau, gan ddechrau gyda newidiadau bychain, hawdd eu rheoli. Hefyd, gall dynnu sylw at waith brys sydd angen ei wneud, fel trwsio wal beryglus.

### 4. RHOI GWYBOD I BOBL

Unwaith mae'r cynllun yn barod, dywedwch wrth eich cymuned leol a sicrhewch ei chefnogaeth. Mae sawl ffordd o wneud hyn, gan ddibynnu ar adnoddau a beth sy'n gweithio'n dda yn eich ardal chi.

#### Gwybodaeth ysgrifenedig

- Rhowch boster ar yr hysbysfwrdd yn egluro beth rydych yn ei wneud.
- Ysgrifennwch erthyglau a llythyrau ar gyfer cylchgronau lleol a chysylltwch â'r wasg leol. Anfonwch y newyddion diweddaraf atynt yn rheolaidd.
- Lluniwch boster parhaol yn seiliedig ar y map rheoli, gyda lluniau, a'i arddangos ar hysbysfyrddau. Mae gan Gofalu am Erw Duw dempled yn ei wefan ar gyfer hysbysiadau.

#### Gwybodaeth lafar

- Eglurwch i bobl leol, nad ydynt yn cymryd rhan, a gofynnwch i'ch ficer (neu arweinydd arall) siarad am y cynllun. Siaradwch ar y radio leol ac ystyriwch gynnal cyfarfod cyhoeddus a defnyddio gwefannau a chyfryngau cymdeithasol.

### Cynnal digwyddiadau a dyddiau gwaith

- Unwaith mae cynllun yn ei le, gallwch ddechrau gweithio arno. Gall hyn gynnwys trefnu pobl i wneud tasgau a chynnal dyddiau gwaith i wirfoddolwyr a dyddiau hyfforddi.
- Mae angen cynllunio gweithgareddau; gall taflen D1, Cynnwys Gwirfoddolwyr helpu gyda chynllunio digwyddiadau, cadw pobl yn ddiogel a rheoli dyddiau gwaith. Ceir awgrymiadau ar gyfer digwyddiadau i wirfoddolwyr, cysylltiadau defnyddiol a ffyrdd o ddenu gwirfoddolwyr newydd.

### Cynnwys plant ac ysgolion

- Mae gan Gofalu am Erw Duw Becyn Addysgol i helpu athrawon ac arweinwyr grwpiau ieuenctid i wneud yn fawr o'u mynwent neu eu safle claddu lleol (edrychwch ar daflen D3 Hamdden a Dysgu – Pethau i'w Gwneud).

### Datganiad o arwyddocâd

Rhaid cynnwys darganfyddiadau pwysig yn eich Datganiad o Arwyddocâd (mae hwn yn ymwneud â safleoedd Eglwys Loegr/yr Eglwys yng Nghymru).

## 5. ADOLYGU'R CYNLLUN; YDI O'N GWEITHIO?

Rhaid i chi adolygu eich cynllun rheoli ar ddiwedd pob blwyddyn. Wedi'r cyfan, dim ond canllaw ydi hwn a gellir ei newid os nad oes rhywbeth yn gweithio.

### Gofynnwch i'r gwirfoddolwyr

Trefnwch gyfarfod blynyddol o bawb sydd wedi ymwneud â'r safle. Gall hyn fod ar ffurf dathliad blynyddol a thrafod busnes ar y dechrau.

Dylid trafod y canlynol:

- Sut mae'r flwyddyn wedi mynd?
- Oedd y tasgau'n briodol, yn bleserus ac yn ymarferol?
- Oes gan y grŵp adnoddau addas ac a ydynt mewn cyflwr da o hyd?
- Ydi graddfa'r cynllun rheoli'n rhesymol o ystyried eich adnoddau?
- Oes cyfle ar gyfer hyfforddiant defnyddiol?
- Oes gan unrhyw un syniadau neu brosiectau newydd yr hoffent eu trafod?
- Oedd yr asesiadau risg yn ddefnyddiol a phriodol? Oeddent yn adlewyrchu union risg y safle a'r dasg? (edrychwch ar daflen D2, Iechyd a Diogelwch).
- Oes unrhyw wersi i'w dysgu o'r llyfr damweiniau? (edrychwch ar daflen D2, Iechyd a Diogelwch).

Yn ystod y cyfarfod blynyddol, mae'n werth cyfeirio'n ôl at nodau gwreiddiol y prosiect (edrychwch ar gam 3 – y cynllun rheoli). Ydi hwn yn cael ei gyflawni? Cadwch nodiadau o'r trafodaethau hyn.

### Gofynnwch i'r gymuned leol ac ymwelwyr eraill

Rhowch gyfle i'r bobl leol fynegi eu barn am y cynllun ac am unrhyw newidiadau maent wedi sylwi arnynt efallai. Os yw'r sylwadau'n gadarnhaol, yna mae hyn yn galonogol i'r gwirfoddolwyr. Cofiwch roi unrhyw sylwadau negyddol a wneir gan lond dwrn o bobl mewn persbectif.

- Beth am gynnal diwrnod agored i ymwelwyr a gwahodd adborth; gall hwn fod yn ddigwyddiad codi arian hefyd.



# Y Pump Cam i Ofalu am Fynwentydd Eglwysi a Safleoedd Claddu

## Cofnodion

- Casglwch unrhyw gofnodion gan wirfoddolwyr neu aelodau'r cyhoedd. Yn aml iawn, y bobl sy'n gweithio ar safle sy'n gweld y bywyd gwyllt fwyaf ac yn clywed yr adborth gan ymwelwyr.
- Efallai eich bod yn dymuno ailadrodd arolygon ar rywogaethau neu gynefinoedd. Does dim rhaid i hyn fod yn flynyddol; mae arolwg bob tair neu chwe blynedd yn amserol oherwydd efallai na fydd y rheolaeth yn arwain at newidiadau ar unwaith.

## Y cynllun rheoli

Ar ôl tair blynedd, mae'n amser da i adolygu neu ailysgrifennu eich cynllun rheoli.

- Marciwch unrhyw newidiadau ar y cynllun; trwsio wal, torri coed, rheoli gwrychoedd, ac ati.
- Ystyriwch dasgau newydd y mae gennych adnoddau ar eu cyfer nawr.
- Edrychwch ble mae angen gwneud gwaith oherwydd dirywiad.

Mae tair blynedd yn amser da hefyd i edrych ar beth sydd wedi cael ei gyflawni, i ddathlu eich gwaith, i roi cyhoeddusrwydd o'r newydd i'r prosiect ac i chwilio am wirfoddolwyr newydd.

## Cysylltiadau defnyddiol

Gofalu am Erw Duw, www.caringforgodsacre.org.uk

Eglwys Loegr, ChurchCare, www.churchcare.co.uk

Yr Eglwys yng Nghymru, www.churchinwales.org.uk

Awdurdodau lleol – sut mae gweld cofnodion biolegol a chofnodion archeolegol

Ymddiriedolaethau Natur, www.wildlifetrusts.org

*Asiantaethau statudol y llywodraeth:*

Cadw, www.cadw.wales.gov.uk

Gwasanaethau Amgylcheddol a Threftadaeth – Gogledd Iwerddon, www.ehsni.gov.uk

Historic England, www.historicengland.org.uk

Historic Scotland, www.historic-scotland.gov.uk

Natural England, www.naturalengland.org.uk

Cyfoeth Naturiol Cymru, www.cyfoethnaturiol.cymru

Scottish Natural Heritage, www.snh.gov.uk

## Darllen defnyddiol

Y Cyngor Astudiaethau Maes – siartiau adnabod sy'n plygu

Pecyn Addysgol Gofalu am Erw Duw



*Melynwellt*

# 2. Gofalu am Laswelltir

***Mae'r daflen hon yn cyflwyno canllawiau ynghylch sut mae gofalu am ardaloedd glaswelltog ac mae'n egluro'r gwahanol ffyrdd o reoli glaswelltir.***

Efallai mai mynwent eglwys neu safle claddu yw'r darn mwyaf hynafol o dir caeedig mewn plwyf, yn hŷn nag adeilad yr eglwys efallai ac yn dyddio o gyfnod cyn Cristnogaeth.

Ar wahân i agor beddau, ni fydd neb wedi tarfu fawr ddim ar y glaswelltir, a bydd wedi ailhadu'n naturiol am gannoedd os nad miloedd o flynyddoedd. Hefyd, bydd wedi cael ei dorri ar gyfer cynaeafu gwair a'i bori gan anifeiliaid yn ystod ei gyfnod fel tir claddu.

Un fantais i'r cysondeb yma wrth reoli dros gyfnod hir o amser yw amrywiaeth o laswelltau a blodau hardd ac anifeiliaid cysylltiedig, gyda rhai ohonynt yn anghyffredin neu'n brin ym Mhrydain erbyn hyn efallai.

***Mae hen laswelltir nad oes neb wedi tarfu fawr ddim arno, neu heb ei wella, yn beth prin yn y DU yn awr. I gadwraethwyr, gall hwn fod y rhan bwysicaf o'ch safle.***

Penderfynu sut mae rheoli'r glaswelltir yw un o'r penderfyniadau pwysig i'w gwneud ac mae'n rhaid meddwl a chynllunio'n ofalus.

Mae'r dull o reoli eich glaswelltir yn dibynnu ar beth sy'n addas i'r safle a pha mor aml ydych chi'n fodlon ei dorri. Bydd mosaig o laswellt o daldra amrywiol yn helpu bywyd gwyllt i ffynnu. Yr amrywiaeth o daldra i'w ystyried ar gyfer y glaswellt yw:


- **byr** fel lawnt.
- **canolig** - yn cael ei dorri'n rheolaidd ond tua 10cm bob tro.
- **tal** a **blodeuog** - yn cael ei dorri ychydig o weithiau y flwyddyn.
- **tal** a **thwmpathog** - yn cael ei dorri unwaith y flwyddyn neu bob yn ail flwyddyn.

## GLASWELLT BYR

- Mae'n edrych yn daclus ac fel pe bai'n cael gofal ac mae pobl yn gallu ymweld â'r safle i gyd yn hwylus iawn.
- Yn ei gwneud yn haws darllen cofebau.
- Helpu adar sy'n bwydo ar y ddaear, fel y fronfraith a'r siglen.
- Gall gynnwys blodau gwyllt agos at y ddaear (teim gwyllt neu'r feddyges las er enghraifft).
- Gall gynnwys ffyngau glaswelltir prin sy'n gallu gwthio drwy'r glaswellt byr.
- Angen torri'n rheolaidd ac felly angen peiriannau torri gwair, tanwydd a phobl sy'n fodlon gwneud y gwaith h.y. adnoddau sylweddol.

### Rheoli glaswellt byr


***Torri'n rheolaidd a chael gwared ar y glaswellt sydd wedi'i dorri bob amser.***




Os oes ffyngau glaswelltir yn bresennol, yna rhoi'r gorau i dorri'r glaswellt pan maent yn dod i ffrwyth mewn unrhyw nifer. Mae hyn yn digwydd yn yr hydref fel rheol, ac felly nid yw'n amser o'r flwyddyn pan mae'r glaswellt yn tyfu'n gyflym.

## GLASWELLT CANOLIG

- Cymharol hawdd ei reoli oherwydd gellir ei dorri gyda pheiriant torri cryf.
- Dim angen torri mor rheolaidd â'r glaswellt byr felly angen llai o adnoddau.
- Gall gynnwys rhai planhigion sy'n blodeuo'n isel fel meillion, pys y ceirw a'r feddyges las.



## 2. Gofalu am Laswelltir

- Mae blodau'n denu pryfed (gwenyn yn arbennig os oes meillion yn bresennol), infertebrata eraill, mamaliaid bychain ac ymlusgiaid fel nadroedd defaid.

### Rheoli'r glaswellt canolig


***Torri'n achlysurol a chael gwared ar y glaswellt sydd wedi'i dorri bob amser.***

Gellir torri hwn gyda pheiriant torri gwair gyda'r llafn wedi'i osod i tua 4" (10cm). Mae angen torri'n llai aml (yn fisol fwy na thebyg yn ystod y tymor tyfu).

### GLASWELLT TAL

***Mae glaswellt tal yn debygol o gynnwys mwy o blanhigion ac anifeiliaid na glaswellt canolig a llawer mwy na glaswellt byr.***

- Mae'n galluogi i blanhigion flodeuo a bwrw had. Os yw'r safle'n cynnwys hen laswelltir heb ei wella, yna gall yr amrywiaeth o flodau fod yn odidog.
- Mae'n cynnwys cyfoeth o anifeiliaid; mae gwenyn a glöynnod byw yn cael eu denu at flodau ac mae chwilod, sioncod y gwair a chacwn yn defnyddio'r glaswellt tal am gysgod. Mae amffibiaid, ymlusgiaid a mamaliaid bach yn hela am fwyd yn y glaswellt tal.
- Mae angen llai o reoli, gan arbed amser ac arian. Er hynny, gall y rheoli sydd ei angen (torri a chael gwared ar laswellt tal) fod yn fwy anodd i'w drefnu.




### Rheoli glaswellt tal

***Y canllawiau allweddol ar gyfer rheoli glaswellt tal yw:***

Cadwch at y rheol euraid a chofiwch gael gwared ar yr holl laswellt sydd wedi'i dorri, neu ei adael i wneud gwair (edrychwch ar daflen A3, Torri Glaswellt Tal a Delio â'r Glaswellt Sydd Wedi'i Dorri).

Rhowch amser i blanhigion sy'n blodeuo dyfu, blodeuo a bwrw had.

Torrwch y glaswellt tra mae'n dal i dyfu; cyn i holl gryfder y planhigyn fynd i lawr i'r gwreiddiau.

***Yn ymarferol, mae hyn yn golygu'r canlynol:***

Cynllunio am tua 12 wythnos heb dorri yn y gwanwyn neu ddechrau'r haf (unrhyw adeg rhwng canol mis Mawrth a diwedd mis Gorffennaf).

Torri ardaloedd o laswellt tal cyn diwedd mis Gorffennaf ac yn sicr cyn diwedd mis Awst (efallai na fydd y blodau hwyr wedi bwrw had ond does posib gwneud dim am hyn).

Gadael y blodau haf hwyr, fel bara'r cythraul, yn ynysoedd yn y glaswellt wedi'i dorri efallai, a'u torri'n hwyrach.

Mae torri ar ôl diwedd mis Awst yn arwain at storio cryfder y glaswelltau yn y gwreiddiau. Dros amser, bydd y glaswellt yn datblygu i fod yn drwchus a thwmpathog ac yn colli blodau gwyllt. Er hynny, ni fydd gormod o ots am dorri'n hwyr o dro i dro.

Defnyddio strimar glaswellt ar olwynion neu strimar llaw, neu bladur, i dorri glaswellt tal (edrychwch ar daflen A3, Delio â'r Glaswellt Sydd Wedi'i Dorri). Rhaid cribinio a symud y glaswellt neu ei adael am ychydig ddyddiau ar gyfer gwneud gwair gan ddefnyddio belar llaw.

Ar ôl torri a symud y glaswellt, gellir gadael y glaswellt tal i dyfu'n ôl. Yn ddelfrydol, dylid torri unwaith neu ddwy eto ddiwedd yr haf ac yn ystod yr hydref, a chasglu'r glaswellt sydd wedi'i dorri. Gellir gwneud y torri yma unwaith y mis neu unwaith bob 6 wythnos gan ddefnyddio peiriant torri gwair cryf gyda bag casglu.

### Mwy am amseriad y torri ar gyfer glaswellt tal

Mae gan ddolydd y gwanwyn arddangosfa dda o flodau'r gwanwyn; bylbiau fel cennin Pedr neu flodau gwanwyn fel briallu neu friallu Mair sawrus. Dylid eu gadael heb eu torri tan tua chanol mis Mehefin.

Mae gan ddolydd yr haf lawer o flodau ym misoedd Mai, Mehefin a Gorffennaf – planhigion fel llygad llo mawr, pys y ceirw, y bengaled, heboglys a blodau menyn. Rhowch gynnig ar dorri ym mis Chwefror ac yna ei adael heb ei dorri o tua chanol mis Ebrill tan ganol mis Gorffennaf neu ddechrau Awst (tua 12 wythnos o fwlch torri).

## 2. Gofalu am Laswelltir

***Beth os oes blodau gwanwyn a haf?***

Gall cael blodau gwanwyn a haf yn yr un ardal ei gwneud yn anodd penderfynu pryd ddylid torri.


Ystyriwch yr opsiynau canlynol:

- **Rheoli er lles blodau gwanwyn a haf mewn gwahanol fannau:**

  Dewis 2 ardal (gyda blodau gwanwyn a haf) a defnyddio trefn o dorri yn y gwanwyn yn un a threfn o dorri yn yr haf yn y llall.

- **Rheoli er lles blodau gwanwyn a haf yn yr un ardal:**

  I fwynhau'r ddau grŵp, gadael y torri nes bod blodau'r gwanwyn a'r haf wedi bwrw had. Torri tua chanol mis Gorffennaf. Os bydd y safle'n gordyfu, yna dewis gwneud toriad ychwanegol ym mis Chwefror (cyn i flodau'r gwanwyn ddod i'r golwg). Y dewis arall ydi torri'n gynharach na mis Gorffennaf – canol mis Mehefin dyweder. Cofiwch mai 12 wythnos yw'r amser hiraf yn ystod y tymor tyfu ar gyfer gadael y glaswellt heb ei dorri.




### GLASWELLT TWMPATHOG

- Mae'n darparu cysgod drwy gydol y flwyddyn i lawer o anifeiliaid sy'n nythu ac yn gaeafgysgu yng nghanol y twmpathau, y coesynnau a'r gwreiddiau.
- Yn eu tro, mae anifeiliaid cigysol mwy yn bwydo ar yr anifeiliaid llai sydd i'w canfod yn y glaswellt bras.
- Nid yw glaswellt bras yn debygol o fod â'r un amrywiaeth o flodau â glaswellt tal, manach.
- Addas ar gyfer ardaloedd anodd eu rheoli; yn erbyn waliau, o amgylch biniau compost a hen gerrig beddau. Gall torri neu strimio drosodd a throsodd o amgylch gwaith carreg wneud difrod ac mae'n cymryd amser (edrychwch ar daflen A10, Gofalu am Waith Carreg, Gwaith Coed a Gwaith Metel).
- Glaswellt twmpathog ydi'r glaswellt gyda'r lleiaf o waith rheoli arno; er hynny mae'n gallu edrych yn arw a throi'n ôl yn brysgwydd heb reolaeth o gwbl.

#### Rheoli glaswelltir twmpathog

Dylid torri'r ardaloedd o laswellt twmpathog unwaith y flwyddyn neu unwaith bob yn ail flwyddyn. Mae'n bur debyg y bydd angen strimio, pladurio neu dorri'r glaswellt yma gyda gwellau, a chribinio'r glaswellt sydd wedi'i dorri neu ei symud o'r ardal. Gall torri'n llai aml alluogi i egin coed sefydlu a dod yn broblem.

Ni ddylid torri glaswellt twmpathog pan mae rhywogaethau'n nythu neu'n gaeafu ynddo o bosib.

Yn ymarferol, mae torri ar ddiwedd yr haf neu ddechrau'r hydref yn gweithio'n dda (o tua chanol Awst tan tua chanol Hydref).

Mae hyn yn rhoi amser ar gyfer aildyfu cyn y gaeaf ac, os yw'r torri'n digwydd ar gylchdro 2 flynedd, dylid torri hanner un flwyddyn a hanner y flwyddyn nesaf.

### PORI

- Unwaith mae safle wedi cael ei baratoi ar gyfer pori (ffensys yn eu lle) ac unwaith mae rhywun ar gael i reoli'r anifeiliaid, dyma opsiwn cynaliadwy, rhad. Mae defaid yn addas ar gyfer pori safleoedd claddu, ond mae anifeiliaid eraill mwy yn llai addas oherwydd gallant ddifrodi cofadeiladau.
- Gall anifeiliaid yn gorwedd wrth gofadeiladau achosi difrod.
- Mae angen trafod cyn pori. Rhowch wybod i'r cyhoedd beth yw eich bwriad a holwch am farn.

#### Rheoli drwy bori

Mae defaid yn cnoi blodau ac mae eu pori'n annog y glaswellt ar draul blodau. Os yw'r safle'n cael ei bori drwy gydol y gwanwyn a'r haf yna mae'r effaith yr un fath â thorri rheolaidd gyda pheiriant torri. Dylid symud anifeiliaid pori oddi ar y safle am hyd at 12 wythnos yn ystod y gwanwyn a dechrau'r haf fel bod planhigion yn gallu blodeuo a bwrw had.

Mae anifeiliaid pori'n cynhyrchu tail ac iwrin. Gallwch ddewis clirio'r tail os yw'r cyhoedd yn defnyddio'r safle ond, os nad yw'r safle'n cael ei orbori, does dim angen gwneud hynny er lles cadwraeth.

### BLE DDYLID CAEL GLASWELLT O WAHANOL DALDRA

Gellir rheoli'r rhan fwyaf o safleoedd claddu mewn ffyrdd amrywiol a byddwch wedi dechrau ystyried hyn wrth greu eich cynllun (edrychwch ar daflen A1, Y Pump Cam).

***Mae Gofalu am Erw Duw yn argymell torri'r glaswellt yn isel yn yr ardaloedd canlynol:***

- Ardaloedd ble ceir beddau diweddar a'r rhai y mae pobl yn ymweld â nhw'n rheolaidd.

## 2. Gofalu am Laswelltir

- Bob ochr i lwybrau i tua metr o led.
- Blaen yr adeilad, o amgylch y mynedfeydd ac unrhyw gofadeiladau arbennig, fel cofebau rhyfel.
- Llwybrau drwy laswellt sy'n cael ei adael i dyfu'n hirach.
- Ble mae'r glaswellt wedi cael ei dorri'n isel erioed a digon o ffyngau fel capiau cwyr ynddo.

Gall rhannau eraill o dir claddu, gyda beddau hŷn nad oes neb yn ymweld â nhw, neu ddim beddau o gwbl, fod yn addas ar gyfer glaswellt canolig, tal neu dwmpathog. Er mwyn penderfynu ynghylch hyn, mae'n rhaid i chi feddwl am eich adnoddau.

### Rhai sefyllfaoedd i'ch helpu i benderfynu

*Sefyllfa 1*

Rydych yn cael anhawster torri'r glaswellt yn rheolaidd mewn safle claddu ond gallwch ddibynnu ar wirfoddolwyr ar gyfer diwrnod gwaith cyffredinol. Os yw hyn yn wir, yna dylech ystyried gadael i fannau addas dyfu'n dal. Gall eich gwirfoddolwyr dorri'r glaswellt ac yna'i gribinio a'i symud ar ddiwrnod arall neu wneud gwair gan ddefnyddio belar llaw.

*Sefyllfa 2*

Mae gennych wirfoddolwyr brwd sy'n fodlon torri'r glaswellt yn rheolaidd ond fe hoffech amrywio hyd y glaswellt a chynyddu'r blodau. Yn yr achos hwn, ystyriwch gael ardaloedd o laswellt byr a chanolig, gyda rhimyn o laswellt twmpathog yn erbyn wal derfyn neu mewn ardal heb lawer o gerrig beddau neu feddau nad oes neb yn ymweld â nhw bellach. Mae hyn yn cynnig cysgod i fywyd gwyllt ac yn cadw gweddill y safle'n hawdd ei reoli gyda pheiriant torri gwair.

*Sefyllfa 3*

Mae gennych safle gydag ardaloedd o flodau gwanwyn a bylbiau.

Ystyriwch reoli'r ardal hon o flodau fel dôl wanwyn – peidio â'i thorri nes bod y blodau wedi bwrw had a'r dail yn marw. Ystyriwch gael rhimyn o laswellt twmpathog tua metr o led yn erbyn wal derfyn.


***Mae posib newid eich meddwl gyda phenderfyniadau am reoli glaswelltir***

Rhowch gynnig ar reoli ar gyfer glaswellt tal mewn ardal fechan (yn ddelfrydol, oddi wrth y brif fynedfa) ac, os bydd hyn yn gweithio, ei hymestyn yn raddol. Yn yr un modd, gallwch reoli ardal fel glaswellt tal ond bydd angen ei dorri'n fyr am gyfnod bach (dathliad arbennig efallai). Ni fydd hyn yn achosi niwed tymor hir i'r planhigion; maen nhw'n blanhigion parhaol a byddant yn ailymddangos. Yn wir, gall torri'n isel yn achlysurol fod yn fuddiol oherwydd mae'n lleihau cryfder y glaswelltau cras, gan alluogi i laswellt a blodau dôl manach ffynnu.

***Rheol Euraid: Cael gwared ar yr holl laswellt sydd wedi'i dorri; ei gompostio, gwneud gwair neu fynd ag o o'r safle.***

Mae symud y glaswellt sydd wedi'i dorri'n gwneud y pridd yn llai ffrwythlon ac, yn raddol, bydd hynny'n arafu twf y glaswellt. Mae hyn yn golygu llai o waith torri a llai o laswellt wedi'i dorri i'w symud (edrychwch ar daflen A3, Delio â'r Glaswellt Sydd Wedi'i Dorri).

**Y peth allweddol ydi dod o hyd i system dorri sy'n addas i'ch safle ac i'ch gweithlu chi. Mae'n fwy tebygol o gael cefnogaeth a llwyddo wedyn.**




### DOD Â SAFLE SYDD WEDI'I ESGEULUSO O DAN REOLAETH ETO

Mae mynwentydd eglwysi a safleoedd claddu sydd heb gael eu rheoli ers blynyddoedd yn tueddu i gynnwys ardaloedd o laswellt bras a llwyni. Mae hon yn broblem arbennig ac efallai bydd angen system dorri wahanol am rai blynyddoedd, nes bod glaswellt mwy cyson yn datblygu.

Dylid torri'r glaswellt ac yna'i symud o'r safle drwy gydol y flwyddyn gyntaf, fel y byddech yn ei wneud gyda glaswellt canolig; torrwch ar gylch misol neu bob 6 wythnos drwy gydol y gwanwyn a'r haf. Bydd hyn yn lleihau cryfder y glaswellt bras, twmpathog ac yn dechrau creu'r amodau cywir ar gyfer glaswelltau a blodau manach. Os nad oes gennych ddigon o weithwyr, yna torrwch deirgwaith – dechrau mis Mehefin, dechrau mis Gorffennaf ac yna dechrau mis Medi.

Efallai bydd arnoch angen gwneud hyn am flwyddyn neu ddwy ac yna dilyn hynny gyda threfn dorri ar gyfer glaswellt tal, canolig neu fyr, gan ddibynnu ar y cynlluniau.

Os yw safle wedi cael ei esgeuluso, yna mae'n gymharol hawdd neilltuo ardal ar gyfer glaswellt twmpathog. Dylid rheoli hwn gan dorri bob blwyddyn neu bob dwy flynedd o'r dechrau.

# 2. Gofalu am Laswelltir

### Safleoedd newydd

Mae llawer o fynwentydd eglwysi, neu estyniadau ar y mynwentydd hyn, yn defnyddio tir o gaeau ffermwyr yn fwy diweddar. Mae safleoedd claddu cyffredinol sy'n dyddio o gyfnod ar ôl 1945 yn llai tebygol o fod ag amrywiaeth cyfoethog o blanhigion.

- Gadewch i ardal fechan o laswellt dyfu'n hir i weld beth ddaw i'r golwg.
- Gofynnwch am gyngor ar reoli glaswelltir os ydych chi eisiau ei wella ar gyfer blodau gwyllt, (gweler taflen A8, Creu Dôl o Flodau Gwyllt a Helpu Bywyd Gwyllt).
- Gall glaswellt canolig fod yn fwy priodol na glaswellt tal.

### Cysylltiadau defnyddiol

Gofalu am Erw Duw, www.caringforgodsacre.org.uk

Flora Locale, www.floralocale.org

Plantlife, www.plantlife.org.uk

Ymddiriedolaethau Natur, www.wildlifetrusts.org

Cymdeithas Grwpiau Ffwng Prydain, www.abfg.org

### Darllen defnyddiol

Guide to Grassland Plants – Y Cyngor Astudiaethau Maes

# 3. Torri Glaswellt Tal a Delio â'r Glaswellt Sydd Wedi'i Dorri

***Mae'r daflen hon yn rhestru'r offer sydd ei angen i dorri glaswellt tal ac yn awgrymu sut mae rheoli'r glaswellt sydd wedi'i dorri drwy ei gompostio ar y safle, mynd ag o o'r safle neu wneud gwair.***

**Rheol Euraid: Cael gwared ar yr holl laswellt sydd wedi'i dorri; ei gompostio, gwneud gwair neu fynd ag o o'r safle**

## TORRI GLASWELLT TAL a THWMPATHOG

Mae defnyddio'r offer priodol yn arbed amser ac ymdrech. Gellir torri glaswellt tal gyda'r canlynol:

### Peiriant pladurio neu grymanu

Mae injan yn y peiriannau hyn a bar yn y tu blaen gyda threfniant o lafnau ôl a blaen sy'n symud o ochr i ochr fel rhes o sisyrnau. Mae'r barrau torri ar gael mewn hyd amrywiol.

Mae'r peiriannau hyn yn addas ar gyfer torri glaswellt tal mewn ardaloedd agored mawr heb gerrig beddau nac ymylon. Mae'r glaswellt tal yn cael ei dorri yn ei fôn ac yn syrthio i ystod yn barod ar gyfer cynaeafu neu gribinio.

Yr anfantais ydi bod y llafnau torri'n gallu difrodi gwaith cerrig hanesyddol a hefyd gall y gwaith cerrig ddifrodi'r llafnau torri.


Dim ond gweithiwr profiadol gyda'r offer diogelwch llawn ddylai ddefnyddio'r peiriannau hyn.

### 2. Trimiwr glaswellt ar olwynion

Mae'r rhain yn beiriannau hyblyg gyda phen torri neilon gwrth-lapio, ac uchder trimio y gellir ei addasu. Addas ar gyfer ardaloedd anodd. Mae'r fersiynau ysgafnach yn gymharol hawdd eu defnyddio ac mae gan rai modelau allwedd i'w tanio. Maent i'w cael mewn maint amrywiol gydag injan o wahanol bŵer. Ystyriwch yn ofalus pa faint sydd orau ar gyfer yr ardal a'r math o laswelltir y byddwch yn ei dorri. Hefyd, mae gan drimiwr ar olwynion ddewis o linynnau torri o wahanol faint a dwysedd.

Mae strimar llaw yr un fath yn sylfaenol, ond bod y gweithiwr yn ei ddal. Mae'n hawdd iawn difrodi coed, llwyni a gwaith cerrig gyda strimar llaw.

Mae offer gwarchod ar gael wrth ddefnyddio trimiwr neu strimar, fel atodiadau ac i atal difrod damweiniol.



### 3. Pladur llaw

Rydyn ni'n gweld dadeni mewn pladurio ar hyn o bryd. Mae'r pladur ysgafn o Awstria'n cael ei ddefnyddio fwy a mwy gan awdurdodau lleol a rheolwyr plastai a safleoedd claddu. Yn wahanol i strimar, does dim sŵn, dirgryniad na mwg wrth ddefnyddio pladur ac mae'n arf cymdeithasol i'w ddefnyddio. Nid yw'n achosi fawr ddim niwed i fywyd gwyllt ac mae'r glaswellt yn cael ei osod yn daclus mewn rhenc, sy'n hwylus ar gyfer cynaeafu neu gribinio ar gyfer y domen gompost.

I gael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant a defnyddio pladur, cysylltwch â Chymdeithas y Pladur neu Gofalu am Erw Duw. Gellir gweld ffilm fer ar sut mae addasu, defnyddio a rhoi min ar bladur a defnyddio belar gwair llaw yng ngwefan Gofalu am Erw Duw.



## DELIO Â'R GLASWELLT SYDD WEDI'I DORRI

Mae'n rhaid casglu a symud yr holl laswellt sydd wedi'i dorri o'r glaswelltir. Mae hyn yn wir am laswellt byr neu dal. Mae symud y glaswellt yn gwella cyflwr y glaswellt sydd ar ôl ar gyfer cadwraeth a hefyd yn graddol leihau'r maethynnau sydd yn y pridd, gan arwain at dwf arafach y glaswellt a mwy o flodau.

### Glaswellt byr

Gellir torri hwn gydag unrhyw fath o beiriant torri a dylid casglu'r glaswellt sy'n cael ei dorri wrth i chi fynd yn eich blaen. Gellir ei symud o'r safle neu ei roi ar domen gompost.

### Glaswellt canolig

Gellir ei dorri gyda pheiriant cymharol gryf a chasglu'r glaswellt sy'n cael ei dorri wrth i chi fynd yn eich blaen.

# 3. Torri Glaswellt Tal a Delio â'r Glaswellt Sydd Wedi'i Dorri

Gellir ei symud o'r safle neu ei roi ar domen gompost.

### Glaswellt tal

Gellir torri hwn gyda phladur, peiriant pladurio neu grymanu, strimar neu drimiwr ar olwynion. Ar ôl ei dorri, gellir cribinio'r glaswellt a'i gompostio neu ei adael i sychu a'i ddefnyddio ar gyfer gwair.

### Glaswellt twmpathog

Gellir torri hwn gyda phladur, strimar neu wellau. Ar ôl ei dorri, gellir cribinio'r glaswellt a'r planhigion bras ond nid ydynt yn debygol o fod yn ddefnyddiol fel gwair am nad ydynt o lawer o werth o ran maeth. Er hynny, gellir eu compostio.

## COMPOSTIO AR Y SAFLE

Dewiswch ardal ar gyfer eich tomen gompost, gan gofio'r canlynol:

• Dylai fod mewn llecyn heulog neu gydag ychydig o gysgod.

• Ddim yn uniongyrchol o dan goeden, mae hyn yn gwneud difrod i'r boncyff a'r gwreiddiau a gall fyrhau oes y goeden.

• Ddim ar ben bedd.

• Oddi wrth y mynedfeydd, y llwybrau a beddau y mae pobl yn ymweld â nhw'n rheolaidd.

• Oddi wrth ardaloedd gyda bylbiau gwanwyn neu lawer o flodau.


• Oddi wrth ddŵr, fel nentydd neu byllau.

• Hawdd ei chyrraedd gyda berfa.


Gellir pentyrru'r glaswellt mewn pentwr rhydd ond mae'n syniad da adeiladu bin compost. Mae hwn yn cynnwys y glaswellt, yn cadw'r ardal yn edrych dan reolaeth dda ac yn lleihau nifer y cŵn a'r llwynogod a ddaw i chwilota.

### Biniau compost

Gellir prynu sawl math o fin compost ond maent yn hawdd eu gwneud. Gellir gwneud bin compost o estyll o goed wedi'u sgriwio gyda'i gilydd yn flwch syml sy'n gallu bod yn dair neu'n bedair ochr. Mae paledau, sy'n rhoi mwy o aer, yn gwneud biniau compost da. Mae



biniau compost fel hyn yn cynnig llawer o fynedfeydd i anifeiliaid fel draenogod neu nadroedd defaid. Maent yn hawdd eu hadeiladu drwy yrru ffyn drwy baledau. Hefyd, mae maint safonol i baledau, felly maent yn ffitio gyda'i gilydd yn dda. Mae adeiladu dwy ran i'ch bin compost yn galluogi i un rhan gael ei llenwi yn ystod y tymor tyfu tra bo'r rhan arall yn cael ei gadael i gompostio. Yn yr hydref dylid gwagio'r ochr compostio. Dylid defnyddio'r compost neu ei roi i'r gwirfoddolwyr. Rhowch unrhyw ddeunydd sydd heb gompostio yn yr ail ran a dechrau llenwi'r rhan gyntaf wag yn awr gyda glaswellt wedi'i dorri. Mae tomen gompost ddelfrydol i arddwr yn cynnwys deunyddiau cymysg; glaswellt wedi'i dorri, glaswellt cras, dail marw a chardfwrdd. Bydd yn cael ei throi unwaith neu ddwywaith y flwyddyn o leiaf a gall gynhyrchu compost yn gymharol gyflym. I'r gwrthwyneb, pwrpas tomen gompost mewn safle claddu yw cael gwared ar wastraff dieisiau a darparu hafan i fywyd gwyllt. Peidiwch â phoeni os nad oes cymysgedd 'gywir' o ddeunyddiau yn eich tomen, neu os nad yw'n cael ei throi. Byddwch yn cael compost yn y diwedd!



*Crydwellt*

### Gwagio eich bin compost

Y misoedd delfrydol ar gyfer gwagio eich biniau compost yw Hydref ac Ebrill, pan nad oes anifeiliaid yn nythu ynddynt, fel nadroedd y gwair, neu'n gaeafgysgu ynddynt, fel draenogod neu fadfallod. Effeithir ar y cyfnod gaeafgysgu gan dymheredd ac felly gall ddechrau'n hwyrach na mis Hydref a dod i ben yn gynharach na mis Ebrill, gan ddibynnu ar amodau lleol. Os bydd arnoch angen gwagio bin compost yn y gaeaf, byddwch yn ofalus rhag anafu anifeiliaid sy'n gaeafgysgu. Stopiwch os dowch o hyd i unrhyw greadur, gorchuddiwch ef yn ôl a gadewch y dasg tan y gwanwyn.

## SYMUD GLASWELLT SYDD WEDI'I DORRI O'R SAFLE

Er bod posib i chi gompostio'r glaswellt byr neu ganolig sydd wedi'i dorri, bydd swmp y glaswellt a geir ar ôl torri glaswellt tal yn sylweddol ac mae'n bur debyg y bydd angen ei symud o'r safle.

### Chwilio am help

Efallai bydd ffermwr lleol yn fodlon cymryd y glaswellt i wneud gwair neu silwair, neu ar gyfer system gompostio fawr ar ei fferm. Y dewis arall yw cynllun compostio eich awdurdod lleol ar gyfer deunydd o finiau gwyrdd; efallai bydd yn fodlon cymryd y glaswellt wedi'i dorri. Oes cynllun compostio

# 3. Torri Glaswellt Tal a Delio â'r Glaswellt Sydd Wedi'i Dorri

cymunedol yn eich ardal chi?

Ystyriwch y canlynol:

- Hysbysebu ar hysbysfyrddau neu yn y papur lleol i weld oes rhywun yn gallu ei gymryd.
- Cysylltu â'ch awdurdod lleol.
- Holi ydi'r Rhwydwaith Compostio Cymunedol yn gallu helpu.

## Gwair Gwyrdd o Laswellt Tal

'Gwair gwyrdd' yw glaswellt tal sydd newydd gael ei dorri ac sydd felly'n dal i gynnwys hadau blodau gwyllt. Mae ffermwyr a pherchnogion tir eraill sy'n creu dolydd o flodau gwyllt yn gwasgaru'r gwair gwyrdd ar eu tir, fel bod yr had yn gallu egino wedyn yn ei leoliad newydd. Drwy rannu'r gwair gwyrdd, efallai y byddwch yn gallu cael help i reoli'r safle, gan fod gwair gwyrdd yn adnodd gwerthfawr.



## Cynaeafu gwair o laswellt tal

Gall cynaeafu gwair weithio'n dda iawn ac mae gennych chi gynnyrch i'w werthu. Ar ôl torri, gwasgarwch y glaswellt yn gyfartal ar y ddaear a'i adael i sychu. Mae hyn yn rhoi cyfle i unrhyw hadau syrthio'n ôl i mewn i'r pridd hefyd. Pan fydd y glaswellt yn sych i'w gyffwrdd, dylech ei droi gyda chribyn gwair. Trowch y gwair sawl gwaith nes ei fod yn sych i gyd.




*Melynwellt*

## Rheoli eich gwair

Nawr gallwch wneud y canlynol:

- Gwerthu'r gwair heb ei felio i ffermwr lleol. Gellir ei roi mewn berfa neu ei gribinio'n bentyrrau ar darpolin a'i lusgo ar draws y safle.
- Stwffio'r gwair i fagiau papur cryf neu fagiau plastig gyda thyllau ynddynt, i'w gwerthu i berchnogion anifeiliaid anwes neu siopau anifeiliaid anwes. Dim ond os mai ychydig o wair sydd gennych chi ddylech chi wneud hyn.
- Belio'r gwair gyda llaw gan ddefnyddio belar llaw pren. Gwnewch un gan ddefnyddio cynllun sydd i'w weld yng ngwefan Gofalu am Erw Duw. Gellir gwerthu'r bêls bach yma'n uniongyrchol o'ch safle, drwy siop leol, mewn marchnad ffermwyr neu debyg. Os ydych yn bwriadu cynaeafu gwair, gall fod yn ddefnyddiol cael cynllun wrth gefn rhag ofn y ceir haf gwlyb. Bydd glaswellt wedi'i dorri, y bydd glaw cyson yn syrthio arno, yn dechrau pydru ac yna bydd angen ei gribinio a naill ai ei gompostio ar y safle neu ei symud o'r safle cyn gynted â phosib.



### Cysylltiadau defnyddiol

Gofalu am Erw Duw ar gyfer belar llaw, ewch i 'gweld ein ffilmiau', www.caringforgodsacre.org.uk

Rhwydwaith Compostio Cymunedol, www.communitycompost.org

Garden Organic, www.gardenorganic.org.uk

Mae sawl ffilm ar gael ar y rhyngrwyd am wneud gwair gyda llaw

Cymdeithas y Pladur, scytheassociation.org/contact-us

## 3. Torri Glaswellt Tal a Delio â'r Glaswellt Sydd Wedi'i Dorri

# 4. Arolygu a Gofalu am Goed

***Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth a chanllawiau am goed, am eu cadw'n iach ac adnabod problemau posib, beth gallwch ei wneud eich hun a phryd mae angen arbenigwr.***

## AROLYGU COED

Mae gan reolwyr safleoedd gyfrifoldeb i gadw'r cyhoedd yn ddiogel mewn perthynas â choed. Efallai fod pryder am y risg a'r gost gysylltiedig â choed aeddfed a feteran yn arbennig, ond mae pethau y gall gwirfoddolwyr eu gwneud eu hunain, yn ogystal â chynnwys gweithiwr proffesiynol gydag yswiriant priodol.

Drwy arolygu'n rheolaidd, bydd posib gweld y newidiadau yng nghyflwr a/neu iechyd y goeden a, gyda'r gofal a'r amodau priodol, gellir cadw'r goeden yn briodol ac, mewn sawl achos, bydd y goeden yn cael oes hirach.

### Gwirfoddolwyr yn AROLYGU COED

Estynnwch y map safle a luniwyd gennych chi yng ngham 2 o'r 5 cam (edrychwch ar daflen A1, Y Pump Cam). Byddwch wedi marcio coed unigol ar y map yma ac yn gwybod ble maen nhw mewn perthynas ag adeiladau, llwybrau a chofadeiladau allweddol.

Nawr dechreuwch lenwi manylion ychwanegol am y coed. Os oes llawer o goed, gall fod yn ddefnyddiol rhoi'r wybodaeth hon ar fap ar wahân. Gwiriwch am unrhyw fywyd gwyllt sy'n defnyddio'r coed. Oes ystlumod yn clwydo neu adar yn nythu?

### Arolygu pob coeden

Pa rywogaethau o goed sy'n bresennol?

• Edrychwch mewn llyfr enwau coed neu siart, fel siart coed y Cyngor Astudiaethau Maes.

• Gwirio'r arolygon blaenorol ar goed.

• Gofyn i'ch warden coed lleol neu swyddog coed yr awdurdod lleol.

• Os nad ydych yn siŵr o enwau'r coed addurnol sy'n tyfu ar eich safle, yna nodwch enw'r teulu maent yn perthyn iddo, e.e. 'ceirios addurnol gyda blodau pinc'.

Disgrifiwch unrhyw nodweddion sy'n perthyn i'r goeden a'i lleoliad:

• Ble mae'r goeden yn tyfu? Ydi'r tir yn gysgodol, sych, glaswelltog neu ar lethr?

• Ydi'r goeden yn ifanc, blynyddoedd canol, aeddfed neu hynafol?

• Pa siâp ydi hi? Ydi hi'n dal a thenau neu'n fyr a llydan? Ydi hi wedi cael ei thocio neu ei barbro yn y gorffennol? (edrychwch ar daflen A6 Rheolaeth Ymarferol ar Goed a Llwyni).

• Pa mor dal ydi'r goeden yn fras?


*Pinwydden yr Alban*

Un ffordd syml o amcangyfrif hyn yw gofyn i rywun sefyll yn erbyn y goeden ac yna amcangyfrif sawl gwaith yn dalach ydi'r goeden. Dylech sefyll yn ôl i weld y goeden gyfan yn glir.

### Amcangyfrif taldra coeden gan ddefnyddio ffon

Defnyddiwch ffon syth sy'n hyd eich braich o'ch ysgwydd i'ch llaw. Daliwch y ffon ar i fyny gyda'ch braich ar ongl dde iddi. Cerddwch oddi wrth y goeden nes bod top y ffon mewn llinell gyda thop y goeden.




Gwthiwch eich ffon i'r ddaear yn y fan ble rydych chi'n sefyll a mesur y pellter o'ch ffon i foncyff y goeden. Ychwanegwch y pellter oddi wrth eich llygad i'r ddaear (bydd hyn yn rhyw 3 i 4 modfedd yn llai na'ch taldra chi) ac mae hyn yn rhoi taldra'r goeden i chi!

• Pa mor llydan yw canopi'r goeden? Ceisiwch roi lled y canopi ar eich map; lluniwch siâp sy'n cynrychioli maint y canopi. Bydd hyn yn eich helpu i gynllunio'r gwaith o

## 4. Arolygu a Gofalu am Goed

• Oes unrhyw nodweddion yn agos at y goeden sydd angen ystyriaeth? Mae tyfwyr coed yn galw'r rhain yn 'dargedau' ac maent yn effeithio ar reolaeth a risg. Gall targedau fod yn; llwybrau, adeiladau, meinciau er enghraifft. Pan mae gennych chi goed feteran neu hynafol, efallai y bydd rhaid i chi feddwl am symud targedau fel llwybrau neu feinciau oddi wrth y goeden.

**Bydd yr arolwg cyntaf yma'n rhoi cynllun sylfaen i chi ar gyfer eich coed**




Coed yw. Coed 10, 11, 12, 13 yn cael eu tocio'n flynyddol

Tir ar lethr

Top y llethr

Gwaelod y llethr

TABL AROLWG COED

| Rhif y goeden | Math | Taldra | Lled y canopi | Nodweddion y goeden | Nodweddion y safle | Cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Ceiriosen Wyllt | 7m | 2.2mN 1.5mS 2.3mE 1.7mW | Aeddfed ac Iach | Llwybr oddi tani | Dim |
| 2. | Ceiriosen Wyllt | 1.5m | 0.2mN 0.1mS 0.3mE 0.1mW | Crachgoeden Ifanc | Ardal lawn iawn | Tynnu |
| 3. | Celynnen | | | | | |
| 4. | | | | | | |
| 5. | | | | | | |

*Efallai y bydd yn well gennych chi ysgrifennu testun am bob coeden yn hytrach na chreu tabl. Rhaid dewis system sy'n addas i chi a chadw ati.*

reoli'r safle yn gyffredinol.


• Oes unrhyw nodweddion wrth y goeden sydd angen eu gwarchod? Ffenest sydd angen golau efallai, neu wely o flodau neu lwybr. Ydi pobl yn debygol o gerdded o dan y goeden yn rheolaidd.

Dilynwch yr arolwg cyntaf gydag:

**Arolygiadau blynyddol a gynhelir gan wirfoddolwyr**

Arolygwch bob coeden yn yr haf neu'r hydref. Mae arolygu yn yr hydref a'r haf bob yn ail yn gyfle i asesu

cyflwr y goeden yn well. Nid oes angen gwybodaeth arbenigol i arolygu'r coed, na chymwysterau nac yswiriant, ar yr amod bod unrhyw beth sy'n achosi pryder yn cael ei gyfeirio at weithiwr proffesiynol. Os gwneir yr arolwg gan yr un bobl bob blwyddyn, yna mae hyn yn rhoi cysondeb oherwydd rydych yn dod i adnabod eich coed. ***Tynnwch luniau y gellir eu cynnwys yn eich arolwg.***



*Derwen*

### Rhestr wirio ar gyfer arolygu

Rhaid cofnodi'r canlynol:

• Ydi'r goeden wedi tyfu'n nes at strwythurau sy'n bodoli eisoes fel adeiladau, waliau, cofadeiladau. Os ydi, efallai bydd angen tocio rhywfaint arni.

• Mae coed ifanc wedi sefydlu wrth fôn waliau neu gofadeiladau. Mae'n well tynnu'r rhain.

• Mae'r ceblau uwch ben yn glir o unrhyw dwf. Byddai'n rhaid rhoi sylw i hyn drwy alw lcontractwr coed neu dîm coed y cwmni pŵer.

• Mae siâp y goeden yn flêr bellach neu'n unochrog iawn. Efallai ei bod wedi colli cangen mewn storm. Efallai bydd angen tocio neu ofyn am gyngor pellach.

• Ydi lefel y tir wedi newid neu'r pridd o dan y goeden neu wrth ei hymyl wedi symud yn sgil aflonyddu wrth gloddio neu bentyrru?

• Ydi'r goeden wedi'i chlymu wrth ffon neu linyn? Os felly, oes angen eu llacio neu eu tynnu?

• Oes unrhyw waith wedi digwydd ar y goeden, fel tocio, ers yr arolwg diwethaf?

• Oes gan y boncyff dyllau, ceudodau neu ffyngau gweladwy yn y gwaelod? Efallai y bydd angen arolwg proffesiynol ar y rhain.



*Ffawydden*

Yna dylid archwilio'r goeden gan sylwi ar ei dail a'i changhennau uchaf ac yna i lawr i'w bôn, gan sylwi ar y canlynol:

**Dail;** ydyn nhw'n annaturiol o fach, yn wasgarog neu'n ddi-siâp? Ydyn nhw'n syrthio'n gynnar ac ydi'r goeden gyfan wedi'i heffeithio?

**Ffrwythau, aeron a chnau;** oes llawer mwy o'r rhain o gymharu â choed eraill o'r un rhywogaeth? Os oes gan goeden ddail bychain, os yw'n eu colli'n gynnar yn yr hydref ac yna'n llawn iawn o ffrwythau, gall fod o dan straen oherwydd oedran, amodau neu afiechyd.

**Boncyff;** archwilio am chwyddo, hollti neu wrymiau newydd. Os bydd fforchio mawr yn y prif foncyff, dylid ei archwilio'n ofalus iawn.

**Canghennau;** archwilio am ganghennau marw, difrod ar ôl mellt mewn storm, tyllau neu ddoluriau. Oes canghennau'n crogi uwch ben llwybrau neu feysydd parcio? Gall coed derw ac ynn ddatblygu i edrych fel cyrn hydd gydag oedran, ond aros yn iach. Mae gan goed o'r fath ganghennau marw ar y top sy'n edrych fel cyrn hydd. Oes plygiadau annisgwyl neu ganghennau'n rhwbio? Edrychwch yn ofalus ar fforch fawr neu fannau ble mae llawer o ganghennau'n dod allan o un lle. Rhaid arolygu fforch fawr yn y prif goesyn yn ofalus.

**Rhisgl;** cadwch lygad am ffyngau, cancr, caledennau, sudd yn diferu, a rhisgl rhydd neu wedi'i ddifrodi.

**Gwreiddiau;** cadwch lygad am ffyngau, craciau yn y pridd, coeden yn gwyro.

**Eiddew;** os oes eiddew yn tyfu ar goeden, ydi'r eiddew wedi cynyddu ers yr arolwg diwethaf ac ydi o yng nghorun y goeden? Ydi'r eiddew yn ei gwneud yn amhosib cynnal asesiad coeden priodol?

***Nid yw'r arwyddion a'r symptomau hyn yn golygu bod y goeden yn beryglus neu wedi cael afiechyd, er hynny, gall ddynodi bod angen archwiliad pellach gan weithiwr proffesiynol. Tynnwch luniau o goed a nodweddion sy'n peri pryder i chi.***

### AROLYGU COED; pryd mae angen gweithiwr proffesiynol

Yn ogystal ag arolygon blynyddol gan wirfoddolwyr, mae'n ddoeth cael arolygon rheolaidd gan dyfwr coed cymwys neu gontractwr coed sydd â phrofiad ac yswiriant indemneb. Gofynnwch am dystiolaeth o gymwysterau ac yswiriant bob amser; bydd person proffesiynol yn disgwyl hyn. Gofynnwch am gyngor gan y Gymdeithas Goedyddiaeth neu awdurdod lleol wrth ddewis tyfwr coed neu gontractwr coed.

***Yn gyffredinol, gellir cynnal yr arolygon proffesiynol hyn bob yn ail flwyddyn neu bob 5 mlynedd hyd yn oed, ond gwiriwch delerau eich yswiriant.***

Trafodwch yr arolwg gwirfoddol gyda'r tyfwr coed a gofynnwch a oes unrhyw nodweddion arbennig y dylech gadw llygad amdanynt. Wedyn, gellir defnyddio'r wybodaeth o'ch arolygon blynyddol i roi gwybod i'r tyfwr coed am unrhyw newidiadau sy'n digwydd rhwng ymweliadau, gan anfon lluniau neu gopïau digidol o'ch taflenni arolygu. Os yw eich safle'n fawr, efallai y bydd y rheolwr safle neu'r tyfwr coed yn ei rannu'n 'barthau'. Bydd y rhain yn adlewyrchu'r defnydd gan y cyhoedd, agosrwydd at adeiladau a thargedau eraill posib. Gofynnwch i'ch tyfwr coed a yw parthau'n briodol ac, os ydynt, a ddylid cynnal yr arolwg gwirfoddol yn amlach mewn ardaloedd targed arwyddocaol, ac yn llai aml mewn parthau eraill. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw at y gwaith sydd wedi'i ddatgan yn yr arolwg proffesiynol ar amser a bod cofnod yn cael ei gadw o'r holl arolygon a hefyd o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y goeden.

# 4. Arolygu a Gofalu am Goed


## GWAITH RHEOLI COED

### Coed a'r gyfraith

Cyn gwneud unrhyw waith, mae'n hanfodol canfod a oes Gorchymyn Gwarchod Coed yn ei le neu a ydi'r goeden mewn Ardal Gadwraeth. Os bydd un o'r ddau yn berthnasol, rhaid gofyn am ganiatâd eich awdurdod lleol cyn dechrau ar y gwaith. Mewn gwirionedd, gall canghennau a choed sy'n gallu bod yn beryglus gael eu torri heb ganiatâd ond chi sydd â chyfrifoldeb i brofi bod perygl cyn eu torri. Tynnwch luniau digidol a'u cadw a chadw'r darn sydd wedi'i dorri ar gyfer unrhyw archwiliad dilynol. Gellir tynnu canghennau a allai fod yn beryglus heb ganiatâd ond gall y cosbau am fynd yn groes i ddeddfwriaethau, boed yn esgeulus ai peidio, fod yn ddifrifol. Mae'n ddoeth gwirio gan roi pum niwrnod o rybudd o leiaf am waith arfaethedig. Gall lluniau digidol fod o help os yw'n waith brys.



Bydd swyddogion cynllunio'r awdurdod lleol yn eich cynghori chi a gallant fod o help gyda gwaith ar goed yn gyffredinol; dewis contractwr coed, rheoli diogelwch y cyhoedd a phlannu coed newydd yn lle hen rai.



Bydd y cyfrifoldeb cyfreithiol am goed yn amrywio o ardal i ardal ac mewn gwahanol fathau o safleoedd claddu. Er enghraifft, ar safle Eglwys Loegr, y Cyngor Plwyf Eglwysig sy'n gyfrifol fel rheol am goed a bydd ganddo ganllawiau ynghylch pryd i roi gwybod i Bwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth cyn dechrau ar waith.

### Gwaith sy'n addas i wirfoddolwyr ar goed

Fel gydag arolygon coed, mae rhai tasgau cynnal a chadw y gall gwirfoddolwyr eu gwneud a rhai y bydd angen gweithiwr proffesiynol ar eu cyfer.

### Cynnal a chadw rheolaidd ar goed sy'n addas i wirfoddolwyr

- Tocio canghennau bychain a choed bychain.
- Torri canghennau isel yn ôl os ydynt yn y ffordd neu wedi marw, neu ganghennau sydd wedi torri ac y gellir eu cyrraedd o'r ddaear.
- Rheoli eiddew, os yw'n rhwystro'r arolygu (edrychwch ar daflen A9, Planhigion ac Anifeiliaid Sy'n Niwsans!).
- Os oes gennych chi ywen feteran, peidiwch â'i thocio na'i thorri ond cofiwch dynnu'r eiddew.
- Tynnwch egin goed sydd wedi gwreiddio mewn llefydd anghywir.
- Archwiliwch ffyn a llinyn sydd wedi'u clymu wrth goed ifanc a'u llacio neu eu tynnu os oes angen.
- Gwnewch bentwr o bren marw a gadael iddo bydru'n araf (edrychwch ar daflen A8 Helpu Bywyd Gwyllt).

### Gwaith ar goed NAD yw'n addas ar gyfer gwirfoddolwyr

- Defnyddio llif gadwyn mewn gofod cyhoeddus fel safle claddu.
- Defnyddio unrhyw lif pan nad yw eich traed ar y ddaear (wrth ddringo coeden neu ystol).
- Tynnu canghennau mawr a allai achosi anaf i bobl neu ddifrodi adeiladau wrth iddynt ddisgyn.
- Torri coed cyfan ar wahân i egin goed neu goed ifanc bach.

### Cysylltiadau defnyddiol

Cyngor Coed, www.treecouncil.org.uk


Cymdeithas Coedyddiaeth, www.trees.org.uk

Gofalu am Erw Duw, www.caringforgodsacre.org.uk

Grŵp Yw Hynafol, www.ancient-yew.org

Swyddogion Coed yr Awdurdod Lleol

Y Gymdeithas Coedyddiaeth Ryngwladol, www.treesaregood.org



*Bedwen Arian*

### Darllen defnyddiol

Collins Tree Guide – David More ac Owen Johnson

Y Comisiwn Coedwigaeth – taflenni, gan gynnwys Peryglon Coed

Trees in Britain, Europe and North America – Roger Phillips.

Tree Name Trail – Y Cyngor Astudiaethau Maes

Veteran Trees: A Guide to Good Management – Natural England

# 5. Coed Yw a Choed Feteran Eraill

***Mae'r daflen hon yn egluro pwysigrwydd coed yw, ein partneriaeth ni i'w hybu a'r canllawiau ar sut mae rheoli yw hynafol a choed feteran eraill.***

## RHYWOGAETH BWYSIG

*'A small country full of ancient yew trees, such as Britain, is becoming a true Noah's Ark. Such tree stands are becoming (if they have not always been) far more significant than local or regional places of interest, and should be – as the equivalent of architectural World Heritage Sites – legally protected as Green Monuments.'*

Fred Hageneder – Yew: A History

Yn fyd-eang, mae coed yw feteran a hynafol o dan fygythiad. Ar lwyfan y byd, y lloches mwyaf arwyddocaol i'r coed hyn yw mynwentydd Cymru a Lloegr, ble mae tua thri chwarter yw hynaf Prydain i'w canfod (tua 800 ohonyn nhw). Mae'r yw hynafol yma'n un o nodweddion mwyaf arbennig tirlun Prydain.

***Mae'r ywen yn rhywogaeth bwysig iawn i Gofalu am Erw Duw. Rydym yn gweithio gyda'r Mudiad Cadwraeth a'r Grŵp Yw Hynafol i annog gwerthfawrogi'r coed rhyfeddol hyn ac i hybu rheolaeth dda.***

## ADNABOD EICH COEDEN YWEN

Mae llawer iawn o drafod ynghylch pam fod cymaint ohonynt i'w gweld mewn mynwentydd. Gwenwynig i anifeiliaid? Addurn i'w groesawu yng nghanol y gaeaf ac ar Sul y Palmwydd? I'r Celtiaid, roedd yw yn goed sanctaidd ac yn symbol o fyw am byth. Credir fod llawer o safleoedd ble'r oedd y coed hyn yn bodoli cyn yr eglwys Gristnogol.

- Yr ywen gyffredin, *Taxus baccata*, yw'r un a welir amlaf, gyda mwy o'r ywen Wyddelig, Taxus baccata 'fastigiata', yn cael ei phlannu'n ddiweddar.
- Mae coed yw'n tueddu i dyfu ar siâp coeden 'arferol' nes eu bod yn tua 600 mlwydd oed. Bryd hynny maent yn troi'n geubren yn aml ac yn twchu o amgylch y bôn a'r boncyff mewn ffordd anwastad, gnotiog.
- Bydd y canghennau sy'n plygu neu'n torri'n rhannol ac yna'n gwyro at y ddaear yn gwreiddio ac yn gweithredu i sefydlogi'r goeden. Hefyd gall canghennau anfon 'gwreiddiau o'r awyr' i'r ddaear, gan wreiddio neu uno â'r prif foncyff. Mae'r adfywio yma, ac yna twf newydd, ifanc, yn galluogi i'r goeden ywen fyw am byth fwy neu lai. Mae hefyd yn golygu ei bod yn anodd mesur ei hoedran yn fanwl gywir.
- Mae arbenigwyr yn amcangyfrif oedran yr yw mewn ffyrdd amrywiol, gan gynnwys archwilio hen fapiau, edrych ar gofnodion coed, mesur cylchfesur y goeden ac edrych ar ffurf y twf. Credir fod llawer o goed yw ymhell dros 2000 o flynyddoedd oed ac nid oes neb yn ymwybodol o gyfyngiad oedran iddynt.
- Mae pren yr ywen yn hynod gryf ac mae'r coed yma'n gallu gwrthsefyll afiechydon, gan ychwanegu at eu hirhoedledd.
- Mae darnau helaeth o'r goeden ywen yn wenwynig. Er hynny, nid yw cnawd coch neu 'aril' yr aeron yn wenwynig ac, os nad yw'r hadau'n cael eu gwasgu, gall rhai anifeiliaid fwyta a threulio'r aeron heb gael unrhyw niwed.



*Yw*

- Mae gan risgl a dail yr ywen ddefnyddiau meddyginiaethol ar hyn o bryd ac mae alcaloid a dynnir o'r ywen, sef Tacsol, yn cael ei ddefnyddio i drin canser.
- Gwelir blodau gwrywaidd a benywaidd ar goed ar wahân (deuoecaidd) i sicrhau'r cyfleoedd ffrwythloni gorau posib.


## HELPU COED YW

Peidiwch byth â chymryd yn ganiataol bod ywen yn marw neu wedi marw. Mae llawer ohonynt yn gallu cario llawer o bren marw, edrych yn 'flêr' neu fod â nodwyddau sydd wedi colli'u lliw, ond byddant yn adfer ac yn adfywio yn y diwedd.

- Os yw coeden ywen wedi cael ei thrimio'n rheolaidd yna gallwch ddal ati i wneud hynny ond PEIDIWCH â dechrau brigdorri, trimio na barbio yw os nad yw wedi bod yn arfer gennych. Gadael llonydd i goed yw ydi'r dull gorau o'u rheoli oni bai fod arbenigwr coed yn dweud fel arall.
- Os yw'r canghennau'n dymchwel, cofiwch eu bod yn gallu gwreiddio ac adfywio. Os ydynt yn achosi problem ac os na ellir gadael iddynt ddymchwel, yna defnyddiwch rywbeth i'w dal i fyny. Peidiwch â'u brigdorri. Bydd contractwr neu dyfwr coed da'n gallu helpu a chynghori.
- Gall eiddew dagu'r corun, gan ychwanegu pwysau a chau golau allan. Gall hefyd guddio diffygion coed ac

## 5. Coed Yw a Choed Feteran Eraill

mae adnabod y rhain yn bwysig wrth asesu coed. Er bod gan eiddew fanteision i fywyd gwyllt (edrychwch ar daflen A8, Creu Dôl o Flodau Gwyllt a Helpu Bywyd Gwyllt), dylid ei dynnu oddi ar goed yw! Gwnewch y gwaith hwn yn ofalus gyda chelfi llaw rhag difrodi'r goeden, gan ddefnyddio contractwr coed os oes angen dringo. D.S. efallai fod ystlumod ac adar yn nythu mewn yw, yn enwedig y rhai gyda gorchudd trwchus o eiddew, edrychwch ar daflen B5, Ystlumod yn y Clochdy, cyn gwneud unrhyw beth a all darfu arnynt.


*Ywen*

- Cadwch y ddaear o dan goeden ywen yn glir, gan dynnu unrhyw reiliau, pentyrrau o laswellt wedi'i dorri, a llwyni fel celyn, ysgaw neu gyll. Un o'r pethau gorau y gallwch chi ei wneud yw rhoi tomwellt o dan goed yw. Defnyddiwch domwellt naddion coed neu ddail a'i daenu i led y canopi. Gwnewch yn siŵr nad yw'r tomwellt yn cyffwrdd y boncyff fodd bynnag. Gall y tomwellt fod ychydig fodfeddi o drwch a dylid ei newid bob blwyddyn neu ddwy. Peidiwch byth â llenwi ceubren ywen hynafol gyda sbwriel a glaswellt wedi'i dorri, na'i ddefnyddio fel man storio.
- Dywedwch wrth bobl pa mor rhyfeddol yw'r ywen fel coeden! DS Os oes gennych chi ywen enwog gyda llawer o ymwelwyr, ceisiwch eu hatal rhag cywasgu'r pridd o dan y canopi.

### COED FETERAN ERAILL

Mae rhywogaethau eraill o goed feteran i'w canfod mewn safleoedd claddu yn aml. Er na fydd y rhain cyn hyned â'r yw hynaf, efallai eu bod yn gannoedd ar flynyddoedd oed ac yn esiamplau rhyfeddol o goed eu hunain. Maent yn debygol o fod ag ystod eang o blanhigion eraill, a chennau, adar ac anifeiliaid eraill yn byw ynddynt neu arnynt.

Gall coed feteran gynnwys:

Pren marw yng nghorun y goeden a thyllau, rhisgl yn plicio a chilfachau sy'n cynnwys ffyngau, chwilod, ystlumod ac adar amrywiol.

Epiffytau'n tyfu arnynt – dyma blanhigion fel rhedyn, mwsoglau a chennau sy'n tyfu ar y goeden heb unrhyw gyswllt â'r ddaear.

Y boncyff yn troi'n geubren i wneud silindr. Fel yw, mae llawer o rywogaethau eraill o goed yn troi'n geubren wrth dyfu'n hynafol. Dyma broses naturiol ac nid yw'n gwanio'r goeden. Yn wir, gall ei chryfhau; mae silindr yn siâp cryf.

***Does dim un o'r nodweddion hyn yn broblem; maent yn rhan o'r broses heneiddio naturiol ac maent yn ychwanegu cymeriad a diddordeb at y goeden.***


Os oes gennych chi goed feteran yn eich safle claddu yna gweithiwch yn agos gyda'ch contractwr coed neu'r tyfwr coed.

### Pren marw

Mae pren marw mewn coeden yn gynefin i fywyd gwyllt rhagorol. Mae infertebrata'n byw mewn pren marw neu arno, a hefyd ffyngau a chreaduriaid mwy gweladwy fel cnocell y coed. Efallai fod ardaloedd ar eich safle ble mae pren marw mewn coeden yn eithaf derbyniol ac mewn ardaloedd eraill gall fod yn beryglus fel uwch ben llwybr.

Ystyriwch bren marw yn ofalus, gan ofyn am gyngor gan contractwr coed neu dyfwr coed. Ni ddylid cael gwared arno oni bai fod angen o safbwynt diogelwch.

Os cewch broblemau gyda choeden - efallai fod arwyddion o straen neu afiechyd - nid yw'n golygu bod rhaid torri'r goeden. Gall tyfwr neu gontractwr coed da eich cynghori chi a dylid edrych ar bob opsiwn arall cyn penderfynu torri coeden. Efallai bydd posib tynnu'r darnau marw, neu leihau maint y corun, (edrychwch ar daflen A6 Rheolaeth Ymarferol ar Goed a Llwyni).


*Ywen Goesynnog*

**Cysylltiadau defnyddiol**

Fforwm Coed Hynafol, www.ancient-tree-forum.org.uk
Grŵp Yw Hynafol, www.ancient-yew.org
Cymdeithas Coedyddiaeth, www.trees.org.uk
Gofalu am Erw Duw, www.caringforgodsacre.org.uk
Mudiad Cadwraeth, www.conservationfoundation.co.uk
Swyddogion Coed yr Awdurdod Lleol
Y Cyngor Coed, www.treecouncil.org.uk
Ymddiriedolaeth y Coetiroedd, www.woodlandtrust.org.uk


*Gwernen*

**Darllen Defnyddiol**

Veteran Trees – A Guide to Good Management
Yew: A History – Fred Hagender

# 6. Rheolaeth Ymarferol ar Goed a Llwyni

***Mae'r daflen hon yn egluro egwyddorion gwaith syml ar goed; mae'n cyflwyno canllawiau ar ddewis pa goed i'w cadw ac ar frigdorri, barbio a thocio, a gwaith cynnal a chadw cyffredinol, gan gynnwys rheoli eiddew.***

Yn ogystal â choed nodweddiadol mawr fel yw, mae safle claddu'n debygol o gynnwys coed eraill llai, rhai'n hunan-hadu, rhai mewn gwrychoedd neu derfynau eraill, a rhai wedi'u plannu fel cofebau efallai. Hefyd, gall safle claddu gynnwys llwyni coediog, fel cyll brodorol neu gwyrwiail, neu amrywiaethau eraill mwy addurnol. Mae'n bur debyg y bydd angen rheoli'r rhain.

## GORMOD O GOED

Efallai fod gormod o goed neu lwyni mewn rhannau o safle claddu, yn enwedig os yw'r safle wedi bod drwy gyfnod o fawr ddim rheoli, os o gwbl. Gall coed hunan-hadu sefydlu mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu torri'n rheolaidd, yn erbyn waliau neu gofadeiladau, neu fel crachgoed i goed aeddfed sy'n bodoli eisoes. Efallai fod coed wedi cael eu plannu heb feddwl digon am sut mae coed mawr yn tyfu neu a ydynt yn addas i'r lleoliad.

### Creu cynllun

Ewch yn ôl at gynllun eich safle a'r cynllun rheoli dilynol (edrychwch ar daflen A1 Y Pump Cam).

***Beth yw eich blaenoriaethau?***

- Ydi'r coed yn mynd i gysgodi ardal o laswelltir diddorol sy'n llawn blodau neu ffyngau cap cwyr?
- Ydi hon yn ardal ble mae coed wedi cael eu colli drwy henaint a lle byddai coeden newydd yn briodol? Os felly, pa rywogaeth?

Peidiwch â gwarchod sycamorwydden ifanc os ydi coeden ywen yn fwy priodol.


***Byddwch yn feiddgar ac yn benderfynol***

Ni fydd problemau cysylltiedig â gormod o goed, neu goed yn y lle anghywir, yn eu datrys eu hunain ac maent yn anoddach eu datrys wrth i goed fynd yn dalach. Gorau po gyntaf i chi weithredu. Cofiwch ddweud wrth berchennog y tir cyn dechrau ar unrhyw waith, neu'r esgobaeth gyda mynwent eglwys. Gwiriwch a oes Gorchymyn Gwarchod Coed neu statws Ardal Gadwraeth yn berthnasol. Aseswch y gwaith sydd angen ei wneud, i weld a oes posib i wirfoddolwyr ei wneud, neu a oes angen contractwr coed (edrychwch ar daflen A4 Arolygu a Gofalu am Goed).

### Torri coed

Os oes angen cael gwared ar goed, rhaid asesu a oes posib i wirfoddolwyr wneud hyn; maint y coed a'u lleoliad fydd yr elfennau allweddol i'w hystyried (edrychwch ar daflen A4 Arolygu a Gofalu am Goed). Wrth dorri coeden, gwnewch yn siŵr nad yw'n mynd i adfywio o'i bôn. Bydd contractwr coed naill ai'n naddu'r bôn i atal hyn neu'n gymwys i'w drin gyda gwenwyn. Wrth gael gwared ar goed bychain, gellir naill ai eu dadwreiddio neu eu stopio rhag aildyfu drwy wneud toriadau cris croes drwy'r bôn, fel bod dŵr yn mynd i mewn iddo a'r pydru'n dechrau. Os yw'r bôn yn ailegino, rhaid ailadrodd hyn. Mae malurio'r bôn gyda bwyell bigfain yn gweithio fel rheol.


Peidiwch â defnyddio chwynladdwyr mewn safle claddu. Ni ddylid defnyddio cemegau y byddech yn eu defnyddio yn eich gardd efallai mewn lle cyhoeddus, rhag ofn iddynt achosi niwed i'r cyhoedd, yn enwedig plant, neu anifeiliaid anwes.



## BRIGDORRI, BARBIO a THOCIO

### Brigdorri

Gellir brigdorri coed a llwyni conwydd a llydanddail. Gall brigdorri greu siâp da, ac mae'n cynnwys technegau fel lleihau'r corun, teneuo a chodi. Mae'n lleihau'r maint ryw ychydig, ond mae ceisio stopio coeden sydd â photensial i dyfu'n fawr rhag gwneud hynny drwy docio'n aflwyddiannus fel rheol.



***Pryd ddylid brigdorri coed neu lwyni***

Gellir brigdorri coed bythwyrdd ar ddiwedd yr haf.

Gellir brigdorri coed collddail pan maent wedi colli eu dail; yn yr hydref neu'r gaeaf.

***Sut mae brigdorri coed neu lwyni***

Rhaid ystyried yn ofalus beth sydd angen ei wneud i gynhyrchu coeden neu lwyn cytbwys ac atyniadol. Dylid gweithio gyda siâp naturiol y goeden i fyrhau neu gael gwared ar y canghennau. Bydd mynd yn groes i arferion naturiol y goeden yn arwain at goeden ddiolwg heb fod yn osgeiddig o gwbl. Rhaid dechrau bob amser drwy gael gwared ar egin marw neu egin sydd



*Ysgawen*

wedi'u difrodi neu ddal afiechyd, ac yna'r tyfiant gwan neu'r brigau sy'n rhwbio'n erbyn ei gilydd. Gwnewch yn siŵr bod yr arfau addas gennych chi a'u bod yn finiog.

***Peidiwch â thynnu mwy na 30% o gorun y goeden ar un tro.***

- Wrth dorri coesyn bychan, rhaid brigdorri uwch ben blagur iach neu egin ochr. Torrwch ryw 1cm (½ modfedd) uwch ben y blagur. Ceisiwch beidio â thorri'n nes oherwydd gall hyn ddifrodi neu ladd y blagur.
- Hefyd, mae'n well torri'n rhy bell oddi wrth y boncyff nac yn rhy agos, i osgoi difrod i'r 'goler' pan fydd y goeden yn adfer yn naturiol.
- Peidiwch â phaentio'r dolur gydag unrhyw beth. Bydd y goeden neu'r llwyn yn gwella ei hun cyn belled nad ydych chi wedi torri'r 'goler'.

### Barbio

Dim ond coed a llwyni llydanddail ellir eu barbio ac mae hynny'n dechrau pan mae'r goeden yn ifanc. Peidiwch â barbio conwydd. Mae barbio'n ddull o frigdorri ar raddfa helaeth sy'n cadw coed a llwyni'n llai nag y byddent yn naturiol. Mae'n lleihau'r maint yn sylweddol ac yn ffordd i gael gwared ar ganghennau oddi wrth ffenestri neu o fod yn hongian uwch ben llwybrau.

Yn draddodiadol, byddai coed yn cael eu barbio i'w cadw o gyrraedd da byw, felly rhwng tua 1.5 a 2.5m (4 i 10 troedfedd). Gall barbio rheolaidd roi oes hirach i goeden yn sicr, ond gall barbio ar ôl blynyddoedd o esgeulustod achosi straen mawr ar goeden, yn enwedig coeden feteran.

### Tocio

Cewch docio coed a llwyni llydanddail gan ddechrau pan mae'r goeden yn ifanc ; ni ddylid tocio conwydd. Dylid gweithio yn y gaeaf neu ddechrau'r gwanwyn, gan ailadrodd bob ryw ychydig o flynyddoedd, yn dibynnu ar gyflymdra'r tyfiant (yn draddodiadol, roedd coed cyll yn cael eu tocio bob 7 i 10 mlynedd).

Mae tocio'n cynnwys torri coeden neu lwyn i fod yn agos at lefel y ddaear. Mae hyn yn achosi egino o'r bôn gyda llawer o goesynnau'n tyfu'n ôl am bob un a dorrwyd.

Yn draddodiadol, roedd coesynnau cyll, helyg, castanwydd pêr a derw'n cael eu tocio i wneud clwydi, i wehyddu basgedi a llawer mwy.

Mae tocio'n cael ei wneud yn gyffredinol yn awr, i adfywio llwyn neu goeden fechan, i leihau ei maint ac i annog tyfiant trwchus ar lefel y ddaear. Gall tocio llwyni brodorol greu ffyn defnyddiol ar gyfer garddio (ffyn pys a pholion ffa) a chrefftau tocio.

I docio llwyn (llwyn brodorol fel collen neu lwyn




addurnol fel cwyrwiail nodweddiadol) - torrwch y coesynnau sy'n agos at y ddaear i gyd gyda thoriad lletraws sy'n caniatáu i ddŵr lifo i ffwrdd. Oeddech chi'n gwybod bod tocio'n gallu sicrhau bod coeden neu lwyn yn byw ddeg gwaith yn hirach? Credir fod rhai bonion wedi'u tocio yng Nghoedardd Westonbirt yn 600 oed!

### Beth i'w wneud am eiddew?



Dyma bwnc llosg; mae eiddew yn ddringwr brodorol ac i'w ganfod ym mhob man. Yn gyffredinol, nid yw

*Tocio llwyni'r coetir*



eiddew yn difrodi coed a bydd coeden iach sydd â chorun da o ddail yn cysgodi'r eiddew ac yn ei atal rhag tyfu i fod yn rhy fawr. Nid yw eiddew sy'n tyfu ar goed ifanc neu aeddfed yn debygol o fod yn broblem, a gellir gadael iddo. Mae eiddew ar goed feteran, yn enwedig yw feteran, yn fwy o broblem (edrychwch ar daflen A5 Coed Yw a Choed Feteran Eraill).

***Rhaid tynnu eiddew oddi ar goed yw feteran bob amser.***

Weithiau mae pwysau eiddew yng nghorun coeden yn cael ei ystyried yn broblem gan contractwr neu dyfwr coed, gan ei fod yn gwneud y goeden yn llai sefydlog ac yn cynyddu'r risg o gwympo. Gallwch dynnu'r eiddew drwy dorri darn tua 30cm o hyd o goesyn yr eiddew yng ngwaelod boncyff y goeden. Dylai hyn achosi marwolaeth araf yr eiddew uwch ben y toriad, ac ni fydd angen ei dynnu'n rhydd i gyd. Os ydych chi'n mynd ati i dynnu eiddew oddi ar goeden (ywen feteran er enghraifft), yna dylech fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o adar yn nythu ac ystlumod yn clwydo yn yr eiddew. Dylid gwneud y gwaith pan nad yw adar yn nythu a gofyn am gyngor ynghylch ystlumod (edrychwch ar daflenni B4 a B5, adrannau ar 'cadw at y gyfraith').



*Criafolen*

### Plâu ac afiechydon

Ar ôl blynyddoedd lawer heb afiechydon coed epidemig, mae'r DU yn wynebu sawl afiechyd nawr, sy'n ymosod ar amrywiaeth o goed, gan gynnwys derw, ynn, gwerni, llarwydd, castanwydd pêr, castanwydd, hopys Lawson a meryw. Er hynny, mae coed yn gallu gwrthsefyll llawer o afiechydon ac os bydd problemau, dylid delio â hwy'n unigol. Edrychwch ar yr adran cysylltiadau i weld ble mae cael help a newyddion am blâu neu afiechydon diweddar. Gall coeden gref mewn amodau tyfu da wrthsefyll straen ac afiechydon sylweddol. Gall arolygu rheolaidd gan wirfoddolwyr fod yn allweddol er mwyn dod o hyd i broblemau'n gynnar (edrychwch ar daflen A4 Arolygu a Gofalu am Goed).



*Coch y berllan*

### Cysylltiadau defnyddiol

Grŵp Yw Hynafol, www.ancient-yew.org

Cymdeithas Coedyddiaeth, www.trees.org.uk

Gofalu am Erw Duw, www.caringforgodsacre.org.uk

Eglwys Loegr, ChurchCare, www.churchcare.co.uk

Yr Eglwys yng Nghymru, www.churchinwales.org.uk/resources/property

Yr Eglwys yng Nghymru, www.churchinwales.org.uk/heritage

Y Comisiwn Coedwigaeth, www.forestry.gov.uk

Swyddogion Coed yr Awdurdod Lleol

Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol, www.rhs.org.uk

### Darllen defnyddiol

Woodlands – The Conservation Volunteers Handbook

# 7. Gofalu am Wrychoedd

***Mae'r daflen hon yn egluro pwysigrwydd gwrychoedd i fywyd gwyllt, gyda chanllawiau ar sut i'w rheoli a sut mae plannu gwrychoedd newydd.***

## Gwrychoedd gwyrddion!

Mae gan lawer o hen fynwentydd a safleoedd claddu derfynau gwrych hynafol, hanesyddol sy'n cynnwys amrywiaeth o rywogaethau o lwyni. Maent yn gynefin pwysig i amrywiaeth mawr o blanhigion ac anifeiliaid ac yn nodwedd hoff o'n cefn gwlad ni.

Gall gwrychoedd gynnwys elfennau nodedig yn lleol. Yn Swydd Gaerwrangon, er enghraifft, fe welwch chi lond gwlad o gennin Pedr gwyllt yn y gwrychoedd. Mae gan wrychoedd a reolir yn dda fwy o fywyd gwyllt nag unrhyw gynefin arall ym Mhrydain bron.



*Gwifwrnwydden*

Dyma'r nodweddion:

- Blodau ar y coed yn y gwrych ei hun yn darparu neithdar ac aeron.
- Drain i gadw ysglyfaethwyr draw i unrhyw rywogaethau sy'n nythu.
- Strwythur trwchus gyda digon o ddail yn darparu cysgod a safleoedd clwydo i adar.
- Glaswellt a blodau gwyllt ym môn y gwrych yn rhoi cysgod i lawer o anifeiliaid, gan gynnwys nadroedd defaid, llygod o bob math, yn enwedig os oes glaswellt twmpathog tal.
- Mae gwrychoedd yn goridorau a llwybrau hedfan hanfodol i helpu gyda symud o un lle i'r llall i adar, ystlumod, mamaliaid bychain a phryfed.
- Mae'r gwrych yn darparu diogelwch, cynhesrwydd a chysgod i anifeiliaid sy'n nythu ac yn gaeafu. Mae bôn y gwrych yn llecyn llaith a chynnes i amffibiaid fel madfallod a llyffantod.

### *Cadw at y gyfraith*

Mae'n anghyfreithlon symud, dinistrio neu ddifrodi nyth unrhyw aderyn magu wrth iddi gael ei chreu neu ei defnyddio mewn gwrych.

Mae'n anghyfreithlon symud gwrych heb ganiatâd cynllunio.

Os oes gennych chi unrhyw amheuaeth, cysylltwch â'ch awdurdod lleol.

Gwiriwch ai chi sydd i fod i gynnal a chadw gwrych. Rhowch wybod i unrhyw gymdogion wrth blannu neu reoli gwrych.

## Arolygu gwrychoedd

Mae gwrychoedd hynafol (cyn 1700) yn wahanol iawn i wrychoedd mwy diweddar. Cadwch lygad am y nodweddion canlynol i weld a ydi gwrych yn un hynafol:

- Siâp afreolaidd, ar fymryn o glawdd yn aml.
- Heb goed neu fonion wedi'u tocio yn y gwrych.
- Nifer fawr o wahanol rywogaethau o blanhigion yn tyfu yn y gwrych.
- Amrywiaeth o blanhigion a blodau ym môn y gwrych, fel clychau'r gog a blodau taranau.


Efallai fod gan hen wrychoedd, a arferai ffurfio terfynau'r coetiroedd ar un adeg, blanhigion coetir fel eurddanadl, blodau'r gwynt a chlychau'r gog yn tyfu yn eu bôn. Gall y gwrych fod yn hŷn na'r mapiau Arolwg Ordnans, felly edrychwch yng ngwefan Old Maps (gweler darllen defnyddiol).

## Dyma rai o rywogaethau cyffredin ein gwrychoedd

| | | |
|---|---|---|
| Ysgaw'r gors | Cwyrwiail | Masarn bach |
| Celyn | Cyll | Llwyfenni llydanddail |
| Eiddew | Drain gwynion | Ynn |
| Yw | Drain duon<br>Derw | Rhosyn y cŵn/<br>Rhosyn gwyn gwyllt |



*Cwyrwiail*



*Draenen Wen*

## Creu gwrych

Oes cyfle i blannu gwrych newydd, o amgylch estyniad i safle claddu newydd er enghraifft? Edrychwch ar y gwrychoedd naturiol eraill sy'n agos at eich eglwys i weld pa rywogaethau sy'n tyfu'n dda. Bydd impiau gwrych, sef planhigion ifanc sy'n 35 i 90cm o faint, yn tyfu'n dda os cânt eu plannu'n briodol, a'u gwarchod rhag cwningod a'u bwydo gyda thomwellt am y blynyddoedd cyntaf. Mae gan y rhywogaethau brodorol, fel y rhai ar y rhestr uchod, fantais

# 7. Gofalu am Wrychoedd

ychwanegol o ddenu mwy o bryfed, gan ddarparu ffynhonnell ddigonol o fwyd i greaduriaid yn uwch i fyny yn y gadwyn fwyd. Cadwch lygad am ffynonellau lleol o goed a llwyni. Gofynnwch am gyngor gan sefydliad cadwraeth lleol am rywogaethau addas i wrychoedd a phellter plannu.

## Cynnal a chadw gwrych newydd

- I greu gwrych gyda rhan isaf goediog iawn, rhaid brigdorri'n llym yn ystod y blynyddoedd cyntaf gan dynnu o leiaf hanner tyfiant y tymor newydd.
- I greu rhan isaf lai trwchus, sy'n well i flodau gwyllt, nid oes angen brigdorri llawer, os o gwbl, i ddechrau.


## Gofalu am wrychoedd er lles bywyd gwyllt

Nid oes angen llawer o waith cynnal a chadw ar wrychoedd aeddfed, heblaw am drimio achlysurol. Dilynwch y cyngor yma i greu gwrych gwych i fywyd gwyllt:

- Nid yw siâp y gwrych yn bwysig iawn i fywyd gwyllt, felly trimiwch i unrhyw un o'r siapiau canlynol.
- Trimiwch y gwrych bob dwy neu dair blynedd, ym misoedd Ionawr neu Chwefror os yn bosib. Mae hyn yn rhoi digon o amser i adar ac anifeiliaid eraill fwydo ar y ffrwythau. Dim ond ar 'hen bren' fydd rhai planhigion gwrych yn blodeuo h.y. tyfiant yr haf blaenorol. Mae'r rhain angen dwy flynedd o leiaf rhwng pob toriad i flodeuo.
- Wrth gynllunio i drimio gwrych, cewch ddewis gwneud hanner yr hyd un flwyddyn a'r hanner arall y flwyddyn wedyn, neu un ochr un flwyddyn a'r ochr arall y flwyddyn wedyn.
- Gadewch i egin newydd coed achlysurol dyfu; byddant yn dod yn safonol yn y dyfodol. Marciwch nhw gyda thâp fel eich bod yn gwybod eu bod i gael eu gadael yno.
- Os ydych chi eisiau cadw blaen yr eglwys yn edrych yn daclusach na'r cefn, trimiwch y gwrych yma'n rheolaidd. Byddwch yn wyliadwrus a chwiliwch am adar yn nythu. Peidiwch â tharfu ar unrhyw nythod nes bod y cywion wedi hedfan ohonynt. Misoedd Mawrth ac Awst yw'r rhai prysuraf ar gyfer nythu.
- Mae plygu gwrych yn ffordd arall o reoli gwrych. Cysylltwch â'r Gymdeithas Plygu Gwrych am wybodaeth

## Adfywio hen wrych

- Os oes bylchau yn eich gwrych neu os ydi'r llwyni wedi tyfu'n goed, gallwch ei adfywio yn hytrach na chreu un newydd.
- Rhaid tocio neu frigdorri'r boncyffion a'r coesynnau'n llym i 20cm (8 modfedd) oddi wrth y ddaear.
- Ychwanegwch impiau newydd i lenwi unrhyw fylchau ac i gyflwyno rhywogaethau ychwanegol o goed a llwyni, gan sicrhau mwy o amrywiaeth.
- Gellir adfywio rhai gwrychoedd drwy eu plygu. Mae hon yn dasg ragorol i wirfoddolwyr a byddant yn gallu dysgu (ochr yn ochr â hyfforddwr) sut mae plygu gwrych yn null yr ardal.
- Y dewis arall ydi i berson cymwys blygu'r gwrych i chi. Cysylltwch â'ch Cymdeithas Plygu Gwrych leol neu'r Gwirfoddolwyr Cadwraeth.



*Ysgaw'r Gors*



*Collen*

### Cysylltiadau defnyddiol

Gofalu am Erw Duw, www.caringforgodsacre.org.uk

Gwirfoddolwyr Cadwraeth, www.tcv.org.uk

Swyddogion Coed yr Awdurdod Lleol

Y Gymdeithas Plygu Gwrych Genedlaethol, www.hedgelaying.org.uk

Ymddiriedolaeth y Coetiroedd, www.woodlandtrust.org.uk

### Darllen defnyddiol

A Guide to Hedgerows – siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes

Hedgelink - www.hedgelink.org.uk

Hedging – Llawlyfr y Gwirfoddolwyr Cadwraeth

Gwefan Old Maps - www.old-maps.co.uk

# 8. Creu Dôl o Flodau Gwyllt a Helpu Bywyd Gwyllt

***Mae'r daflen hon yn cynnig awgrymiadau ar gyfer dechrau arni gyda dôl o flodau gwyllt a gwella eich safle claddu cyfan er lles bywyd gwyllt.***

## CREU DÔL O FLODAU GWYLLT

Mae gan hen diroedd claddu laswelltir rhagorol, blodeuog yn aml, gan nad oes neb wedi tarfu arnynt am ganrifoedd fwy neu lai. Y cam cyntaf i greu dôl o flodau gwyllt yw marcio ffin eich darn o dir arfaethedig ar gyfer blodau gwyllt ac wedyn gadael iddo dyfu'n dal yn ystod y gwanwyn a dechrau'r haf. Cewch weld wedyn beth ddaw i'r golwg yn naturiol ac wedyn rhoi cynnig ar ei arolygu.

Gall glaswelltir fod yn llawn gwahanol rywogaethau o blanhigion er gwaetha'r drefn o dorri gwair, os yw'r gwair sy'n cael ei dorri'n cael ei gasglu a'i symud. Cyn 'creu' dôl o flodau gwyllt, rhaid edrych a oes gennych chi un eisoes, yn aros am gyfle i flodeuo!


Mae'r Burial Ground Botanical Companion yn cynnwys arolwg syml y gall gwirfoddolwyr ei gynnal ac mae'n dangos a oes angen gwella'r gwyndwn drwy blannu ai peidio.

**Canlyniadau'r arolwg**

| Cyfoeth o rywogaethau Da<br>Cymedrol | Gwael<br>Wedi'i Wella neu Ddymunol |
|---|---|
| Rheoli fel Glaswellt Tal gan dorri ym mis Mehefin neu Orffennaf (gweler taflen A2, Gofalu am Laswelltir) | Rheoli fel Glaswellt Tal ac ystyried gwella gwyndwn y glaswelltir |

### Gwella Gwyndwn y Glaswelltir

- Gall blodau gwyllt ffynnu os yw eich glaswelltir yn fân yn bennaf - hen rywogaethau dôl fel rhonwellt y ci cribog a melynwellt. Os yw'n llawn glaswelltir cras fel byswellt a cheirchwellt, dilynwch y drefn reoli ar gyfer 'dod â safle wedi'i esgeuluso yn ôl dan reolaeth' am flwyddyn o leiaf cyn plannu blodau.
- Os yw eich safle'n cynnwys ardaloedd eraill o laswelltir sydd â mwy o gyfoeth o fywyd gwyllt, gallwch newid tyweirch. Palwch dywarchen neu ddwy i fyny (sgwâr o ryw 30cm) yn yr hydref neu'r gwanwyn o'r ardaloedd blodeuog a heb flodau a'u cyfnewid. Cadwch lygad arnyn nhw ac os yw'r blodau'n gwneud yn dda, ailadroddwch y drefn y flwyddyn ganlynol.
- Casglwch hadau o rannau eraill eich tir claddu a'u hadu ar dir noeth (mae twmpathau tyrchod daear yn dda ar gyfer hyn). I greu tir noeth, ysgwydwch y gwyndwn gyda chribin gan ddod â phridd noeth i'r golwg dros hyd at draean o'r ardal.
- Prynwch hadau blodau neu egin blanhigion gan gyflenwr blodau gwyllt lleol. Edrychwch ar wefan Flora Locale neu holwch eich ymddiriedolaeth natur sirol am gyflenwyr lleol a chyngor am beth i'w blannu. Dewiswch blanhigion rydych chi wedi'u gweld ar hyd ymylon ffyrdd cyfagos neu ar ddolydd; mae'r rhain yn fwy tebygol o fod yn addas a gwneud yn dda.
- Ceisiwch atal pobl rhag dod â phlanhigion o'u gerddi oherwydd nid ydynt yn debygol o fod yn frodorol. Gallwch ofyn iddyn nhw enwi eu hoff flodyn gwyllt o'r ymylon ffyrdd gerllaw ac wedyn casglu'r hadau oddi yno.


*Cribell Felen*

### Cribell Felen

Dyma blanhigyn defnyddiol iawn i greu a gwella dolydd o flodau gwyllt. Mae'n flodyn blynyddol lled-barasitig ar gyfer y ddôl sy'n glynu wrth laswelltau cyfagos drwy system y gwreiddiau ac yn lleihau egni'r glaswellt.

Os oes cribell felen yn bresennol, fe welwch chi fod y glaswellt yn fyrrach ac yn llai trwchus. Hadwch hadau'r gribell felen ar ddechrau'r hydref fel eu bod yn gaeafu yn y pridd. Weithiau nid ydynt yn egino'n dda felly daliwch ati i roi cynnig arni am sawl blwyddyn. Mae posib hau'r gribell felen ar ei phen ei hun yn ystod y flwyddyn gyntaf, gan ddilyn hynny wedyn gyda mwy o'r gribell felen a hefyd blodau gwyllt eraill ym mlwyddyn dau i gael y cyfle gorau i'ch blodau i gyd sefydlu'n dda.


*Tegeirian Pigfain*

### Blynyddol a Bythol

Mae'r dolydd o flodau gwyllt sy'n cael eu disgrifio yma'n cynnwys planhigion bythol yn bennaf; planhigion sy'n byw am fwy na dwy flynedd.

* Dyma pam mae glaswellt byr,

# 8. Creu Dôl o Flodau Gwyllt a Helpu Bywyd Gwyllt

sy'n cael ei reoli'n briodol, yn dal i gynnwys llawer o blanhigion sy'n blodeuo ac sydd heb flodeuo na bwrw had am flynyddoedd o bosib.

Peidiwch â drysu blodau'r dolydd yma gyda blodau blynyddol y caeau ŷd, fel y pabi, glas yr ŷd neu babi'r gwenith. Mae'r rhain yn tyfu mewn pridd noeth ac yn byw am un tymor tyfu yn unig.

* Mae eithriad i hyn; y gribell felen, sy'n blanhigyn traddodiadol y dolydd, planhigyn blynyddol ac felly mae angen bwrw had cyn cael ei dorri.

Ar ôl i chi greu eich dôl o flodau gwyllt, rhaid ei rheoli fel pob ardal arall o laswellt tal (edrychwch ar daflen A2, Gofalu am Laswelltir, Glaswellt Tal).


## AROS YN ORGANIG

Mae safleoedd claddu wedi bodoli ers cannoedd o flynyddoedd heb unrhyw chwynladdwyr, plaladdwyr na chadwolion, a dyna un rheswm pam eu bod mor llesol i fywyd gwyllt. Peidiwch â newid hyn!

## AMRYWIAETH ydi'r GYFRINACH FAWR!

Ceisiwch gael amrywiaeth cyfoethog o gynefinoedd ar eich safle. Bydd safle claddu gyda nifer o nodweddion gwahanol, fel coed a llwyni o wahanol oedran a siâp, glaswellt tal a byr, gwrychoedd, waliau ac ardaloedd o lwyni a llystyfiant bras, yn gysgod i amrywiaeth gwych o fywyd gwyllt. Mae'r cyfan gyda'i gilydd yn gymaint mwy na'r elfennau unigol.

## PREN MARW



Mae pren marw'n llesol iawn i fywyd gwyllt. Mae llawer o facteria, ffyngau, cennau, pryfed genwair, chwilod ac infertebrata eraill yn byw mewn pren marw. Mewn coedwig naturiol, mae pren yn pydru naill ai mewn coeden neu ar y tir. Mewn safle claddu, efallai ei bod yn well i chi leoli pentwr o bren marw oddi wrth ardaloedd o laswelltir blodeuog yr ymwelir â nhw. Os oes ardal o laswellt twmpathog, yna gallai hwn fod yn llecyn da ar gyfer pentwr o bren marw.

### Creu tomen goed dda i fywyd gwyllt

Pentyrrwch unrhyw ddarnau o goed sydd wedi'u torri, neu rannau rydych chi wedi'u tocio, yn un domen. Mae meintiau amrywiol yn ddelfrydol oherwydd byddant yn pydru ar gyflymdra gwahanol. Ychwanegwch at y domen bob tro rydych chi'n gwneud gwaith ar goed; ceisiwch ei chadw'n fwy na 50cm o uchder bob amser. Lleolwch y domen mewn ardal gymharol gysgodol a llaith, wedi'i hamgylchynu gan laswellt tal neu goed a llwyni yn ddelfrydol. Gall tomen goed sy'n agos at wal neu wrych annog anifeiliaid i archwilio'r ddau.

Peidiwch â chadw'r ardal o amgylch y domen goed yn rhy daclus; bydd dail ar y ddaear a llystyfiant bras yn gwneud y domen yn fwy tebygol o ddenu anifeiliaid fel nadroedd defaid a draenogod.

### Bonion coed a phren marw sy'n sefyll

Os bydd coeden yn cael ei thorri neu'n cael ei chwythu i lawr, ystyriwch adael y boncyff i bydru. Bydd gwahanol blanhigion, ffyngau, adar ac anifeiliaid yn defnyddio hwn, yn enwedig os yw'n eithaf tal. Efallai y gallwch dyfu planhigyn dringo arno os yw'r bonyn yn eithaf hyll. Meddyliwch cyn cael gwared ar bren marw o du mewn i goeden. Oes gwir angen gwneud hynny neu oes posib ei adael i gnocell y coed?

## GLASWELLTIR TAL a THWMPATHOG

Ceisiwch gael ardal o laswellt tal neu dwmpathog yn eich safle, hyd yn oed os mai bach ydyw. Bydd rhimyn yn erbyn wal neu wrych yn darparu coridor i anifeiliaid fel llygod bach a madfallod, a hefyd yn darparu ffynhonnell fwyd i adar sy'n bwyta hadau. Bydd yr amrywiaeth o infertebrata, gan gynnwys gwenyn a glöynnod byw, yn cynyddu'n fawr o gael glaswelltir sy'n gallu blodeuo, hadu a chynnig cysgod.

## GWRYCHOEDD, LLWYNI a PHRYSGWYDD


Mae amrywiaeth yn bwysig i gadwraeth felly ceisiwch gael amrywiaeth o wahanol goed a llwyni, er budd amrywiaeth ehangach o greaduriaid. Mae gan y rhan fwyaf o safleoedd claddu goed aeddfed neu feteran, ond oes posib cael gwrych neu lwyni? Wrth blannu gwrych newydd, ceisiwch ddefnyddio rhywogaethau a fydd yn denu bywyd gwyllt i'ch safle; planhigion gwrych gyda blodau ac yna aeron a chriafol. Mae planhigion sy'n blodeuo'n gynnar neu'n hwyr yn darparu bwyd pan nad yw planhigion eraill yn blodeuo. Mae'r rhain yn bwysig iawn i gacwn.

Meddyliwch am reoli gwrychoedd er budd bywyd gwyllt (edrychwch ar daflen A7, Gofalu am Wrychoedd) fel bod gennych flodau, ffrwythau a hadau i adar ac anifeiliaid eraill fwydo arnynt.

## BLYCHAU CYNEFIN


Yn aml iawn mae gan safleoedd claddu gilfachau, tyllau a chorneli i adar ac anifeiliaid, ar gyfer nythu a gaeafu. Efallai y byddwch am greu rhai artiffisial, yn enwedig os oes cartrefi posib wedi diflannu. Wrth ailadeiladu darn o hen wal garreg sych, ystyriwch greu tomen goed gerllaw a gosod blwch i ddraenogod mewn glaswellt twmpathog gerllaw'r wal. Hefyd, mae blychau cynefin yn helpu pobl i weld adar arbennig ac anifeiliaid eraill. Mae'n hawdd gwylio titw tomos las sy'n nythu mewn blwch ar foncyff coeden ond mae bron yn amhosib gwylio'r un aderyn mewn llwyn trwchus.

Gosodwch flwch nythu i wenoliaid duon ar eglwys neu adeilad tal arall. Mae gwenoliaid duon angen cartrefi.



# 8. Creu Dôl o Flodau Gwyllt a Helpu Bywyd Gwyllt

Mae posib gosod blychau gwenoliaid duon y tu ôl i ddellt tŵr eglwys neu gapel ac ni fydd posib eu gweld o'r tu allan. Gellir dod o hyd i gynlluniau ar gyfer blychau adar ac ystlumod ar y rhyngrwyd neu drwy gysylltu â sefydliadau partner Gofalu am Erw Duw (gweler y rhestr isod). Y cyfan sydd raid i chi ei wneud ydi teipio 'gwneud blwch nythu/cartref draenog/blwch ystlumod' ac ati yn chwilotwr y rhyngrwyd.




## GWNEUD GWESTY I WENYN

I wneud gwesty i wenyn, llenwch ffrâm gyda gwiail gwag, fel darnau o fambŵ, ysgaw neu banas y cawr, brics gyda thyllau, moch coed, gwellt ac ati. Yn sylfaenol, y syniad ydi gosod cymaint â phosib o dyllau o wahanol faint ochr yn ochr â'i gilydd, i wenyn ac infertebrata eraill eu defnyddio.

Gall y ffrâm fod yn ddarn o bibell ddraenio (mae clai'n edrych yn fwy atyniadol na phlastig), cyfres o silffoedd wedi'u gwneud o estyll pren yn cael eu dal i fyny gan frics, neu flwch pren syml.

Gosodwch eich gwesty i wenyn yn ei le'n ddiogel mewn llecyn heulog, cysgodol.

Gellir ei adeiladu i fyny o'r ddaear neu ei osod ar ffens neu wal. Bydd yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y gwanwyn a'r haf ac mae'n ffordd dda o wylio pryfed.

## DŴR

Gall dŵr yfed, yn enwedig pan nad oes llawer o law, achub bywyd rhywogaeth. Os yw'r ddarpariaeth ar y ddaear, yna gall anifeiliaid fel adar a draenogod ei defnyddio. Gosodwch ddysgl fawr, fflat mewn llecyn cysgodol.

## EIDDEW

Mae eiddew yn cynnig cysgod a bwyd rhagorol i fywyd gwyllt, a gall eiddew trwchus gynnwys adar sy'n nythu ac ystlumod sy'n clwydo. Mae'n blodeuo rhwng misoedd Medi a Thachwedd, gan ddarparu neithdar a phaill pan nad oes fawr ddim arall yn blodeuo. Gall eiddew fod yn orlawn, yn llythrennol, o wenyn a phryfed yn yr hydref. Mae'r ffrwythau'n fwyd i lawer o adar a mamaliaid bychain. Efallai eich bod yn dymuno tynnu neu reoli eiddew mewn rhai llefydd, ar goed yw feteran er enghraifft, ond efallai fod ardaloedd eraill ble gellir gadael llonydd iddo. Gellir annog eiddew i flodeuo drwy dynnu'r egin uchaf oddi ar beth bynnag sy'n eu cynnal, fel eu bod yn hongian yn rhydd (edrychwch ar daflen A9, Planhigion ac Anifeiliaid Sy'n Niwsans!).



**Cysylltiadau defnyddiol**

Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid, www.arc.org.uk

Yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Cadwraeth Ystlumod – blychau ystlumod ac annog ystlumod, www.bats.org.uk

Cymdeithas Prydain er Gwarchod Draenogod – cartrefi draenogod, www.britishhedgehogs.org.uk

Ymddiriedolaeth Adareg Prydain – Wythnos Genedlaethol y Blychau Nythu, www.bto.org

Yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Cadwraeth Cacwn – planhigion i ddenu cacwn, www.bumblebeeconservation.org

Gofalu am Erw Duw, www.caringforgodsacre.org.uk

OPAL Explore Nature – creu gwesty i wenyn, www.opalexplorenature.org

RSPB – blychau nythu i lawer o rywogaethau o adar, gan gynnwys tylluanod, www.rspb.org.uk

Cadwraeth Gwenoliaid Duon – gwneud blwch nythu i wenoliaid duon, www.swift-conservation.org

Ymddiriedolaethau Natur – cyngor ynghylch garddio er lles bywyd gwyllt, www.wildlifetrusts.org

# 9. Planhigion ac Anifeiliaid Sy'n Niwsans

***Mae'r daflen hon yn rhestru rhai o'r planhigion a'r anifeiliaid mwy anodd sydd i'w gweld mewn safleoedd claddu ac yn rhoi canllawiau ar gyfer eu rheoli.***

## DANADL POETHION



Mae danadl poethion yn blanhigion parhaol (maent yn gaeafu ac yn gallu goroesi flwyddyn ar ôl blwyddyn) gyda gwreiddiau melyn gwydn a choesynnau ymledol. Yn aml iawn, maent yn cael eu hystyried fel niwsans gan arddwyr ond, er hynny, maent yn rhan hanfodol o we bywyd ac, ar un adeg, roeddent yn cael eu gwerthfawrogi fel bwyd iach, ffynhonnell o ffibr i wneud lliain a rhaff, ac fel cynhwysyn yn lle afal y frenhines wrth wneud caws.

Danadl poethion yw prif fwyd lindys nifer o rywogaethau o löynnod byw a gwyfynod, felly mae clwstwr o ddanadl poethion, yn yr haul yn ddelfrydol, yn gallu denu'r pryfed hyn i'ch safle chi (edrychwch ar daflen B9, Glöynnod Byw, Gwyfynod a Phryfed Eraill).

### Rheoli danadl poethion

I atal danadl poethion rhag ymledu i laswelltir, torrwch i mewn i ymyl y clwstwr – i 1m (3 troedfedd) o leiaf - gan ddechrau ble mae'r egin newydd yn ymddangos yn y gwanwyn ac ailadrodd bob tro mae'r egin yn cyrraedd tua 30cm (1 troedfedd). Os yw eich clwstwr o ddanadl poethion yn llai nag 1m o led, yna torrwch nhw unwaith cyn iddynt flodeuo, i osgoi bwrw had. Mae danadl poethion yn gwneud gwair rhagorol, sy'n faethlon iawn.

### Cael gwared ar ddanadl poethion

I gael gwared ar glystyrau bychain o ddanadl poethion, torrwch nhw cyn neu yn ystod eu cyfnod blodeuo ac yna'u codi o'r ddaear gyda fforch a chael gwared ar y gwreiddgyff mor drwyadl â phosib. Rhaid symud neu losgi'r gwreiddiau. Gellir chwalu'r gwreiddgyff drwy hofio drosodd a throsodd a thynnu'r gwreiddiau allan. Gall hadau danadl poethion orwedd yn segur yn y pridd am 5 mlynedd, felly byddwch yn benderfynol!

## PANAS Y CAWR

Mae panas y cawr yn tyfu am flwyddyn ac yna'n blodeuo yn ystod yr ail, gan flodeuo drwy gydol yr haf a bwrw had yn araf o fis Awst ymlaen. Er bod ychydig o banas y cawr yn fuddiol mewn glaswellt twmpathog, gall fod yn bla mewn glaswelltir arall. Mae gan banas y cawr brif wreiddyn cryf iawn sy'n goroesi dros y gaeaf. Fel gyda danadl poethion, gall casgliad a reolir fod yn fuddiol i bryfed sy'n defnyddio'r coesynnau gwag am gysgod. Mae coesynnau panas y cawr yn ddelfrydol mewn gwesty i wenyn (edrychwch ar daflen B8, Cacwn a Gwenyn Eraill, Gwenyn Meirch a Morgrug).

### Rheoli panas y cawr

Torrwch banas y cawr yn rheolaidd fel nad yw'n bwrw had. Os oes llawer o banas y cawr ystyfnig, yna codwch y prif wreiddyn o'r pridd. Yn y pen draw, bydd rheolaeth reolaidd ar laswelltir ble mae panas y cawr yn tyfu yn cael gwared ar y planhigyn ac nid yw'r hadau'n dyfalbarhau am fwy na 5 mlynedd. Gwisgwch warchodaeth addas rhag i'r sudd fynd ar eich croen neu i'ch llygaid.

## PRYSGWYDD

Mae prysgwydd yn disgrifio'r clystyrau rheiny o dyfiant coediog isel sy'n cynnwys coed ifanc, crachgoed, llwyni isel a mieri, sy'n gallu bodoli mewn corneli wedi'u hesgeuluso. Gall prysgwydd fod yn broblem os ydynt yn cuddio nodweddion cerrig ac yn ymledu i laswelltir, ond maent yn darparu cynefin da ar gyfer adar a glöynnod byw. Felly peidiwch â chlirio'r holl brysgwydd - cadwch glwstwr neu ddau.

### Rheoli prysgwydd



Gallwch reoli prysgwydd drwy dorri'r tyfiant newydd yn ôl bob blwyddyn i atal ymledu pellach. Oni bai eich bod eisiau annog coed newydd, torrwch y coed ifanc i lawr wrth eu bôn i'w hatal rhag tyfu'n goed. Mae'n bur

debyg y byddant yn tyfu'n ôl eto, ond daliwch i'w torri'n ôl ac ni fyddant yn tyfu'n afreolus.


## EIDDEW

Mae eiddew yn llesol iawn i wenyn a phryfed eraill a gall gynnwys adar yn nythu ac ystlumod yn clwydo. Mae hefyd yn gallu gwarchod gwaith carreg rhag gwynt, rhew, erydiad a llygredd yn yr aer. Er hynny, mae'n gallu bod yn niweidiol i gofebau sydd ag uniadau neu graciau ac efallai y bydd rhaid ei dynnu neu ei drimio'n rheolaidd.

Rhaid tynnu eiddew oddi ar goed yw feteran bob amser, ond dim ond os yw'n gwneud y coed yn beryglus ddylid ei dynnu oddi ar goed eraill, oherwydd pwysau neu effaith gwynt, neu os yw'n anodd arolygu'r coed oherwydd yr eiddew (edrychwch ar daflen A4, Arolygu a Gofalu am Goed).

Gellir gadael eiddew ar waith carreg oni bai fod y canlynol yn digwydd:

- Yr eiddew yn gorchuddio planhigion o ddiddordeb, fel cennau, mwsoglau, llysiau'r afu, rhedyn neu flodau.
- Methu darllen arysgrif ar gofebau pwysig.
- Mae'n difrodi'r gwaith carreg, drwy ymledu i'r uniadau neu'r craciau er enghraifft (edrychwch ar daflen A10 Gofalu am waith carreg, gwaith metel a gwaith coed).



### Rheoli eiddew

Mae eiddew yn cael ei reoli'n aml drwy dorri darn (tua 30cm o hyd) allan o'r coesyn a'i adael i farw uwch ben y toriad. Efallai mai hwn ydi'r dull gorau o gael gwared ar eiddew oddi ar goed (os ydych yn gallu ei dorri yng ngwaelod boncyff y goeden), ond ni ddylid ei ddefnyddio ar waith carreg oherwydd gall hyn annog yr eiddew i wreiddio yn y gwaith carreg, ac achosi difrod. Gyda gwaith carreg, mae'n rhaid i chi dynnu'r eiddew oddi ar y strwythur sy'n ei gynnal. Dechreuwch yn y top, ble mae'r coesynnau ifanc yn tueddu i lynu'n gryfach na'r hen rai, a'u crafu i ffwrdd. Gallwch naill ai gloddio gwreiddiau'r eiddew allan neu ailadrodd hyn bob blwyddyn.

Efallai y byddwch yn dymuno cadw rhywfaint o'r eiddew, ond am ei dorri'n ôl er mwyn ei atal rhag lledaenu. Dylid osgoi tymor nythu adar wrth wneud hyn; diwedd yr haf tan ddechrau'r gwanwyn ydi'r amser gorau. Cymerwch ofal wrth weithio gydag eiddew ar hen wal. Efallai mai'r eiddew sy'n ei chynnal ac felly'r peth gorau i'w wneud ydi trimio'r eiddew, nid ei dynnu. Rhaid adolygu effaith yr eiddew yn rheolaidd, er mwyn asesu a oes angen ei dynnu neu ei reoli.



*Llysiau'r Gingroen a'r Gwyfyn Claergoch*

## LLYSIAU'R GINGROEN

Fel eiddew, mae manteision ac anfanteision yn perthyn i lysiau'r gingroen. Mae llysiau'r gingroen yn cynnwys tocsinau ac, os bydd da byw yn bwyta llawer ohonynt, gallant eu lladd. Mae da byw yn eu hosgoi wrth bori ond byddant yn eu bwyta wedi sychu mewn gwair. Gellir eu trin yn ddiogel er hynny. Mae 30 rhywogaeth o leiaf o infertebrata'n dibynnu ar lysiau'r gingroen, gan gynnwys y gwyfyn claergoch a'r gwyfyn teigr torgoch. Maent yn tyfu ar dir noeth, prysur, ac felly maent i'w canfod yn aml mewn caeau ble mae anifeiliaid fel ceffylau wedi torri drwy'r glaswellt.



### Rheoli llysiau'r gingroen

Yn rhyfedd iawn, y ffordd orau i reoli llysiau'r gingroen yw drwy adael iddynt flodeuo (mae'r rhiant-blanhigyn yn marw wedyn) a rheoli'r glaswelltir yn ofalus er mwyn osgoi creu tir noeth ble mae'r hadau'n gallu egino. Gall eu tynnu adael gwreiddiau, sy'n aildyfu, ac mae torri'r planhigyn cyn iddo flodeuo'n rhoi oes hirach iddo. Nid yw rhywfaint o lysiau'r gingroen yn broblem ar dir claddu a gellir eu gadael. Os ydych chi'n cynaeafu gwair ac yn ei werthu, yna dylid cael gwared ar lysiau'r gingroen cyn torri'r gwair.

## CANCLWM JAPAN a FFROMLYS CHWARENNOG

Mae'r ddau blanhigyn yma wedi cael eu cyflwyno i'r DU o'r Dwyrain Pell ac wedi ymledu'n gyflym iawn. Mae canclwm Japan yn tyfu i tua 3-4m o daldra ac mae ganddo wreiddiau cryf sy'n gallu gwthio drwy waith carreg a choncrid. Mae'n ffurfio clwstwr trwchus, ymledol, gan dagu planhigion eraill a thyfu tua metr y mis – felly mae'n syniad da ceisio cael gwared arno. Ffromlys chwarennog ydi'r planhigyn blynyddol mwyaf sy'n tyfu ym Mhrydain, gan dyfu i daldra o hyd at 3m mewn blwyddyn.

### Cael gwared ar ganclwm Japan

Yn 2010, cymeradwyodd y Llywodraeth reolaeth fiolegol, sef pryf sy'n bwydo ar sudd canclwm Japan yn unig. Mae hyn yn dal i gael ei asesu ac, yn y cyfamser, gallwch geisio palu'r belen gyfan o wreiddiau allan o'r pridd neu ddefnyddio contractwr cofrestredig i'w ladd gyda chwynladdwr (gall hyn gymryd blynyddoedd lawer).


### *Cadw at y gyfraith*

Cyn cael gwared ar unrhyw ran o'r planhigyn, cysylltwch â'ch awdurdod lleol neu asiantaeth statudol berthnasol y llywodraeth, oherwydd mae'n anghyfreithlon plannu canclwm Japan a gall dyfu o

ddarn bychan o wreiddyn neu goesyn.

### Rheoli Ffromlys chwarennog

Dyma blanhigyn haws cael gwared arno na chanclwm Japan ond y broblem gyda ffromlys chwarennog ydi pa mor gyflym mae'n tyfu. Mae'n tagu planhigion eraill ac yn cynhyrchu llawer iawn o hadau, sy'n saethu i fyny i fod yn 7m o'r codau ac yn ymledu ar ddŵr fel rheol. Dim ond am flwyddyn neu ddwy mae ei hadau'n para, felly gellir ei reoli drwy ei atal rhag hadu. Mae tynnu'r planhigion o'r pridd cyn iddynt flodeuo - 'Ffustio'r Ffromlys' – yn dasg sy'n rhoi llawer o foddhad i wirfoddolwyr ac, ar yr amod nad oes unrhyw hadau'n bresennol, gellir llosgi neu gompostio'r planhigion wedyn. Mae ffromlys chwarennog yn cael ei fwyta gan dda byw a hefyd gellir ei reoli drwy ei dorri dro ar ôl tro.



*Colomen Wyllt*

## NYTHOD ADAR a THAIL

Mae adar fel y golomen wyllt a jac-y-do'n gallu bod yn niwsans os byddant yn llwyddo i fynd i mewn i dŵr neu ofod mewn to; mae eu deunydd nythu a'u tail, wrth iddynt gronni, yn gallu bod yn beryglus. Bydd cau mynedfeydd posib a griliau gyda rhwyll o wifrau mân (nid netin) yn eu cadw allan. Defnyddiwch rwyll weld gyda grid llai nag 1" neu 2cm. Tybed fedrwch chi roi blwch gwenoliaid duon yn y 'twll' er mwyn atal colomennod neu jac doeau rhag mynd i mewn, ond annog gwenoliaid duon. Bydd gwenoliaid a'r gwybedog brith yn nythu ar silff y tu mewn i bortsh o dro i dro; bydd silff fechan a osodir o dan y nyth yn dal unrhyw dail ac felly'n atal unrhyw ddifrod neu berygl o lithro. Os cewch broblemau gydag adar, yna cysylltwch â'ch ymddiriedolaeth natur leol, grŵp adar lleol neu'r RSPB am gyngor.

## MOCH DAEAR

Mae moch daear yn gallu achosi problemau mewn safleoedd claddu drwy gloddio yn y man anghywir (nid yw cloddio beddau'n beth anghyffredin). Mae gan foch daear warchodaeth gyfreithiol sylweddol o dan y gyfraith felly gofynnwch am gyngor gan asiantaeth statudol berthnasol y llywodraeth.

## TYRCHOD DAEAR a PHRIDDWALAU

Mae tyrchod daear yn elyn ac yn ffrind i reolwr safle:

- Ffrindiau am eu bod yn bwyta llawer o blâu, fel pryfed gwifrog, gwlithod a malwod.
- Gelynion am eu bod yn creu priddwalau sy'n broblem i lawer o bobl.

Ceir sawl damcaniaeth am sut mae cael gwared ar dyrchod daear; claddu poteli gwydr, garlleg neu frigau ysgaw yn y priddwal, i enwi dim ond rhai. Mae gwenwyn a thrapiau'n greulon ac nid ydynt yn cael eu hargymell. Efallai nad yw cael gwared ar y twrch daear sy'n cadw cwmni i chi'n syniad da oherwydd mewn gwirionedd mae'n gadael ei diriogaeth ar agor i dwrch daear arall symud i mewn. Twnelau'r twrch daear yw ei dir hela, am bryfed genwair a chymar! Unwaith y mae wedi creu digon o dwnelau, mae'n rhoi'r gorau i gloddio. Efallai mai'r peth gorau yw dysgu byw gyda'ch twrch daear a gwthio ei briddwalau yn ôl i lawr i'r ddaear.

### Cysylltiadau defnyddiol

Ymddiriedolaeth y Moch Daear, www.badger.org.uk
Gofalu am Erw Duw, www.caringforgodsacre.org.uk
Cymdeithas y Mamaliaid, www.mammal.org.uk
Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol, www.rhs.org.uk
Ymddiriedolaethau Natur, www.wildlifetrusts.org

*Asiantaethau statudol y llywodraeth:*

Natural England, www.naturalengland.org.uk
Cyfoeth Naturiol Cymru, www.cyfoethnaturiol.cymru
Scottish Natural Heritage, www.snh.gov.uk
Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon, www.doeni.gov.uk
Asiantaeth yr Amgylchedd, www.environment-agency.gov.uk



*Mochyn Daear*

### Darllen defnyddiol

Rheoli Planhigion Anfrodorol Ymledol – cyhoeddiad Asiantaeth yr Amgylchedd
Ragwort Control and Ecology - www.ragwortfacts.com
Deddf Gwarchod Moch Daear

# 9. Planhigion ac Anifeiliaid Sy’n Niwsans

# 10. Rheoli Gwaith Carreg, Gwaith Metel a Gwaith Coed

***Mae'r daflen hon yn cyflwyno canllawiau ar reoli nodweddion carreg, coed a haearn.***

Mae croesau cynnar, cerfluniau carreg a beddrodau canoloesol yn bethau cymharol brin a chydnabyddir eu harwyddocâd drwy warchodaeth statudol gan English Heritage, fel strwythurau rhestredig. Mae eu cadwraeth yn galw am ofal arbennig a chyngor arbenigol. Holwch sefydliadau fel:

- Pwyllgorau Esgobaeth Ymgynghorol
- Cynghorwyr y Llywodraeth ar yr amgylchedd hanesyddol
- Penseiri cadwraeth

Mae gwaith carreg mwy diweddar, fel cofebau rhyfel a cherrig beddau mwy modern, yn teilyngu gofal hefyd. Mae'n rhaid ystyried y dull o reoli cofadeiladau a chofebau ar dair lefel:

- Cofadeiladau unigol
- Grwpiau o gofadeiladau
- Tirluniau'r cof – safleoedd claddu cyfan

Mae cofadeiladau unigol a grwpiau o gofadeiladau'n hawdd eu difrodi drwy erydiad, llystyfiant neu brysgwydd nad ydynt yn cael eu rheoli, ansefydlogrwydd, fandaliaeth, ad-drefnu a chlirio.


## CYNGOR RHEOLI

### Tasgau addas i wirfoddolwyr


Gall gwirfoddolwyr helpu gyda gwaith cynnal a chadw, fel rheoli planhigion ymledol. Hefyd gall gwirfoddolwyr gynnal archwiliadau ar gofebau, gan gadw at ganllawiau Iechyd a Diogelwch.

### Rhaid ystyried y canlynol:

1. Cadw cofebau a chofadeiladau diogel yn rhydd o blanhigion sydd â choesynnau coediog, fel coed ifanc neu fieri. Nid yw eiddew yn difrodi gwaith carreg yn aml, a gall ei warchod rhag llygredd yr aer a thywydd eithafol, sy'n achosi erydiad. Er hynny, gall eiddew ddifrodi cofebau mwy, sy'n cynnwys adrannau o gerrig gydag uniadau. Mae'r eiddew yn tyfu i mewn i'r uniadau neu unrhyw graciau a chilfachau ac yn eu gwthio oddi wrth ei gilydd. Hefyd gall eiddew wneud cofebau'n amhosib i'w gweld neu eu harolygu, felly efallai y byddwch yn penderfynu ei glirio. Os byddwch yn gwneud hynny, tynnwch yr eiddew yn ofalus oddi ar y garreg, gan ddechrau yn y top. Peidiwch â thorri coesyn yr eiddew a gadael y gweddill i farw. Mae torri'r coesyn yn annog gwreiddio yn y gwaith carreg, gan achosi difrod (edrychwch ar daflen A9 Planhigion ac Anifeiliaid Sy'n Niwsans!). DS efallai bod eiddew yn dal cofgolofn at ei gilydd, neu'n cuddio toriadau a difrod. Drwy glirio'r eiddew efallai y byddwch yn creu gwaith trwsio felly meddyliwch yn ofalus cyn cychwyn.



Rhedyn y Fagwyr



2. Gadewch ddarn bach o laswellt tal o amgylch cofadail a'i dorri'n ofalus â gwellau (efallai y byddwch yn dewis torri hwn unwaith neu ddwywaith y flwyddyn yn hytrach na bob tro mae safle'n cael ei dorri). Mae hyn yn atal difrod os bydd peiriannau torri gwair neu strimars yn dod yn rhy agos.

3. Ni ddylid defnyddio chwynladdwyr o amgylch cofebau – mae'n difrodi'r gwaith carreg ac yn creu ardaloedd noeth i blanhigion ymledol sefydlu.

### Gofalu am waith carreg os bydd angen cyngor neu ganiatâd proffesiynol efallai


Pan mae cerrig wedi malu neu hollti, ac yn briwsioni gydag effaith y tywydd, efallai bydd posib eu gwarchod. Dylid gofyn am gyngor ynghylch gwaith cadwraeth gan benseiri eglwys lleol a chynghorwyr ar adeiladau hanesyddol. Mae cyhoeddiad English Heritage: 'Caring for Historic Graveyard and Cemetery Monuments', yn ddefnyddiol.

Os yw'r tywydd yn amharu'n gyflym iawn ar gofadail hynod bwysig, y cyngor gorau efallai yw ystyried ei symud i mewn i adeilad neu i fan cysgodol. Mae hwn yn fesur eithafol ac ni ddylid tarfu ar unrhyw waith carreg hanesyddol na'i symud heb y caniatâd angenrheidiol.

Fel rheol gyffredinol, dim ond os yw baw'n gwneud difrod i gofadeiladau ddylid eu glanhau. Nid yw glanhau gyda chemegau a brwshys gwifrog yn cael ei argymell. Gall hyn wneud i'r garreg ddirywio'n waeth, gan eu bod yn gwneud yr arwyneb yn arw. Mae'n well gwerthfawrogi'r cen a'r mwsogl sy'n tyfu ar y cofadail. Mae rhai

mathau o gen yn gallu gwneud difrod i gerrig bregus, er hynny, dylid gofyn am gyngor proffesiynol os yw hyn yn peri pryder.

Dylid cael gwared ar graffiti cyn gynted â phosib ar ôl iddo gael ei greu. Mae hyn yn galw am weithiwr



profiadol er mwyn osgoi unrhyw anghydbwysedd o ran ymddangosiad y garreg. Hefyd efallai bydd angen cyngor a phrofiad gwarchodwr.

Gall defnyddio systemau gorchuddio fel haenau atal graffiti newid ymddangosiad y garreg ac nid ydynt yn cael eu hargymell yn gyffredinol.

Wrth ystyried triniaethau eraill i arwyneb carreg, dylid gofyn am farn broffesiynol

### Diogelwch gwaith carreg

Edrychwch ar ganllawiau eich yswiriant a/neu awdurdod yr eglwys mewn perthynas â hyn.

Yn yr Eglwys Anglicanaidd, er enghraifft, cyfrifoldeb y clerigwyr a'r Cynghorau Plwyf Eglwysig yw cymryd gofal priodol i sicrhau diogelwch ymwelwyr â mynwentydd. Mae gan y Cynghorau Atebolrwydd Preswylydd am ddiogelwch ymwelwyr a'r rhai sy'n gweithio yn y safle claddu. Mae gan berchennog cofeb (y prynwr neu, ar ôl ei farwolaeth, etifedd y sawl sydd wedi marw) gyfrifoldeb cyfreithiol am ei chynnal a'i chadw, gan gynnwys ei diogelwch. Mae gan saer maen y cofadail ddyletswydd o ofal proffesiynol i'r prynwr am sicrhau bod y cofadail yn sefydlog ac yn ddiogel. Er hynny, gorwedd y cyfrifoldeb yn y pen draw gyda'r 'preswylydd', sef, yn achos mynwentydd eglwysi, y clerigwyr a'r Cynghorau Plwyf Eglwysig. Dylid gwneud yn siŵr bod yswirwyr y Cyngor Plwyf Eglwysig yn cael gwybod am unrhyw waith sy'n cael ei wneud yn y fynwent at bwrpas diogelwch, a dylid ystyried eu cyngor.

Gall anafiadau difrifol, a marwolaethau hyd yn oed, ddigwydd pan fydd cerrig sy'n ymddangos yn sefydlog yn cwympo.



Yn rhyfedd iawn, mae hen gerrig beddau sydd wedi'u gwneud o un slab solet o garreg, hyd yn oed os yw'n gwyro'n arw, yn sefydlog iawn fel rheol oherwydd eu hadeiladwaith monolith a'r ffaith bod traean o'r garreg wedi'i gladdu o dan y ddaear. Ar y llaw arall, mae rhai cofebau eithaf diweddar, o fath 'lawnt', yn gallu bod yn gynhenid ansefydlog, oherwydd bod yr hoelion pren neu'r sment sy'n cysylltu'r slabiau'n cyrydu ac yn dadfeilio'n gyflym.

## COFNODI

Gall cofebau a chofadeiladau fod o ddiddordeb i'r hanesydd, yr arlunydd, y pensaer, y daearegwr a'r archrestrydd.

Ceir nifer o systemau cofnodi ar gyfer cofnodi cofebau, cofadeiladau ac arysgrifau. Dyma rai ohonynt: Mae gan y Ffederasiwn o Gymdeithasau Hanes Teulu fwy na 160 o gymdeithasau'n aelodau ohoni, a phob un yn helpu eu haelodau eu hunain i ymchwilio i hanes eu cyndadau yng Nghymru, Lloegr ac Iwerddon. Cysylltwch â nhw am wybodaeth am arysgrifau ar gofebau.

Pecyn Da i Gofnodi Cerrig Beddau gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi. Pecyn cynhwysfawr sy'n cynnwys popeth sydd arnoch ei angen i gofnodi a deall cerrig beddau hanesyddol.

Cyhoeddiad Cyngor Archeoleg Prydain - Recording and Analysing Graveyards gan Harold Mytum. Nod y llyfr yma yw ysbrydoli pobl i gofnodi a dadansoddi cerrig beddau a chofadeiladau.



# 10. Rheoli Gwaith Carreg, Gwaith Metel a Gwaith Coed

## GWAITH METEL a GWAITH COED HANESYDDOL

Gall safleoedd claddu gynnwys nodweddion sydd wedi'u gwneud o fetel neu goed, neu'n cynnwys y rhain. Haearn yw'r gwaith metel fel rheol, yn haearn bwrw neu haearn gyrru. Bydd y nodweddion coed yn tueddu i fod yn dderw oherwydd cryfder a hirhoedledd y pren yma, ond bydd yr un egwyddorion yn berthnasol i goed eraill.

### Gwaith Metel

#### *Gwaith haearn*

Mae gwaith haearn bwrw Fictoraidd addurnol yn nodwedd mewn mynwentydd. Gwelir rheiliau haearn ar derfynau neu'n addurno beddau unigol neu grwpiau o feddau. Gall gwaith haearn fod yn rhan o byrth mynwentydd neu giatiau addurnol hefyd.


Daeth haearn bwrw'n boblogaidd ar gyfer gwaith haearn addurnol o'r 1750'au ymlaen. Roedd yn cael ei greu mewn mowld ac mae haearn bwrw'n rhoi patrwm ailadroddus unfath. Mae'n gallu gwrthsefyll cyrydu'n gymharol dda ond, gan ei fod yn frau, mae'n cracio o dan straen.

Mae haearn gyrru'n hydwyth iawn ac roedd y rheiliau cynharaf yn rhai haearn gyrru, sy'n cael ei weithio tra mae'n boeth ac yn gofyn am sgiliau traddodiadol y gof.

Mae'n anodd trwsio gwaith haearn hanesyddol ac mae angen cadwraeth sensitif.

#### *Arolygu gwaith haearn*

Mae'n ddoeth archwilio gwaith metel gan chwilio am y canlynol:



- Cyrydu, fel paent yn codi'n swigod ac arwynebau tyllog.
- Gweddill olewog ar yr arwyneb, gan ddynodi bod y paent yn torri i lawr neu bod cyrydu'n digwydd oddi tanodd.
- Gwaith paent wedi gweld dyddiau gwell.
- Darnau coll neu wedi'u difrodi.
- Staenio gan rwd neu graciau yn y gwaith carreg sy'n cysylltu â'r metel.
- Colfachau giatiau sy'n drafferthus neu'n gwichian.

#### *Efydd*

Mae efydd wedi'i wneud o gopr a thun ac mae'n wydn iawn ac i'w weld fel addurn ar gofadeiladau.

Gall verdigris, pigment gwyrdd sy'n ffurfio wrth i efydd gael ei effeithio gan y tywydd a'i ddinoethi i aer neu ddŵr dros gyfnod o amser, achosi staenio. Arwynebol yw'r cyrydu ar efydd fel rheol.

#### *Plwm*

Mae plwm yn fetel meddal iawn, a ddefnyddiwyd ar gerfluniau ond, yn fwy cyffredin, ar gyfer llythrennau ar gofadeiladau. Gall plwm ar gerfluniau hollti ac ildio i'w bwysau ei hun a gall llythrennau plwm syrthio oddi ar gofadeiladau.

### Gwaith coed a phren

Defnyddiwyd pren derw i adeiladu pyrth mynwentydd, sef y strwythurau a adeiladwyd wrth fynedfa mynwentydd ym Mhrydain. Hefyd, mewn mynwentydd eglwysi a safleoedd claddu, mae derw wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer giatiau, seddau tu allan a chofebau.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhannau mewn coeden dderwen yn llawn asid tannig neu dannin. Y rhain sy'n gwneud y pren canol yn hynod wydn yn yr awyr agored heb ei drin. Hefyd, gellir gweld y tannin fel 'staen inc' ar haearn, oherwydd yr adwaith cemegol. Felly, mae pren derw'n cael ei osod yn ei le'n ddiogel yn yr awyr agored gyda phegiau pren neu fetelau eraill nad ydynt yn cynnwys haearn.

Mae derw'n bren nodedig, yn gryf a gwydn iawn yn yr awyr agored, heb fod angen unrhyw driniaeth i'w gadw.

### Cofiwch

Wrth drwsio neu adfer gwaith coed neu waith metel, rhaid sicrhau'r caniatâd angenrheidiol a gofyn am gyngor.

# 10. Rheoli Gwaith Carreg, Gwaith Metel a Gwaith Coed

**Cysylltiadau defnyddiol**

Eglwys Loegr, ChurchCare, www.churchcare.co.uk

Yr Eglwys yng Nghymru, www.churchinwales.org.uk/resources/property

www.churchinwales.org.uk/heritage

Gwasanaethau archeolegol awdurdodau lleol

Y Gymdeithas Genedlaethol i Seiri Maen Cofebau, www.namm.org.uk

Ffederasiwn Cenedlaethol o Gyfeillion Mynwentydd, www.cemeteryfriends.org.uk

Y Gymdeithas ar gyfer Gwarchod Adeiladau Hynafol, www.spab.org.uk

Yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Cofebau Rhyfel www.warcofebau.org

*Asiantaethau statudol y llywodraeth:*

Cadw, www.cadw.wales.gov.uk

Historic England, www.historicengland.org.uk

Historic Scotland, www.historic-scotland.gov.uk

Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon, www.doeni.gov.uk

**Darllen defnyddiol**

Caring for Historic Graveyard and Cemetery Monuments - English Heritage

English Churchyard Memorials - Frederick Burgess

Managing the Safety of Burial Ground Memorials – Y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Practical Handbook in Archaeology I5 – Cyngor Archeoleg Prydain

Recording and Analysing Graveyards - H. Mytum

# 11. Gofalu am Waliau Cerrig

***Mae'r daflen hon yn cyflwyno canllawiau ar reoli gwaith cerrig mewn waliau, gofalu am blanhigion ac anifeiliaid cysylltiedig â waliau ac a ddylid cael gwared ar eiddew ai peidio.***

Mae waliau'n tueddu i fod yn waliau cerrig sych, waliau morter calch neu waliau brics ac fel arfer maent yn hŷn na phopeth arall ar safle ac eithrio coed yw efallai!

Gall y dulliau o adeiladu waliau amrywio'n rhanbarthol, gan ddibynnu ar y math o garreg a hefyd a fydd raid i'r wal wrthsefyll rhew difrifol. Er enghraifft, mae gwrychoedd Cernyw a chloddiau Dyfnaint wedi'u llenwi â phridd a rwbel adeiladu, sydd i'r dim i'r hinsawdd dyner yn yr ardaloedd hyn, ond maen nhw'n dal dŵr a byddent yn dioddef o chwyddo oherwydd barrug mewn ardaloedd oerach o'r wlad.

Mae gan wal hanesyddol gymysgedd cyfoethog o liwiau a gweadau ac mae hyn yn adlewyrchu'r garreg a ddefnyddir a hefyd y planhigion, y rhedyn, y mwsoglau a'r cen sydd wedi ymsefydlu arni dros gannoedd o flynyddoedd.

## GOFALU am WALIAU CERRIG

Wrth ystyried atgyweirio neu adfer wal gerrig, rhaid gofyn am y caniatâd angenrheidiol, os oes angen, ac efallai gofyn i waliwr proffesiynol am gyngor.

### Atgyweirio ac ailadeiladu

Pan mae angen atgyweirio neu ailadeiladu darn o wal, chwiliwch am y cerrig neu'r brics gwreiddiol ar y safle. Os oes angen dod â cherrig i mewn, yna ceisiwch gyfateb y math o garreg ac, os yn bosib, defnyddiwch gerrig o chwarel leol (holwch eich Ymddiriedolaeth Daeareg leol am gyflenwyr posib). Yn yr un modd, wrth ddod â brics i mewn, ceisiwch gyfateb y lliw a'r maint yn ofalus (bydd swyddogion cynllunio eich awdurdod lleol yn gallu eich cynghori ynghylch hyn efallai). Ewch ati i atgyweirio neu ailadeiladu yn yr un dull ag y gwnaed y wal yn wreiddiol. Ni fydd gwaith atgyweirio a wneir gan ddefnyddio techneg wahanol yn cyd-fynd a bydd yn effeithio ar bwysigrwydd hanesyddol y wal.



*Trwyn y Llo Eiddewddail*



Oni bai fod rhywun yn eich grŵp chi wedi arfer walio, yna bydd angen cael help neu hyfforddiant o'r tu allan gan waliwr medrus. Mae gweithio ochr yn ochr ag unigolyn medrus yn gallu bod yn brosiect gwirfoddoli rhagorol.

### Waliau cerrig sych

Mae codi waliau cerrig sych yn arfer hynafol sy'n dyddio'n ôl i'r Oes Haearn o leiaf ac roedd yn cael ei ddefnyddio i greu cysgodfannau, amgeyrydd, tomenni claddu, strwythurau seremonïol a chorlannau anifeiliaid. Mae gan lawer o hen safleoedd claddu waliau cerrig o'u hamgylch.

### Sut mae gofalu am waliau cerrig sych

Gall waliau cerrig sych sydd wedi'u hadeiladu'n dda bara am fwy na 100 mlynedd yn braf. Maent yn edrych yn atyniadol, yn derfynau sy'n cadw da byw yn eu lle ac maent yn cefnogi bywyd gwyllt gan adlewyrchu ein traddodiadau ar yr un pryd. Felly mae'n werth edrych ar eu holau.

### Peidiwch byth â rhoi sment mewn waliau cerrig sych.

Mae'n atal y gwlybaniaeth rhag dianc drwy'r cilfachau. Mae'r gwlybaniaeth yn cael ei orfodi allan drwy'r cerrig, sydd wedyn yn fregus i ddifrod ac erydiad. Gall llenwi'r cilfachau ddinistrio cynefin amffibiaid, ymlusgiaid, infertebrata a phlanhigion.

### Atgyweirio waliau sydd wedi dymchwel.

Mae hyn yn bwysig oherwydd mae'r cerrig mewn waliau adfail yn mynd ar goll yn aml – gan arwain at

atgyweirio llawer drutach yn nes ymlaen! Ystyriwch archebu hyfforddwr waliau cerrig sych i gynnal cwrs ar gyfer pobl leol – mwy o hwyl, llai o gost a bydd gan bobl leol brofiad wedyn i wneud gwaith atgyweirio llawn. Cysylltwch â Chymdeithas y Waliau Cerrig Sych i gael gwybodaeth am hyfforddwyr yn eich ardal chi neu holwch o gwmpas yn lleol am rywun sydd â'r sgiliau ac yswiriant i wneud hyn. Gwnewch yn siŵr bod pawb sy'n cymryd rhan yn gwisgo esgidiau a dillad gwarchodol a chofiwch gynnal asesiad risg bob amser.

### Sut mae gofalu am waliau morter calch

Mae'r defnydd cynharaf y gwyddom amdano o forter calch yn dyddio'n ôl i tua 4000CC yn yr hen Aifft. Peidiwch byth ag atgyweirio'r waliau hyn gyda sment. Yn wahanol i sment, mae calch yn hydraidd ac yn caniatáu i unrhyw leithder yn y wal ddod allan. Mae morter calch yn feddal ac yn hyblyg, gan roi lle i symud, felly os yw adeilad yn symud ryw ychydig, ni fydd y calch yn cracio fel sment. Gall atgyweirio gyda sment arwain at uniadau'n ymwthio y tu hwnt i wyneb y garreg, sy'n edrych yn hyll ac yn creu silffoedd bychain dros wyneb y wal i gyd, sy'n hybu pydredd.

- Ailbwyntiwch gan ddefnyddio morter calch sy'n cyfateb i'r gwreiddiol cystal â phosib, i osgoi edrychiad o 'drwsio blêr'.
- Mae'n rhaid atgyweirio gyda morter calch rhwng misoedd Mawrth a Medi – gan roi amser iddo setlo cyn i'r barrug gyrraedd.



*Rhedyn Bras*

- Ystyriwch gynnwys gwirfoddolwyr lleol wrth atgyweirio, o dan gyfarwyddyd contractwr cymwys. Cysylltwch ag adran adeiladau eich cyngor lleol neu Gyfeirlyfr Cadwraeth Adeiladau.
- Gwnewch yn siŵr bod pawb sy'n cymryd rhan yn gwisgo esgidiau, gogls a menig diogelwch (alcali yw calch) a chofiwch gynnal asesiad risg bob tro.

## YSTYRIWCH BLANHIGION ac ANIFEILIAID

Gall hen waliau fod â chyfoeth o blanhigion ac anifeiliaid yn byw arnynt ac ynddynt, wedi adeiladu dros gyfnod o amser. Gall y rhain fod yn fwsoglau, rhedyn, cennau, planhigion sy'n blodeuo, pryfed a phryfed cop ymhlith pethau eraill niferus. Cadwch lygad am friwydd y cerrig ar dop heulog y waliau, rhedyn yn y cilfachau oerach, cysgodol a chen ar y garreg ei hun.

Gall wal galchfaen neu wal ag ynddi forter calch fod ag amrywiaeth llawn o blanhigion sy'n tyfu mewn amodau calchaidd.

Mae ein hinsawdd dyner, laith yn ffafrio llawer o fwsoglau, cennau a rhedyn yn arbennig, ac mae llawer ohonynt i'w gweld ar waliau.



Hefyd gall waliau gynnwys ystlumod sy'n clwydo ac yn gaeafgysgu. Mae sylfeini llaith y waliau'n ddelfrydol ar gyfer madfallod, brogaod a nadroedd defaid, neu famaliaid bychain fel llygod a draenogod.

Dŵr yw'r ffactor allweddol fel rheol i reoli beth sy'n tyfu ar wal ac felly mae waliau cysgodol sy'n wynebu tua'r gogledd yn tueddu i fod â mwy o rywogaethau'n tyfu arnynt na'r ochr heulog sy'n wynebu tua'r de. Yn yr un modd, mae waliau a cherrig yng ngorllewin Prydain yn gyfoethocach o ran planhigion na'r rhai yn y dwyrain.

***Nid yw planhigion sydd â choesynnau meddal, fel rhedyn, trwyn y llo eiddewddail a mwg y ddaear, yn gwneud unrhyw ddifrod ac nid oes angen eu tynnu.***

Os ydych yn atgyweirio neu'n ailadeiladu wal, yna cofiwch am y bywyd gwyllt sydd ynddi:

Tynnwch y planhigion yn ofalus cyn atgyweirio wal a gosodwch y planhigion coesynnau meddal yn ôl yn y cilfachau unwaith y mae wedi'i hailadeiladu. Rhowch y cerrig sydd â chen a mwsogl arnynt yn ôl yn wynebu'r un ffordd ag yr oeddent yn tyfu.

Peidiwch ag atgyweirio wal gyfan ar un tro; yn hytrach gwnewch hynny mewn rhannau, fel bod y planhigion a'r anifeiliaid yn cael cyfle i symud. Mae hon yn ffordd dda o drwsio wal hefyd, gan weithio'n dda i griwiau o wirfoddolwyr.


### Coed a llwyni

Fel rheol, dylid tynnu coed a llwyni sy'n tyfu ar wal neu nesaf ati, naill ai drwy eu tynnu allan os ydynt yn fach neu eu torri gyda thu allan y wal a gwneud toriadau neu ddrilio tyllau i'r bonyn fel ei fod yn cael pydru.

Mewn sawl achos, nid oes posib symud coeden sy'n tyfu mewn wal heb wneud difrod i'r wal ei hun. Efallai, felly, y bydd rhaid i chi dorri'r aildyfiant dro ar ôl tro i ladd y goeden. Weithiau bydd coeden wedi bod yn rhan o wal ers amser maith a bydd posib ei gadael yno fel nodwedd arbennig o'ch safle.

### Eiddew a phlanhigion coesynnau coediog

Mae eiddew yn ffrind ac yn elyn; gall wthio rhwng y cerrig neu'r brics mewn wal gan ei gwanio, ond hefyd gall gynnal wal sy'n dymchwel ar ei thraed a'i harbed rhag cael ei hailadeiladu. Mae hefyd yn lleihau'r eithafion o ran dŵr a thymheredd sy'n achosi traul



*Madfall Llyfn*

## 11. Gofalu am Waliau Cerrig

tywydd ar y gwaith cerrig.

Cyn belled nad yw'n gwreiddio yn y wal, mae gwaith ymchwil yn dangos bod eiddew, yn gyffredinol, yn fwy manteisiol nac anfanteisiol o ran dirywiad cerrig. Felly, nid oes rhaid tynnu'r eiddew bob amser (Ivy on Walls, English Heritage 2010).

Os yw'r eiddew wedi gwreiddio yn y wal ac os ydych chi'n dymuno ei dynnu, yna peidiwch â cheisio gwneud hynny oni bai eich bod yn barod i ailadeiladu'r wal. Efallai fod yr eiddew yn dal y wal at ei gilydd a gall ei dynnu achosi mwy o ddifrod. Ystyriwch docio'r eiddew yn rheolaidd. Os ydych chi eisiau tynnu'r eiddew, peidiwch â thorri'r coesyn a disgwyl iddo farw. Ar waliau, gall torri'r coesyn a gadael yr eiddew ysgogi tyfiant pellach, ffyrnicach yn y gwreiddiau i mewn i'r wal. Wrth benderfynu tynnu eiddew ai peidio, cofiwch ei fod yn llesol iawn i fywyd gwyllt. Os oes posib, ac os yw'n briodol (e.e. heb orchuddio neu gysgodi cennau, mwsoglau a rhedyn), gellir gadael eiddew i dyfu, blodeuo a dwyn ffrwyth.

Gall planhigion coesynnau coediog fel triaglog fod yn niweidiol i waliau cerrig. Er hynny, mae triaglog yn edrych yn atyniadol, felly efallai y byddwch yn dewis ei adael mewn rhai mannau.

### Adar ac anifeiliaid eraill

Gall waliau gyda bylchau a chilfachau, neu gydag eiddew yn tyfu drostynt, gynnwys adar sy'n nythu ac yn gaeafu ac anifeiliaid sy'n gaeafgysgu. Gallai hyn gynnwys rhywogaethau o dan warchodaeth, fel y madfall cribog mawr ac ystlumod.

Os ydych chi'n gwybod bod rhywogaethau o dan warchodaeth yn eich safle claddu chi neu'n agos ato, yna mae'n ddoeth gofyn am gyngor cyn ailadeiladu neu drwsio wal. Cysylltwch â'r awdurdod lleol, yr ymddiriedolaeth natur leol neu asiantaethau statudol y llywodraeth.

Dylid amseru'r gwaith er mwyn osgoi tarfu ar nythod neu greaduriaid sy'n gaeafgysgu, boed yn rhywogaethau dan warchodaeth benodol ai peidio. Yr amser gorau ar gyfer ailadeiladu neu atgyweirio waliau cerrig sych yw ar ddiwedd yr haf neu ddechrau'r hydref (canol mis Awst hyd at ddiwedd mis Hydref). Dyma amser pleserus o'r flwyddyn ar gyfer gweithio yn yr awyr agored, gan osgoi'r tymor nythu a'r gaeaf. Os nad oes unrhyw nythod amlwg yn y wal, yna gallwch weithio yn y gwanwyn ac ar ddechrau'r haf hefyd.

### Cysylltiadau defnyddiol

Cyfeirlyfr Cadwraeth Adeiladau, www.buildingconservation.com

Gofalu am Erw Duw, www.caringforgodsacre.org.uk

Eglwys Loegr, ChurchCare, www.churchcare.co.uk

Yr Eglwys yng Nghymru, www.churchinwales.org.uk/heritage

Cymdeithas Waliau Cerrig Sych, www.dswa.org.uk

Ymddiriedolaethau Daeareg, www.thegeologytrusts.org

Ymddiriedolaethau Natur, www.wildlifetrusts.org

*Asiantaethau statudol y llywodraeth:*

Cadw, www.cadw.wales.gov.uk

Historic England, www.historicengland.org.uk

Historic Scotland, www.historic-scotland.gov.uk

Natural England, www.naturalengland.org.uk


Cyfoeth Naturiol Cymru, www.cyfoethnaturiol.cymru

Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon, www.doeni.gov.uk

Scottish Natural Heritage, www.snh.gov.uk



*Rhedyn y Derw*



*Dryw*

### Darllen defnyddiol

Ivy on Walls - English Heritage 2010

# 11. Gofalu am Waliau Cerrig

# 12. Gwella Ôl Troed Carbon Eich Safle Claddu

*Mae'r daflen hon yn egluro sut mae mynwentydd eglwysi a chapeli yn storio carbon yn eu coed, eu planhigion a'u priddoedd ar hyn o bryd, a sut gallwch chi fanteisio i'r eithaf ar y broses hon. Mae'n rhoi syniadau i helpu i reoli safleoedd claddu mewn ffyrdd sy'n lleihau'r carbon sy'n cael ei ryddhau i'r atmosffer, a hefyd cynyddu'r carbon sy'n cael ei storio mewn planhigion a phridd. Bydd y ddau ddull yma o weithredu'n lleihau ôl troed carbon eich safleoedd claddu.*

Gall safleoedd claddu fod yn storfa dda o garbon. Mae'r mwyafrif yn cynnwys priddoedd sydd wedi bod yn storio carbon ers degawdau, canrifoedd neu hyd yn oed filenia. Maent hefyd yn cynnwys coed, llwyni brodorol ac weithiau ardal o goetir.

## Y Cylch Carbon a Thanwyddau Ffosil


Mae llawer ohonom ni'n ymdrechu i leihau ein **Hôl Troed Carbon** fel ymateb i newid yn yr hinsawdd. Mae gan Eglwysi Anglicanaidd Cymru a Lloegr darged o 2030 i fod yn sero net o ran carbon ac mae gan enwadau eraill ac awdurdodau lleol dargedau tebyg yn eu lle. Mae carbon deuocsid yn nwy tŷ gwydr allweddol y mae angen ei leihau yn yr atmosffer, ond mae hefyd yn hanfodol i fywyd. Mae bywyd yn cylchdroi o amgylch y cylch carbon sydd, pan na fydd neb yn tarfu arno, yn storio, yn rhyddhau ac yn defnyddio carbon deuocsid ac ocsigen mewn ffordd gytbwys.

Pan fyddwn ni'n meddwl am ddal carbon, mae'r rhan fwyaf ohonom yn meddwl am blannu coed ond mewn gwirionedd nid dyma'r peth gorau i'w wneud bob amser. Mae coed, llwyni, glaswelltir a phridd i gyd yn storio carbon. Gall coeden yn y lle anghywir niweidio cynefinoedd gwerthfawr a sbarduno rhyddhau carbon, felly mae angen gofal.



## Coed, llwyni a choetir

Mae coed a llwyni yn storio carbon mewn pren, yn eu boncyffion, eu canghennau a'u gwreiddiau. Mae coed yn storio mwy o garbon na phlanhigion eraill oherwydd eu maint a'u hoes hir; mae coeden feteran wedi bod yn storio carbon yn ei phren ers blynyddoedd lawer. Gall gwrychoedd fod yn hynafol hefyd a storio carbon hefyd. Oherwydd hyn, mae coed a gwrychoedd yn cael eu gweld yn aml fel y pinacl ar gyfer dal a storio carbon a chaiff cynlluniau plannu eu hyrwyddo fel ffordd o frwydro yn erbyn newid hinsawdd.




## Glaswelltir

Mae glaswelltiroedd yn cael eu hanwybyddu yn aml fel storfa garbon bwysig gan nad ydynt yn cynnwys planhigion gweladwy mawr fel coed neu lwyni. Serch hynny, mae glaswelltiroedd yn storio carbon yn nail, coesynnau a gwreiddiau eu planhigion, a gallant ddal llawer iawn o garbon yn y pridd. Amcangyfrifir bod hyd at 30% o garbon y ddaear yn cael ei storio mewn glaswelltiroedd fel carbon pridd.

## Carbon pridd

Carbon pridd yw'r carbon sy'n mynd i mewn i'r pridd drwy ddeunydd planhigion sy'n pydru.

Pan fydd planhigion neu rannau o blanhigion yn marw, cânt eu torri i lawr a'u defnyddio fel bwyd gan infertebrata fel trychfilod a phryfed genwair, gan ffyngau a gan facteria a microbau eraill. Er bod rhywfaint o garbon deuocsid yn cael ei ryddhau drwy'r broses hon, mae llawer iawn o ddeunydd y planhigyn yn cael ei ymgorffori yn y pridd. Mae'r deunydd hwn wedi'i wneud yn bennaf o garbon ac ocsigen.



Po fwyaf aeddfed yw'r pridd, y gorau ydyw am storio carbon. Mae gan bridd aeddfed, cymhleth, heb lawer o darfu wedi bod arno amrywiaeth eang o infertebrata, mycorhisa ffyngaidd, bacteria a microbau eraill ac maent i gyd wedi'u creu o folecylau carbon. Mae glaswelltir safle claddu yn tueddu i fod yn llawn gwahanol laswelltau, planhigion yn blodeuo, ffyngau a chennau. Mae'r cyfoeth hwn uwch ben y ddaear yn arwain at gyfoeth cyfatebol oddi tani.

# 12. Gwella Ôl Troed Carbon Eich Safle Claddu

### Felly, pa un yw'r gorau?

Nid yw'n hawdd cymharu'n uniongyrchol y carbon mewn coeden feteran, grŵp o lwyni ac ardal o laswelltir: mae cymaint o amrywiadau, fel maint y coed, oedran a math, nifer y rhywogaethau yn y glaswelltir, dyfnder y pridd, y graig sylfaen, y rheolaeth a'r glawiad. Yn hytrach na chymharu yn uniongyrchol, mae'n fwy defnyddiol gwybod bod coed unigol, glaswelltiroedd ac ardaloedd o goetir i gyd yn storfeydd carbon ardderchog. Gyda choed, llwyni a choetiroedd, mae'r rhan fwyaf o'r carbon uwchben y ddaear ac yn weladwy, gyda glaswelltiroedd mae'n anweledig yn bennaf - yn y pridd.

Fel rheol gyffredinol, corsydd mawn a ffeniau sy'n storio'r carbon mwyaf, coetir lled-naturiol aeddfed wedyn, ac wedyn glaswelltiroedd llawn rhywogaethau gan gynnwys y rhai â choed ar wasgar, fel parcdir neu berllan. Ar hyn o bryd rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i gael mwy o wybodaeth am bwysigrwydd penodol mynwentydd ar gyfer storio carbon.

### Lleihau Ôl Troed Carbon safle claddu

Wrth gynllunio sut i leihau ôl troed carbon mynwent eglwys neu gapel neu safle claddu, mae dwy agwedd i'w hystyried:

1 Sut gallwch chi reoli safle claddu i alluogi storio cymaint â phosib o garbon.

2 Sut gallwch chi leihau'r carbon deuocsid neu'r nwyon tŷ gwydr eraill sy'n cael eu rhyddhau drwy leihau'r olew, y petrol a'r cemegau rydych chi'n eu defnyddio wrth reoli mynwentydd a safleoedd claddu.

### Rheoli safle claddu ar gyfer storio carbon

**Coed** (edrychwch ar daflenni A4, A5, A6 ac A7 y Pecyn Gweithredu)

Os ydynt wedi'u plannu'n fwriadol neu wedi hunanhadu, mae coed safleoedd claddu yn storio carbon felly ceisiwch osgoi torri neu docio'r coed oni bai fod hyn yn angenrheidiol am resymau diogelwch neu ddifrod posibl i adeiladau neu henebion.

Coed a Llwyni Presennol:

- Ewch ati i ymestyn bywyd coed a llwyni brodorol fel cyll drwy brysgoedio (torri'r coesynnau wrth eu bôn) neu docio (torri ran o'r ffordd i fyny'r boncyff).
- Ystyriwch adael i ganghennau coed yw feteran a hynafol gyffwrdd â'r ddaear a gwreiddio, mae hyn yn eu hadfywio ac yn cadw'r goeden yn fyw yn hirach.



- Mae pren marw yn cynnwys carbon ac yn dadelfennu'n araf. Meddyliwch am bren marw fel ased i'w storio, naill ai fel pentwr o bren marw neu, os yw'n bosibl ac yn ddiogel, ei adael yn y goeden lle bydd hefyd yn darparu tyllau, cilfachau a holltau i fywyd gwyllt.



- Mae pren hefyd yn gynnyrch defnyddiol a thrwy wneud rhywbeth parhaol byddwch yn storio carbon am oes y gwrthrych rydych yn ei wneud. Os oes angen torri coeden, oes posib defnyddio'r pren ar gyfer estyll, dodrefn neu hyd yn oed bowlen neu ddwy?
- Oes gennych chi wrychoedd? Mae cynyddu arwynebedd gwrych yn arwain at gynnydd uniongyrchol mewn storio carbon. A ellid ei adael i dyfu'n dalach ac yn lletach a phlannu yn unrhyw fylchau?
- Oes angen i chi gribinio dail marw yn yr hydref neu oes posib eu gadael o dan y coed? Os cânt eu gadael, byddant yn cael eu tynnu i'r pridd gan bryfed genwair a byddant yn cynyddu'r carbon yn y pridd. Mae cribinio gwasarn dail i'w roi mewn tomen gompost yn helpu hefyd a dyma'r opsiwn gorau os na ellir eu gadael. (D.S. efallai y bydd angen i chi gribinio dail o laswelltir blodeuog i gynnal y blodau gwyllt, bydd gwasarn dail trwchus a gwair wedi'i dorri yn lleihau amrywiaeth y blodau yn raddol).

### Plannu coed a llwyni newydd

- Weithiau mae lle ar gyfer plannu coed newydd mewn safleoedd claddu. Efallai eich bod yn plannu yn lle coeden a ddisgynnodd mewn storm, neu'n plannu mewn ardal o laswelltir nad yw'n cynnwys llawer o amrywiaeth. Ceisiwch wneud yr arolwg syml yn ein Cydymaith Botanegol i Safleoedd Claddu (ar ein gwefan ni – caringforgodsacre.org.uk) i weld a yw'r lleoliad sydd wedi'i ddewis gennych chi ar gyfer coeden newydd eisoes yn llawn rhywogaethau ac, os felly, byddai lle gwahanol yn well. D.S. os ydych chi'n bwriadu plannu coed, holwch eich esgobaeth, yr awdurdod lleol ac ati, i weld a oes angen caniatâd.
- Allech chi blannu gwrych os oes angen ffin newydd arnoch chi, efallai i amlinellu estyniad i fynwent? Bydd y planhigion gwrych ifanc, egnïol yn storio carbon yn arbennig o gyflym yn eu blynyddoedd cyntaf o dyfiant cyflym.
- Os oes gennych chi welyau blodau, allwch chi blannu llwyni ynddynt?

# 12. Gwella Ôl Troed Carbon Eich Safle Claddu



**Glaswelltir**
(edrychwch ar daflenni A2, A3 ac A8 y Pecyn Gweithredu).


Mae glaswelltiroedd safleoedd claddu yn debygol o fod yn ardderchog ar gyfer storio carbon gan eu bod yn tueddu i gynnwys amrywiaeth gyfoethog o rywogaethau o blanhigion. Gellir cynyddu faint o garbon maent yn eu storio drwy eu rheoli mewn ffordd lai dwys. Po uchaf yw'r nifer o wahanol blanhigion sy'n tyfu yn y glaswelltir, y mwyaf o garbon sy'n cael ei storio. Mae hyn oherwydd y bydd casgliad o rywogaethau sy'n tyfu gyda'i gilydd yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael (golau, dŵr, mwynau) yn effeithiol gan fod gan wahanol rywogaethau wahanol anghenion. Mewn geiriau eraill, mae mwy o rywogaethau yn arwain at ddefnydd mwy effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael, sy'n cynyddu cynhyrchiant, gan gynyddu'r carbon sy'n cael ei dynnu o'r atmosffer a'i ddefnyddio ar gyfer tyfiant planhigion.

Mae mwy o blanhigion hefyd yn golygu bod mwy o falurion planhigion yn mynd i'r pridd ac yn cynnal ystod ehangach o anifeiliaid, gan gynnwys infertebrata'r pridd, a gall llawer ohonynt fod yn benodol i blanhigion arbennig. Drwy gael amrywiaeth o flodau dôl, yn ogystal â glaswelltau, mae mwy o garbon yn cael ei storio o fewn gwreiddiau planhigion, gan fod blodau'r ddôl yn tueddu i fod â gwreiddiau hirach na rhywogaethau o laswelltau.

Mae gwyndwn talach yn golygu bod mwy o garbon yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu coesynnau a dail planhigion, mae hefyd yn golygu bod y gwreiddiau'n mynd yn ddyfnach i gynnal y planhigion mwy. Mae gwreiddio dyfnach yn arwain at fwy o weithgarwch pridd sydd, yn ei dro, yn arwain at storio mwy o garbon yn y pridd.

Bydd glaswellt byr yn storio carbon ond nid yw'n storio cymaint â glaswellt tal.

Bydd glaswelltir gyda dim ond ychydig o rywogaethau yn storio carbon ond nid yw'n storio cymaint â glaswelltir yn llawn gwahanol laswelltau, blodau gwyllt a chysylltiad cyfoethog o infertebrata.



D.S. nid yw glaswelltiroedd yn parhau i storio mwy a mwy o garbon dros ganrifoedd, maent yn cyrraedd pwynt dirlawnder. Mae'n bwysig cadw'r carbon hwnnw dan glo o fewn y glaswelltir. Mae hyn yn wir hefyd am gynefinoedd naturiol eraill fel mawnogydd neu goedwigoedd aeddfed.

Ystyriwch:

- Cynyddu arwynebedd y glaswellt dôl talach yn eich safle claddu (edrychwch ar A2 ac A3).
- Rheoli ardaloedd o laswellt byr ychydig yn wahanol – beth am gael glaswellt canolig sy'n cael ei dorri'n fisol gyda'r bar torri yn ei leoliad uchaf? (edrychwch ar A2). Bydd y gwahaniaeth bach yma'n cynyddu'r carbon sy'n cael ei storio uwchben ac o dan y ddaear ac yn parhau i fod yn hawdd ei reoli ac yn daclus.
- Cadw cofnod o'r planhigion yn eich glaswelltir; mae gan lawer o safleoedd claddu amrywiaeth eang o blanhigion glaswelltir ond i'r rhai nad oes ganddynt, efallai y byddwch eisiau ystyried gwella'r gwyndwn drwy blannu hadau neu eginblanhigion (edrychwch ar B10, y Cydymaith Botanegol a'n gwefan ni am wybodaeth am ddefnyddio iNaturalist).

## Carbon Pridd

Mae safleoedd claddu yn dueddol o fod â phriddoedd aeddfed a neb wedi tarfu arnynt. Pan mae pridd yn noeth, mae'n erydu sy'n arwain at ryddhau'r carbon o fewn y pridd yn ôl i'r atmosffer. Pan fydd malurion planhigion yn y pridd yn dod i'r golwg, maent yn dadelfennu'n gyflym, gan ryddhau carbon. Pur anaml y bydd priddoedd safleoedd claddu yn erydu gan nad ydynt yn cael eu torri gan aredig neu gloddio. Ar wahân i gloddio beddau, mae'r priddoedd hyn wedi bod yn dyfnhau'n raddol, gyda rhwydwaith cymhleth o infertebrata, ffyngau a microbau yn ffurfio. Mae cloddio beddi, er yn tarfu ar y pridd, yn gadael y pridd yn agored i'r aer am gyfnod byr ac wedyn mae'r pridd yn cael ei ailosod yn ei le a'r dywarchen yn cael ei gosod yn ôl ar ei ben.

Ystyriwch:

- Gan ddilyn y camau uchod ar gyfer glaswelltir, mae hyn yn effeithio ar y pridd a'r carbon sy'n cael ei storio ynddo.
- Osgoi cloddio diangen. Mae safleoedd claddu yn cynnwys cynefinoedd bioamrywiol, aeddfed felly nid oes angen ceisio 'gwella' drwy gynnwys pwll neu wneud gwelyau blodau ychwanegol.
- Mae cadw'r pridd wedi'i orchuddio â llystyfiant yn helpu i atal colli carbon, felly cynhwyswch blanhigion sy'n gorchuddio'r ddaear o fewn y gwelyau blodau.

Mae llystyfiant talach fel dôl yn hytrach na lawnt fer yn creu parth dyfnach o bridd gweithredol sy'n gysylltiedig â gwreiddiau planhigion dyfnach. Mae pridd gweithredol yn cynnwys mwy o garbon wedi'i storio gan ei fod yn llawn bywyd.

## 12. Gwella Ôl Troed Carbon Eich Safle Claddu

**Lleihau'r olew, y petrol a'r cemegau rydych chi'n eu defnyddio** (edrychwch ar daflen D6 y Pecyn Gweithredu)

Efallai bod y tasgau rheoli rydych chi a gwirfoddolwyr eraill y fynwent yn eu gwneud yn defnyddio tanwyddau ffosil, ond gellir lleihau'r defnydd ohonynt, neu hyd yn oed ei ddileu. Dyma rai egwyddorion lleihau carbon i'w hystyried a cheisio eu dilyn.

Ystyriwch:

**Lleihau'r defnydd o offer pŵer.** Mae'r rhan fwyaf o offer pŵer (gan gynnwys peiriannau torri gwair) yn cael eu gyrru gan betrol ac mae llai o ddefnydd yn golygu bod llai o garbon deuocsid yn cael ei ryddhau. Oes arnoch chi angen chwythwr dail neu drimiwr gwrychoedd neu a fyddai cribin a theclyn tocio yn gwneud y tro? Pan fydd angen i chi brynu offer newydd, dewiswch offer trydan efallai ac ystyriwch gyflenwr trydan sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy.

**Torri'r gwair yn llai aml.** Yn hytrach na glaswellt byr sy'n cael ei dorri bob pythefnos, beth am gyfuniad o laswellt canolig sy'n cael ei dorri'n fisol a glaswellt tal sy'n cael ei adael heb ei dorri am 3 i 4 mis – angen llawer llai o dorri a llawer mwy o flodau! (edrychwch ar daflenni A2 ac A3 y Pecyn Gweithredu)

**Defnyddio'r hyn sydd gennych wrth law.** Mae symud pethau mewn cerbydau yn golygu defnyddio tanwyddau ffosil felly ceisiwch ddefnyddio neu brynu yn lleol. Ydych chi'n addurno'r eglwys gyda blodau wedi'u tyfu yn lleol neu hyd yn oed o'r fynwent, neu ydyn nhw'n cael eu mewnforio?

**Arbed dŵr** drwy gasglu a defnyddio dŵr glaw i ddyfrio blodau. Mae trin a symud dŵr yn cymryd amser, cemegau a thanwyddau ffosil. Beth am osod casgenni dŵr o dan bibellau dŵr yr eglwys?

**Osgoi cemegau** fel chwynladdwyr a phlaladdwyr. Rydym wedi gweld bod mwy o amrywiaeth yn golygu mwy o storio carbon a gall cynhyrchu'r cemegau hyn fod yn broses drom o ran carbon.

**Compostio** gwastraff gwyrdd neu adael iddo bydru ble mae, mewn pentwr o bren marw neu fel gwasarn dail mewn ardaloedd coediog. D.S. cofiwch gribinio a symud y dail a'r glaswellt wedi'i dorri o'ch ardaloedd glaswelltir bob amser, peidiwch â'u gadael i bydru ar y gwyndwn neu byddwch yn colli'ch blodau gwyllt yn raddol!

**Osgoi llosgi** dail neu bren marw. Beth am greu pentwr o bren marw a rhoi dail yn y compost. Mae llosgi yn rhyddhau carbon ar unwaith yn wahanol i ddadelfennu araf.

**Ceisiwch gymryd cam ar y siwrnai hon**
Mae'n allweddol eich bod chi'n gwneud hyn yn raddol, mae newid yn cymryd amser, ac mae'n bwysig parhau i reoli'ch safle wrth i chi newid systemau. Ceisiwch gynnwys y gwirfoddolwyr a'r gymuned leol wrth i chi wneud y newidiadau hyn, efallai y bydd syniadau a fyddai'n gweithio yn eich gerddi neu fannau gwyrdd cyhoeddus hefyd. Dechreuwch gyda rhywbeth bach, fel symud o dorri'r glaswellt byr bob pythefnos i bob mis ac wedyn dilyn hyn gyda newid arall y gellir ei gyflawni, casgenni dŵr efallai. Mae pob cam ar y siwrnai'n helpu ac mae'n dda canolbwyntio ar yr hyn y gallwch chi ei gyflawni yn hytrach na'r hyn na allwch ei newid yn hawdd.

### Dolenni Defnyddiol

Tudalen amgylchedd yr Eglwys yng Nghymru
www.churchinwales.org.uk/en/about-us/our-campaigns/environment/

Tudalen amgylchedd yr Eglwys yn Lloegr
www.churchofengland.org/environment

Treeconomics www.treeconomics.co.uk

Coed Cadw www.woodlandtrust.org.uk



### Darllen Defnyddiol

Taflenni Pecyn Gweithredu'r CfGA y cyfeirir atynt uchod:

A2 Gofalu am laswelltir

A3 Torri glaswellt tal a rhoi sylw i'r gwair wedi'i dorri

A4 Archwilio a gofalu am goed

A5 Coed yw a choed feteran eraill

A6 Rheolaeth ymarferol ar goed a llwyni

A7 Gofalu am wrychoedd

A8 Creu dolydd blodau gwyllt a helpu bywyd gwyllt

B10 Arolygu planhigion ac anifeiliaid

D6 Cynaliadwyedd

Mae BBC Bitesize yn helpu i esbonio'r cylch carbon, ôl troed carbon a chynhesu byd-eang mewn ffordd syml
www.bbc.co.uk/bitesize

Cyllidwyd y daflen weithredu hon gan Raglen Amgylchedd yr Eglwys yng Nghymru ac Eglwys Loegr


YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

THE CHURCH OF ENGLAND


# 12. Gwella Ôl Troed Carbon Eich Safle Claddu

# 1. Nadroedd Defaid ac Ymlusgiaid ac Amffibiaid Eraill

## Amffibiaid ac Ymlusgiaid Prydeinig Cyffredin

| AMFFIBIAID<br>Anifail | Cynefin | Bwyd / ysglyfaethwyr |
|---|---|---|
| ***Madfall llyfn*** Y gwryw wedi'i farcio'n dda gydag ochrau brith yn y tymor magu.<br>***Madfall palfaidd*** Gellir ei gamgymryd am fadfall llyfn y tu allan i'r tymor magu. Y ffordd orau i wahaniaethu rhyngddynt yw drwy ddefnyddio gwddw brith y madfall llyfn.<br>***Madfall cribog mawr*** Y madfall mwyaf. Mae gan y gwryw grib trawiadol yn ystod y tymor magu.<br>***Llyffant*** Croen llyfn, melynwyrdd/ brown ei liw gyda blotiau tywyllach.<br>***Broga*** Croen dafadennog ac yn fwy brown na llyffant. | I'w canfod mewn pyllau, ffosydd a llynnoedd ac o'u hamgylch yn ystod y cyfnod dodwy wyau, ond hefyd mewn coed a dolydd ac ati.<br>Mae'r canlynol yn nodweddion cynefin da i'r holl amffibiaid hyn:<br>• Gofod o dan gerrig llorio ar gyfer gaeafgysgu<br>• Pren marw ar gyfer gaeafgysgu<br>• Denu pryfed a gwlithod fel ffynhonnell o fwyd<br>• Pwll ar gyfer magu ynddo gyda llawer o blanhigion yn gysgod<br>• Glaswellt tal i guddio rhag ysglyfaethwyr | Pryfed, gwlithod, wyau a phenbyliaid amffibiaid eraill.<br>Yn cael eu bwyta gan grehyrod, dyfrgwn yn achlysurol, adar ysglyfaethus a mamaliaid pan mae bwyd yn brin<br> |

Dilynwch gylch bywyd nodweddiadol amffibiad i weld sut gallwch chi wella eich mynwent. Mae dŵr yn rhan hanfodol o gylch bywyd amffibiad ond mae'n gamsyniad eu bod yn byw mewn dŵr drwy'r amser.





| YMLUSGIAID<br>Anifail | Cynefin | Bwyd / ysglyfaethwyr |
|---|---|---|
| ***Gwiber*** Yr unig neidr wenwynig ym Mhrydain. Patrwm igam-ogam ar y cefn; melyn hufennog i lwyd ei lliw; y benywod yn gochach | Ffafrio ymyl y coetir / rhostir / rhedyn | Bwydo ar famaliaid bychain |
| ***Neidr y gwair*** Corff melynwyrdd, smotiau neu resi tywyll, coler felen a du nodedig y tu ôl i'r pen, 70-100cm o hyd | I'w chanfod yn ymyl dŵr yn aml, glaswellt talach. Dodwy wyau mewn tomenni compost yn aml. | Bwyta penbyliaid, llyffantod a physgod |
| ***Madfall*** 14cm o hyd, talcen brown / melyn. Marciau gwyrdd gyda chefn rhesog | I'w canfod mewn glaswelltir, ymylon caeau a choetiroedd, angen glaswelltir sych, byr i dorheulo ac ardaloedd o laswellt talach i ddianc iddynt | Pryfed |
| ***Neidr ddefaid*** Madfall heb goesau, 30cm o hyd. Y gwrywod yn llwyd, gyda smotiau bychain glas ar eu hochr yn aml. Y benywod yn frown a du gyda llinell ddu ar y cefn | Gwrychoedd gydag ymylon glaswelltog, ymylon coetiroedd. Tomenni compost ar gyfer gaeafgysgu. Glannau cynnes, heulog | Bwyta gwlithod, lindys a phryfed |

# 1. Nadroedd Defaid ac Ymlusgiaid ac Amffibiaid Eraill

Gofalu am Erw Duw

***Mae'r daflen hon yn dweud wrthych chi am ein rhywogaeth bwysig, y neidr ddefaid, gyda chanllawiau ar sut mae helpu ymlusgiaid ac amffibiaid yn gyffredinol.***

## RHYWOGAETH BWYSIG

Mae'r neidr ddefaid yn rhywogaeth ddiniwed ymhlith yr ymlusgiaid ac mae i'w chanfod ledled y DU. Mae nadroedd defaid yn gallu ffynnu mewn ardaloedd gwledig a threfol a gall tir claddu fod yn llesol iawn iddynt. Gydag ychydig o ofal ychwanegol, gall safle fod yn addas i nadroedd defaid ac, ar yr un pryd, helpu ymlusgiaid eraill fel neidr y gwair ac amffibiaid fel llyffantod, brogaod a madfallod.

**Mae'r neidr ddefaid yn rhywogaeth bwysig i Gofalu am Erw Duw.**

**Rydym yn gweithio gyda Grwpiau Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid ledled y DU er mwyn annog nadroedd defaid mewn safleoedd claddu ac i gael gwybod pa safleoedd maent yn eu defnyddio**


amphibian and reptile conservation

ARG UK

## ADNABOD NADROEDD DEFAID

Mae'r neidr ddefaid yn cael ei chamgymryd yn aml am neidr, gyda'i henw'n ategu hynny, ond madfall ydyw mewn gwirionedd, heb goesau. Mae ganddi amrannau a thafod fflat sy'n fforchio ac mae'n gallu gollwng ei chynffon i ddianc rhag ysglyfaethwr. Mae'r nodweddion hyn i gyd yn perthyn i fadfallod, nid i nadroedd. Mae nadroedd defaid yn tyfu o fod yn 4cm wrth ddeor i fod yn tua 30cm o hyd ac maent yn gallu byw am amser hir; mae'r record yn cael ei dal gan neidr ddefaid wrywaidd a fu fyw am 54 o flynyddoedd yn Sŵ Copenhagen!

Fel pob ymlusgiad, mae'r neidr ddefaid yn defnyddio gwres yr haul i'w chynhesu ei hun. Er hynny, pur anaml mae'n torheulo mewn llecyn agored; fel rheol, mae'n cuddio'n gyson, mewn glaswellt tal yn aml, neu bentyrrau o goed a thomenni compost, ble mae'n hela am ysglyfaeth sy'n symud yn araf, fel gwlithod a phryfed genwair. Mae'n gaeafgysgu yng nghanol glaswellt twmpathog, pentyrrau o goed, tomenni compost neu gerrig, gan ddod allan yn y gwanwyn a magu ym mis Mai. Disgrifir nadroedd defaid fel ymlusgiaid sy'n 'rhoi genedigaeth' i rai bach yn hytrach nag ymlusgiaid sy'n dodwy wyau. Yn dechnegol, er hynny, mae'r neidr ddefaid fenywaidd yn dal yr wyau mewn pilen yn ei chorff nes bod y rhai bach yn cael eu geni ym mis Awst neu fis Medi. Gelwir y math yma o 'enedigaeth fyw' yn 'ŵy-fywesgoredd'.


Neidr ddefaid


### *Cadw at y Gyfraith*

Mae pob ymlusgiad wedi'i warchod gan y gyfraith ac mae'n anghyfreithlon eu lladd neu eu hanafu'n fwriadol, neu eu gwerthu.


*Cawn penwyn*

### Sut mae helpu nadroedd defaid ac ymlusgiaid ac amffibiaid eraill

- Cael amrywiaeth o gynefinoedd, fel glaswellt o wahanol daldra, danadl poethion, mieri, gwrychoedd a waliau cerrig. Gadael rhywfaint o laswellt twmpathog neu lwyn nesaf at wal neu wrych.
- Cadw rhai ardaloedd heb goed tal a llwyni trwchus. Er bod nadroedd defaid yn hoffi llechu mewn ardaloedd o laswellt, mae'n bwysig bod yr ardaloedd hyn yn agored i'r haul fel bod y ddaear yn cynhesu digon i'r nadroedd defaid fod yn egnïol. Mae coed a llwyni'n rhoi gormod o gysgod; maent yn ffafrio glaswellt hir a thwmpathog. Mae'n rhaid i nadroedd defaid gadw tymheredd eu corff yn y 20oC uchel i dreulio bwyd ac er mwyn i'r ifanc ddatblygu yn y fenyw.



# 1. Nadroedd Defaid ac Ymlusgiaid ac Amffibiaid Eraill


- Cael tomen gompost, mewn llecyn heulog os yn bosib. Bydd yn safle torheulo, yn lle i nadroedd y gwair ddodwy eu hwyau ac i nadroedd defaid hela am fwyd. Cadwch lygad am wyau nadroedd y gwair mewn tomenni compost; mae'r rhain yn wyn ac fel lledr ac yn tua 3cm o hyd. Mae'r ifanc yn deor ym mis Awst neu fis Medi, felly ni ddylech wagio'r domen gompost tan fis Hydref.
- Creu tomen o bren marw mewn glaswellt tal neu dwmpathog. Mae nadroedd defaid, llyffantod, brogaod a madfallod yn gaeafgysgu ac yn hela yno. Wrth i'r pren bydru, mae'r bwyd yn cynyddu. Gall pentwr o gerrig ddarparu llecynnau gaeafgysgu a gorffwyso.
- Wrth dorri glaswellt, gwnewch yn siŵr bod y safle'n glir cyn dechrau defnyddio peiriannau torri a strimar mewn glaswellt tal neu dwmpathog.
- Gall cofadeiladau gysgodi ymlusgiaid ac amffibiaid. Mae waliau a beddrodau'n gysgod da. Mae glaswellt twmpathog o amgylch cofadeiladau ac yn erbyn waliau, yn gysylltiedig yn ddelfrydol ag ardaloedd eraill o laswellt tal, yn ddelfrydol.

### Dod o hyd i nadroedd defaid


Er eu bod i'w canfod ledled Prydain, pur anaml mae rhywun yn gweld neidr ddefaid. I weld oes gennych chi nadroedd defaid, edrychwch o dan 'wrthrychau gorchuddio' fel darnau o garped neu haearn rhychog (edrychwch ar daflen B10, Arolygu am Blanhigion ac Anifeiliaid) yn ogystal â chadw llygad amdanynt cyn torri glaswellt.

### Dywedwch wrthym am fywyd gwyllt eich safle claddu

Rhowch wybod i Gofalu am Erw Duw neu Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid am y nadroedd defaid a'r ymlusgiaid a'r amffibiaid diddorol eraill rydych chi'n eu gweld.



*Llyffant*



*Broga*

### Cysylltiadau defnyddiol

Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid, www.arc-trust.org

Grwpiau Amffibiaid ac Ymlusgiaid y DU – rhwydwaith o grwpiau lleol, www.arguk.org


Gofalu am Erw Duw – dywedwch wrthym beth rydych chi wedi'i ganfod yn eich safle, www.caringforgodsacre.org.uk

Froglife, www.froglife.org

### Darllen defnyddiol

Reptiles and Amphibians of Britain and Ireland – siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes

Reptiles and Amphibians of the UK, www.herpetofauna.co.uk



*Madfall*

# 2. Draenogod a Mamaliaid Eraill

***Mae'r daflen hon yn cyflwyno gwybodaeth am ddraenogod; ein partneriaeth i'w hyrwyddo a chanllawiau ar sut mae rheoli safle claddu er budd draenogod a mamaliaid eraill.***

## RHYWOGAETH BWYSIG

Mae draenogod angen ein help ni – mae'r niferoedd wedi dirywio'n ystod y degawdau diwethaf, gostyngiad o 50% mewn nifer o ardaloedd, a gall tir claddu helpu gyda'u goroesiad. Gyda pheth gofal ychwanegol, gallai eich safle chi ddod yn llecyn i ddraenogod nythu, bwydo neu aeafgysgu ynddo.

**Mae'r draenog yn rhywogaeth bwysig i Gofalu am Erw Duw.**

**Rydym yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth y Bobl ar gyfer Rhywogaethau Mewn Perygl a Chymdeithas Gwarchod Draenogod Prydain er mwyn annog draenogod mewn safleoedd claddu.**

people's trust for endangered species

British Hedgehog Preservation Society

## ADNABOD DRAENOGOD

Mae draenogod i'w canfod ledled Prydain fwy neu lai, gan gynnwys trefi a dinasoedd, yn arbennig y rhai gyda rhwydwaith o safleoedd claddu, parciau a gerddi. Blew wedi'u haddasu yw pigau draenogod mewn gwirionedd, ac wrth i ddraenog gyrlio i fyny, mae'n un bêl o bigau. Nid yw wyneb, brest, bol na choesau'r draenog yn bigog, ond mae ganddo ffwr llwydfrown garw.

Mae draenogod yn bwysig i arddwyr, er mwyn bwyta plâu. Maent yn bwydo'n bennaf ar chwilod, lindys, pryfed genwair, pryfed clustiog, gwlithod a malwod. Weithiau maent yn bwyta cig marw, fel adar a mamaliaid marw, ac wyau adar a ffrwythau sydd wedi syrthio oddi ar goed a llwyni.



Creadur nosol yw'r draenog a gall fod yn bresennol heb i neb sylwi. Mae'n tueddu i chwilio am fwyd mewn ardal gymharol eang, gan deithio tua milltir neu ddwy mewn noson.

Mae ganddo synnwyr arogl da, ond nid yw'n gallu gweld yn dda, ac mae'n greadur chwilfrydig tu hwnt, sy'n gallu ei arwain i lefydd na fydd yn gallu dod ohonynt.



*Eilun-berllys Bychan*

Mae draenogod yn tueddu i fod yn anifeiliaid sy'n treulio eu hamser ar eu pen eu hunain, ar wahân i'r tymor magu, pan fydd y gwrywod yn mynd i chwilio am y benywod.

Mae'r caru'n swnllyd ac, ar ôl paru, mae'r gwryw yn gadael y fenyw i fagu ei rhai bach heb unrhyw help. Mae'r rhai bach yn cael eu geni rhwng mis Mai a mis Medi, a bydd rhwng 2 a 6 yn y torllwyth. Maent yn aros yn y nyth am y pedair wythnos cyntaf ac yna maent yn dechrau dod oddi ar laeth y fam ac mae hi'n eu harwain ar helfeydd yn ystod y nos i chwilio am fwyd. Yn fuan wedyn bydd y rhai bach yn gadael y nyth ar eu pen eu hunain ac mae'r teulu'n gwahanu. Mae'r draenogod yn gaeafgysgu o ddiwedd yr hydref ymlaen (gan ddibynnu ar y tywydd) ac maent yn gwneud nyth o hen ddail sych, glaswellt ac unrhyw lystyfiant arall sydd ar gael. Gall hyn fod ym môn gwrych, mewn tomen gompost, yng nghanol gwreiddiau coed neu o dan bentyrrau o goed.

Wrth aeafgysgu, mae corff y draenog yn arafu ac nid yw'n symud dim. Yna mae'n deffro ac yn dod allan yn y gwanwyn; mae'r amseru unwaith eto'n dibynnu ar y tywydd ac am faint mae ei storfeydd o fraster yn para

## HELPU DRAENOGOD

Mae llawer o bethau y gallwch chi eu gwneud i annog draenogod ac i roi cyfle da iddynt ffynnu.

### Bwyd a chysgod

Ceisiwch gael glaswellt o daldra amrywiol, gan gynnwys glaswellt tal a thwmpathog (gweler taflen A2, Gofalu am Laswelltir), gwrychoedd yn lle ffensys ac ardaloedd heb fod yn rhy daclus.

Mae pentyrrau o bren marw, yn pydru'n araf, yn ffynhonnell fwyd ragorol; yn llawn chwilod a phryfed genwair.

# 2. Draenogod a Mamaliaid Eraill

Hefyd, mae tomenni compost yn cynnig cyfoeth o fwyd. Mae draenogod yn defnyddio tomenni compost a bôn gwrychoedd ar gyfer nythu a gaeafgysgu. Hefyd maent yn defnyddio pentyrrau o ddail, glaswellt twmpathog, bylchau mewn gwaith cerrig, llwyni trwchus a bylchau o amgylch gwreiddiau coed. Rhowch ddysgl fas o ddŵr mewn tywydd poeth, sych.

### Osgoi peryglon

Gall draenogod gael eu hanafu neu eu lladd gan amrywiaeth o beryglon:

- Mae cemegau fel plaladdwyr, peledi gwlithod neu gadwolion coed yn beryglus i ddraenogod. Gall draenog fwyta naill ai'r cemegyn neu'r pla a laddwyd ac mae'n llyfu cadwolion oddi ar ffensys hefyd. Ceisiwch ddefnyddio cynhyrchion amgylcheddol-gyfeillgar.
- Byddwch yn ofalus wrth roi fforch mewn tomen gompost, wrth strimio ardal o laswellt twmpathog ac wrth gynnau coelcerth. Oes draenog yn nythu neu'n gaeafgysgu? Mae'r hydref yn amser da i wagio biniau compost – mae draenogod wedi gorffen nythu ac nid ydynt yn gaeafgysgu eto. Cofiwch adeiladu coelcerth ar y diwrnod mae i gael ei gynnau bob amser.
- Mae draenogod yn gallu nofio ond maent yn gallu cael eu dal mewn pwll neu gynhwysydd dŵr os yw'r ochrau'n rhy serth i'w dringo. Maent yn gallu syrthio i ddraeniau hefyd. Crëwch allanfa hwylus gan ddefnyddio darn o bren ar oleddf neu bentwr o gerrig.


### Helpu draenogod i symud o gwmpas

Mae draenogod a mamaliaid eraill yn teithio llwybr dyddiol i ddod o hyd i fwyd a chysgod ac maent angen ardal gymharol fawr ar gyfer hyn. Ceisiwch ei gwneud yn hawdd iddynt ddod i mewn i'r safle a mynd allan ohono. Bydd bwlch bychan yng ngwaelod ffens neu beidio â gosod netin yn agos at y ddaear yn helpu gyda hyn. Gall ceisio 'cadw'r draenog i mewn' ei gadw allan hefyd.

### Dod yn Hyrwyddwr Draenogod ar Stryd y Draenogod!

### Cofiwch ddweud wrthym am ddraenogod mewn safleoedd claddu

Fe hoffai Gofalu am Erw Duw, Ymddiriedolaeth y Bobl ar gyfer Rhywogaethau Mewn Perygl a Chymdeithas Gwarchod Draenogod Prydain glywed am unrhyw ddraenogod rydych chi'n eu canfod mewn safleoedd claddu, felly cofiwch gysylltu os byddwch yn gweld draenog (byw neu farw) neu olion draenogod.



*Llygoden y maes*

Cofiwch ddweud wrthym am famaliaid eraill diddorol hefyd!

## MAMALIAID ERAILL CYFFREDIN mewn SAFLEOEDD CLADDU

Mae llawer o famaliaid eraill yn byw mewn safleoedd claddu neu'n ymweld â hwy'n rheolaidd wrth grwydro. Mae tyrchod daear a moch daear yn bwydo ar bryfed genwair ac infertebrata eraill. Gall moch daear achosi problemau wrth dyllu beddau os yw'r pridd yn rhydd (gweler taflen A9, Planhigion ac Anifeiliaid Sy'n Niwsans).Mae llygod a chwistlod yn bwydo ar blanhigion, blodau, aeron a phryfed. Bydd cwningod yn pori'r glaswelltir. Efallai y bydd gwiwerod yn nythu yn y coed mwy ac yn bwydo yn y coed a'r llwyni ledled y safle. Yn eu tro, mae'r mamaliaid llai hyn yn denu ysglyfaethwyr mwy; llwynogod, gwencïod, carlymod a ffwlbartiaid sy'n hela am lygod a chwningod.

### Helpu mamaliaid eraill

Gall amrywiaeth o ffynonellau bwyd drwy gydol y flwyddyn fod yn allweddol i oroesi. Mae gwreiddiau, glaswellt, blodau, cnau, hadau ac aeron i gyd yn cael eu defnyddio gan wahanol anifeiliaid. Mae mosaig o laswellt o wahanol daldra'n darparu bwyd a chysgod.

Infertebrata; o wybed mân i chwilod, pryfed genwair, gwlithod a malwod, maen nhw i gyd yn fwyd i famaliaid ac mae mamaliaid bychain yn fwyd i rai mwy.

Gall dŵr fod yn hanfodol i oroesi, yn enwedig pan mae'n dywydd sych iawn. Fedrwch chi roi dysgl fach o ddŵr ar y safle?

**Cysylltiadau defnyddiol**

Cymdeithas Gwarchod Draenogod Prydain, www.britishhedgehogs.org.uk

Hedgehog Street, www. hedgehogstreet.org

Ymddiriedolaeth y Bobl ar gyfer Rhywogaethau Mewn Perygl, www.ptes.org

Cymdeithas y Mamaliaid, www.mammal.org.uk

**Cyfeiriadau defnyddiol**

A Guide to British Mammal Tracks and Signs – siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes

Land Mammals of Britain – siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes




*Gwiwer lwyd*

# 3. Ystlumod yn y Clochdy

***Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth am ystlumod a chanllawiau ynghylch sut mae rheoli safleoedd claddu er budd ystlumod.***

Mae ystlumod wedi'u canfod mewn mynwentydd eglwysi a safleoedd claddu ers amser maith, gan glwydo mewn eglwysi ac adeiladau eraill yn aml iawn. Gall clwydi'r ystlumod fod mor hen â'r adeilad ei hun, gyda thua 60% o'r eglwysi sy'n dyddio o gyfnod cyn yr 16eg ganrif yn cynnwys clwydi ystlumod. Ceir dwy rywogaeth ar bymtheg o ystlumod brodorol yn y DU, gydag wyth o'r rhain yn defnyddio eglwysi neu gapeli ar gyfer clwydo, gan gynnwys rhai o'r rhywogaethau llai cyffredin, fel yr ystlum clonclyd a'r ystlum serontin. Bydd ambell un o'r naw rhywogaeth sy'n weddill yn clwydo mewn coed mawr fel coed yw.




## BETH SY'N DENU YSTLUMOD i SAFLEOEDD CLADDU?

### Safleoedd clwydo

***Dydi ystlumod ddim yn clwydo yn y clochdy … gormod o sŵn!***

***Mae ystlumod yn defnyddio gwahanol glwydi drwy'r tymhorau fel rheol.***

Mae ystlumod angen clwydi meithrin ar gyfer y rhai ifanc, clwydi gaeaf i aeafgysgu a hefyd clwydi dros dro i dreulio eu bwyd ac i gysgu yn ystod y dydd. Mae ystlumod yn clwydo mewn cilfachau glân a thawel heb unrhyw ddrafftiau, ble mae'r tymheredd yn gyson. Mewn eglwysi neu gapeli, gellir dod o hyd i ystlumod o dan y bondo, yn y portsh, o dan deils y to, yn uniadau'r hen goed, a'r tu ôl i nenfydau, lluniau'n hongian neu blaciau coffa. Hefyd maent yn clwydo mewn beddrodau, mewn tyllau neu graciau mewn wal, y tu ôl i eiddew neu ym mhyrth mynwentydd. Wrth glwydo mewn coed, maent yn defnyddio tyllau, cilfachau, rhisgl yn plicio a bylchau y tu ôl i eiddew ac mae coed feteran yn llawn safleoedd clwydo posib i ystlumod.

Mae pentwr o dail sych, bychan, neu dail ar wasgar, yn arwydd o bresenoldeb ystlumod, ac mae'r tail hwnnw'n cynnwys gweddillion pryfed ac yn briwsioni'n llwch. Gall maint a siâp y tail ddweud wrthych chi pa rywogaeth sy'n bresennol. Gellir gweld staeniau iwrin yn agos at yr hoff safleoedd clwydo.

### Bwyd

Mae safleoedd claddu'n tueddu i gynnwys cymysgedd o goed mawr, glaswelltir, blodau, ardaloedd o laswellt tal neu dwmpathog, tomenni compost, pentyrrau o goed a gwaith cerrig. Nid oes cemegau ynddynt yn gyffredinol ac maent yn tueddu i fod yn flerach na gerddi ac efallai eu bod wedi bod yno ers amser maith. Mae hyn i gyd yn arwain at boblogaeth dda o bryfed. Mae hedfan yn defnyddio llawer iawn o egni ac felly mae safle gyda chyfoeth o bryfed yn allweddol i ystlumod.

Gall ystlumod hedfan yn bell i chwilio am fwyd felly hyd yn oed os nad oes gennych chi ystlumod yn clwydo yn eich safle claddu, efallai eu bod yn ymweld.

### *Cadw at y gyfraith*

Mae ystlumod a chlwydi ystlumod wedi'u gwarchod gan y gyfraith. Mae'n drosedd lladd neu anafu ystlumod yn fwriadol, neu darfu arnynt neu eu dal. Mae hefyd yn drosedd difrodi, dinistrio neu rwystro mynediad i le a ddefnyddir gan ystlumod ar gyfer cysgod neu warchodaeth.

Cofiwch warchod clwydi ystlumod mewn adeiladau a gofyn am gyngor cyn cynllunio gwaith atgyweirio ac

adfer a chyn gwneud newidiadau i oleuadau allanol mewn safle claddu.

Gan fod ystlumod yn defnyddio gwahanol glwydi yn ystod y flwyddyn, mae amser y gwaith yn bwysig.

Rhaid gwarchod clwydi ystlumod mewn coed. Cyn trin coed mawr, gofynnwch i weithiwr ystlumod cymwys eu hasesu am bresenoldeb ystlumod neu glwydi.

Mae'n rhaid i chi ofyn am help a chyngor gan asiantaethau cadwraeth statudol neu eich cyngor lleol cyn gwneud unrhyw waith adeiladu neu waith rheoli coed os oes ystlumod yn debygol o fod yn nythu ar y safle.

### Beth ddylech chi ei wneud os dowch chi o hyd i ystlum

Os byddwch yn aflonyddu ar ystlum sy'n gaeafgysgu neu'n dod o hyd i ystlum ifanc ar y ddaear, yna ffoniwch yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod am gyngor. Os na ellir gadael yr ystlum (ystlum ifanc ar y llawr er enghraifft), dylech ei godi gan wisgo menig trwchus neu unrhyw offer gwarchodol arall a'i roi mewn blwch gyda thyllau aer (bocs esgidiau yn addas). Rhowch gadach wedi'i grychu yn y blwch, iddo allu cysgodi ynddo, a chynhwysydd bas iawn (caead pot jam)



o ddŵr mewn un cornel. Gadewch y blwch mewn lle tawel, tywyll ac oer nes daw'r gwyll. Bryd hynny, rhowch y blwch ar ei ochr mewn llecyn sydd tua 1.5m oddi ar y ddaear ac yn agos at ble daethoch chi o hyd i'r ystlum; fel bod yr ystlum yn gallu cropian allan. Mae ystlumod yn gallu brathu, felly byddwch yn ofalus.



### Creu clwydi ac annog pryfed

- Gosod blychau ystlumod yn eu lle. Creu blychau pren eich hun neu brynu rhai prencrid sydd wedi'u cynllunio'n arbennig (o wneuthuriad Schwegler).
- Mae gwrychoedd o rywogaethau brodorol cymysg sy'n 2m o uchder o leiaf yn llesol i ystlumod, yn enwedig os nad ydynt yn cael eu trimio bob blwyddyn.
- Rheoli blodau gwyllt a glaswelltir gan fod glaswellt tal neu dwmpathog yn bwysig i löynnod byw, gwyfynod a phryfed eraill, y mae ystlumod yn bwydo arnynt.

### Sut mae gwylio ystlumod

Gallwch weld ystlumod drwy ymweld â safle yn y gwyll neu awr cyn y wawr ac eistedd yn dawel.

Gall gwylio ystlumod fod yn ddigwyddiad arbennig. Beth am wahodd grŵp ystlumod lleol i helpu; efallai y gallant ddod ag offer canfod ystlumod gyda nhw, sy'n trosi cri'r ystlum yn sain clywadwy. Yna gellir adnabod y rhywogaeth o ystlum oddi wrth ei gri.

Mae'r tymor gwylio ystlumod yn dechrau pan mae'r haul yn machlud rhwng misoedd Mai a Medi ac i wylwyr ac ystlumod fel ei gilydd dylai'r tywydd fod yn sych, yn gynnes ac yn llonydd. Bydd ystlumod yn dechrau dod allan o'u clwydi yn y gwyll, gan ddal ati i wneud hynny unwaith mae'n dywyll.

Ceisiwch ddarganfod o ble mae'r ystlumod yn dod ac, os ydych chi'n gallu eu gweld yn dod allan o'u safle yn glir, faint ohonynt ydych chi'n eu gweld.

**Cysylltiadau defnyddiol**

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, www.bats.org.uk

Eglwys Loegr, ChurchCare, www.churchcare.co.uk

Yr Eglwys yng Nghymru, www.churchinwales.org.uk/heritage

*Asiantaethau statudol y llywodraeth:*

Cadw, www.cadw.wales.gov.uk

Cyfoeth Naturiol Cymru, www.cyfoethnaturiol.cymru

Historic England, www.historicengland.org.uk

Historic Scotland, www.historic-scotland.gov.uk

Natural England, www.naturalengland.org.uk

Scottish Natural Heritage, www.snh.gov.uk

Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon, www.ehsni.gov.uk



**Darllen defnyddiol**

Bats in Churches: A Management Guide (cyhoeddiad Natural England)

Bats in Churches and how you can help them - www.bats.org.uk

# 4. Gwenoliaid Duon ac Adar Eraill

*Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth am wenoliaid duon; ein partneriaeth i'w hybu a chanllawiau ar sut mae rheoli safle claddu i helpu adar.*

## MAE'R WENNOL DDU YN RHYWOGAETH BWYSIG I GOFALU AM ERW DUW

***Mae gwenoliaid duon angen help! Mae nifer y gwenoliaid duon sy'n magu yn y DU yn gostwng. Yn ystod y pymtheng mlynedd diwethaf, mae niferoedd yr aderyn rhyfeddol a hardd yma wedi gostwng ryw 40%.***

Mae adnewyddu adeiladau i'w gwneud nhw'n fwy ynni effeithlon ac i ddal dŵr yn well wedi cael gwared ar lawer o safleoedd nythu ac efallai fod y gostyngiad yn nifer y pryfed wedi cael effaith hefyd. Y newyddion gwell ydi bod gan gadeirlannau, eglwysi, capeli a themlau safleoedd nythu addas fel rheol, a gall y safle claddu ei hun wneud tir hela da.

Rydym yn gweithio gyda Swift Conservation i geisio defnyddio safleoedd claddu ac adeiladau crefyddol i gefnogi'r boblogaeth o wenoliaid duon.

SWIFTCONSERVATION
KEEPING THE SKIES ALIVE www.swift-conservation.org

## ADNABOD Y WENNOL DDU

Mae gwenoliaid duon yn edrych yn debyg iawn i wenoliaid a gwenoliaid y bondo, ond maent yn perthyn yn agosach i aderyn y si. Mae gwenoliaid duon yn grŵp o adar eithriadol ero-ddeinamig, sy'n treulio'r rhan fwyaf o'u bywyd yn hedfan. Maent yn bwydo, yn yfed, yn paru ac yn cysgu dan hedfan ac yn gallu cyrraedd uchder o hyd at 3000m a chyflymdra o tua 70mya.

Ar ôl gadael y nyth, ni fydd y gwenoliaid duon ifanc yn glanio am dair neu bedair blynedd, nes eu bod wedi aeddfedu ac yn barod i fagu. Mae siâp y wennol ddu mor addas i hedfan fel nad yw'n gallu glanio ar dir gwastad ac mae ganddi draed a choesau bach iawn. Gan nad yw gwennol ddu byth yn glanio ar y ddaear, mae'n dilyn bod unrhyw wennol ddu y dowch chi o hyd iddi ar y llawr yn debygol o fod wedi anafu neu'n sâl, ac angen help arbenigol. Ni ddylid ei thaflu i'r awyr byth.

Dim ond am ryw dri mis mae'r gwenoliaid duon yma yn y DU, ac maent yn gadael yn syth wedi i'r cywion hedfan y nyth. Mae amseriad y tri mis yn dibynnu ar ledred a'r tywydd, ond maent rhwng misoedd Ebrill ac Awst.

Mae gwenoliaid duon yn treulio gweddill y flwyddyn yn mudo ac yn Affrica'r Cyhydedd a Dwyrain Affrica.

Mae gwenoliaid duon yn bwydo ar bryfed mân sy'n hedfan; affidau, morgrug hedfan, mosgitos, pryfed hofran a chwilod mân, gan gasglu bwyd mewn cod yn ngwaelod y geg. Mae gwennol ddu sydd yn ei llawn dwf yn dod â phêl fwyd neu 'folws' yn ôl i'w rhai bach.

Mae'r bolws yn cael ei gasglu wrth deithio pellteroedd maith ac mae'n cynnwys miloedd o bryfed. Gall y rhai ifanc aros am amser hir iawn rhwng prydau!

Mae gwenoliaid duon yn paru am oes ac yn dychwelyd i'r un safleoedd nythu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Maent yn tueddu i nythu mewn criw ac mae ganddynt gri sgrechian sy'n denu gwenoliaid duon i safle nythu. Maent yn nythu mewn twll mewn clogwyn, wal neu do gyda'r nyth gyfan o'r golwg yn llwyr. Mae adeiladau tal gyda mwy nag un llawr, fel eglwysi a thyrrau, yn gwneud safleoedd nythu da. Gall blocio mynedfeydd i nythod fod yn drychineb i boblogaeth gyfan.



*Gwennol ddu*

Mae gwenoliaid duon yn tueddu i fwyta tail eu cywion ac felly does dim llanast fel rheol o dan nyth gwennol ddu.

### Rheoli er lles gwenoliaid duon

Mae gwenoliaid duon wir angen llefydd i nythu. Mae cadeirlannau, eglwysi, capeli, temlau ac amlosgfeydd i gyd yn addas. Gellir gosod 'tyllau nythu', blychau nythu neu frics gwenoliaid duon mewn adeiladau ac arnynt (yn cynnwys rhai rhestredig) heb anhawster ac yn aml does dim posib eu gweld o'r tu allan . Mae bondoeau'n hynod addas a hefyd holltau awyru, lwfrau a bargodau mewn tyrrau ac eglwysi. Cyn belled nad oes gan y gofod nythu unrhyw agoriad i du mewn yr adeilad, ni fydd y wennol ddu'n gallu mynd i mewn, sy'n gallu bod yn beryglus iawn i'r adar yn ogystal ag yn broblem i bobl!

### *Cadw at y gyfraith*

Mae gwenoliaid duon wedi'u gwarchod gan y gyfraith; mae'n anghyfreithlon eu lladd neu eu niweidio, neu wneud difrod i'w nythod neu eu hwyau. Yn ymarferol, gall hyn effeithio ar amseriad gwaith atgyweirio ar

## 4. Gwenoliaid Duon ac Adar Eraill

adeilad ble ceir gwenoliaid duon. Peidiwch â gwneud gwaith adnewyddu nac ail-doi os oes gwenoliaid duon yn bresennol.

Os oes angen blocio unrhyw dyllau nythu gyda gwaith adeiladu, yna chwiliwch am ffyrdd o greu twll artiffisial, 'twll nythu' mor agos â phosib at y gwreiddiol. Mae hyn yn galluogi i adeiladau wrthsefyll tywydd yn well ac maent yn fwy ynni effeithlon, heb amharu ar y gwenoliaid duon.

Gyda'r cyngor priodol, gall gwaith adeiladu naill ai warchod tyllau nythu presennol y gwenoliaid duon neu greu rhai artiffisial iddynt, nad ydynt i'w gweld o'r tu allan ac sydd ddim yn mynd yn groes i statws adeilad rhestredig. Mae tyrrau a phigdyrrau'n hynod addas ar gyfer y tyllau nythu artiffisial yma. Os ydych chi eisiau annog gwenoliaid duon i ddechrau nythu ar adeilad, yna gall chwarae recordiad o gri'r gwenoliaid duon eu hudo.

Mae gan Swift Conservation flynyddoedd lawer o brofiad o weithio gydag adeiladau amrywiol a gall eu harbenigwyr lleol ddarparu cyngor am ddim ar y technegau ar gyfer creu tyllau i wenoliaid duon, gan gynnwys manylion ar gyfer gwneud blychau nythu. Cysylltwch â Gofalu am Erw Duw neu Swift Conservation i gael gwybod am adeiladau ble mae llefydd nythu hanesyddol i'r wennol ddu wedi cael eu gwarchod neu ble mae blychau nythu a thyllau nythu wedi cael eu creu'n arbennig a'u gosod yn eu lle. Mae'r rhain yn cynnwys eglwysi, cadeirlannau a synagogau.

### ADAR ERAILL

Gall safleoedd claddu fod yn bwysig iawn i adar eraill hefyd, gan ddenu adar tebyg i'r rhai a geir mewn gerddi mawr gyda llwyni a choed aeddfed. Mae adar fel yr aderyn du, y fronfraith a'r dryw yn defnyddio safleoedd claddu drwy gydol y flwyddyn, gan nythu yn y coed a'r gwrychoedd. Cadwch lygad am y nico yn bwydo ar hadau a'r gwybedog brith yn clwydo ar gerrig beddau, gan hedfan i ddal pryfed ac yna dychwelyd i'w glwyd. Os oes gennych chi goed yw, efallai y gwelwch chi adar yn bwydo ar yr aeron tua diwedd yr haf. Yn y gaeaf, fe welwch chi heidiau cymysg o adar bach, fel titwod a philaod, yn bwydo yn y coed a'r gwrychoedd, neu fronfreithod y gaeaf, fel y coch dan-aden a'r socan eira, yn bwydo ar aeron y coed celyn a'r criafol.

***Adar nodweddiadol mewn safleoedd claddu – yn seiliedig ar arolwg gan Ymddiriedolaeth Adareg Prydain***


| | | | |
|---|---|---|---|
| Aderyn du | Robin | Titw tomos las | Llinos werdd |
| **BRONFRAITH** | Dryw | **DRUDWEN** | **Llwyd y berth** |
| **ADERYN Y TO** | Titw mawr | Ji-binc | Ysguthan |
| **GWYBEDOG BRITH** | Nico | **Coch y berllan** | Ydfran |
| **Telor yr helyg** | **LLINOS** | **Gwennol Ddu** | Telor penddu |
| **Colomen wyllt** | Titw penddu | Dryw eurben | **Brych y coed** |
| Turtur dorchog | Tylluan frech | | |

Asesir nifer yr adar gan system 'golau traffig'; mae gwyrdd yn golygu bod y boblogaeth genedlaethol yn iach, mae ambr yn achos pryder, gyda'r niferoedd yn dirywio, ac mae coch yn ddifrifol gyda'r niferoedd yn dirywio'n gyflym neu'n isel iawn.

Mae'r adar mewn print **trwm** ar y **rhestr ambr**

Mae'r adar mewn **PRIF LYTHRENNAU** ar **RESTR GOCH 2015**

(Adroddiad ar Gyflwr Adar y DU)




*Coch dan-aden*

#### Helpu adar


Ceisiwch ddarparu cymaint o fwyd a chysgod naturiol â phosib, gan gynnwys y canlynol:

- Coed aeddfed a feteran sy'n cynnwys tyllau, cilfachau a phren marw (edrychwch ar daflen A8, Helpu Bywyd Gwyllt).
- Planhigion sydd ag aeron, ffrwythau, egroes a chriafol sy'n ffurfio llwyni trwchus ar gyfer nythu.
- Gwrychoedd gyda safleoedd nythu ac aeron, hadau a ffrwythau drwy'r hydref a'r gaeaf. Peidiwch â thrimio'r gwrychoedd bob blwyddyn.
- Clytiau garw gyda danadl poethion, mieri, ysgaw a phrysgwydd. Bydd y rhain yn cynnwys pryfed ac yn darparu bwyd a chysgod yn y gaeaf.

# 4. Gwenoliaid Duon ac Adar Eraill



*Gwybedog Brith*



*Dryw*



*Nico*

Mae adar yn gwella safleoedd claddu a bydd y math a'r nifer o adar sy'n bresennol yn newid yn unol â'r tymor a'r amser o'r dydd. Gall hyn greu llawer o ddiddordeb a phleser i ymwelwyr. Gyda phwysau ar ein cefn gwlad a gerddi'n cael eu colli, mae safleoedd claddu'n chwarae rhan gynyddol bwysig yng nghadwraeth adar a arferai fod yn gyffredin iawn, fel y ddrudwen, y fronfraith ac aderyn y to. Mae 44 miliwn o barau o adar magu wedi cael eu colli yn y DU ers 1966 (adroddiad blynyddol yr RSPB).


- Mae eiddew trwchus yn gysgod ac wrth iddo ddod i ffrwyth mae'n llawn pryfed. Dylid rhoi blaenoriaeth uwch i dynnu eiddew oddi ar goed yw feteran (edrychwch ar daflen A5, Coed Yw a Choed Feteran Eraill).
- Mae tomenni compost a phentyrrau o goed yn darparu pryfed genwair ac infertebrata.
- Mae mosaig o laswelltir gyda glaswellt byr, tal a thwmpathog yn darparu bwyd i adar sy'n bwyta hadau a phryfed.
- Bydd twmpathau morgrug nad oes neb wedi tarfu arnynt o fudd i'r gnocell werdd, sy'n bwydo ar forgrug yn bennaf.
- Dŵr mewn dysgl neu fath adar. O'i osod ar y ddaear gall anifeiliaid eraill ei ddefnyddio hefyd.
- Safleoedd nythu naturiol a/neu amrywiaeth o flychau nythu.
- Dylid osgoi defnyddio cemegau, yn enwedig plaladdwyr, oherwydd mae'n lleihau'r bwyd gwyllt sydd ar gael i adar.
- Gosodwch flychau nythu i wenoliaid duon ar adeiladau.

***Cadw at y gyfraith***

Mae adar gwyllt wedi'u gwarchod gan y gyfraith:

Mae'n anghyfreithlon cymryd neu ladd unrhyw aderyn gwyllt neu gymryd, difrodi neu ddinistrio ei nyth tra mae'n cael ei defnyddio neu'n cael ei hadeiladu.

Dylid gwneud gwaith ar adeiladau, waliau, coed neu wrychoedd y tu allan i'r tymor nythu. Dylid osgoi gwaith rhwng misoedd Mawrth ac Awst os ydych chi'n amau bod adar yn nythu'n bresennol.



*Cnocell Werdd*



*Cnocell fraith fwyaf*

# 4. Gwenoliaid Duon ac Adar Eraill

## Canfod pa adar sy'n bresennol

Cadwch ddyddiadur o'r adar rydych yn eu gweld a gwnewch nodyn o'r hyn maent yn ei wneud. Er enghraifft, mae cario deunydd nythu'n awgrymu eu bod yn adeiladu nyth, mae cario bwyd yn dynodi bod cymar naill ai'n eistedd ar wyau neu bod cywion yn cael eu bwydo. Efallai fod adar ifanc sy'n begera wedi dod o nyth ar y safle neu o safle arall gerllaw.

Bydd yr hydref a'r gaeaf yn dod ag adar gwahanol; heidiau o bilaod a thitwod, bronfreithod y gaeaf fel coch dan-aden neu socan eira, ac efallai y clywch chi dylluan frech yn galw yn yr hydref wrth i'r oedolion yrru'r rhai ifanc allan o'r tiriogaeth. Mae'r tylluanod gwrywaidd a benywaidd yn defnyddio cri 'tyrwit', a atebir gan 'whww' isel gan y gwryw yn unig. Dylid glanhau unrhyw flychau nythu yn y gaeaf a gweld pa fath o nyth sy'n bresennol.

Efallai y byddwch yn dewis llunio ffurflen gofnodi syml er mwyn annog pobl i gofnodi'r adar maent yn eu gweld.

Ymunwch â Digwyddiad Mawr yr RSPB ar gyfer Gwylio Adar y Gerddi, sy'n cael ei gynnal dros benwythnos tua diwedd Ionawr.

### Arolwg Adar

Dyddiad: 12fed Mai 2012 Amser: 9am tan 11 am

Enw: Mrs A. Egan (ffôn: 235678)

Tywydd: Braf a heulog, awel ysgafn

| Rhywogaeth | Nifer | Y gweithgarwch a gofnodwyd, e.e., canu, bwydo, adeiladu nyth ac ati |
|---|---|---|
| Aderyn du | 5 | Canu, bwyd i'w nyth |
| Gwennol ddu | 3 | Mynd i mewn i'w nyth ym mondo'r eglwys |
| Siff-saff | 1 | Canu |
| Bwncath | 1 | Hedfan uwch ben |
| | | |

## Cysylltiadau defnyddiol

Ymddiriedolaeth Adareg Prydain, www.bto.org

Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, www.rspb.org.uk

Cadwraeth Gwenoliaid Duon, www.swift-conservation.org

Ymddiriedolaeth yr Hebog a'r Dylluan, www.hawkandowl.org

Ymddiriedolaethau Natur, www.wildlifetrusts.org

## Darllen defnyddiol

Adroddiad Blynyddol 2015 – cyhoeddiad RSPB

Big Garden Bird Watch – gwefan RSPB

Collins Bird Guide

Owls and Owl Pellets – siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes

The State of the UK's Birds - cyhoeddiad RSPB

Top 50 Garden Birds – siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes

# 5. Cacwn a Gwenyn Eraill, Gwenyn Meirch a Morgrug

***Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth am gacwn, gwenyn meirch a morgrug; ein partneriaeth i'w hybu a chanllawiau ar sut mae rheoli safle claddu er eu lles.***

**Mae cacwn yn grŵp pwysig i Gofalu am Erw Duw.**

Mae cacwn angen help oherwydd eu bod wedi dirywio yn y DU gan ein bod wedi colli blodau'n gyffredinol o'n tirlun. Fel rheol, mae gan safleoedd claddu dri pheth y mae cacwn eu hangen i oroesi – bwyd, cysgod a safleoedd nythu.

Bumblebee Conservation Trust

**Rydym yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn er mwyn annog cacwn mewn safleoedd claddu.**

## ADNABOD EICH CACWN

Mae cacwn yn fwy, gyda mwy o flew, na gwenyn eraill, ac felly maent yn gweddu'n dda i'n hinsawdd ni. Maent yn bryfed cymdeithasol ac yn byw mewn nythod o hyd at 400 o unigolion, yn cael eu rheoli gan frenhines. Yn wahanol i wenyn mêl, nid ydynt yn heidio, nid ydynt yn ffyrnig (er fe all y frenhines eich pigo), a dim ond am flwyddyn mae nyth yn para.

### Cylch bywyd cacynen


Ar ddechrau'r gwanwyn daw'r frenhines allan o'i chyfnod gaeafgysgu i fwydo ar baill a neithdar o blanhigion sy'n blodeuo'n gynnar. Mae'n chwilio am dwll sych ar y ddaear neu oddi tano, fel twll llygoden gota neu waelod twmpath o laswellt bras. Mae'n gwneud nyth.


*Briallu Mair sawrus*

Mae pelen o baill, mewn pot mêl cwyrog maint gwniadur, yn cael ei lenwi gyda neithdar ac mae wyau'n cael eu dodwy ynddo, ac mae cylch bywyd yr haf yn dechrau.

Mae cacwn yn hanfodol ar gyfer peillio ein planhigion. Maent hefyd yn brysur mewn tywydd oerach. Y wenynen gyntaf welwch chi yn y gwanwyn, a'r olaf yn yr hydref, fydd cacynen fwy na thebyg.

Ceir 24 rhywogaeth o gacwn brodorol ym Mhrydain, gydag 8 i'w gweld yn eang iawn. Gellir eu hadnabod yn gymharol hawdd gyda llyfr neu siart. Edrychwch yng ngwefan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn neu siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes ar gacwn.



# 5. Cacwn a Gwenyn Eraill, Gwenyn Meirch a Morgrug

## ADNABOD GWENYN ERAILL, GWENYN MEIRCH a MORGRUG

Ceir mwy na 250 o rywogaethau o wenyn yn y DU i gyd ac mae 90% o'r rhain yn wenyn ar eu pen eu hunain. Nid yw'r rhain yn nythu gyda'i gilydd ac maent i'w canfod mewn tyllau, craciau neu gilfachau bychain, mewn ardaloedd o bridd noeth yn aml. Edrychwch mewn waliau cerrig, oherwydd efallai eu bod yn cynnwys saerwenyn, ac mewn hen gregyn malwod hefyd! Fel cacwn a gwenyn mêl, maent yn beillwyr pwysig.

### Gall gwenyn meirch fod yn gymdeithasol neu ar eu pen eu hunain.


Mae gwenyn meirch cymdeithasol yn tueddu i wneud nyth o ffibrau coed sy'n cael eu cnoi a'u gwneud yn rhyw fath o bapur. Mae gan wenyn meirch unigol amrywiaeth o arferion nythu, gan gynnwys gwneud celloedd mwd ar frigau neu waliau neu ddefnyddio tyllau bychain. Mae gwenyn meirch yn tueddu i fod yn barasitig, gan ddodwy wyau yng nghorff rhywogaeth arall, pryf arall yn aml. Mae gwenyn meirch yn bwysig ar gyfer rheoli niferoedd y rhywogaethau hyn, sy'n gallu bod yn blâu yn aml iawn.

Mae morgrug yn sborionwyr ar bryfed a chyrff marw, ac maent hefyd yn fwyd i amrywiaeth o anifeiliaid eraill. Mae morgrug yn byw gyda'i gilydd ac mae rhai rhywogaethau'n creu twmpathau morgrug sydd i'w canfod yn aml mewn hen laswelltir nad oes neb wedi tarfu arno, fel safleoedd claddu. Mae twmpathau morgrug yn cael eu gwneud gan forgrug melyn y ddôl, rhywogaeth ddiniwed iawn.

### Twmpathau morgrug

Gall y rhain fod yn hen iawn, a hyd at fetr o uchder. Maent yn arwydd o hen laswelltir nad oes neb wedi tarfu arno. Top y coloni yw'r darn uwch ben y ddaear, gyda chyfres o orielau'n ymestyn o dan y ddaear. Mae'r orielau hyn yn cael eu cynnal a'u cadw gan forgrug arbenigol, sef y gweithwyr, sy'n eu llenwi gydag affidau. Mae'r affidau'n bwydo ar wreiddiau planhigion. Yna mae'r gweithwyr yn "godro'r" affidau o'u cawod fêl.

Mae twmpathau morgrug yn gynnes gyda phridd rhydd ac mae ganddynt blanhigion penodol yn tyfu arnynt. Maent yn safleoedd bwydo da ar gyfer adar ac anifeiliaid eraill. Mae'r gnocell werdd yn bwydo ar forgrug yn bennaf.




## HELPU CACWN, GWENYN, GWENYN MEIRCH a MORGRUG

Mae gwenyn a gwenyn meirch yn cael eu camgymryd am ei gilydd yn aml. Ychydig iawn o rywogaethau sy'n achosi niwsans ond maent i gyd yn edrych yn gymharol debyg.

Os byddwch yn cael problem gyda gwenyn meirch, gofynnwch am gyngor i adnabod y rhai cywir cyn gweithredu mewn unrhyw ffordd.

### Bwyd a chysgod

- Gadewch ardaloedd o laswellt tal a thwmpathog. Gall y glaswellt trwchus yma, a thyllau llygod a llygod cota, ddod yn safleoedd nythu i gacwn.
- Darparwch amrywiaeth o flodau sy'n cynhyrchu neithdar drwy gydol y flwyddyn. Yn ddelfrydol, bydd y rhain yn flodau gwyllt brodorol.
- Mae tomenni compost a phentyrrau o goed ble ceir digon o lonydd yn safleoedd nythu a gaeafgysgu ar gyfer cacwn.
- Gwnewch westy gwenyn! (edrychwch ar daflen A8, Helpu Bywyd Gwyllt). Mae bwndeli o goesynnau gwag mewn llecyn heulog yn darparu safleoedd ar gyfer gwenyn unigol.
- Cofiwch warchod unrhyw dwmpathau morgrug rhag difrod. Mae'n rhaid iddynt fod mewn haul llawn felly cofiwch eu cadw'n glir o gysgod coed, mieri neu lwyni.


### Cysylltiadau defnyddiol

Yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Cadwraeth Cacwn, www.bumblebeeconservation.org

Buglife, www.buglife.org.uk

### Darllen defnyddiol

Guide to bees of Britain – siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes



*Morgrug melyn y ddôl*

# 6. Glöynnod Byw, Gwyfynod a Phryfed Eraill

***Mae'r daflen hon yn dangos pwysigrwydd safleoedd claddu i löynnod byw ac infertebrata eraill llai gweladwy ac mae'n rhoi canllawiau ar sut mae rheoli er eu lles.***

Mae safleoedd claddu a mynwentydd yn cynnig hafan i löynnod byw, gwyfynod a llu o bryfed eraill fel pryfed tarian, chwilod, buchod coch cota a sioncod y gwair. Mae glöynnod byw a gwyfynod yn dodwy eu hwyau ar lawer o blanhigion a choed amrywiol, sy'n darparu bwyd wedyn ar gyfer y lindys wrth iddynt dyfu.

## CADWCH LYGAD AM…..


Glesyn y celyn – glöyn byw nodweddiadol mewn safleoedd claddu oherwydd ei brif fwyd yw celyn ac eiddew. Mae glesyn y celyn yn magu ddwywaith ac mae'r wyau'n cael eu dodwy ar flodau sydd heb agor. Mae'r criw cyntaf yn bwydo ar yr aeron sy'n datblygu, neu ddail ifanc y celyn. Mae'r ail griw o wyau'n cael eu dodwy ar eiddew ac yn bwydo ar ei aeron sy'n datblygu yn yr hydref. Mae glesyn y celyn yn unigryw ymhlith glöynnod byw Prydain am fod â dau fwyd i'w lindys.

Gellir gweld y brithribin porffor ar ganghennau uchaf y dderwen a'r brithribin gwyn mewn coed llwyfen (neu mewn gwrychoedd sy'n cynnwys llwyfenni), ble mae'n dodwy ei wyau.



*Boneddiges y Wig*

Mae Boneddiges y wig yn gaeafgysgu ac yn dod allan yn gynnar, ac i'w gweld yn hedfan ym misoedd Ebrill a Mai, gan ddodwy ei hwyau ar goesynnau sawl planhigyn, gan gynnwys garlleg y berth a blodyn y gwcw. Mae'r gwryw, gyda'i adenydd blaen oren, yn amlwg iawn yn hedfan uwch ben y planhigion yn chwilio am gymar. Mae blas anghynnes ar y glöynnod byw yma, felly ar ôl bwyta un boneddiges y wig, mae'r lliw oren llachar yn rhybuddio ysglyfaethwyr rhag gwneud hynny eto! Mae gadael i flodau dyfu a bwrw had cyn torri o fudd i foneddiges y wig a llawer o bryfed eraill. Mae rhai glöynnod byw angen glaswellt tal neu dwmpathog, gan gynnwys brith y coed, sy'n dodwy ei wyau ar laswellt tal yn y cysgod, ac efallai y gwelir y Wal yn torheulo ar garreg fedd cyn dodwy wyau ar dwmpathau o laswellt. Gellir gweld llawer iawn o'r Gwibiwr mawr a bach a llwyd y ddôl mewn glaswellt tal, blodeuog. Mae llwyni a gwrychoedd yn llesol i löynnod byw, gan gynnwys y porthor a'r iâr fach fodrwyog. Bydd glöyn melyn llachar y brwmstan yn dodwy wyau ar rafnwydd neu lwyni rhafnwydd gwerni. Mae danadl poethion yn bwysig i löynnod byw, gan ddarparu bwyd ar gyfer yr adain garpiog, glöyn yr ysgall, yr iâr fach lygadog, y fantell goch, yr iâr fach amryliw, y gwyfyn Y euraid hardd, y gwyfyn efydd llathredig, y gwyfyn brith gwyrdd a'r gwyfyn sbectolog.



*Gwyfyn bwrned chwe smotyn*



*Adain garpiog*

Yn ogystal â bwyd i lindys, mae llawer o löynnod byw a gwyfynod yn yfed neithdar o flodau ac yna maent yn eu peillio. Mae planhigion fel lafant, coed mêl, rhewlys, triaglog a ffarwel haf i gyd yn atyniadol i löynnod byw. Er hynny, y planhigion a'r blodau gwyllt brodorol sy'n nodwedd mor bwysig mewn safleoedd claddu sy'n cefnogi amrywiaeth o löynnod byw, gwyfynod a phryfed eraill.

Mae posib adnabod glöynnod byw yn eithaf hawdd ac, o'u harolygu, bydd canlyniadau'r arolwg yn creu darlun cyffredinol o ba mor addas yw eich tir claddu ar gyfer infertebrata eraill llai hawdd eu hadnabod. Gelwir hyn yn 'ddangosydd gwyddonol'. Mae Butterfly Conservation wedi dyfeisio arolwg ar löynnod byw mewn mynwentydd gyda thaflen gofnodi ac adnabod (edrychwch ar daflen B10, Arolygu am Blanhigion ac Anifeiliaid am fanylion).

Bydd tiroedd claddu cynnes a heulog yn cynnwys mwy o löynnod byw a phryfed eraill oherwydd mae infertebrata angen chwilio am gynhesrwydd yr haul.



*Derwen*

## SUT MAE HELPU GLÖYNNOD BYW A PHRYFED ERAILL

Dewiswch goed neu lwyni brodorol o darddiad lleol (mae hyn yn golygu bod yr hadau wedi'u casglu'n lleol) wrth blannu coed neu wrychoedd newydd. Mae coed sy'n frodorol i Brydain yn tueddu i fod â llawer o wahanol bryfed yn byw arnynt. Mae derw, bedw, helyg a drain gwynion i gyd yn gartref i lawer iawn, gyda choed derw â thua 350 o wahanol rywogaethau o bryfed yn gysylltiedig â hwy.

Rhaid cael glaswellt amrywiol o wahanol hyd, gan gynnwys rhywfaint o laswellt twmpathog nad yw'n cael ei dorri bob blwyddyn (edrychwch ar daflen A2, Gofalu am Laswelltir). Mae llawer o löynnod byw, gwyfynod a phryfed eraill yn dodwy wyau ar goesynnau glaswellt,

# 6. Glöynnod Byw, Gwyfynod a Phryfed Eraill

mewn twmpathau o laswellt neu ar blanhigion eraill a geir mewn glaswellt tal, fel y bengaled benddu.

### Rhai blodau gwyllt sy'n llesol i bryfed


| | | |
|---|---|---|
| Blodyn menyn | Y bengaled | Briallu |
| Meillion | Blodyn y gwcw | Fioled |
| Corn glas | Garlleg y berth | Dant y llew |
| Briallu Mair sawrus | Heboglys | Clychau'r gog |
| Pys y ceirw | Llygad llo mawr | Teim gwyllt |
| Briwydd melyn | | |

Er bod gormod o ysgall neu ddanadl poethion yn gallu bod yn broblem, bydd cael ychydig o glystyrau yn gallu bod yn fuddiol. Dim ond danadl poethion sy'n tyfu'n wyllt (mewn tomen gompost yn aml) fydd y rhan fwyaf o rywogaethau yn eu defnyddio, gyda chysgod rhag y gwynt a haul llawn (edrychwch ar daflen A8, Creu Dôl o Flodau Gwyllt a Helpu Bywyd Gwyllt).

Mae'r rhan fwyaf o löynnod byw a phryfed eraill yn fanwl iawn am ble maent yn dodwy eu hwyau. Maent angen y planhigyn bwyd addas i'w lindys ond pan mae mewn glaswelltir, efallai y bydd angen rheoli hyn yn addas hefyd. Mae torri glaswelltir ar yr amser iawn yn hanfodol i les glöynnod byw a blodau gwyllt. O dorri'n rhy gynnar, bydd mwyafrif yr wyau a'r lindys yn cael eu symud ac wedyn byddant yn marw. O dorri'n rhy hwyr, bydd y blodau gwyllt yn dioddef wrth i laswelltau toreithiog, cryf ddechrau rheoli.

Felly, er budd glöynnod byw, ystyriwch adael rhywfaint o ardaloedd heb eu torri tan ganol mis Awst neu'n hwyrach. Cofiwch fod hyn braidd yn hwyr i flodau, felly amrywiwch leoliad y 'toriad hwyr' yma bob blwyddyn.

Os oes gennych chi welyau blodau, ystyriwch blanhigion llawn neithdar gydag arogl cryf a chyfnod blodeuo hir. Perlysiau fel lafant, teim neu saets efallai?



*Chwilen Gorniog*

Mae pabïau a llygad y dydd yn denu pryfed ac mae murwyll, melyn yr hwyr a blodyn tybaco yn arbennig o dda ar gyfer gwyfynod. Gall planhigion brodorol edrych yn ffantastig o'u plannu'n addurnol; clychlys, briallu Mair sawrus, bysedd y cŵn, llygad llo mawr a grug i enwi dim ond rhai. Bydd y planhigion hyn wedi esblygu dros amser gyda phryfed Prydain fel peillwyr.


Gall blodau eiddew fod yn orlawn o bryfed. Os nad yw'r eiddew yn blodeuo, yna ceisiwch dynnu'r egin ifanc ar y top oddi ar yr hyn sy'n eu cynnal fel eu bod yn hongian yn rhydd; gall hyn annog yr eiddew i newid i gam blodeuo ei dyfiant.

Gwneud gwesty gwenyn (edrychwch ar daflen A8, Helpu Bywyd Gwyllt). Bydd y gwesty'n cael ei ddefnyddio gan lawer o wahanol bryfed, yn ogystal â gwenyn unigol.

Ceisiwch adnabod rhai o'r pryfed mwyaf adnabyddus, fel y gacynen a'r glöynnod byw (edrychwch ar daflen B10, Arolygu Blanhigion ac Anifeiliaid).

### Sioncod y gwair

Mae cyfuniad o laswellt byr, talach a thwmpathog yn gwneud safle claddu'n hafan i sioncod y gwair a chriciaid. Gall rhai safleoedd claddu fod â mwy na 3 sioncyn y gwair i bob troedfedd sgwâr! Mae'r rheiny, yn eu tro, yn ysglyfaeth i bryfed cop ac adar. Er bod sioncod y gwair yn cael eu hadnabod am eu gallu i neidio, efallai y byddwch am gerdded drwy laswellt tal cyn ei dorri, gan eu hannog i symud o ffordd y peiriant torri gwair.



*Corn glas*



*Briallu*




*Teim*

### Cysylltiadau defnyddiol

Cadwraeth Glöynnod Byw, www.butterfly-conservation.org

Buglife, www.buglife.org.uk



*Criciedyn*

### Darllen defnyddiol

Butterflies of Britain – siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes

British Grasshoppers and Allied Insects - siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes

Caterpillars of butterflies of Britain and Ireland - siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes

Guide to Ladybirds of the British Isles - siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes

The Butterflies of Britain and Ireland – Jeremy Thomas a Richard Lewington

## 6. Glöynnod Byw, Gwyfynod a Phryfed Eraill

| Rhywogaeth | Math o Bridd | Uchder Tyweirch Gofynnol | Planhigion sy'n fwyd iddo | Sylw | Tebygolrwydd o fodoli |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwibiwr bach | Pob math | Glaswelltau tal | Glaswelltau amrywiol, yn enwedig maswellt sypwraidd | Angen clytiau o laswellt tal heb eu torri bob blwyddyn. Cylchdroi'r ardaloedd a adewir i'w hatal rhag mynd yn rhy drwchus | Dylai'r holl diroedd claddu gorau ar gyfer glöynnod byw yng Nghymru a Lloegr gynnwys poblogaethau bychain |
| Gwibiwr bach cornddu | Pob math | Glaswelltau tal | Glaswelltau amrywiol, yn enwedig byswellt a maswellt rhedegog | Angen clytiau o laswellt tal heb eu torri bob blwyddyn. Cylchdroi'r ardaloedd a adewir i'w hatal rhag mynd yn rhy drwchus | Dylai'r holl diroedd claddu gorau ar gyfer glöynnod byw yn nwyrain a chanolbarth Lloegr gynnwys poblogaethau bychain |
| Gwibiwr mawr | Pob math | Glaswelltau tal | Glaswelltau amrywiol, yn enwedig byswellt a breichwellt. Glaswellt y gweunydd ar briddoedd asidig | Angen clytiau o laswellt tal heb eu torri bob blwyddyn. Cylchdroi'r ardaloedd a adewir i'w hatal rhag mynd yn rhy drwchus | Dylai'r holl diroedd claddu gorau ar gyfer glöynnod byw yng Nghymru a Lloegr gynnwys poblogaethau bychain, yn enwedig y rhai ag ardaloedd llaith a gwrychoedd |
| Gwibiwr llwyd | Pob math | Angen llwyni o bys y ceirw wedi'u hamgylchynu gan dir noeth. Uchder y glaswellt 2-10cm, yn ffafrio 2-5cm | Pys y ceirw fel arfer, neu bedol y march ar dir is | Angen rhai ardaloedd o laswelltir heulog heb ei dorri sy'n cynnwys pennau hadau'r bengaled ar gyfer clwydo | Dim ond tiroedd claddu sydd wedi'u hamgylchynu gan boblogaeth o'r gwibiwr llwyd fel glaswelltiroedd sialc neu sy'n fawr iawn o ran arwynebedd allai gynnwys y rhywogaeth yma |
| Glöyn brwmstan | Pob math | Dim ond yn defnyddio rhafnwydd, naill ai breuwydd neu rafnwydd carthol, gan ddibynnu ar y math o bridd | Angen rhafnwydd sydd mewn llecyn heulog neu mewn gwrych yn wynebu tua'r de | Dylid cadw rhafnwydd ar uchder o 2m a'i docio'n flynyddol. Yn aml iawn bydd gloÿnnod byw yn eu llawn dwf yn gaeafgysgu mewn eiddew sy'n tyfu ar waliau neu goed | Dylai'r holl diroedd claddu i'r de o'r Alban ddisgwyl gweld y rhywogaeth yma. Mae eu nifer yn dibynnu ar ba mor doreithiog yw rhafnwydd yn yr ardal |
| Iâr wen fawr | Pob math | Unrhyw rywogaeth fawr o fresych gan gynnwys y rhai a dyfir mewn gerddi | Angen planhigion bresych mawr, bydd yn bwydo ar gapan cornicyll | Mae'r niferoedd yn dibynnu'n aml ar fudo o gyfandir Ewrop | Dylai pob math o diroedd claddu weld y rhywogaeth yma. Mae'n defnyddio tiroedd claddu fel ffynhonnell o neithdar yn aml |
| Iâr wen fach | Pob math | Unrhyw rywogaeth fawr o fresych gan gynnwys y rhai a dyfir mewn gerddi. Hefyd rêp hadau olew | Bydd yn fwy cyffredin os yw'r tir claddu'n agos at gaeau rêp hadau olew neu randiroedd trefol | Mae'r niferoedd yn dibynnu'n aml ar fudo o gyfandir Ewrop | Dylai pob math o diroedd claddu weld y rhywogaeth yma. Mae'n defnyddio tiroedd claddu fel ffynhonnell o neithdar yn aml |
| Iâr wen wythiennog | Pob math | Yn bwydo ar arlleg y berth, blodyn y gog a berwr chwerw, sy'n tyfu mewn ardaloedd llaith, mewn gwrychoedd yn aml | Mae llawer o blanhigion bwyd yn rhai bob dwy flynedd ac felly bydd angen planhigion newydd bob blwyddyn. Gall tarfu ar y tir drwy gynnal a chadw rheolaidd ddarparu hyn | Hwn fydd y glöyn gwyn mwyaf cyffredin ar diroedd claddu | Dylai pob math o diroedd claddu gynnwys hon fel rhywogaeth fagu |

## 6. Glöynnod Byw, Gwyfynod a Phryfed Eraill

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Boneddiges y wig | Pob math | Yn ffafrio glaswelltir o uchder canolig, sy'n llai na 40cm o uchder, gyda mân laswelltau yn hytrach na glaswelltau bras neu ym môn gwrychoedd | Yn bwydo ar arlleg y berth, blodyn y gog, berwr a geirwir yr ardd | Gellir lleihau'r boblogaeth drwy dorri'n rhy frwd cyn mis Awst, yn enwedig ym môn gwrychoedd. Mae'r lindys yn cael eu lladd tra maen nhw ar y planhigyn bwyd | Bydd gan diroedd claddu sydd â phoblogaethau da o flodyn y gog boblogaethau o löyn byw boneddiges y wig. Gall pob math o diroedd claddu yng Nghymru a Lloegr, a llawer yn yr Alban, ddisgwyl cynnwys boneddiges y wig yn magu |
| Brithribin gwyrdd | Pob math | Anghyffredin ond i'w ganfod mewn amrywiaeth o gynefinoedd | Ar rostir; llus ac eithin. Ar safleoedd eraill; banadl aur a phys y ceirw | Y gwrywod sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio'r tiroedd claddu i glwydo ar lwyni yn chwilio am fenywod mewn glaswelltiroedd a rhostir gerllaw | Tebygol o'i ganfod ar diroedd claddu ar rostir, tir isel neu ar fryniau Dyfnaint a Chernyw |
| Brithribin llwyd | Pob math | Glöyn byw sydd i'w weld yn ehangach yng nghefn gwlad, mewn gwrychoedd a llwyni, gan ei fod yn dibynnu ar ddrain duon ifanc | Drain duon, yn gyffredinol yn llai nag 1m o uchder | Yn elwa o gylchdro 4 blynedd o unrhyw lwyn o ddrain duon neu gylchdroi plannu gwrych | Glöyn byw prin a swil i'w ganfod yng ngorllewin Cymru, Dyfnaint, Dorset, Gorllewin Sussex, Swydd Rhydychen, Swydd Caerwrangon a rhai llefydd eraill yn unig. Gall tiroedd claddu fod yn bwysig iawn i gadwraeth y rhywogaeth yma |
| Brithribin porffor | Pob math | Coed derw tal, yn enwedig pan maent mewn llinellau | Derw yw unig blanhigyn bwyd y lindysyn | Mwy cyffredin mewn ardaloedd coediog. Mae'r glöyn byw hwn yn troi'n chwiler o dan wyneb y pridd, felly mae cloddio o amgylch bonion coed derw'n niweidiol | Rhywogaeth swil; yr amser gorau i gadarnhau presenoldeb y glöyn yma yw drwy edrych ar dopiau coed derw drwy sbienddrych rhwng 6.30pm a7.30pm ym mis Gorffennaf neu ar ddechrau Awst. Mae ei ymddygiad hedfan ar yr adeg yma'n nodedig iawn. Mae'r brithribin porffor yn fwy cyffredin na'r disgwyl ac yn cael ei dangofnodi |
| Brithribin gwyn | Pob math | Llwyfenni tal | Llwyfen lydanddail neu lwyfen gyffredin | Mae llwyfenni llydanddail yn tueddu i allu gwrthsefyll clefyd llwyfen yr Isalmaen yn well. Os yw'n bosib, gwnewch yn siŵr bod llwyfenni'n tyfu mewn lleoliadau heulog drwy gael gwared ar y coed cysgodol o'u hamgylch | Rhywogaeth brin a chyfrinachol ond dylai unrhyw dir claddu gyda llwyfenni mawr ddisgwyl cynnwys poblogaeth o'r rhywogaeth yma. Edrychwch ar fieri sy'n blodeuo am löynnod byw yn casglu neithdar oherwydd mae'n hawdd methu'r brithribin gwyn. Mae plannu llwyfenni sy'n gallu gwrthsefyll clefyd o help mawr i'r rhywogaeth yma |

## 6. Glöynnod Byw, Gwyfynod a Phryfed Eraill

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Copor bach | Pob math | Dylai'r llystyfiant fod rhwng 1 a 10cm yn ddelfrydol | Suran y cŵn | Suran y cŵn yn tyfu mewn llecyn heulog o lystyfiant isel | Dylai pob tir claddu sydd â glaswelltir o ansawdd da gynnwys y copor bach yn magu. Mae'r glöyn byw yma i'w weld fesul un neu ddau yn aml |
| Glesyn bach | Calchaidd | Uchder y llystyfiant yn is na 6cm | Mae'r blucen felen yn flodyn bythol sydd ag oes fer ac mae pa mor doreithiog ydyw'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn gan ddibynnu ar y tywydd, strwythur y pridd a'r rheolaeth arno | Dim ond pen y blodyn mae'r glesyn bach yn ei ddefnyddio felly gall pori amhriodol neu dorri gwair gael gwared ar bennau'r blodau ac achosi diflaniad poblogaeth gyfan mewn blwyddyn. Peidiwch â thorri'r gwair na chaniatáu pori pan fydd y blucen felen yn ei blodau neu cyn canol mis Awst | Glöyn byw cynyddol brin gyda dosbarthiad gwasgaredig iawn ledled y DU. Gall poblogaethau fod wedi'u sefydlu mewn ardaloedd eithaf bach, fel 5 x 20 metr. Gall tiroedd claddu chwarae rhan bwysig yng nghadwraeth y rhywogaeth yma |
| Argws brown | Pob math | Ar laswelltiroedd sialc gydag uchder y llystyfiant yn 1-5cm neu ar safleoedd eraill gydag uchder y llystyfiant yn 5- 15cm | Ar laswelltiroedd sialc; rhosyn y graig.<br><br>Ar safleoedd eraill, yn bennaf pig yr aran larpiog a hefyd troed y golomen a phig y crëyr | Mae torri gwair cyn canol mis Awst yn niweidiol iawn i'r rhywogaeth yma felly gadewch rai ardaloedd heb eu torri o big yr aran neu big y crëyr, gan gylchdroi'r ardal yn flynyddol | I'w ganfod i'r de o Swydd Lincoln at Fôr Bryste yn unig. Dylai unrhyw dir claddu sydd â phig yr aran larpiog gynnwys poblogaeth fechan o'r rhywogaeth yma. Mae'r glöyn byw yma i'w weld fesul un neu ddau |
| Glesyn cyffredin | Pob math | Uchder y llystyfiant rhwng 4 a 10cm | Y prif blanhigion bwyd yw pys y ceirw, maglys gwineuddu, tag yr aradr, meillion coch | Mae angen rhywfaint o lystyfiant tal ar gyfer clwydo felly mae torri ar gylchdro'n dda. Torrwch 70% o'r glaswelltir, gan gylchdroi'r 30% heb ei dorri'n flynyddol er mwyn ei atal rhag mynd yn rhy drwchus. | Dylai'r holl diroedd claddu gorau ar gyfer glöynnod byw gynnwys poblogaethau o'r rhywogaeth yma |
| Glesyn y sialc | Calchaidd | Uchder y llystyfiant hyd at 6cm, pur anaml yn uwch | Pedol y march yn tyfu mewn tir noeth | Peidiwch â thorri cyn mis Hydref a gadewch 5cm o uchder o fis Mawrth ymlaen | Er mwyn cynnwys glesyn y sialc rhaid i dir claddu for ar dir isel gyda phridd tenau iawn, ac yn ymyl poblogaeth sy'n bodoli eisoes |
| Glesyn y celyn | Pob math | Amherthnasol | Prif blanhigion bwyd a chelyn yn y gwanwyn ac eiddew yn yr hydref | Mae torri'r eiddew i gyd ar un tro ac felly cael gwared ar bennau'r hadau'n niweidiol | Glöyn byw'r fynwent yn ei hanfod. Bydd pob tir claddu sydd â chelyn ac eiddew yn cynnwys poblogaethau o'r glöyn byw yma. Mae niferoedd glesyn y celyn yn amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn |

## 6. Glöynnod Byw, Gwyfynod a Phryfed Eraill

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mantell goch | Pob math | Uchder y llystyfiant yn llai nag 1m | Danadl poethion cyffredin. Mae'n defnyddio danadl poethion mewn pridd cyfoethog fel wrth domenni compost neu mewn ffosydd mewn caeau | Yn mudo'n rheolaidd o Ewrop ac mae'r glöyn byw yma i'w weld yn gyffredin rhwng misoedd Awst a Hydref | Yn fwy cyffredin yn y de ond mae pob tir claddu'n debygol o gynnwys y fantell goch bob blwyddyn bron |
| Gl**ö**yn yr ysgall | Pob math | Uchder y llystyfiant yn llai nag 1m | Rhywogaethau o ysgall yn bennaf yn tyfu mewn llecynnau heulog. Gellir ei gynyddu'n dderbyniol drwy annog ysgall y gors sy'n rhywogaeth ymledol | Yn mudo'n rheolaidd o Ewrop ac mae'r glöyn byw yma i'w weld yn gyffredin rhwng misoedd Gorffennaf a Medi. Ambell flwyddyn, maent yn ymddangos mewn niferoedd mawr | Yn fwy cyffredin yn y de ond mae pob tir claddu'n debygol o gynnwys glöyn yr ysgall bob blwyddyn bron, ond maent yn llai cyffredin na'r Fantell Goch fel rheol |
| Iâr fach amryliw | Pob math | Uchder y llystyfiant yn llai na 50cm | Danadl poethion cyffredin, ond fel rheol dim ond danadl poethion mewn clystyrau mawr gyda phridd cyfoethog iawn. Cyffredin ar dir ffermio | I'w weld drwy gydol y flwyddyn o fis Mawrth/Ebrill pan fydd yr oedolion sy'n gaeafgysgu'n dod i'r golwg, bob cam nes eu bod yn deor ym mis Mehefin ac yn hedfan tan fis Awst/Medi | Mae pob math o diroedd claddu'n debygol o gynnwys yr i**âr fach amryliw** |
| Iâr fach lygadog | Pob math | Uchder y llystyfiant yn llai na 50cm | Danadl poethion cyffredin, ond fel rheol dim ond danadl poethion mewn clystyrau mawr gyda phridd cyfoethog iawn. Tueddu i fagu ger coed | I'w weld drwy gydol y flwyddyn o fis Mawrth/Ebrill pan fydd yr oedolion sy'n gaeafgysgu'n dod i'r golwg, bob cam nes eu bod yn deor ym mis Mehefin ac yn hedfan tan fis Awst/Medi | Mae pob math o diroedd claddu'n debygol o gynnwys yr i**âr fach** lygadog |
| Adain garpiog | Pob math | Uchder y llystyfiant yn llai na 50cm | Danadl poethion cyffredin mewn sypiau bychain a hefyd hopys gwyllt a llwyfenni | I'w weld drwy gydol y flwyddyn o fis Mawrth/Ebrill pan fydd yr oedolion sy'n gaeafgysgu'n dod i'r golwg, bob cam nes eu bod yn deor ym mis Mehefin ac yn hedfan tan fis Awst/Medi | Mae pob math o diroedd claddu'n debygol o gynnwys yr adain garpiog, yn enwedig y rhai i'r de o'r Alban |
| Britheg arian | Pob math | Uchder y llystyfiant yn isel, tua 2cm | Fioledau; fioled y cŵn yn bennaf sy'n tyfu ar dir noeth mewn ardaloedd cysgodol brith | Rhywogaeth y coetir yn bennaf ond i'w weld ar hyd lonydd coediog yn ne orllewin Lloegr | I'w ganfod yng ngorllewin Lloegr ac, yn achlysurol, de Lloegr, ble mae'r tiroedd claddu'n agos at ardaloedd coediog. Efallai y bydd y fritheg arian yn defnyddio tir claddu fel ffynhonnell o neithdar |
| Brith y coed | Pob math | Uchder y llystyfiant yn llai na 50cm | Glaswelltau amrywiol; byswellt, cawn penwyn a breichwellt y coed | Dyma löyn byw'r coetiroedd cysgodol. Mae'r rhan fwyaf o diroedd claddu'n darparu clytiau o gynefin delfrydol | Bydd pob math o diroedd claddu sydd â choed a llwyni'n cynnwys brith y coed |

## 6. Glöynnod Byw, Gwyfynod a Phryfed Eraill

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llwyd y mur | Pob math | Uchder y llystyfiant yn llai na 20cm | Glaswelltau amrywiol, yn enwedig byswellt, breichwellt y coed, brigwellt main pan mae'n tyfu mewn clystyrau bychain ynysig | Glöyn byw cynyddol brin yn Lloegr, de Swydd Efrog | Dim ond tiroedd claddu ar arfordir deheuol Lloegr sy'n debygol o weld y rhywogaeth yma. Bydd y rhai sy'n wynebu'r haul a gydag ychydig o lwyni'n gallu darparu cynefin magu |
| Gl**ö**yn gwyn cleisiog | Calchaidd | Uchder y llystyfiant yn llai na 20cm | Glaswelltau amrywiol, yn enwedig peiswellt coch ymledol, sy'n tyfu mewn gwyndwn llac gyda llawer o dir noeth | Glöyn byw de a chanolbarth Lloegr, ar briddoedd calchaidd yn bennaf. Mae torri glaswelltiroedd cyn canol mis Awst yn debygol o ddileu unrhyw boblogaethau o'r glöyn gwyn cleisiog | Dylai unrhyw diroedd claddu yn ne Lloegr sydd â phriddoedd calchaidd gynnwys y glöyn gwyn cleisiog |
| Porthor | Pob math | Uchder y llystyfiant yn llai na 30cm | Glaswelltau amrywiol, yn tyfu'n gyffredinol wrth wrychoedd, gan gynnwys peiswellt, cawn a glaswelltau'r ddôl | Mwy o niferoedd yn ne Lloegr | Dylai unrhyw diroedd claddu heulog i'r de o Swydd Efrog a Swydd Gaerhirfryn gynnwys y porthor |
| Llwyd y ddôl | Pob math | Uchder y llystyfiant yn llai na 30cm, ond dodwy wyau ar dyweirch 1-6cm fel rheol | Glaswelltau amrywiol, yn enwedig glaswellt y ddôl | Gall llwyd y ddôl ddodwy wyau ar unrhyw adeg rhwng misoedd Mai a Medi felly bydd yn elwa o dorri glaswellt ar wahanol adegau o'r flwyddyn | Dylai pob math o diroedd claddu heulog gynnwys llwyd y ddôl |
| Iâr fach fodrwyog | Niwtral Llaith | Uchder y llystyfiant rhwng 15 a 30cm | Glaswelltau amrywiol, yn enwedig brigwellt mawnog a glaswellt y ddôl | Mehefin/Gorffennaf – hoffi glaswelltiroedd lleithach | Dylai pob math o diroedd claddu agored a heb fod yn rhy gysgodol yn ne'r Alban, Lloegr a Chymru gynnwys yr iâr fach fodrwyog |
| Gweirl**ö**yn bach y waun | Pob math | Uchder y llystyfiant rhwng 2 a 5cm | Glaswelltau amrywiol, yn enwedig peiswellt sy'n tyfu'n isel | Glöyn byw cynyddol brin sy'n araf yn sefydlu ar safleoedd newydd felly os caiff ei golli o safle nid yw'n debygol o ddychwelyd yno | Mae posib ei weld ar yr holl diroedd claddu sydd ag ardaloedd o dyweirch isel mewn llecynnau heulog. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, rydych chi'n ffodus iawn os yw'r rhywogaeth yma gennych chi |

# 7. Dysgu am Gennau

***Mae'r daflen hon yn egluro beth yw cennau a sut mae gofalu amdanynt.***

Mae cennau'n ffurfio mosaig o liw yn aml, yn enwedig ar waith carreg. Mae'r rhain yn amrywio o ran ffurf o grystiau syml, powdrog ar wasgar i strwythurau deiliog ehangach, neu lwyni hyd yn oed. Mae cennau'n hynod gyfoethog ac amrywiol mewn safleoedd heb eu llygru.

## Beth yw cennau?



Mae cennau'n ddau neu fwy o organebau sy'n byw gyda'i gilydd fel un. Mae ffwng yn ffurfio'r rhan weladwy o'r cen a'r tu mewn. Yn cael eu gwarchod gan linynnau'r ffwng (hyffae) mae celloedd o algâu a/neu syanobacteria sy'n gallu creu ffotosynthesis, gan roi bwyd i'r cen cyfan.

Mae cennau'n atgynhyrchu drwy sborau ffyngaidd microsgopig sydd, os dônt o hyd i bartner addas, yn gallu byw ar unrhyw arwynebau sy'n sefydlog, heb fod yn rhy gysgodol na rhy llyfn. Mae'r sborau hyn yn cael eu rhyddhau o strwythurau atgynhyrchu siâp disgen sy'n edrych yn debyg i dartenni jam bach iawn, fflasgiau neu blorod. Hefyd, mae cennau'n ymledu drwy gynhyrchu alldyfiant powdrog, ymwthiadau neu ddarnau mân iawn sy'n cael eu gwasgaru ar y gwynt a'r glaw, neu eu symud gan anifeiliaid.

## Ble mae cael hyd iddynt?

Os oes digon o olau a gwlybaniaeth, mae cennau'n gallu tyfu ar arwynebau anaddas i blanhigion eraill. Mae rhai'n tyfu'n araf iawn, lai na hanner milimetr y flwyddyn weithiau, ac mae eraill yn tyfu'n gyflymach. Mae llawer o gennau'n byw am amser hir. Gall cen unigol fod mor hen â'r garreg fedd y mae'n tyfu arni.

## Pwysigrwydd safleoedd claddu

Mae mynwentydd eglwysi a safleoedd claddu'n eithriadol bwysig i gadwraeth cen, yn enwedig lle nad oes unrhyw allgreigiau naturiol.

O blith y 2000 o rywogaethau o gen a geir yn y DU, mae mwy na 700 wedi cael eu canfod mewn safleoedd claddu. Mae bron i hanner y rhain yn brin a phur anaml i'w gweld mewn mannau eraill.

Mae gan lawer o safleoedd claddu fwy na 100 o rywogaethau o gen ynddynt. Gellir eu hystyried fel noddfa i gennau.

Hefyd, mae safleoedd claddu'n llefydd rhagorol ar gyfer chwilio am gennau a dysgu amdanynt. Ceisiwch edrych ar gennau drwy lens llaw neu chwydd-wydr, neu dynnu eu lluniau.

Mae gwahanol greigiau a deunyddiau adeiladu'n gallu cynnwys cymunedau nodedig o gen: calchfaen, tywodfaen, haearnfaen, marmor, brics, morter, llechi, gwenithfaen. Hefyd, y mathau amrywiol o waith carreg; bydd cerrig beddau, waliau, adeiladau yn amrywio o fod yn arw i lyfn, cysgodol i agored, sych i laith, llorweddol i fertigol. Mae'r rhain i gyd yn darparu gwahanol gilfachau i gen a gallant fod â rhywogaethau gwahanol yn tyfu arnynt. Mae'r cennau ar ochr gysgodol a gogleddol i wal yn wahanol i'r cennau ar yr ochr ddeheuol, heulog.

Hefyd, mae micro-gynefinoedd yn cael eu darparu gan lythrennau sydd wedi'u cerfio ar gerrig, cilfachau pridd mewn waliau, silffoedd wedi'u staenio gyda haearn a chopr, a naddion gwenithfaen mewn bedd gydag ymyl arno ac eto, gall y rhain fod â gwahanol rywogaethau'n tyfu arnynt.

Gwelir cennau ar goed, strwythurau pren fel ffensys a giatiau, ardaloedd glaswelltog, llwybrau a hyd yn oed caeadau biniau sbwriel!

## Sut mae helpu cennau

Mae poblogaethau o gennau wedi cael eu disgrifio fel "gerddi hunangynhaliol, bychain iawn sy'n darparu cladin naturiol ar gyfer y garreg". Maent yn hardd, yn rhyfeddol yn ddiddiwedd, yn enwedig wrth edrych arnynt drwy lens llaw neu chwydd-wydr. Mae dull cytbwys o weithredu'n llesol i gen:

- Peidiwch â chwistrellu o amgylch cofebau oherwydd bydd hyn yn difrodi'r cen ac yn gadael staeniau diolwg hefyd.
- Os bydd cofebau'n cael eu tagu gan fieri, eiddew neu gegiden fenyw, bydd y cen yn marw o ddiffyg golau.
- Dylid symud unrhyw laswellt sy'n cael ei dorri i domen gompost ac ni ddylid ei adael i bydru yn erbyn gwaith carreg, oherwydd bydd hyn yn lladd y cen hefyd.
- Nid yw waliau a chofadeiladau sydd wedi'u creu o garreg o safon sydd â chennau arni wedi dirywio llawer, ar wahân i draul naturiol y tywydd. Yn wir, mae gorchudd da o gen yn gallu gwarchod carreg. Er hynny, mae ambell gen yn gallu gwneud difrod i fathau hawdd eu difrodi o gerrig. Gofynnwch am gyngor os ydych chi'n pryderu.

# 7. Dysgu am Gennau

- Ceisiwch beidio â glanhau cennau oddi ar gofadeiladau neu gofebau. Os oes rhaid i chi wneud hynny am unrhyw reswm, gofynnwch am gyngor i ddechrau a defnyddiwch frwsh meddal a dŵr heb ddim byd ynddo.
- Mae rhai cennau'n agored iawn i niwed wrth brofi newid, fel symud cerrig. Os oes rhaid symud cerrig, yna mae cennau'n fwy tebygol o oroesi os yw wyneb gogleddol/deheuol y garreg yn aros yr un fath. Mae hyn yn wir am gerrig beddau ac am atgyweirio waliau ac adeiladau.
- Os oes angen ailbwyntio hen waliau ac adeiladau, yna defnyddiwch yr un math o forter ac, os yn bosib, osgowch ddifrodi'r cennau. Os na ellir osgoi difrodi'r cennau gyda'r gwaith pwyntio, yna ceisiwch beidio â gwneud y gwaith i gyd ar unwaith ac ystyriwch gynnal arolwg ar y cennau ymlaen llaw.
- Mae Cymdeithas Cen Prydain yn sefydliad i aelodau ac mae wedi bod yn arolygu mynwentydd am gennau ers y 1990'au. Ewch i'r wefan i weld y safleoedd sydd eisoes wedi'u harolygu a chysylltwch â hwy ynghylch eich safle chi.

### Cennau a'u defnydd

Mae cennau wedi cael eu defnyddio gan bobl ers canrifoedd. Yn yr hen Rufain, roeddent yn cael eu defnyddio i wneud lliw porffor ar gyfer togas. Ar ynysoedd yr Hebrides Allanol, mae cennau'n dal i gael eu defnyddio i liwio gwlân yn oren a brown i wneud brethyn Harris. Hefyd, mae cen yn cael ei ddefnyddio i wneud persawr; daw'r arogleuon 'mwsogl' a 'lledr' o gen.

Mae adar, fel y titw cynffon hir, yn defnyddio cen i helpu i guddio eu nyth ac mae rhai infertebrata'n bwydo ar gennau.



*Cen byseddog*

### Cysylltiadau defnyddiol

Cymdeithas Cen Prydain, www.britishlichensociety.org.uk

### Darllen defnyddiol

Churchyard Lichens - siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes

Grasses, Ferns, Mosses & Lichens of Great Britain and Ireland – Roger Phillips

Lichens on Twigs - siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes

Urban Lichens 1 (on trees and wood) - siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes

Urban Lichens 2 (on stone and soil) - siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes

# 8. Capiau Cwyr Campus a Ffyngau Eraill

***Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth am gapiau cwyr a ffyngau eraill; ein partneriaeth i'w hybu a chanllawiau ar sut mae rheoli safleoedd claddu er lles ffyngau.***

Ffyngau llachar eu lliw yw capiau cwyr yn bennaf a gwelir sawl math gwahanol o gapiau cwyr mewn hen laswelltir heb ei drin a'i aredig, na'i ailhadu na'i drin gyda chemegau. Mae safleoedd claddu'n arbennig o dda ar gyfer dod o hyd i gapiau cwyr oherwydd maent yn ffynnu mewn hen laswelltir byr sy'n cael ei dorri'n rheolaidd.

**Mae'r cap cwyr yn rhywogaeth bwysig i Gofalu am Erw Duw. Rydym yn gweithio gyda Chymdeithas Grwpiau Ffwng Prydain i gefnogi cadwraeth capiau cwyr mewn safleoedd claddu.**

ASSOCIATION OF BRITISH FUNGUS GROUPS


## ADNABOD EICH CAPIAU CWYR

Capiau cwyr yw'r ffyngau mwyaf nodweddiadol efallai mewn hen laswelltiroedd a gellir eu hadnabod yn eithaf hawdd. Gydag enwau fel balerina, gwritgoch, cwpan y coed, serennig a seithliw, maent yn hwyl i chwilio amdanynt ac yn ymddangos yn yr hydref fel gemau wedi'u gwasgaru yn y glaswellt.

Cyn datblygu'r microsgop yn y 18fed ganrif, roedd ffyngau'n gryn dipyn o benbleth, gan ymddangos dros nos ac weithiau roeddent yn cael eu hystyried fel gwaith y 'pwerau tywyll'. Mae'r darn o'r ffwng sydd i'w weld yn 'ffrwyth' llawn sborau bychain iawn. Mae gweddill y ffwng o dan y ddaear ac yn cynnwys ffilamentau bychain fel blew o'r enw 'hyffae', sy'n datblygu'n rhwyll gan dyfu drwy'r deunydd y maent yn cymryd eu bwyd ohono. Enw'r rhwyll ydi 'myseliwm'.

### Ffyngau glaswelltir

Mae capiau cwyr a llawer o ffyngau eraill y glaswelltir yn ffurfio myseliwm o amgylch gwreiddiau'r planhigion sy'n tyfu yn y glaswelltir nad oes neb wedi tarfu arno na'i aredig na'i chwistrellu. Mewn geiriau eraill, 'glaswelltir heb ei wella' (gweler taflen A2, Gofalu am Laswelltir). Maent yn rhan o strwythur cymhleth y cynefin hwn ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dadelfennu ac yn ailgylchu. Maen nhw'n torri'r llystyfiant marw i lawr, gan ddychwelyd ei faethynnau i'r pridd, ac maent yn rhan hanfodol o fywyd. Mae safleoedd sydd â chyfoeth o ffyngau, a chapiau cwyr yn arbennig, yn brin yn y DU yn awr ac mae safleoedd claddu'n ffurfio rhwydwaith hanfodol o'r safleoedd hyn ledled y wlad.



*Hygrofforws*

Y ffyngau nodweddiadol eraill mewn glaswelltiroedd yw pastwn y tylwyth teg, tafod y ddaear a chylchoedd tylwyth teg.

### Helpu capiau cwyr

Mae capiau cwyr angen glaswellt byr sy'n cael ei dorri neu ei bori'n rheolaidd. Wrth gynllunio'r gwaith o reoli glaswelltir (gweler taflen A2, Gofalu am Laswelltir), cadwch lygad am gapiau cwyr yn yr hydref. Os oes gennych chi ardal ble mae llawer ohonynt i'w cael, yna ystyriwch dorri'r ardal hon yn rheolaidd. Pan mae capiau cwyr yn ymddangos, rhowch y gorau i dorri'r glaswellt am ychydig wythnosau, fel eu bod yn cael dwyn ffrwyth ac fel bod pobl yn gallu eu gweld. Fel gyda'r holl laswelltir, rhaid cael gwared ar y glaswellt sydd wedi'i dorri a pheidio â defnyddio unrhyw fwyd na gwrtaith na chwistrell lladd mwsogl. Gallwch geisio adnabod y capiau cwyr a chofiwch dynnu eu lluniau. Yna gellir anfon y lluniau hyn at arbenigwr ffyngau (mycolegydd), a fydd yn gallu eu hadnabod i chi efallai. Rhowch wybod i bobl am y capiau cwyr sy'n tyfu yn eich safle claddu a pha mor arbennig a hardd ydyn nhw.



*Cap cwyr*

## FFYNGAU a CHOED

Dyma berthynas ryfeddol a chymhleth arall. Mae coed a ffyngau wedi esblygu gyda'i gilydd ac maent yn angenrheidiol i'w gilydd. Mae amrywiaeth o ffyngau'n byw yn ac o amgylch gwreiddiau coed, gan helpu i amsugno dŵr a maethynnau o'r pridd. Mae ffyngau'n torri pren marw a hen ddail i lawr yn ystod bywyd y goeden ac yna, yn y diwedd, maent yn lladd y

# 8. Capiau Cwyr Campus a Ffyngau Eraill

goeden ac yn helpu gyda'i dadelfennu, gan ailgylchu'r maethynnau yn ôl i'r pridd.

Mae coed yw hynafol, a choed feteran eraill, yn cael eu tyllu gan ffwng. Credid ar un adeg bod hyn yn gwneud y goeden yn fwy tebygol o ddymchwel ond mae'n cael ei ystyried fel mecanwaith goroesi yn awr, sy'n gwneud y goeden yn gryfach. Cadwch lygad am 'gywion y goedwig' yn eu melyn llachar yn tyfu ar goed yw.

### Mwy am ffyngau a choed

Mae ffyngau a choed yn helpu'i gilydd drwy drosglwyddo maethynnau rhwng yr hyffae ffyngaidd a gwreiddiau'r coed. Mae coed yn cymryd dŵr a maethynnau o'r pridd drwy wreiddiau mân a blew wreiddiau. Mae coed yn gallu sugno digon o ddŵr ond maent yn wael am amsugno digon o faethynnau i gyflenwi'r goeden gyfan; mae'r ffwng yn gallu helpu gyda hyn. Mae'r ffwng yn amsugno maethynnau drwy ei we cyfan o hyffae, sy'n cael eu trosglwyddo wedyn i wreiddiau'r coed ble ceir gwe drwchus o hyffae wedi'u lapio o amgylch gwreiddiau'r goeden fel bod maethynnau'n gallu pasio i mewn i'r gwraidd. Am hynny, mae'r goeden yn cyflenwi siwgr i'r ffwng, sydd wedi'i gynhyrchu yn y dail drwy ffotosynthesis.

Mae ffyngau'n gallu cymryd hyd at chwarter y bwyd y mae coeden yn ei wneud ond mae hyn dal yn fuddiol i'r goeden; cymaint felly fel bod yr egin goed yn y meithrinfeydd coed yn cael eu 'brechu' gyda ffyngau priodol. Mae hyn yn gwneud iddynt dyfu ddwywaith yn gynt na choed ifanc heb eu brechu. Gall ffyngau dorri pob math o ddeunydd i lawr, gan gynnwys pren, dail, esgyrn, cyrn, plu a ffwr. Ceir hefyd ffwng sy'n torri creosot ac olew i lawr, gan gynnwys disel a thanwydd jet! Mae rhai'n gyffredinol o ran yr hyn maent yn bwydo arno ac eraill yn benodol iawn, fel yr Arthroderma curreyi, sy'n pydru plu a hefyd peli tennis, neu Marasmius buxi, sydd ond yn dadelfennu dail pren bocs.


### Sut mae helpu

- Gadewch bren marw mewn coeden oni bai fod tyfwr neu contractwr coed yn dweud ei fod yn beryglus.
- Crëwch bentwr o bren marw ar gyfer unrhyw docion neu ganghennau sydd wedi syrthio oddi ar goed. Gellir cadw'r pentwr allan o'r ffordd yn daclus a bydd yn llesol i lawer o ffyngau sy'n byw ar bren marw, yn ogystal â llawer o anifeiliaid ac adar.


Mae ffyngau'n rhan hanfodol o blanhigion byw a marw. Ychydig iawn sy'n wenwynig ac maent yn ddiddorol i ddysgu amdanynt. Peidiwch â'u difrodi na'u tynnu ac ystyriwch ofyn i fycolegydd ymweld â'ch safle i chwilio am ffyngau yn eich ardal. Efallai bydd Cymdeithas Grwpiau Ffwng Prydain ac ymddiriedolaeth natur leol yn gallu eich helpu chi gyda gwneud hyn.



*Geogloswm*



*Parasol*



*Coden fwg*

### Cysylltiadau defnyddiol

Cymdeithas Grwpiau Ffwng Prydain, www.abfg.org

Cymdeithas Fycolegol Prydain, www.britmycolsoc.org.uk

Gofalu am Erw Duw, www.caringforgodsacre.org.uk

Yr Ymddiriedolaethau Natur, www.wildlifetrusts.org

### Darllen defnyddiol

Complete Guide to British Mushrooms and Toadstools

Fungi Name Trail – siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes

Gwefan Capiau Cwyr - www.aber.ac.uk/waxcap

# 9. Mwsoglau, Llysiau'r Afu a Rhedyn

***Mae'r daflen hon yn egluro beth yw mwsoglau, llysiau'r afu a rhedyn, ble maent i'w gweld a chanllawiau ar sut mae gofalu amdanynt mewn safle claddu.***

Roedd y planhigion tir cynharaf yn perthyn i redyn a mwsoglau. Fe wnaethant ddechrau tyfu ar ymyl llynnoedd ac afonydd 400 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Heddiw, mae'r rhan fwyaf o fwsoglau, rhedyn a llysiau'r afu angen tyfu mewn llefydd llaith o hyd.

Gyda'n hinsawdd laith ni, mae llawer o safleoedd claddu'n profi'n ddelfrydol i redyn, mwsoglau a llysiau'r afu; yn enwedig yn yr ardaloedd gorllewinol ym Mhrydain ac Iwerddon.

## MWSOGLAU a LLYSIAU'R AFU


Mae mwsoglau a llysiau'r afu'n cael eu hadnabod fel 'bryoffytau'. Planhigion bychain, gwyrdd yw'r rhain heb flodau na hadau, ond maent yn cynhyrchu 'sborau'. Mae mwy na 1000 o wahanol rywogaethau o fryoffytau yn y DU ac maent yn tueddu i fyw mewn llefydd cysgodol, llaith oherwydd nid yw'r rhan fwyaf ohonynt yn gallu goroesi os byddant yn sychu. Ychydig iawn o fwsoglau neu lysiau'r afu sydd ag enwau Cymraeg neu Saesneg ac mae angen microsgop i adnabod llawer ohonynt.



*Thuidium*

### Mwsoglau

Gellir dod o hyd i fwsoglau ar bob math o waith carreg, ar doeau ac mewn glaswelltir. Gwelir amrywiaeth eang o fwsoglau mewn safle claddu, gyda lliwiau a siapiau hardd yn aml. Mae mwsoglau'n glynu wrth y ddaear, wrth bren, rhisgl neu garreg gan ddefnyddio gwreiddiau o'r enw 'rhisoidau' a gallant dyfu mewn llefydd diffaith heb faethynnau. Bydd y cysgod a'r dŵr fyddant yn ei gael yn effeithio ar fannau tyfu mwsoglau a pha fathau sydd i'w cael. Fel rheol, bydd mwy nag un rhywogaeth o fwsogl yn tyfu gyda'i gilydd, gan feddalu gwaith carreg gyda chlustogau neu dyfu dros gerrig beddau. Gallant orchuddio cerrig gwastad yn gyflym iawn, gan warchod y garreg ac unrhyw arysgrif sydd arni. Mae mwsoglau'n tueddu i dyfu mewn llefydd gwahanol i gennau, sydd angen mwy o haul a llai o ddŵr; felly pur anaml mae mwsoglau a chennau'n cystadlu am yr un gofod. Mae hyn yn wir hefyd mewn glaswelltir ble mae mwsogl i'w ganfod mewn ardaloedd llaith a chysgodol, gyda hesg, brwyn a ffyngau fel rheol.



*Petalophyllum ralfsii*



*Rhedyn tafod y neidr*

### Llysiau'r Afu

Mae llysiau'r afu'n debyg i fwsoglau ond yn llai deiliog ac yn llai cyffredin. Gwelir llysiau'r afu gan amlaf mewn coetiroedd ac wrth nentydd neu afonydd, ond maent i'w gweld hefyd ar gerrig cysgodol ac mewn pridd llaith mewn safleoedd claddu. Maent yn blanhigion nodedig a rhyfedd yr olwg ac mae'n werth edrych yn fanwl arnynt neu dynnu eu lluniau i weld eu siapiau astrus a'u lliwiau cynnil.

## RHEDYN

Yn hinsawdd oer, laith y DU, ceir 64 math o redyn. Cadwch lygad am redyn ar waliau sy'n wynebu'r gorllewin a'r gogledd yn arbennig. Bydd yr ardaloedd cysgodol yn y safleoedd claddu, ac o dan goed, lle nad yw peiriannau torri gwair yn cyrraedd, yn llefydd i redyn ffynnu heb i neb darfu arnynt hefyd. Un ffaith ryfeddol am redyn yw eu bod, unwaith maent wedi sefydlu, yn gallu goroesi mewn mannau eithaf sych, fel waliau. Yn wahanol i fwsoglau a llysiau'r afu, mae rhedyn yn tueddu i fod ag enwau Cymraeg a Saesneg ac mae llawer ohonynt yn eithaf hawdd eu hadnabod. Ymhlith y rhedyn sydd i'w canfod ar waliau mae duegredyn, rhuw'r muriau, rhedyn cefngoch, rhedyn y derw a rhedyn tarian. Ymhlith y rhywogaethau sy'n fwy tebygol o gael eu canfod o dan goed mae marchredyn benyw, marchredyn gwryw, gwibredyn a rhedyn brenhinol, yn ogystal â'r rhedyn tarian a'r rhedyn y derw sydd i'w canfod ar waliau. Gall rhedyn y derw dyfu ar goed hefyd. Os oes pridd calchaidd yn mynwent eich eglwys, efallai y gwelwch chi redyn tafod yr hydd neu, yn fwy prin fyth hyd yn oed, rhedyn tafod y neidr.

### Rhedyn Ungoes

Mae rhedyn ungoes yn rhedyn ymledol. Mae'n hawdd dweud y gwahaniaeth rhwng rhedyn ungoes a rhedyn eraill oherwydd nid yw'n tyfu mewn clystyrau o safle canolog, ond ar goesynnau ar wahân. Mae gan redyn ungoes fantais i fywyd gwyllt, yn enwedig i löynnod byw a gwyfynod, sy'n eu defnyddio fel cysgod ac i

ddodwy wyau. Nid yw clwstwr o redyn ungoes mewn safle claddu'n broblem ond, os yw'n dechrau cynyddu, yna dylid torri'r coesynnau fel maent yn dechrau agor. Bydd 'cleisio' neu dorri'r planhigyn yn gyson yn ei wanio.

### Sut mae helpu mwsoglau, llysiau'r afu a rhedyn

Oni bai fod problem amlwg fel llwybr llithrig, gadewch lonydd i'r planhigion hyn oherwydd pur anaml maent yn difrodi gwaith carreg ac maent yn rhan naturiol o'r glaswelltir.

***Eithriad***


Weithiau gall mwsogl wneud i gerrig ddirywio'n gynt. Efallai ei bod yn werth tynnu mwsogl oddi ar arwyneb tywodfaen, oherwydd gall y rhisoidau dreiddio i lawr i mewn i'r garreg. Ar wahân i hyn, nid yw mwsogl yn gwneud difrod.

Os ydych yn trwsio wal sydd â mwsoglau, llysiau'r afu neu redyn yn tyfu arni, ceisiwch eu cadw yn eu lle. Os nad yw hyn yn bosib, tynnwch nhw i ffwrdd yn ofalus, cadwch nhw'n llaith yn ystod y gwaith ac yna rhowch nhw yn eu hôl yn yr un lleoliad. Mae trwsio wal dros gyfnod o amser, yn hytrach nag ar un tro, o fantais i'r planhigion hyn, oherwydd mae'n rhoi amser iddynt ailsefydlu.

Os oes rhedyn mewn ardal laith o'r fynwent, yna gallai torri'n llai aml yn yr ardal o'u cwmpas helpu iddynt ymledu'n naturiol, yn arbennig os yw'r ardaloedd hyn yn llaith neu'n gysgodol.

Peidiwch â gadael i blanhigion ymledol fel eiddew orchuddio mwsoglau, llysiau'r afu a rhedyn. Gall hyn ddigwydd ar wal, cofadail neu goeden. Cadwch lygad ar blanhigion ymledol drwy eu trimio neu eu tynnu'n rheolaidd.

Mae mwsoglau, llysiau'r afu a rhedyn yn agored iawn i niwed gan gemegau, a dyna un rheswm pam eu bod yn gallu ffynnu mewn safleoedd claddu. Peidiwch â defnyddio chwynladdwyr na phlaladdwyr.



*Rhedyn Tafod yr Hydd*

### Cysylltiadau defnyddiol

Cymdeithasol Fryolegol Prydain, www.britishbryologicalsociety.org.uk


Gofalu am Erw Duw, www.caringforgodsacre.org.uk

Fern World – Cymdeithas Redynegol Prydain, www.nhm.ac.uk/hosted_sites/bps

### Darllen defnyddiol

A Key to Common Ferns – siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes

Grasses, Ferns, Mosses & Lichens of Great Britain & Ireland – Roger Phillips



*Cnwpfwsog*

# 10. Arolygu am Blanhigion ac Anifeiliaid

***Bydd y daflen hon yn egluro rhai dulliau arolygu syml i chi eu defnyddio i ddarganfod mwy am eich safle a sut mae'n newid dros amser.***

Gellir rheoli safle claddu'n dda iawn heb arolygu fawr ddim ar y planhigion a'r anifeiliaid sy'n bresennol ond gall dysgu mwy fod yn ddiddorol. Dyma wybodaeth ar gyfer taflenni neu sgyrsiau a gall arwain at ymdeimlad gwych o gyflawni wrth i flodau gwyllt, ymlusgiaid neu adar yn magu gynyddu gydag amser.

Mae ffotograffiaeth ddigidol wedi ei gwneud yn llawer haws adnabod rhywogaethau nag yr oedd hi. Os oes gennych chi unrhyw amheuaeth, tynnwch lun o'r planhigyn, y nyth, y glöyn byw neu'r tail sy'n achosi penbleth i chi. Cofiwch wneud nodyn o ddyddiad arolwg neu ddyddiad gweld rhywogaeth, a gadewch i Gofalu am Erw Duw wybod beth rydych yn ei ddarganfod.

## AROLYGU AM BLANHIGION

Mae Gofalu am Erw Duw wedi comisiynu arolwg glaswelltir yn benodol ar gyfer tiroedd claddu, o'r enw Cyfaill Botanegol Tiroedd Claddu. Y nod yw i'r arolwg yma gael ei wneud gan bobl nad ydynt yn fotanegwyr, ond sydd â rhywfaint o wybodaeth am fathau o blanhigion: garddwr awyddus efallai? Mae'n cynnwys cyfrif nifer y gwahanol blanhigion mewn ardal, heb adnabod beth ydynt. Wedyn llunnir rhestr o'r holl blanhigion rydych chi'n gallu eu hadnabod. Ewch ati i lawrlwytho'r arolwg o'n gwefan a rhowch gynnig arni. Mae siartiau plygu'r Field Studies Council yn ddefnyddiol ar gyfer dechrau arni, a'r Allwedd Blodau Gwyllt. Byddem wrth yn ein bodd yn cael gwybod sut hwyl gawsoch chi arni!



***Dyma blanhigion nodweddiadol glaswelltir cras a thwmpathog:***

Ceirchwellt tal, byswellt, cawn penwyn a phanas y cawr.

Mewn ardal o laswellt twmpathog, mae'r planhigion hyn yn arwydd o reolaeth dda. Er hynny, os yw'r rhain yn cynyddu yn eich ardaloedd o laswellt tal flwyddyn ar ôl blwyddyn, yna ystyriwch eu torri'n amlach (gweler taflen A2, Gofalu am Laswelltir).

***Dyma blanhigion nodweddiadol glaswelltir mân:***

Glaswelltau manach fel melynwellt a rhonwellt y ci cribog. Ymhlith y blodau mae; pys y ceirw, botwm crys, briallu Mair sawrus, cribau San Ffraid, llygad llo mawr, briwydd melyn, clafrllys a llysiau Llywelyn. Os yw'r rhain yn aros yn gyson neu'n cynyddu, yna diolchwch i chi'ch hun; mae eich patrwm o dorri'r glaswellt yn gweithio.

Mae ffyngau'n arwydd da o hen laswelltir hefyd ac yn ffynnu mewn glaswellt sy'n cael ei dorri'n fyr. Cofnodwch y ffyngau sy'n bresennol ar y safle ac, os nad ydych yn gallu eu hadnabod, tynnwch eu lluniau pan maent wedi dod i'r golwg yn llawn, gan ddangos eu top ac oddi tanynt yn ddelfrydol. Mae nifer y ffyngau unigol yn dweud mwy wrthych chi am y tywydd na'r ffwng, ond mae'n ddiddorol nodi ble maent yn ymddangos ar y safle.

Cysylltwch â Chymdeithas Grwpiau Ffwng Prydain a'r Gymdeithas Fotanegol. Oes grŵp lleol a fyddai'n hoffi ymweld â'ch safle claddu chi?

Cysylltwch â'r Gymdeithas Fotanegol i weld a oes gan grŵp lleol ddiddordeb mewn helpu i arolygu safle claddu.



*Tegeirian y Gors*

Os oes rhywbeth amhosib ei adnabod, tynnwch lun ohono, gan gynnwys cymaint â phosib o'r planhigyn (dail, blodau, hadau). Rhowch eich enw eich hun iddo (blodyn porffor, llun 1) nes dod o hyd i rywun sy'n gallu ei adnabod i chi.

## AROLYGU AM ANIFEILIAID

### Amffibiaid ac ymlusgiaid

Nid yw nadroedd defaid yn dod i'r golwg yn aml, yn hytrach maent yn dod o hyd i lefydd i fwynhau cynhesrwydd yr haul a chadw allan o'r golwg. Darparwch 'wrthrych cysgod' iddynt, fel darn o dun rhychog.

### Mamaliaid

Efallai na welwch chi unrhyw famaliaid mewn safle claddu ond yn aml iawn gallwch weld eu llwybrau a'u holion. Cadwch lygad am: olion traed mewn llaid meddal, tail ystlumod o dan y bondo, 'llwybrau' drwy laswellt tal (daw'r rhain yn

amlwg ar ôl torri), bylchau a llwybrau drwy wrychoedd, nythod neu flew wedi'u dal mewn gwrychoedd neu'n cael eu defnyddio mewn nythod adar. Cysylltwch â'ch Cymdeithas Mamaliaid leol i weld a oes ganddynt ddiddordeb mewn ymweld â'ch safle a dal rhywfaint o famaliaid byw efallai.

### Adar

Edrychwch ar daflen B4, Gwenoliaid duon ac adar eraill, am awgrymiadau arolygu. Cysylltwch â'ch cofnodwr adar sirol, yr ymddiriedolaeth natur neu'r RSPB i holi am bobl leol frwd i helpu.

### Glöynnod Byw ac Infertebrata Eraill

Mae glöynnod byw'n gymharol hawdd eu hadnabod ac yn rhoi syniad i chi o ba mor dda yw safle claddu ar gyfer infertebrata eraill hefyd. Mae safle gyda nifer ac amrywiaeth dda o löynnod byw yn debygol o fod yn gartref i lawer o rywogaethau eraill hefyd. Mae Butterfly Conservation wedi dyfeisio arolwg mynwentydd, fel y disgrifir isod. Ar gyfer mynwent fawr, dewiswch fwy nag un 'llwybr'.

*Arolwg Glöynnod Byw*

1. Dewiswch lwybr drwy'r fynwent ble gwelwch chi fwyafrif y glöynnod byw. Dylai'r llwybr hwn fod mor agos at 100 metr (cam) o hyd â phosib. Dylai fod yn llwybr y gellir ei ailadrodd ymhen blynyddoedd i ddod - gan ddilyn llwybr presennol os yn bosib.

2. Cerddwch y llwybr ddwywaith y flwyddyn; y tro cyntaf ar ddiwrnod heulog cynnes ym mis Mai, yr ail dro ar ddiwrnod heulog cynnes rhwng canol mis Gorffennaf a chanol mis Awst. I gael y canlyniadau gorau, dylid gwneud hyn ar ôl 11 yn y bore a chyn 4 yn y prynhawn. Ceisiwch ddewis diwrnod pan nad yw'r gwynt yn chwythu'n rhy gryf (dim ond awel ysgafn ddylech chi ei theimlo ar eich wyneb) oherwydd mae glöynnod byw yn mynd i chwilio am gysgod mewn gwynt cryf ac yn fwy anodd eu canfod.

3. Cyfrwch yr holl löynnod byw rydych chi'n eu gweld o fewn 2 i 3 metr y naill ochr i chi. Ar ddiwedd y daith, cyfrwch nifer y rhywogaethau rydych chi wedi'u gweld a faint o bob rhywogaeth rydych chi wedi'u gweld.

***Cyngor; edrychwch ar bennau blodau fel y bengaled am löynnod byw yn gorffwys neu'n bwydo.***

*Canlyniadau*

Cofiwch roi gwybod i Gofalu am Erw Duw os ydych chi wedi cynnal yr arolwg yma ac anfonwch eich canlyniadau atom ni. Efallai y bydd gan eich Grŵp Cadwraeth Glöynnod Byw lleol ddiddordeb hefyd.

### Gwneud cofnod biolegol

Ceir cofnodion cenedlaethol o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid sydd wedi'u hadnabod eisoes. Efallai eich bod wedi gweld y rhain wrth ddod i wybod am y safle claddu i ddechrau (edrychwch ar daflen A1, Y Pump Cam). Gadewch i'ch ymddiriedolaeth natur leol, y cofnodwyr sirol neu staff cofnodi'r awdurdod lleol wybod beth rydych chi wedi bod yn ei weld a cheisiwch wneud arfer o anfon eich cofnodion atynt bob blwyddyn. Byddant yn gallu rhoi cyngor ynghylch sut mae gwneud cofnod a pha wybodaeth ddylid ei chynnwys. Os ydych chi'n ansicr ynghylch rhywbeth, tynnwch ei lun.

Edrychwch yn y wefan 'I Spot' – mae'n helpu gydag adnabod a gwneud cofnodion.

Gadewch i Gofalu am Erw Duw wybod os byddwch yn gweld nadroedd defaid neu ymlusgiaid eraill, draenogod, capiau cwyr, gwenoliaid duon yn magu neu os oes gennych chi ywen hynafol.

### Cysylltiadau defnyddiol

Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid, www.arc-trust.org

Cymdeithas Grwpiau Ffwng Prydain, www.abfg.org

Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain, www.bsbi.org.uk

Butterfly Conservation, www.butterfly-conservation.org

Gofalu am Erw Duw, www.caringforgodsacre.org.uk

I Spot, www.ispot.org.uk

Cymdeithas y Mamaliaid, www.mammal.org.uk.

### Darllen defnyddiol

Mae siartiau plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes yn adnoddau rhagorol ar gyfer dechrau adnabod ac arolygu bywyd gwyllt.

Edrychwch ar Gofalu am Erw Duw; Canllaw i Fywyd Gwyllt Tiroedd Claddu.

Cyfaill Botanegol Tiroedd Claddu, Gofalu am Erw Duw.

The Wildflower Key - Francis Rose, Frederick Warne Books.



*Llygoden goch*


# 11. Safleoedd Claddu Ledled Prydain

***Mae'r daflen hon yn egluro'r gwahaniaethau mewn amodau ar safleoedd ledled Prydain – gwledig a threfol, gogledd, de, dwyrain a gorllewin, arfordirol, agored a chysgodol.***

Un o'r pethau ffantastig am safleoedd claddu yw eu bod i'w gweld mewn cymunedau ledled Prydain. Maent hefyd yn adlewyrchu bywyd ym mhob canrif, o gyfnod cyn-hanes i'r oes fodern.

## Safleoedd claddu trefol

Gall mynwentydd Fictoraidd mawr, yn arbennig, fod yn lloches allweddol i fywyd gwyllt mewn ardal adeiledig. Gyda pharciau, gerddi, cloddiau rheilffyrdd a thir diffaith, maent yn ffurfio mosaig o gynefinoedd sy'n rhyng-gysylltu. Gan fod safleoedd trefol yn dioddef o fwy o lygredd aer, efallai fod diffyg amrywiaeth o gennau, mwsoglau neu redyn o gymharu â safleoedd heb eu llygru. (Mae ganddynt sawl cen, er hynny; gweler siartiau plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes yn Darllen defnyddiol). Mae'r coed a blannwyd yn ystod y Chwyldro Diwydiannol yn adlewyrchu ymwrthedd i lygredd; mae planwydd Llundain, sycamorwydd a chonwydd mawr yn nodweddiadol. Mae pob coeden drefol yn bwysig i gael gwared ar lygrwyr o'r aer a dylid eu gwerthfawrogi.


*Sycamorwydden*

Mae'n bur debyg bod gan safleoedd gwledig amrywiaeth ehangach o blanhigion ac anifeiliaid, ond, pan maent wedi'u hamgylchynu gan dir amaethyddol dwys, efallai nad yw hyn yn wir.

Bydd daeareg a dyfnder y pridd yn cael dylanwad mawr. Mae priddoedd ffrwythlon dwfn canolbarth a dwyrain Prydain yn wahanol iawn i'r priddoedd tenau a chreigiog ar arfordir y gorllewin, y twyni calchaidd neu fynyddoedd Ardal y Llynnoedd. Mae'r ardaloedd ffrwythlon hyn yn debygol o fod â glaswellt, coed neu blanhigion sy'n tyfu'n gyflymach ac efallai fod rhaid torri'n amlach er mwyn atal y glaswelltir rhag datblygu i fod yn drwchus a thwmpathog.

Bydd y gwaith carreg yn adlewyrchu'r ddaeareg leol, yn arbennig mewn safleoedd hŷn; sy'n dyddio o gyfnod cyn i welliannau trafnidiaeth alluogi i gerrig gael eu cludo mewn llwythi mawr. Mae altitiwd yn effeithio ar dymheredd a gwynt; bydd glaswellt tir claddu i fyny ym mynyddoedd Cymru neu yn ucheldir Gogledd



Ddwyrain Lloegr yn tyfu'n arafach a bydd y coed yn plygu wrth gael eu chwythu gan y gwynt.

Mae safleoedd arfordirol yn cynnwys planhigion a choed hoff o halen a'u siapiau eto wedi gwyro neu'u chwythu gan y gwynt. Efallai fod gan safleoedd arfordirol blanhigion glaswelltir sy'n cael eu heffeithio'n gyson gan dywod hallt a chwythir gan y gwynt.

## GOFALU AM safleoedd gwyntog a safleoedd yr ucheldir neu'r arfordir

Gall planhigion a choed sy'n tyfu mewn ardaloedd arfordirol agored ac ardaloedd altitiwd uchel ddioddef o gael eu curo gan y gwynt a'u llosgi gan halen ar ôl stormydd. Mae hyn yn achosi i'r dail neu'r nodwyddau dduo a marw, a gellir camgymryd hyn am afiechyd. Nid yw'r planhigyn neu'r goeden yn debygol o fod wedi'i difrodi'n barhaol a bydd yn aildyfu.

Gall safleoedd arfordirol agored gynnwys planhigion a choed hoff o halen; os byddwch yn ystyried plannu o'r newydd, yna dylid edrych ar y gerddi yn yr ardal i weld beth fydd yn ymdopi â'r amodau.

Wrth blannu coed newydd mewn lleoliadau agored, dechreuwch gyda choeden fechan sydd wedi cael ei thyfu mewn meithrinfa leol, mewn llecyn agored i rywfaint o dywydd. Peidiwch â rhoi ffon dal i ddal y goeden yn ei lle, ond ffon isel (30cm o'r ddaear), fel bod y coesyn yn gallu symud yn y gwynt heb i'r gwreiddiau symud. Mae hyn yn annog y goeden i wreiddio'n gryf yn erbyn y gwyntoedd cryfaf. Gall sgriniau atal gwynt rhwyllog helpu planhigion newydd i sefydlu heb sychu.

Mewn rhai ardaloedd arfordirol neu altitiwd uchel, gall planhigion y rhos, fel grug a llus, fod yn rhan o'r 'glaswelltir', tra bo'r coed yn cael trafferth. Gall bedw, drain gwynion, criafol a phinwydd i gyd dyfu mewn lleoliadau mwy agored, o gymharu â choed eraill. Peidiwch â chysgodi planhigion y rhos os yn bosib;

## 11. Safleoedd Claddu Ledled Prydain

mewn ardaloedd yn yr ucheldir, gall y tir claddu fod yn lloches i rostir a glaswelltir o flodau mewn ardal o bori eang gan ddefaid. Mae glawiad yn nodwedd amrywiol arall, gyda mwy o law yng ngorllewin Prydain. Gall glaswellt dyfu drwy gydol y flwyddyn mewn safleoedd mwyn, gwlyb yn y de orllewin, ond arafu neu stopio yn ystod misoedd yr haf a'r gaeaf mewn safleoedd oerach a sychach yn y gogledd ddwyrain.

Cofiwch ystyried y glawiad wrth gynllunio i dorri glaswellt. Os yw'r glaswellt yn tyfu drwy gydol y flwyddyn, yna efallai y bydd arnoch angen torri'n amlach nag mewn rhannau eraill o'r wlad.

### Elfennau lleol

Wrth gynllunio i blannu o'r newydd, efallai eich bod am ddewis planhigion a choed sy'n adlewyrchu eich ardal, fel coed mefus a derw bythwyrdd yn Nyfnaint a Chernyw. Mae gwifwrnwydden yn llwyn hoff o galch ac yn nodwedd mewn calchfeini a sialciau deheuol, ac felly hefyd farf yr hen ŵr, y clematis gwyllt. Gwelir pren bocs ar Dwyni Surrey ac mae meryw yn hynod gyffredin mewn rhai ardaloedd, yn y gogledd a'r de.

Mae bellach yn bosib prynu hadau, bylbiau, planhigion a choed o 'darddiad lleol', sy'n golygu bod yr hadau wedi'u casglu yn lleol. Mae'r planhigion a'r coed hyn yn fwy tebygol o oroesi yn eich ardal ac efallai fod ganddynt siapiau neu arlliwiau nodweddiadol, sydd i'w canfod yn yr ardal honno.

Mae'r arddulliau adeiladu'n adlewyrchu amodau, traddodiadau a hanes rhanbarthol. Dyma rai enghreifftiau o bwnc rhyfeddol:

- Cloddiau Dyfnaint a gwrychoedd Cernyw.
- Dylanwadau Ffleminaidd yn Nwyrain Anglia.
- Gwahaniaethau mewn dulliau walio a phlygu gwrychoedd.
- Defnydd o frics mewn hen adeiladau os oedd clai addas ar gael.

Ceisiwch ddefnyddio dulliau a deunyddiau lleol wrth atgyweirio strwythurau adeiledig presennol ac wrth gynllunio rhai newydd. Os yn plannu bylbiau fel clychau'r gog neu gennin Pedr gwyllt, neu hadau fel cymysgedd o flodau gwyllt, gwnewch yn siŵr eu bod o darddiad lleol. Mae hyn yn helpu i gynnal yr amrywiaeth cyfoethog o blanhigion, a'r dolydd o flodau gyda gwahaniaethau rhanbarthol bychain sydd i'w canfod ledled Prydain. Gofynnwch am gyngor gan Flora Locale neu Plantlife.

**Cofiwch ddathlu arbenigrwydd lleol – yn wyneb globaleiddio cynyddol, mae'r gwahaniaethau mewn planhigion, coed a dulliau adeiladu'n haeddu cael eu gwerthfawrogi.**



*Y Ganrhi Goch*



*Tegeirian Pigfain*



*Garlleg Gwyllt*

**Cysylltiadau defnyddiol**

Gofalu am Erw Duw, www.caringforgodsacre.org.uk

Common Ground, www.commonground.org.uk

Flora Locale, www.floralocale.org

Plantlife, www.plantlife.org.uk

Yr Ymddiriedolaethau Natur, www.wildlifetrusts.org

**Darllen defnyddiol**

Flora Britannica – Richard Mabey

Urban Lichens on Trees and Wood – siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes

Urban Lichens on Stone and Soil – siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes

# 1. Archeoleg a Nodweddion Adeiledig Hanesyddol

***Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth am archeoleg a hanes mynwentydd eglwysi a safleoedd claddu a'u nodweddion o wneuthuriad dyn, gyda chanllawiau ar gofnodi.***

## Archeoleg o dan y ddaear

Mewn termau archeolegol, gall mynwentydd eglwysi a thiroedd claddu gynnwys tystiolaeth sydd wedi'i chladdu o ddefnydd cynharach o'r safle gan ddyn. Mae gan rai safleoedd darddiad cyn-Cristnogaeth ac, o'r herwydd, mae'r parhad yn y defnydd ohonynt yn gallu bod wedi para am ganrifoedd lawer. Efallai fod gweddillion strwythurau, terfynau a nodweddion eraill wedi'u claddu ynddynt, a all daflu goleuni ar hanes a datblygiad adeilad yr eglwys. Gall claddfeydd hanesyddol ddarparu gwybodaeth am arferion claddu yn y gorffennol a datgelu gwybodaeth am ddeiet, afiechydon ac agweddau eraill ar fywyd dyn. Nid oes posib cael gafael ar wybodaeth o'r fath fel rheol, oherwydd yr anawsterau gyda chynnal sesiynau tyllu archeolegol mewn mynwentydd eglwysi a safleoedd claddu, ond nid oes angen tarfu ar y tir gyda mathau eraill o dystiolaeth.

## Archeoleg uwch ben y ddaear

Mae mynwentydd eglwysi'n cynnwys daearwaith gweladwy yn aml, fel terfynau segur sy'n marcio graddfa'r tir claddu gynt. Gall hyd yn oed siâp y safle gynnig awgrym; credir fod cynllun cylch yn fras yn dynodi tarddiad cynnar neu cyn-Cristnogaeth. Dim ond rhan o'r darlun yw archeoleg. Yn aml iawn mae mynwentydd eglwysi a safleoedd claddu'n cynnwys adeiladau a strwythurau pwysig (nid dim ond yr eglwys ei hun), sy'n nodweddion diddorol eu hunain ac yn dangos y newid mewn chwaeth, ffasiwn neu dechnoleg mewn ffordd amlwg iawn.


Yn wahanol i'r adeiladau, pur anaml mae mynwentydd wedi'u gwarchod drwy fod yn rhestredig a gallant ddioddef o bwysau pydredd naturiol, llystyfiant gwyllt a fandaliaeth. Maent angen ac yn haeddu gofal, nid yn unig oherwydd eu diddordeb hanesyddol, ond hefyd am fod hanes yn rhoi i ni ymdeimlad o amser a lle.

## Arolygon

Os oes gan eich mynwent neu eich tir claddu nodweddion anarferol, gallai arolwg archeolegol heb gloddio fod yn ymarfer gwerth chweil. Gall arolwg ddatgelu trysorau nad oes neb wedi sylwi arnynt o'r blaen, fel eitemau sydd wedi'u hanner gladdu yn y ddaear. Hefyd, mae arolwg yn darparu gwybodaeth am hen derfynau, hen adeiladau, oedran pob rhan o'r safle'n fras a dyddiad y nodweddion yn fras, fel croesau pregethu. Gellid cloddio'n archeolegol mewn mynwent os, er enghraifft, yw gwaith draenio o dan y ddaear yn hanfodol. Mae hyn yn ddrud ac, fel opsiwn arall, a all fod yn ddigonol, gellid cynnal briff 'gwylio', i archeolegydd arsylwi unrhyw waith cloddio ac ysgrifennu adroddiad ar bopeth a ddarganfyddir. Mae hyn yn debygol o gael cymorth grant os bydd yn cael ei wneud ochr yn ochr â gwaith arall sy'n cael cymorth grant.

## Y gyfraith

Gan fod mynwentydd eglwysi a thiroedd claddu'n safleoedd hanesyddol, mae'n anghyfreithlon cloddio ynddynt (ar wahân i agor beddau) heb wneud cais am ganiatâd, ac ni ddylid gwneud unrhyw waith cloddio ar raddfa fawr heb archeolegydd yn bresennol. Ni ddylid symud unrhyw waith carreg heb ganiatâd yn yr un modd. Cysylltwch ag adran archeoleg eich cyngor lleol neu swyddfa'r eglwys am gyngor pellach.



## Nodweddion adeiledig hanesyddol

Mae hyn yn cynnwys adeiladau fel elordai a mawsolea a strwythurau eraill fel cofebau, pyrth mynwentydd a chroesau pregethu. Mae gan y rhain i gyd werth cadwriaethol posib oherwydd maent yn cynrychioli'r cyfnod pryd cawsant eu gwneud a'u gosod yn eu lle.

## Hen groesau carreg

O'r oesau cynharaf, mae croesau mewn mynwentydd wedi bod yn ffocws ar gyfer addoli. Roeddent hefyd yn orsafoedd ar gyfer gorymdeithiau yn yr awyr agored, yn enwedig wrth gadw at arferion Sul y Palmwydd. Pren oedd y croesau cynharaf, ac yna carreg. Efallai eu bod wedi'u lleoli yn ochr ddeheuol heulog adeilad yr eglwys ac mae'r croesau sydd wedi goroesi, yn enwedig y rhai yn eu lleoliad gwreiddiol neu'n agos at y lleoliad hwnnw, yn haeddu cael eu gwarchod. Mae llawer

ohonynt yn Gofadeiladau Hynafol Rhestredig. Tynnwyd pennau rhai o'r hen groesau hyn yn ystod y Diwygiad a chawsant eu newid weithiau am ddeialau haul. Gall y rhai hen iawn fod yn fonolithau, sef paladr o garreg wedi'i osod yn uniongyrchol yn y ddaear yn aml, heb sylfaen. Mae gan y ffurfiau mwyaf cyffredin stepiau yn y gwaelod a chawsant eu codi yn ystod y cyfnod canoloesol hyd at y Diwygiad.



### Pyrth Mynwentydd

Mae'r gair yn y Saesneg, lychgate, yn tarddu o'r hen air Lic sy'n golygu corff marw. Yn y gorffennol, roedd y corff yn cael ei gludo at y porth a'i osod ar garreg arch neu elor, ble'r oedd yr offeiriad yn cynnal rhan gyntaf y gwasanaeth angladdol.

Gwelir pyrth wrth fynd i mewn i fynwentydd ac weithiau yn yr allanfa hefyd. Daethant yn boblogaidd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a chawsant eu hadeiladu yn null y gwaith coed canoloesol, i gofio person lleol yn aml, neu ddigwyddiad arbennig neu fel cofeb ryfel.

### Cerfiadau ar waliau

Gall tu allan eglwys gynnwys amrywiaeth o waith carreg diddorol wedi'i gerfio; parapetau, pinaclau, pistyllod bargod a grotesgau. Efallai fod Sheela Na Gig yn bresennol hyd yn oed, sef cerfio erotig yn ôl pob tebyg o ffigwr benywaidd. Mae'r rhain yn hen yn aml ac yn ymddangos fel pe baent wedi dod o adeilad blaenorol, hŷn. I gael rhagor o wybodaeth am y cerfluniau rhyfeddol hyn, ewch i www.sheelanagig.org.


### Deialau Haul

Efallai fod hen ddeialau haul sy'n sefyll ar eu pen eu hunain yn bresennol, neu ddeialau torfol ar wal yr eglwys. Er nad ydynt o ddefnydd yn awr ar gyfer cadw amser, mae iddynt ddiddordeb o ran cynllun gwyddonol, adeiladwaith a chadwraeth deialau haul. Mae Cymdeithas Deialau Haul Prydain yn cofnodi deialau haul Prydeinig ac yn cynghori ynghylch eu hadfer.

Mae deialau torfol (deialau crafiad) yn ddeialau canoloesol (tua 1100 - 1600) sydd i'w canfod ar waliau deheuol eglwysi. Maent yn cynnwys cyfres o linellau rheiddiol sydd wedi'u cerfio ar y gwaith carreg, gyda darn o bren neu beg haearn yn y canol, a fyddai'n taflu cysgod ac yn dweud amser yr offeren.

### Cofebau a chofadeiladau

Mae cofadeiladau mynwentydd yng ngolwg y cyhoedd. Gall llawer o bobl eu gwerthfawrogi a gall hyn helpu i gyfyngu ar fandaliaeth ac annog cefnogaeth gan deuluoedd a chymunedau er mwyn




gofalu amdanynt.

Mae cofebau a chofadeiladau'n hynod gyfoethog eu hanes ac yn dangos gwybodaeth am bynciau sy'n amrywio o dechnoleg chwarelu am gerrig a'u torri, i ffasiwn mewn pensaernïaeth a barddoniaeth.

Ceir amrywiaeth enfawr  o gofebau, o gerrig beddau syml i strwythurau ecsentrig, crand a hynod addurnol. Ychydig iawn o gofebau cynnar iawn, fel caeadau arch carreg garw, yr eirch eu hunain a rhai beddrodau cynnar, sy'n bodoli o hyd. Mae'r rhan fwyaf o'r cofebau rydyn ni'n eu gweld heddiw'n dyddio o'r 17eg ganrif ymlaen; amser pryd gallai'r llai cyfoethog yn ogystal â'r pwerus godi cofeb ag arni arysgrif. Gadewai seiri maen eu hôl, ac mae i'w gweld o hyd ar rai hen gerrig.


Gall cofebau fod yn garreg fedd fertigol neu lorweddol, beddrodau cist neu feddrodau bwrdd. Hefyd ceir mathau crand, mwy anarferol, fel cerfluniau a mawsolea, sy'n adeiladau wedi creu fel cofadeiladau ac yn amgáu'r siambr gladdu. Yn hanesyddol, roeddent ac maent o hyd yn adeiladau mawr a thrawiadol i berson o bwysigrwydd. Mae cerrig beddau'r 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif yn enwog am eu llythrennau hardd.




Mae daeareg y cofebau'n ddiddorol (edrychwch ar daflen C3, Daeareg y Cerrig). Mae'r symbolau sydd wedi'u cerfio ar y cofebau'n faes astudio pellach. Gelwir yr astudiaeth hon yn symboleg.

## Cofebau rhyfel

Mae cofeb ryfel yn cael ei chodi fel rheol gan gymunedau neu grwpiau lleol i goffau'r bobl hynny sydd wedi bod mewn rhyfel neu wedi'u heffeithio gan ryfel neu frwydro. Mae llawer ohonynt yn bwysig am eu treftadaeth bensaernïol ac artistig, ac yn rhestredig; mae cofebau newydd yn parhau i gael eu codi. Mae'r Ymddiriedolaeth ar gyfer Cofebau Rhyfel yn gweithio i warchod a chadw cofebau rhyfel yn y DU.



# 1. Archeoleg a Nodweddion Adeiledig Hanesyddol

## Cysylltiadau defnyddiol

Cymdeithas Deialau Haul Prydain,www.sundialsoc.org.uk

Eglwys Loegr, ChurchCare, www.churchcare.co.uk

Yr Eglwys yng Nghymru, www.churchinwales.org.uk/heritage

Yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Cadwraeth Eglwysi, www.visitchurches.org.uk

Cyngor Archeoleg Prydain, www.archaeologyuk.org

Ffederasiwn y Cymdeithasau Hanes Teulu, www.ffhs.org.uk

Gwasanaethau archeolegol awdurdodau lleol

Y Ganolfan Marwolaeth Naturiol, www.naturaldeath.org.uk

Yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Cofebau Rhyfel, www.warcofebau.org

*Asiantaethau statudol y llywodraeth:*

Cadw, www.cadw.wales.gov.uk

Historic England, www.historicengland.org.uk


Historic Scotland, www.historic-scotland.gov.uk

Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon, www.doeni.gov.uk

## Darllen defnyddiol

English Churchyard Memorials - Frederick Burgess

Understanding Scottish Graveyards - Betty Willsher



*Pabi*

# 2. Hanes, Llên Gwerin a Thraddodiadau

***Mae’r daflen hon yn ystyried hanes y safleoedd claddu a’r traddodiadau a’r llên gwerin cysylltiedig â mynwentydd eglwysi. Gall yr wybodaeth hon fod yn ddefnyddiol i ysbrydoli gwybodaeth, digwyddiadau a gweithgareddau.***

## HANES

Mae Prydain yn cynnwys llawer o safleoedd claddu sy’n cofnodi’r canrifoedd a aeth heibio; o feddrodau hir Neolithig i fynwentydd newydd a safleoedd claddu gwyrdd. Nid ydym yn gwybod beth yw tarddiad y mynwentydd eglwysi ym Mhrydain ond mae’n debygol bod rhai ohonynt yn dyddio’n ôl i oes cyn adeilad yr eglwys. Mewn rhai achosion, roedd eglwysi a thir claddu Cristnogol naill ai’n cymryd lle neu’n bodoli ochr yn ochr â safleoedd paganaidd a fodolai eisoes. Pab Gregory Fawr (590AD) argymhellodd fynwentydd eglwysi fel safleoedd claddu, fel bod yr addolwyr yn cerdded heibio i feddau ac yn cofio am y meirw yn eu gweddïau. Cafodd eglwysi eu cysegru ar gyfer claddu am y tro cyntaf wedi i Cuthbert, Archesgob Caergaint, sicrhau caniatâd gan y Pab yn 752. Gall mynwentydd gynnig manylion diddorol am hanes mewnfudo ym Mhrydain. Mae mynwentydd mawr yn cynnwys ardaloedd sydd wedi’u neilltuo i genedl neu ffydd arbennig, fel Rwsiaid, Serbiaid neu Orthodocs Groeg. Ceir hefyd safleoedd claddu penodol i ffydd, gan gynnwys mynwentydd i Iddewon a Mwslemiaid. Cafodd ardal o un erw o amgylch eglwys ar gyfer claddu ei gosod i lawr yn 943 gan y brenin o Gymro, Hywel Dda. Erbyn y 10fed ganrif, roedd yr ardal o ‘Erw Duw’ yn cael ei marcio gan groesau pren yng nghorneli mynwentydd. Wrth i beiriannau amaethyddol ddod i fodolaeth a gyda dyfodiad y Chwyldro Diwydiannol, gwelwyd pobl yn mudo o gefn gwlad i drefi a dinasoedd, a oedd yn ehangu’n gyflym iawn. Gwelwyd mynwentydd yn cael eu sefydlu o ganlyniad i orboblogi mynwentydd eglwysi trefol ac yn sgil y dyhead Fictoraidd i greu gerddi coffa.

Mae’r degawdau diwethaf wedi gweld sefydlu tiroedd claddu gwyrdd ac, yn fwy diweddar, codau QR (darllen cyflym), sy’n rhoi gwybodaeth ddigidol am y meirw. Mae safleoedd claddu’n bwnc rhyfeddol iawn ar gyfer astudio hanes a newid cymdeithasol.

## LLÊN GWERIN a THRADDODIADAU

Wrth edrych ar safle claddu heddiw, am beth rydym yn meddwl? Os mai dim ond casgliad o gerrig beddau ydyn ni’n eu gweld, yna rydyn ni’n colli llawer, oherwydd mae’r mannau arbennig yma’n gallu dweud llawer wrthym. Yn gymharol dawel a heb neb yn tarfu arnynt nawr, arferent fod yn llefydd ar gyfer gweithgarwch cymunedol, ble roedd y sanctaidd a’r bydol yn cyfarfod. Mae llawer o wybodaeth ar gael am ein mynwentydd hanesyddol mewn eglwysi a chapeli:

• Roedd llwyni a choed yw yn fannau cysegredig i’r Prydeinwyr hynafol ac rydym yn gwybod bod rhai o’r yw hen iawn sydd i’w gweld mewn mynwentydd yn hŷn na Christnogaeth ym Mhrydain.


• Ceir cofnodion am Gynulliadau Sacsonaidd, neu seneddau, yn cael eu cynnal mewn mynwentydd a hefyd marchnadoedd, cyfarfodydd a chynulliadau crefyddol awyr agored.

• Ar adeiladau’r hen eglwysi fe welwch chi rigolau dyfnion wedi’u cerfio’n aml yn y gwaith carreg. Dyma ble’r oedd y dynion lleol yn rhoi min ar eu saethau yn ystod yr ymarfer saethyddiaeth gorfodol yn y fynwent.

• Arferai dramâu gwyrthiol a sanctaidd, gyda’r clerigwyr yn cymryd rhan ynddynt, gael eu perfformio mewn mynwentydd a chymerai dawnswyr Morris ran mewn dawnsfeydd defodol perthnasol i gyltiau ffrwythlondeb paganaidd.

• Cynhelid gemau fel coetio, nawpin a reslo mewn mynwentydd a defnyddid waliau eglwysi neu gapeli i chwarae pumoedd. Roedd ymladd ceiliogod yn digwydd yng nghysgod yr eglwys neu’r capel hyd yn oed. Nid oedd rhai o’r clerigwyr yn frwd iawn dros chwaraeon afreolus a oedd yn annog gamblo, ond roedd Brenin Iago’r Cyntaf wedi datgan yn 1619 y dylid annog ‘gemau mynwent traddodiadol’ ar yr amod eu bod yn cael eu cynnal ‘ar amser priodol a chyfleus, a heb amharu ar Wasanaeth Dwyfol’.

Nid yw gwyliau cwrw’n syniad newydd; roedd ‘Cwrw’r Eglwysi’ yn wleddoedd o fwyta, yfed a miri a gynhelid yn y fynwent a’u trefnu gan wardeiniaid yr eglwys er mwyn codi arian. Cynhelid y gweithgareddau ar ochr ogleddol yr eglwys, er byddai’r ochr dde ddeheuol yn fwy ffafriol, a hithau’n fwy heulog. Wrth adeiladu eglwys newydd byddai’n cael ei lleoli i’r gogledd o unrhyw Uchel Groes a fodolai, fel na fyddai’n taflu cysgod arni.



## Llên gwerin a defnydd o blanhigion cyffredin tir claddu


Gan fod glaswelltir tir claddu'n hen iawn, mae'r blodau a welir yno wedi bod yn bresennol ers canrifoedd a cheir hen enwau, defnyddiau a chwedlau'n gysylltiedig â hwy. Cadwch lygad am rai o'r planhigion hyn.

| | |
|---|---|
| **Eirlysiau** | Clychau Gŵyl Fair y Canhwyllau, Morwynion Tlws Chwefror, Canhwyllau Mair. Mae Gŵyl Fair y Canhwyllau ar 2il Chwefror. |
| **Briallu** | Prima Rosa – blodyn cyntaf, yn cael ei gasglu gan blant i'w roi i'w rhieni a'i ddefnyddio i addurno eglwysi. Mae Diwrnod y Briallu ar 19eg Ebrill. |
| **Briallu Mair Sawrus** | Allweddi'r Nefoedd neu Allweddi Sant Pedr. Gwasgerid Briallu Mair sawrus o flaen priodferched, caent eu gwisgo mewn penwisgoedd ar ddiwrnod Calan Mai ac fe'u defnyddid i wneud gwin. |
| **Llygad Doli** | Llygaid Angel, Llygaid Duw a Dagrau Efa – oherwydd glas y blodau. Defnyddiwyd y dail ar gyfer gwneud te. |
| **Cnau Daear** | Câi'r tiwbiau eu bwyta naill ai'n amrwd neu mewn stiw gyda chig, gan flasu fel cnau cyll ifanc. |
| **Briwydd Melyn** | Nid yw'r enw yn Saesneg wedi newid ac mae'n cyfeirio at y Forwyn Fair. O'i sychu, mae arogl melys arno a châi ei stwffio i fatresi gwellt a'i wasgaru ar loriau. |
| **Tafod yr Edn Mwyaf** | Cloch y Pasg neu Wyn y Sul (yn Nyfnaint). |
| **Pig Garan y Weirglodd** | Gras Duw. |
| **Ysgawen** | Coeden Ddrewllyd Duw – credid bod coed Ysgaw wedi cael eu defnyddio i wneud y groes. |
| **Tegeirian Porffor y Gwanwyn** | Cain ac Abel neu Adda ac Efa. Câi'r tiwbiau eu malu'n flawd a'u defnyddio mewn diod llaethog o'r enw Salŵp neu Salep. |
| **Llysiau'r Cwlwm a Llysiau'r Ysgyfaint** | Abraham, Isac a Jacob – oherwydd y gwahanol liwiau sydd i'w cael ar un. |
| **Y Ganrhi Goch a Llysiau Solomon** | Ystol Crist neu Ystol i'r Nefoedd |

Mae gan lawer o fynwentydd eu straeon arbennig eu hunain, sy'n adloniadol iawn erbyn hyn, ond arferent gael eu trin yn ddifrifol iawn a dyma ran arall eto fyth o'r trysorau a geir yn ein mynwentydd a'n safleoedd claddu hynafol.



*Tegeirian porffor y gwanwyn*



*Briwydd melyn*

### Cysylltiadau defnyddiol

Gofalu am Erw Duw, www.caringforgodsacre.org.uk

Cymdeithasau Hanes Lleol, www.local-history.co.uk/Groups

Y Ffederasiwn Genedlaethol o Gyfeillion Mynwentydd, www.cemeteryfriends.org.uk

### Darllen defnyddiol

Flora Britannica – Richard Mabey

God's Acre The Flowers and Animals of the Parish Churchyard – Francesca Greenoak

Y Grŵp Ymchwil Mynwentydd - www.york.ac.uk/chp/crg/index.htm

# 3. Daeareg y Cerrig

***Mae’r daflen hon yn edrych ar y math o greigiau sydd i’w canfod mewn safle claddu ac ar gyfer beth maent yn cael eu defnyddio.***

Mae’r gwaith carreg mewn safle claddu’n datgelu daeareg yr ardal o dan yr wyneb a hefyd yr ystod o wahanol fathau o gerrig a ddefnyddir mewn cofebau. Mae safleoedd claddu’n cynnig cyfle gwych i edrych ar ddaeareg, gyda llawer o fathau o greigiau wedi’u dwyn at ei gilydd i un safle hawdd mynd iddo.

Roedd cofadeiladau a chofebau wedi’u gwneud o garreg leol ac roedd y cludiant yn gyfyngedig. Os yw’r gwaith carreg mewn safle claddu’n hŷn na’r 1900au, yna mae’n debygol o fod wedi’i chwarelu gerllaw, oherwydd roedd cludiant yn anodd ac yn ddrud cyn y rheilffyrdd.

Ceir eithriadau i hyn; mae Côr y Cewri yn Swydd Wilt wedi’i wneud o gerrig o Gymru. Yn Oes Fictoria, roedd y rheilffyrdd yn gwneud cludiant yn haws, gan arwain at wenithfaen, llechi a marmor Eidalaidd yn dod yn fwy ffasiynol. Yn fwy diweddar, mae gwelliannau i gludiant rhyngwladol wedi arwain at gerrig coffa o bob cwr o’r byd; mae India, Tsieina a De Affrica’n ffynonellau cyffredin.

Mae eglwys, capel neu adeilad cyn-Fictoraidd arall yn debygol o fod wedi’i wneud o garreg leol gref a bydd yn adlewyrchu’r ddaeareg leol.




Bydd y waliau o amgylch safle claddu o gerrig lleol hefyd, ond nid o ansawdd cystal â’r adeilad fwy na thebyg. Efallai fod y garreg hon wedi cael ei chlirio o gaeau cyfagos neu wedi dod o chwarel agos at y safle.

Mae’r priddoedd yn deillio o’r garreg sylfaen ac, yn eu tro, yn effeithio ar y planhigion a’r anifeiliaid ar yr wyneb. Bydd calchfaen yn cynnwys planhigion nodedig sy’n hoff o galch, ond mae tywodfaen coch yn cynhyrchu pridd cyfoethog, oren ei liw, sy’n gallu troi’r llyffantod sy’n byw ar y safle’n goch llachar!

## Y PEDWAR PRIF FATH O GREIGIAU

### Creigiau igneaidd

Dyma graig dawdd o’r enw ‘magma’. Gall creigiau igneaidd fod yn ‘allwthiol’ wrth i weithgarwch folcanig wthio’r magma i arwyneb y ddaear. Mae creigiau ‘mewnwthiol’ yn cael eu ffurfio o fagma sy’n cael ei wthio i fyny ond nid i’r arwyneb. Mae’r rhain yn cynnwys siliau, deiciau a batholithau. Mae’r magma’n crisialu wrth oeri gan wneud patrwm nodedig; po arafaf yw’r oeri, y mwyaf yw’r crisialau. Gwelir y crisialau mwyaf mewn creigiau igneaidd sy’n fewnwthiol, fel gwenithfaen Cernyw.




#### *Mathau a defnyddiau*

Mae creigiau igneaidd yn cynnwys gwenithfaen, basalt a dolerit. Mae’r creigiau hyn yn wydn ac mae’r crisialau sydd ynddynt yn disgleirio wrth eu sgleinio. Oni bai fod y safle claddu mewn ardal o greigwely igneaidd, fel Cernyw, Shap neu Aberdeen, dim ond ar gyfer cerrig beddau, pileri a slabiau y defnyddir y creigiau igneaidd. Nid yw mwsoglau a chennau’n debygol o ddod i fyw ar y creigiau gwydn hyn.

### Creigiau gwaddod

Mae’r rhain wedi’u gwneud o raean, gro mân a cherrig crynion creigiau eraill. Maent wedi hindreulio, cael eu cludo gan wynt neu ddŵr ac yna’u gwaddodi yn haenau neu ‘welyau’ sy’n cywasgu’n graig. Mae creigiau gwaddod yn amrywio’n eithriadol, gan ddibynnu ar y rhiant-graig y mae’r graean wedi dod ohoni a sut maent wedi cael eu cywasgu. Gall y graean fod yn fawr neu’n fach, gan roi carreg arw neu lefn, ac mae’r lliwiau’n amrywio’n fawr. Mae tywodfaen coch yn tueddu i ffurfio mewn anialwch. Gall creigiau gwaddod fod â ffosilau planhigion ac anifeiliaid ynddynt, a hefyd crychau neu ddafnau glaw wedi’u gwarchod rhwng haenau unigol.



#### *Mathau a defnyddiau*

Mae creigiau gwaddod yn cynnwys; tywodfaen, cerrig llaid, siâl a chlymfaen. Fe’u defnyddir ar gyfer adeiladau, cerrig beddau, cerrig llorio a phlinthiau a byddant yn hollti ar hyd yr haenau y maent wedi’u ffurfio ynddynt yn aml, gan roi arwynebau gwastad. Gall yr hollti neu’r

'asglodi' yma ddigwydd wrth i'r graig hindreulio hefyd, a gellir eu gweld ar lawer o gerrig beddau

### Calchfaen

Mae calchfaen yn fath o graig waddod oherwydd mae'n cael ei ffurfio drwy osod llifwaddod i lawr; yn yr achos hwn, cregyn ac ysgerbydau miliynau o greaduriaid môr microsgopig. Mae'r cregyn hyn yn syrthio i wely'r môr neu maent yn toddi yn nŵr y môr. Mae calchfaen wedi'i wneud yn bennaf o galsiwm carbonad; sef blociau adeiladu cregyn ac ysgerbydau. Mae math arall o galchfaen, sef 'calchfaen oolitig', yn cael ei ffurfio pan mae calsiwm carbonad yn nŵr y môr yn gwaddodi ar ddarnau o lifwaddod gan ffurfio peli bychain (oolithau), tua'r un maint â blaen pin. Yna mae'r rhain yn suddo i wely'r môr.




Gall calchfaen gael ei liwio gan fwynau fel haearn, gan roi amrywiaeth o liwiau o wyn i lwyd tywyll neu goch. Gall calchfaen gynnwys creaduriaid môr ar ffurf ffosilau, fel amonitau, cwrelau, cregyn deuglawr, lili'r môr neu esgyrn pysgod a mamaliaid môr hyd yn oed. Mae'n gryf ac yn addas ar gyfer ei gerfio, ond mae'n erydu'n rhwydd gydag asid ac yn cael ei dduo gan huddug, mwg ac allyriadau. Erydwyd llawer o adeiladau a chofadeiladau, ac roeddent yn colli eu lliw, yn ystod y Chwyldro Diwydiannol, ac wedyn yn sgil allyriadau o gerbydau a glaw asid.

#### *Mathau a defnyddiau*

Mae calchfaen yn cynnwys; sialc, carreg Portland a Chaerfaddon. Mae llawer o adeiladau, cerfluniau a chofebau sydd wedi'u cerfio'n gain wedi'u gwneud o galchfaen, gan gynnwys eirch cerrig Rhufain a Chadeirlan Sant Paul; mae'r ddau wedi'u gwneud o garreg Portland. Calchfaen gwyn yw beddau rhyfel yn aml.

### Creigiau metamorffig

Ar ôl ffurfio, gall craig wynebu gwres a/neu bwysedd eithafol yng nghromen y ddaear. Mae hyn yn digwydd fel rheol wrth i greigiau gael eu claddu'n ddwfn a wynebu pwysedd a gwres dwys, er enghraifft, mewn ardaloedd o weithgarwch tectonig. Hefyd gall ddigwydd wrth i greigiau gael eu gwasgu a'u cynhesu gan greigiau igneaidd mewnwthiol. Mae hyn yn addasu'r creigiau ac maent yn cael eu 'metamorffeiddio'. Gall creigiau metamorffig fod yn wydn ac yn hawdd eu cerfio ac maent yn cynnwys llechi, sy'n cael eu ffurfio o gerrig llaid neu ludw folcanig a marmor sy'n ffurfio o galchfaen. Mae sgist, gneis a chwartsit yn greigiau metamorffig hefyd.

#### *Mathau a defnyddiau*

Defnyddir llechi ar gyfer cerrig beddau, slabiau ac i doi, gyda llechen werdd nodweddiadol Ardal y Llynnoedd i'w gweld yn Abaty Westminster. Defnyddir marmor ar gyfer cofebau a cherfluniau. Mae Marmor Carrara wedi cael ei chwarelu ers dwy fil o flynyddoedd yn yr Appenines yn yr Eidal ac mae llawer o gerfluniau enwog, gan gynnwys gwaith gan Michelangelo, wedi'u gwneud o'r marmor hwn.

Mae adeiladau, waliau a chofadeiladau i gyd yn dynwared wynebau naturiol y creigiau a'r clogwyni yn y gwyllt. Mewn ardal heb allgreigiau naturiol, gall hyn fod yn hynod bwysig i'r planhigion, y cennau a'r mwsoglau sy'n ymsefydlu ar wyneb y graig.

### Adrodd stori'r cerrig

Mae daeareg y safleoedd claddu'n adrodd stori ryfeddol gan fod cymaint o wahanol fathau o greigiau'n debygol o fod yn bresennol, gan ddangos effeithiau amser a'r tywydd. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon mewn taflenni ac ar fyrddau gwybodaeth, neu gan ysgolion a chlybiau. Cysylltwch â'ch cangen leol o'r Ymddiriedolaeth Ddaeareg i weld pa wybodaeth sydd ar gael eisoes ac a oes posib i rywun roi taith dywys a sgwrs i chi.


**Cysylltiadau defnyddiol**

Yr Ymddiriedolaethau Daeareg, www.thegeologytrusts.org

Y Gymdeithas Ddaearegol, www.geolsoc.org.uk

**Darllen defnyddiol**

Rocks – siart plygu'r Cyngor Astudiaethau Maes



# 4. Hanes Cymdeithasol Tiroedd Claddu

***Mae beddau'n ein hatgoffa ni am fywydau'r gorffennol ac yn adnoddau gwerthfawr iawn i achrestryddion. Hefyd mae gan diroedd claddu eu bywgraffiadau eu hunain yn aml iawn, a gall eu hanes cymdeithasol ddatgelu gwybodaeth ryfeddol am y ffordd yr oedd ein cyndadau'n gwneud penderfyniadau ynghylch sut i ddarparu gofod ar gyfer y meirw.***


## HANES CYMDEITHASOL

Mae diffiniadau'n bwysig! Daw mynwentydd o bob math o dan ddeddfwriaethau cwbl wahanol ac mae'r gwahaniaeth hwn yn adlewyrchiad o'r tensiynau real iawn sydd wedi bodoli yn ystod y tair canrif ddiwethaf ynghylch perchnogi a rheoli gofod claddu.

Cysegrwyd y tir o amgylch eglwys yn rheolaidd o'r ddegfed ganrif ymlaen. Ar ôl y Diwygiad, nid oedd Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru, fel eglwys Brotestannaidd, yn credu bod claddu mewn tir cysegredig yn angenrheidiol i dynged yr enaid yn y pen draw. Ond roedd cysegru gofod yn gyfrwng o hyd i 'ymrwymo' y gofod hwnnw i Dduw, a gosod y tir hwnnw o dan berchnogaeth a rheolaeth yr Eglwys.

O'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen, dechreuodd Anghytunwyr yn Eglwys Loegr - er enghraifft, Crynwyr, Bedyddwyr ac Annibynwyr neu Gynulleidfawyr - ddechrau chwilio am opsiynau eraill yn lle claddu mewn mynwent gan Eglwys Loegr neu'r Eglwys yng Nghymru. Yn aml iawn, roedd yr enwadau hyn yn canfod eu tiroedd claddu eu hunain, yn agos at eu capeli. Gallai tiroedd claddu Anghydffurfiol fod yn fawr iawn, ond nawr maent yn wynebu risg o gael eu dinistrio yn aml, gan fod eu perchnogaeth yn annelwig a'r tiroedd o dan fygythiad oherwydd ailddatblygu.

Erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif, roedd grym gwleidyddol ac economaidd yr Anghydffurfwyr yn cynyddu'n gyflym iawn. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac ymhell i'r ugeinfed ganrif, roedd brwydrau'n cael eu hymladd rhwng yr Eglwys a'r Capel ynghylch nifer fawr iawn o agweddau. Efallai mai'r frwydr dros reolaeth ar ofod claddu oedd eu hanghydfod mwyaf nodedig, ac roedd dadlau am hyn mewn trefi a phentrefi ledled Cymru a Lloegr.



## Rhywfaint o fanylion cyfreithiol hanesyddol

Mae un ffaith allweddol am gladdu yng Nghymru a Lloegr yn peri syndod: does gan neb gyfrifoldeb i ddarparu'r gofod claddu. Mae'r gyfraith yn 'ganiataol' ac wedi bod felly erioed, ac yn y gorffennol mae wedi dibynnu ar bob cyfarfod plwyf i benderfynu drosto'i hun sut orau i ddarparu gofod ar gyfer y meirw. Gallai cymunedau barhau i ddefnyddio mynwent y plwyf, ond yn ystod y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd



ganrif ar bymtheg roedd y gofod oedd ar gael yn cael ei lyncu'n aml gan dwf hynod gyflym mewn poblogaethau trefol.

Roedd mynwentydd, i bob golwg, yn opsiwn arall a rhwng 1820 a 1850 darparodd cyllid cydgyfalaf gyfrwng i'r Anghydffurfwyr, cynghorau tref - a gwylwyr! - fuddsoddi mewn gofod mynwent. Ond ni chollodd Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru eu monopoli bron ar ofod claddu o angenrheidrwydd. Mewn llawer o'r mynwentydd cynnar, byddai'r Esgob yn cysegru o leiaf hanner y safle a thrwy wneud hynny, yn sefydlu iawndal clerigol am golli ffioedd claddu ac esgeulustod cyfreithiol. Dyma pam mae cymaint o fynwentydd angen 'trwydded' neu ganiatâd cynllunio gan Eglwys ar gyfer gweithredu yn yr adrannau sydd wedi'u cysegru.

Sefydlwyd y Deddfau Claddu yn ystod cyfnod o brotestio angerddol cynyddol ynghylch mynediad

## 4. Hanes Cymdeithasol Tiroedd Claddu



i Anghydffurfwyr i'w gofod claddu annibynnol eu hunain. Roedd gelyniaeth wleidyddol rhwng enwadau'n golygu bod gweinidogion Anglicanaidd yn gwrthod gadael i Anghydffurfwyr gladdu mewn mynwent eglwys.

Yn yr holl fynwentydd a sefydlwyd, o dan y Deddfau Claddu roedd rhaid i o leiaf hanner y tir barhau heb ei gysegru. Ond nid oedd hyn yn setlo pethau mewn llawer o ardaloedd gwledig, lle nad oedd digon o drethdalwyr i allu fforddio mynwent newydd. Roedd llawer o densiwn mewn sawl plwyf ac roedd rhaid aros nes cyhoeddi Deddf Diwygio'r Gyfraith Gladdu yn 1880 cyn cael rhyw fath o ddatrysiad. Roedd y ddeddf hon yn datgan na ellid gwrthod claddu Anghydffurfwyr ac y dylid caniatáu i weinidogion o enwadau eraill gynnal gwasanaethau claddu mewn mynwentydd Anglicanaidd. Serch hynny, roedd y dadlau rhwng yr eglwys a'r capel i'w weld o hyd, yn yr ugeinfed ganrif hyd yn oed.

### Gwythïen gyfoethog o hanes lleol

Roedd nodweddion hynod y gyfraith yn golygu bod cymunedau fel trethdalwyr, yn ystod cyfnod o newid poblogaeth trefol a gwledig enfawr, yn penderfynu drostynt eu hunain sut orau i wneud trefniadau ar gyfer ble roedd angen gofod claddu newydd. Roedd hwn hefyd yn gyfnod pryd roedd ffasiynau coffa'n golygu bod cofgolofnau'n fwy ac yn fwy addurnol, ac yn cymryd mwy fyth o ofod mewn mynwentydd a oedd eisoes yn llawn.

Roedd estyniadau ar fynwentydd yn gyffredin a gwnaed hynny'n haws drwy newid y gyfraith yn 1867, a oedd yn golygu y gallai unrhyw un oedd yn rhoi erw i'r fynwent gadw un rhan o chwech o'r estyniad ar gyfer claddu ei deulu ei hun. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cafodd claddu yn yr eglwys ei hun ei wahardd am resymau iechyd cyhoeddus, felly daeth y fynwent yn lleoliad newydd ar gyfer rhwysg angladdol aristocrataidd.

## YMCHWILIO I HANES CYMDEITHASOL

Mae posib defnyddio amrywiaeth o ddogfennau hanesyddol lleol i ymchwilio i hanes eich safle claddu a chreu bywgraffiad:

### Mapiau

- Mae hen fapiau'n ffynhonnell wych o wybodaeth, yn enwedig i sefydlu a oes estyniad wedi'i wneud ar fynwent a phryd digwyddodd hynny.
- Chwiliwch am leoliad mynwentydd newydd ar hen fapiau: ble maen nhw, pwy oedd yn berchen ar y tir a faint oedd yn ei gostio?
- A gafodd y fynwent ei hun estyniad? Pryd, a pham? A oedd dadleuon ynghylch pwy fyddai'n talu amdano?

### Cofnodion cyfarfodydd plwyf

- Mae cyfarfodydd plwyf yn cadw cofnodion ffurfiol ac mae nifer ohonynt ar gael o hyd mewn swyddfeydd cofnodi. Chwiliwch yn y cofnodion hyn tuag adeg yr estyniad ar y fynwent. Mae'n bur debyg bod is-bwyllgor claddu wedi'i sefydlu. Roedd ffeiriau a digwyddiadau'n cael eu cynnal yn aml i dalu am wal y fynwent newydd.
- Efallai y bydd y cofnodion yn dangos ffraeo rhwng trethdalwyr ynghylch a ddylai'r fynwent gael ei hymestyn, neu sefydlu mynwent newydd.

### Cofnodion y bwrdd claddu

- Mae rhai llyfrau cofnodion yn eithriadol fanwl: ceir achosion o fyrddau cyfan yn cael eu diddymu am na allai unrhyw un gytuno ar ddyraniad y tir rhwng yr Anglicaniaid a'r Anghytunwyr. Yn aml iawn mae'r cofnodion yn dangos sut gwnaed penderfyniadau am ba fath o gofgolofnau fyddai'n cael eu caniatáu, neu'r ystod o brisiau, neu ba delerau y cytunid arnynt gyda Gwarcheidwaid Cyfraith y Tlodion ar gladdu tlodion.
- Mae dogfennau eraill yn cael eu cadw gyda'r cofnodion yn aml, gan gynnwys cynlluniau a lluniau pensaernïol; llythyrau rhwng y bwrdd claddu a'r Swyddfa Gartref yn dadlau weithiau am gyfreithlondeb rhai arferion; ac arolygon ar sut roedd byrddau claddu eraill yn penderfynu ar faterion fel caniatáu claddu ar ddyddiau Sadwrn a Sul.



## 4. Hanes Cymdeithasol Tiroedd Claddu

### Tirlyfrau

- Cynhwyswyd cwestiynau'n rheolaidd am y fynwent ei hun ac am ffioedd claddu a allai gynnwys rhestru cost canu'r clychau a rhestru manylion am ffioedd codi cofgolofnau a ffioedd eraill.

### Cofrestri claddu


- Mae claddedigaethau sy'n cael eu cynnal o dan y Ddeddf Diwygio Cyfraith yn cael eu marcio felly ar y gofrestr; cadwch lygad am unrhyw sylw y byddai'r ficer wedi'i wneud o bosib ar ochr y dudalen.
- Cyfrwch a oedd nifer y claddedigaethau'n cynyddu cyn gwneud estyniad: ai nifer y claddedigaethau neu faint a rhwysg y cerrig beddau oedd y broblem?

### Papurau newydd lleol

- Roedd adroddiadau am fynwentydd afiach a gorlawn, gwasanaethau cysegru, cyfarfodydd pigog o'r bwrdd claddu, ac a ddylid cau mynwentydd, i gyd yn cael sylw yng ngholofnau'r papurau newydd.

### London Gazette

- Roedd unrhyw fynwent oedd yn cael ei chau yn gosod hysbysiad ffurfiol yn y London Gazette, a gellir chwilio am hynny ar-lein. Edrychwch ar y cofnodion claddu: oedd claddedigaethau yn eich mynwent gaeedig chi'n parhau'r un fath? A beth oedd barn pobl am hynny?



### Gwefannau defnyddiol

www.york.ac.uk/spsw/research/cemetery-research-group/about-cemeteries

www.thegazette.co.uk

### Darllen defnyddiol

Sylvia Barnard (1990) To Prove I'm Not Forgot: Living and Dying in a Victorian City, Manceinion: Manchester University Press

Chris Brooks (1989) Mortal Remains: The History and Present State of the Victorian and Edwardian Cemetery, Caerwysg: Wheaton

Julie Rugg (2013) Churchyard and Cemetery, Tradition and Modernity in Rural North Yorkshire, Manceinion: Manchester University Press

# 1. Cynnwys Gwirfoddolwyr

***Mae'r daflen hon yn rhoi canllawiau ar sut mae cynnwys gwirfoddolwyr yng nghadwraeth eich safle claddu.***

"Llawer o waith a wna llawer o ddwylo"

**Mae cynnwys pobl i reoli eich safle claddu'n syniad da ac mae sawl rheswm dros ei argymell:**

- Rydych yn rhannu'r baich ac mae posib rheoli tasgau mawr neu ddrud.
- Rydych yn cynnwys eich cymuned leol; cael cyfle i egluro beth rydych yn ei wneud a pham, sy'n gallu ennyn cefnogaeth leol.
- Daw gwirfoddolwyr yn llysgenhadon dros eich safle claddu; maent yn siarad am beth maent yn ei wneud gyda ffrindiau a chymdogion ac, yn eu tro, maent yn gallu recriwtio mwy o wirfoddolwyr ac ewyllys da.
- Gall gwirfoddolwyr gynnig sgiliau a phrofiad gwahanol i'ch grŵp chi, fel garddio, adnabod planhigion neu gysylltiadau ag ysgolion lleol.

## DENU GWIRFODDOLWYR



*Blodau'r Gwynt*

Mae rheoli mynwent eglwys neu dir claddu mewn ffordd sy'n sensitif i fywyd gwyllt ac i bobl yn cynnwys tasgau amrywiol a diddorol. Gall y rhain gynnwys creu tomenni compost, gosod blychau adar ac ystlumod yn eu lle, darganfod pa rywogaethau o flodau gwyllt sydd ynddo, pladurio dolydd, walio a thocio coed. Hefyd bydd angen rhywun i greu posteri, rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau drwy'r cyfryngau lleol, trefnu tasgau a chynnal cyswllt rhwng pobl. Er mwyn cael tîm da o wirfoddolwyr at ei gilydd a chynnal brwdfrydedd a momentwm, mae'n help deall rhai o'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag gwirfoddoli. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Diffyg hyder.
- Diffyg amser.
- Unigolion yn dibynnu arnynt.
- Ymrwymiadau gwaith.
- Ddim yn gwybod am y cyfle.
- Nid yw'n broblem iddyn nhw oherwydd nid ydynt yn rhan o'r gynulleidfa.
- Meddwl nad oes ganddynt unrhyw beth i'w gynnig.
- Diffyg ymwybyddiaeth o'r diddordeb sydd gan y safle i'w gynnig.

Drwy gynllunio gofalus a chyhoeddusrwydd priodol, gellir goresgyn llawer o'r rhwystrau uchod.

### Cynllunio diwrnod gwaith

- Beth fydd y bobl sy'n gwirfoddoli yn ei wneud?
- Faint o wirfoddolwyr sydd eu hangen?
- Faint o amser mae'r dasg yn debygol o gymryd ac a fydd yn rheolaidd? Mae diwrnod rheolaidd yn hawdd i'w gofio.
- Ydi lefel y cyhoeddusrwydd yn addas i'r dasg; A fydd y dasg yn cynnwys llawer o bobl neu ychydig?
- Pa ddyddiau ac amseroedd fydd fwyaf addas i bobl a fydd yn gwirfoddoli efallai?
- Toiledau a chyfleusterau golchi dwylo. (Efallai bydd angen toiled gwersylla dros dro a phabell fechan).
- Cynnig lluniaeth ysgafn yn ystod y dasg neu ar y diwedd.
- Pwy fydd yn cynnal asesiad risg? (Edrychwch ar daflen D2, Iechyd a Diogelwch).

## Gofalu am wirfoddolwyr ar y diwrnod

Dywedwch wrth y gwirfoddolwyr sut strwythur fydd i'r diwrnod ymlaen llaw; pryd byddwch yn stopio am baned neu ginio, pryd rydych yn bwriadu gorffen. Dywedwch wrthynt yn glir bod posib iddynt adael pan maent yn dymuno. Rhowch sylw i unrhyw faterion iechyd a diogelwch. Os daw person newydd ar y diwrnod, gwnewch yn siŵr ei fod yn cael croeso ac yn cael rhywbeth i'w wneud.

Gwnewch yn siŵr bod gwybodaeth ddiddorol ar gael am y safle. Ewch o amgylch y safle'n sydyn a thynnu sylw gwirfoddolwyr newydd at nodweddion o ddiddordeb, gan gynnwys dweud wrthynt am y cynllun rheoli a'r rheswm dros y dasg maent yn helpu gyda hi.

Byddwch yn barod i ddod o hyd i rywbeth i bawb sy'n gwirfoddoli ei wneud, waeth beth yw eu gallu. Yn ogystal â thasgau corfforol, mae tasgau eraill hefyd, fel: gwneud te, dod â chacennau, tynnu lluniau, cofnodi planhigion a bywyd gwyllt, ysgrifennu erthyglau ar gyfer y wasg leol.

Meddyliwch am gludiant os yw pobl yn dod o bellach i ffwrdd. Gall hyn fod yn rhannu lifft neu gynnig talu am docyn bws. Os yw arian yn brin, gwnewch gais am grantiau bychain. Cofiwch am gost talu i rywun am wneud y dasg y mae'r gwirfoddolwyr yn ei gwneud am ddim. Nodwch y cynnig o help gyda chludiant ar

# 1. Cynnwys Gwirfoddolwyr

y deunydd cyhoeddusrwydd. Peidiwch â rhoi gormod o gyfrifoldeb ar wirfoddolwyr newydd! Rhowch amser iddynt ddod i'ch adnabod a phenderfynu faint o amser ac ymrwymiad maent eisiau ei wneud.

## Cyhoeddusrwydd

- Rhowch gynnig ar gymaint â phosib o ddulliau; pobl yn dweud wrth ei gilydd yw'r gorau yn aml.
- Gosodwch bosteri ym mhortsh yr eglwys, yn y neuadd bentref, y dafarn leol, y siopau ac ar hysbysfyrddau cymunedol. Lluniwch daflenni syml fel bod pobl yn gallu darllen yr wybodaeth.
- Rhowch fanylion y diwrnod gwaith yn y papur lleol neu lunio datganiad i'r wasg.
- Oes gwefan gymunedol yn bodoli?
- Dechreuwch y cyhoeddusrwydd fis ymlaen llaw.
- Cofrestrwch gyda'ch swyddfa Gweithredu Gwirfoddol leol.
- Cynhaliwch sgyrsiau a sleidiau dan do neu deithiau tywys yn y safle claddu.
- Gwnewch y peth yn apelgar – dyddiau 'Cacen a Chribin' neu 'Sadwrn Pladurio' – gyda bwyd!
- Gweithredwch ochr yn ochr â mentrau cenedlaethol. Bydd papurau newydd a'r radio'n gwybod am fentrau cenedlaethol ac yn rhoi proffil uwch i'ch digwyddiad. Dyma rai mentrau posib:

'Wythnos Genedlaethol y Blychau Nythu'

'Wythnos Genedlaethol Compost'

'Wythnos Genedlaethol y Coed'

- Ymunwch â'r 'Wythnos Gwerthfawrogi Mynwentydd' yn ystod ail wythnos mis Mehefin bob blwyddyn – cysylltwch â Gofalu am Erw Duw am wybodaeth.
- Gwnewch yn siŵr bod aelod cyfeillgar o'ch grŵp yn gweithredu fel pwynt cyswllt a rhowch rif ffôn ar unrhyw gyhoeddusrwydd.

## Cadw gwirfoddolwyr

Croesawch bobl ar y dechrau a diolchwch iddynt ar ddiwedd pob digwyddiad, gan roi gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd nesaf a pha bryd. Ceisiwch ganfod beth mae gwahanol unigolion yn hoffi ei wneud a beth yw eu diddordebau. Helpwch nhw i gyflawni'r hyn maent wedi dod i'w gyflawni. Gall hyn fod yn gyfarfod pobl, dysgu sgiliau newydd, gweld bywyd gwyllt neu gadw'n heini.

Oes posib i un aelod o'r grŵp gadw llygad ar bawb, i wneud yn siŵr eu bod yn hapus ac i gyflwyno pobl newydd? Meddyliwch a oes posib i chi groesawu plant i'ch diwrnod gwaith. Oes tasgau addas i blant eu gwneud ac a fyddai rhywun yn gallu cynnal gweithgareddau ar gyfer plant bach tra mae'r oedolion yn gweithio? (Edrychwch ar daflen D3, Pethau i'w Gwneud, a hefyd ein Pecyn Addysgol sy'n cynnwys llawer o weithgareddau ar gyfer plant). Efallai y cewch lawer mwy o wirfoddolwyr os yw'r digwyddiadau'n addas i deuluoedd.

Lluniwch lyfr lloffion o dasgau gyda lluniau pobl, cyflawniadau a bywyd gwyllt diddorol i bawb edrych arno. D.S. Os ydych chi'n tynnu lluniau o blant neu oedolion agored i niwed, mae arnoch angen caniatâd ysgrifenedig gan riant neu ofalwr, felly paratowch ffurflen syml ac eglurwch wrth y rhiant sut bydd y llun yn cael ei ddefnyddio.

A fyddai gan y grŵp ddiddordeb mewn hyfforddiant neu rannu sgiliau? Gofynnwch pa sgiliau sydd gan y bobl leol; adnabod bywyd gwyllt, gwneud blychau adar neu ystlumod, braslunio cofebau neu flodau gwyllt efallai. Cynhaliwch fore o hyfforddiant.

Ar gyfer tasgau arbenigol mwy, fel walio, bydd rhaid i chi logi hyfforddwr efallai, i ddysgu sgiliau newydd i'ch grŵp (edrychwch ar daflenni A11, Gofalu am Waliau Cerrig a D5, Gwneud Cais am Grantiau).

Unwaith mae eich grŵp wedi'i sefydlu, cofiwch am ddigwyddiadau arbennig fel pen-blwyddi'r aelodau neu ben-blwydd y grŵp.

### Cysylltiadau defnyddiol

Gofalu am Erw Duw , www.caringforgodsacre.org.uk

Cynghorau Gwirfoddol Sirol / Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, www.wcva.org.uk

Amgylchedd Cymru, www.environment-wales.org

Swyddfeydd Gweithredu Gwirfoddol / Gwirfoddoli (chwiliwch am eich swyddfa leol)

Gwirfoddoli yng Nghymru, www.volunteering-wales.net

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

### Darllen defnyddiol

Pecyn Addysgol - www.caringforgodsacre.org.uk

Yr Wythnos Gwerthfawrogi Mynwentydd Genedlaethol - www.caringforgodsacre.org.uk

Wythnos Genedlaethol y Blychau Nythu - www.bto.org

Wythnos Genedlaethol Coed - www.treecouncil.org.uk

# 2. Iechyd a Diogelwch

***Mae'r daflen hon yn rhoi canllawiau ar iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, citiau cymorth cyntaf a chynnal asesiad risg wrth gynnal digwyddiad neu ddiwrnod gwirfoddoli.***

Cyfrifoldeb rheolwyr y tir claddu yw ystyried diogelwch y safle cyfan i ymwelwyr achlysurol. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer grwpiau sy'n cynnal digwyddiad neu ddiwrnod gwaith fel rhan o brosiect cadwraeth.

Mae'n rhaid i reolwyr tiroedd claddu a mynwentydd eglwysi feddwl am iechyd a diogelwch nid yn unig yr ymwelwyr, ond y bobl sy'n gwirfoddoli hefyd. Mae mynwentydd cyhoeddus yn debygol o fod yn gyfrifoldeb yr awdurdod lleol ac, yn y rhan fwyaf o safleoedd Anglicanaidd, mae Cyngor yr Eglwys yn ysgwyddo cyfrifoldeb. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y tir claddu mor ddiogel â sy'n rhesymol ymarferol a bod gofal yn cael ei gymryd i leihau nifer y damweiniau. Mae'n rhaid i'r corff cyfrifol gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, sicrhau yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a chadw cofnodion.

Wrth drefnu diwrnod gwaith neu ddigwyddiad, bydd rhaid i chi ystyried y peryglon, y risg gysylltiedig a sut mae cadw pobl mor ddiogel â phosib.

## ASESIAD RISG

Gall asesiad risg fod yn rhestr wirio ddefnyddiol ar gyfer trefnu digwyddiad; mae'r cyntaf yn cymryd amser ond mae'n gynt yr eildro a phob tro wedi hynny.

### Asesiad risg o'r safle

Dechreuwch drwy edrych ar y safle'n systematig, gan geisio dychmygu ymweld ag o am y tro cyntaf:





*Pinwydden yr Alban*

**Llwybrau a mynedfeydd** – ydi'r llwybrau'n wastad neu'n anwastad, oes unrhyw stepiau clir? Os oes rheilen wrth stepiau, ydi'r rheilen yn ddigon cryf, yn llyfn neu'n arw, oes unrhyw ddarnau wedi torri?

**Ardaloedd oddi wrth lwybrau** – sut mae gweddill y safle? Ydi'r tir yn anwastad, oes cerrig y gellid baglu drostynt, cerrig beddau nad ydynt yn gwbl glir, mieri neu ddanadl poethion?

**Gwaith carreg a chofadeiladau** – oes unrhyw rai o'r rhain yn ansefydlog? Oes beddau wedi'u hamgylchynu gan reiliau pigog?

**Coed** – ydi'r coed yn ddiogel (ydych chi wedi gweithredu ar argymhellion yr arolygon ar y coed), oes ganddynt ganghennau isel, pigog neu foncyffion? Ydyn nhw'n wenwynig?

### Asesiad risg o'r gweithgaredd

**Edrychwch ar y gweithgaredd sydd wedi'i drefnu** - pa arfau neu offer fydd yn cael eu defnyddio? Beth yw ystod oedran a gallu'r cyfranogwyr?

**Arfau** – a fydd yr arfau'n finiog? Os byddant, rhestrwch nhw. Beth am arfau trwm neu anodd eu trin? Gall y rhain fod yn arfau torri, gordd, peiriannau torri gwair.

**Offer arall** – a fydd pethau trwm i'w codi, pethau i faglu drostynt, ydych chi'n bwriadu gwneud tân neu ferwi dŵr?

**Y gweithgaredd** – beth fydd pobl yn ei wneud a ble fyddant yn gweithio? Beth yw lefel y sgil neu'r hyfforddiant sydd ei angen? A fydd pobl yn gwneud gweithgaredd am y tro cyntaf neu ydych chi'n gwybod bod ganddynt brofiad blaenorol? Oes risg benodol gyda gweithgaredd; defnydd amhriodol o arfau, codi gwrthrychau trwm neu anodd, angen gofod o amgylch y person? (Defnydd o ordd neu strimar er enghraifft).

A fydd y gwaith ar lwybr neu ffordd neu'n agos atynt?

Ar ddiwedd y broses hon, byddwch yn teimlo bod y safle cyfan yn hynod beryglus, bod posib i'r

gweithgaredd rydych yn ei drefnu fod yn angheuol ac na ddylid caniatáu i unrhyw un ddod ar eich safle! Bydd y cam nesaf yn gosod y risg mewn persbectif, gobeithio.

### Lefel y Risg

Mae'n rhaid i chi fesur lefel y risg yn awr. Dylech ystyried y tebygolrwydd o ddamwain yn digwydd, a'r difrifoldeb os bydd yn digwydd, a rhoi gradd rhwng 1 a 4 i'r ddwy elfen.

**Tebygolrwydd = T**

1. Annhebygol o ddigwydd
2. Posib / gallai ddigwydd weithiau
3. Tebygol / bydd yn digwydd sawl gwaith
4. Tebygol o ddigwydd / disgwyl y digwyddiad

**Difrifoldeb = D**

D yma'r canlyniadau tebygol gwaethaf o gymryd yn ganiataol nad oes unrhyw fesurau rheoli yn eu lle:

1. Mân anaf, e.e. torri croen, cleisiau, straen, mân-losgiadau.

2. Anaf mawr ond heb beryglu bywyd, e.e. torri asgwrn, rhoi aelod o'r corff allan o'i le, tynnu cyhyr, toriadau, llosgiadau neu afiechyd sydd angen sylw meddygol.

3. Anaf mawr a allai beryglu bywyd, e.e. colli aelod o'r corff, torri asgwrn pwysig, afiechyd drwg, dinoethi neu hypothermia, anaf yn y llygaid.

4. Marwolaeth gwirfoddolwr, contractwr neu aelod o'r cyhoedd.

Tebygolrwydd x Difrifoldeb = Lefel y Risg **T x D = R**
Lefelau'r risg, 1 i 4 = Risg Isel
Lefelau'r risg, 6 = Risg Ganolig
Lefelau'r risg, 8 i 16 = Risg Uchel

| | | **Difrifoldeb** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **1** | **2** | **3** | **4** |
| **Tebygolrwydd** | **1** | 1 | 2 | 3 | 4 |
| | **2** | 2 | 4 | 6 | 8 |
| | **3** | 3 | 6 | 9 | 12 |
| | **4** | 4 | 8 | 12 | 16 |

**Esiampl 1** – Mae'r tebygolrwydd o anaf wrth roi hoelen mewn ffens yn debygol (gwerth tebygolrwydd o 4) ond mân anaf yw'r canlyniad posib (lefel difrifoldeb o 1).

T x D = R, felly 4 x 1 = 4.

Mae lefel risg y gweithgaredd yma'n ISEL (4).

**Esiampl 2** – Gall anaf wrth gynnau coelcerth gael ei ystyried yn debygol (gwerth tebygolrwydd o 4), ond mae'r canlyniad posib yn fawr ond nid yw'n peryglu bywyd (difrifoldeb o 2). T x D = R, felly 4 x 2 = 8. Mae lefel risg y gweithgaredd yma'n UCHEL (8).
**D.S. Mae'n rhaid i chi ddangos sut rydych yn mesur hyn ar y ffurflen.**

Mae lefel y risg yn ymwneud â'r perygl cyn i chi ddefnyddio rhagofalon i leihau'r risg. Nawr bydd rhaid i chi feddwl am leihau'r siawns o anaf.

**Esiampl 1** – Hoelio ffens. Dyma risg isel ond gallech ei gostwng drwy awgrymu bod pobl yn gwisgo menig garddio cryf. Hefyd gallech rybuddio pobl i fod yn ofalus o'u bysedd.

**Esiampl 2** – Cynnau coelcerth. Gellir gostwng y risg uchel yma o'i gynnau dan amodau priodol, cymryd rhagofalon a sicrhau digon o ofod. Bydd hyn yn gostwng y tebygolrwydd o debygol i bosib ac felly'n lleihau'r risg i ISEL 2x 2 = 4. Os byddwch chi, wrth gynnal yr asesiad risg, yn asesu nad oes digon o ofod ar gael i gynnau tân yn ddiogel, yna mae'r risg yn parhau'n annerbyniol o uchel ac ni ddylid bwrw ymlaen â'r dasg.

Disgrifiwch y rhagofalon fyddwch chi'n eu cymryd i leihau'r risg, pwy fydd yn gyfrifol amdanynt a pha bryd. Ailfesurwch y risg yn seiliedig ar y rhagofalon hyn, i weld a yw wedi newid i ganolig neu isel. Os yw dal yn uchel, PEIDIWCH Â DAL ATI. Os yw'n ganolig, yna meddyliwch yn ofalus cyn bwrw ymlaen.

Bydd nifer o'r rhagofalon yn cael eu cwblhau gan 'arweinydd tasg'. Mae'n syniad da cael rhywun i gynllunio pob digwyddiad a'i arwain. Dylai'r arweinydd ysgrifennu'r asesiad risg, cynllunio'r rhagofalon a'u hegluro i eraill. Gall hyn olygu cysylltu â phobl ymlaen llaw a dweud wrthynt am wisgo llewys hir ac esgidiau cryf, neu ddangos peryglon penodol iddynt ar y diwrnod. Edrychwch ar y tabl ar y dudalen gyferbyn am rai enghreifftiau o asesiad risg a wnaed o dasgau i'w cwblhau mewn mynwent.




Mae'r ffurflen Asesu Risg lawn ar gael yng ngwefan Gofalu am Erw Duw. Mae'n cynnwys gofod ar gyfer gwybodaeth ychwanegol, fel cyfeirnodau grid a rhifau ffôn mewn argyfwng.

### Cit Cymorth Cyntaf

Dylai'r Cit Cymorth Cyntaf fod â chynnwys addas i nifer y bobl a phob risg sydd wedi'i datgan (e.e. llawer o hylif golchi llygaid wedi'i steryllu os yn delio â morter calch).

Dylid briffio gwirfoddolwyr ar ddechrau'r sesiwn am y risg gysylltiedig â'r gwaith / digwyddiad, y ddarpariaeth

## 2. Iechyd a Diogelwch

a lleoliad y Cit Cymorth Cyntaf, pwy yw'r Swyddog Cymorth Cyntaf cymwys a ble mae'r ffôn argyfwng wedi'i leoli. I gael rhagor o wybodaeth am y cynnwys a argymhellir ar gyfer Cit/iau Cymorth Cyntaf, cysylltwch ag Ambiwlans Sant Ioan neu'r Groes Goch Brydeinig.

### CADW COFNODION

***Ewch â chopi papur o'r asesiad risg a ffurflen cyswllt mewn argyfwng i'r digwyddiad.***

Cadwch ffeil gyda'ch holl asesiadau risg ynddi. Efallai bydd rheolwr y safle neu swyddogion yr eglwys eisiau cadw'r ffeil i chi, gan ei fod yn gofnod defnyddiol iddynt hwy.

### Llyfr Damweiniau

Cadwch gofnod o ddamweiniau a damweiniau agos. Gall hwn fod yn llyfr nodiadau gyda phensil wedi'i atodi wrtho, sy'n cael ei gadw ar y safle. Cofnodwch y ddamwain (gan gynnwys mân-ddamweiniau), enw'r person sydd wedi anafu, y dyddiad, yr amser o'r dydd ac unrhyw amodau arbennig, fel; golau isel, glaw, tir llithrig. Mae pobl yn anghofio cofnodi damweiniau agos yn aml, ond gall nodiadau fel hyn fod yn ddefnyddiol iawn. Defnyddiwch synnwyr cyffredin wrth benderfynu beth ddylid ei gofnodi.

Mae'r tabl isod yn rhoi rhai enghreifftiau ar gyfer asesu i ddechrau, yna cynllunio eich rhagofalon, ac yna ailasesu.

| Peryglon | Math o Risg | Lefel y Risg TxD = R | Rhagofalon i ddileu perygl neu leihau risg | Pwy? | Pryd? Cyn Yn Ystod | Lefel Risg Newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Anwastad | Baglu a llithro | 2x2=4 | Arolygu'r man gweithio am fannau peryglus penodol. Rhybuddio am dir anwastad. | Arweinydd y dasg | C | 1x2=2 Isel |
| Gostwng yn serth | Codwm ac anaf | 2x2=4 Uchel | Tynnu sylw at y llethr serth a chadarnhau'r angen am gadw'r ardal yn glir o beryglon baglu (e.e. arfau, cotiau). | Arweinydd y dasg | C ac YY | 1x4=4 Isel |
| Cerrig beddau | Carreg fedd yn syrthio ac anaf | 2x4=8 Uchel | Gwirio am gerrig ansefydlog. Os yn bresennol, rhybuddio'r cyfranogwyr i gadw oddi wrth y rhain. Eu cau i ffwrdd os yn bosib. | Arweinydd y dasg | C ac YY | 1x4=4 Isel |
| Coelcerth | Llosgi | 4x2=8 Uchel | Peidio â llosgi os yw'n wyntog iawn. Gwneud yn siŵr bod y tân yn cael ei oruchwylio. Lleoli'r tân oddi wrth dir anwastad a'i gadw'n daclus. Defnyddio celfi i reoli'r tân a chadw'ch pellter. Gofalu bod cludwr dŵr gerllaw. Gwneud yn siŵr bod y tân wedi diffodd ar ddiwedd y dydd. | Arweinydd y dasg a gwirfoddolwyr | C ac YY | 2x2=4 Isel |
| Coelcerth | Anadlu mwg, llygaid | 3x2=6 Canolig | Gweithio i fyny'r gwynt oddi wrth y tân. Peidio â'i gynnau os yw'n rhy wyntog neu'n llosgi tuag at y safle gweithio. | Arweinydd y dasg a gwirfoddolwyr | YY | 2x1=2 Isel |

# 2. Iechyd a Diogelwch

## ADOLYGU

Un o'r pump cam at brosiect llwyddiannus ar dir claddu yw cyfarfod blynyddol ac adolygiad o'r gwaith a sut mae'r gwirfoddolwyr yn teimlo (edrychwch ar daflen A1, Y Pump Cam).

Yn ystod y cyfarfod hwn, mae'n ddefnyddiol adolygu iechyd a diogelwch:

Ystyriwch y canlynol:

• Oes gennych chi ddigon o hyfforddiant cymorth cyntaf yn eich grŵp?

• A fyddai unrhyw un yn hoffi cael  hyfforddiant?

• Oes gan y grŵp ffôn ar ffurf llinell dir neu ffôn symudol (sy'n gweithio!) i gysylltu â'r gwasanaethau brys os oes angen?

• Ydi'r cit cymorth cyntaf wedi cael ei ddefnyddio ac ydi o wedi cael ei ail-lenwi yn ôl yr angen?

• Oes asesiadau risg wedi cael eu cynnal ar gyfer yr holl ddigwyddiadau ac oes copïau mewn ffeil yn awr?

• Ydych chi'n casglu rhifau cyswllt mewn argyfwng y bobl sy'n gwirfoddoli'n rheolaidd?

• Oes patrymau'n dod i'r amlwg yn y llyfr damweiniau?

Er enghraifft:

Os yw damweiniau'n digwydd yn awr ddiwethaf y diwrnod gwaith, yna ystyriwch roi'r gorau i'r tasgau'n gynharach.

Llawer o fân anafiadau'n digwydd wrth ddefnyddio celficyn penodol – oes angen celficyn newydd neu wahanol?



### Cysylltiadau defnyddiol

Y Groes Goch Brydeinig, www.redcross.org.uk

Eglwys Loegr, ChurchCare, www.churchcare.co.uk

Yr Eglwys yng Nghymru, www.churchinwales.org.uk/resources/property

Y Gweithgor Iechyd a Diogelwch, www.hse.gov.uk

Ambiwlans Sant Ioan, www.sja.org.uk

### Darllen defnyddiol

Gofalu am Erw Duw ar gyfer ffurflenni asesu risg – www.caringforgodsacre.org.uk

Managing Visitor Safety in the Countryside – Principles and Practice,

www.vscg.co.uk/publications/managing-visitor-safety-in-the-countryside


# 3. Hamdden a Dysgu – Pethau i'w gwneud

***Mae'r daflen hon yn egluro sut gall tiroedd claddu fod yn llefydd rhagorol ar gyfer addysgu, dysgu a gweithgareddau pleserus. Yn rhan ganolog o gymunedau, gellir eu defnyddio fel ystafell ddosbarth yn yr awyr agored, yn llawn byd natur a hanes lleol a chymdeithasol.***

## BETH SYDD GAN SAFLEOEDD CLADDU I'W CYNNIG

### Ysbrydoliaeth greadigol

Mae tawelwch, harddwch a natur ysbrydol tiroedd claddu'n eu gwneud yn llefydd ysbrydoledig ar gyfer creadigrwydd, gan gynnwys celf, barddoniaeth, ffotograffiaeth ac ysgrifennu.




### Hanes lleol

Mae tiroedd claddu'n stôr o hanes lleol ac, ar hyn o bryd, mae adfywiad i'w weld yn y diddordeb mewn hanes teuluol. Mae pobl yn cael eu denu i ymchwilio i gofnodion claddu, cofrestri mynwentydd ac arysgrifau ar gerrig coffa. Mae'r rhain nid yn unig yn cofnodi hanes teuluoedd ond hefyd patrymau mewnfudo ac ymsefydlu.

### Treftadaeth adeiledig

Mae safleoedd claddu'n fannau gwerthfawr ar gyfer treftadaeth adeiledig. Efallai eu bod yn cynnwys cofadeiladau, cofebau, croesau pregethu, pyrth mynwentydd, deialau haul neu bistyllod bargod, gyda rhai'n dyddio i'r Oesoedd Canol. Mae'r cofadeiladau hyn yn gyswllt diriaethol â'r gorffennol mewn ffordd gwbl unigryw, na welir ei thebyg mewn llyfrau hanes. Gall teithiau tywys i ddysgu mwy am nodweddion adeiledig fod yn boblogaidd.

### Treftadaeth ddiwylliannol



Mae tiroedd claddu'n bwysig i'n treftadaeth ddiwylliannol ni, yn dyddio'n ôl dros fil o flynyddoedd. Maent yn adlewyrchu'r ffasiwn mewn tirlunio, pensaernïaeth, cerfio cerrig a barddoniaeth. Arferai mynwentydd eglwysi fod yn ganolbwynt y gymuned, gyda marchnadoedd, gemau ac ymarfer saethyddiaeth yn cael eu cynnal ynddynt. Ceir llên gwerin diddorol yn gysylltiedig â rhai o'u nodweddion, fel coed yw hynafol. Mae mynwentydd eglwysi a thiroedd claddu lleol yn sicrhau cyswllt â'r gorffennol i bobl, a dealltwriaeth o'u treftadaeth ddiwylliannol a lleol.



### Natur

Er eu bod yn fach, mae gan fynwentydd eglwysi a thiroedd claddu nifer rhyfeddol o rywogaethau pwysig; o'r cen lleiaf un i goed hynafol enfawr. Er enghraifft, Prydain yw cadarnle coed yw hynafol ac mae tri chwarter y rhain i'w gweld mewn mynwentydd eglwysi. Ers 1945, mae 98% o'r glaswelltir llawn cyfoeth o flodau (a arferai fod yn gyffredin iawn yng nghefn gwlad) wedi diflannu ac mae llawer o diroedd claddu'n gweithredu fel hafan i'r hen laswelltir yma a'i anifeiliaid cysylltiedig. Mae'r hafan naturiol yma, ar garreg drws pobl yn aml, yn gallu bod o ddiddordeb i'r amatur a'r arbenigwr natur fel ei gilydd.

### Cymerwch amser...

I edrych ar eich safle a rhestru'r nodweddion a fydd o ddiddordeb i ymwelwyr yn eich barn chi.

Chwiliwch am bobl leol a all arwain taith dywys neu roi sgwrs i grŵp ysgol neu ysgrifennu taflen i ymwelwyr. Waeth pa mor fawr neu fach yw eich safle claddu, bydd ganddo rywbeth i'w gynnig.

Ystyriwch gynnal digwyddiad fel rhan o'r Wythnos Genedlaethol ar gyfer Gwerthfawrogi Mynwentydd Eglwysi, a gynhelir yn ystod ail wythnos mis Mehefin bob blwyddyn. Edrychwch yng ngwefan Gofalu am Erw Duw am ragor o fanylion a ffurflen gofrestru.

Crefftau tocion a gwaith coed

Mae safleoedd claddu'n llefydd gwych ar gyfer cynnal dyddiau crefft y gellir eu defnyddio i ddiolch i wirfoddolwyr neu i ennyn brwdfrydedd pobl newydd. Efallai fod posib i chi wneud pethau o'r tocion a gynhyrchir ar y safle:

# 3. Hamdden a Dysgu – Pethau i'w gwneud

- Stolion o ddarnau crwn o goed wedi'u torri.
- Delltwaith o docion cyll neu helyg.
- Mae'n hawdd iawn gwneud torch Nadoligaidd gan ddefnyddio celyn, eiddew a dail addurnol eraill, pennau hadau neu foch coed. Ystyriwch wahodd unigolyn da am gelf a chrefft i ddigwyddiad; gwehydd basgedi efallai, neu durniwr.

## GWEITHGAREDDAU I BOBL IFANC

Mae safleoedd claddu'n lleoliadau gwych i grwpiau ieuenctid fel ysgolion, grwpiau chwarae, ysgolion Sul, clybiau natur, clybiau gwyliau a grwpiau mudiad y Sgowtiaid. Mae llawer o bobl sy'n rheoli mynwentydd eglwysi a safleoedd claddu'n mynd ati i annog ymweliadau gan y grwpiau hyn, i helpu i ysbrydoli pobl ifanc. Ystyriwch gynnal gweithgareddau ar gyfer plant yn ystod unrhyw ffeiriau neu wyliau sy'n cael eu cynnal. Cofiwch gynnal asesiad risg cyn i grŵp ymweld.



Pethau i'w gwneud:

**Rhwbiadau** – yr hen ffefryn – rhwbiadau coffa, rhwbiadau rhisgl neu rwbiadau carreg. Y cyfan sydd ei angen yw papur, creonau a cherrig coffa neu goed diogel!

**Tynnu llun neu ffotograff o'ch hoff gofeb** – mae'r bobl ifanc yn treulio amser yn edrych o amgylch y safle ac yna'n dewis eu hoff gofeb i dynnu ei llun gyda llaw neu ffotograff. Gall fod yn gerflun, yn gerfiad neu'n arysgrif. Gall hyn apelio at bob oedran, nid dim ond plant!

**Helfa drysor** – gwnewch restr o bethau i blant chwilio amdanynt; blodyn porffor, croes wedi'i cherfio, pluen, gwe pry cop, 3 deilen werdd ac ati. Llungopïwch y rhestr (neu defnyddiwch luniau i blant iau) ac anogwch y plant i chwilio am y trysorau.



**Saffari mân-drychfilod** – un ffordd o archwilio byd y mân-drychfilod yw drwy edrych o dan gerrig ac ysgwyd canghennau uwch ben cadach gwyn a gwylio beth sy'n sgrialu i ffwrdd! Fel dewis arall, gall y plant ddefnyddio pot ac annog y mân-drychfilod i ddod i mewn iddo'n ofalus gyda brwsh paent bychan, i gael golwg fanylach arnynt. Cofiwch siarad gyda'r plant am beidio â chadw'r creaduriaid yn y pot yn rhy hir ac am eu rhoi yn ôl ble daethant o hyd iddynt.

**Bingo coed** – tynnwch lun neu llungopïwch luniau'r dail ar eich safle ar bapur. Mae'r plant yn defnyddio'r taflenni ac yn chwilio am y dail. Dylid cynnwys ambell chwedl werin a'r defnyddiau ar gyfer y gwahanol fath o goed. Bydd hyn yn gwneud y gweithgaredd yn fwy priodol ar gyfer plant hŷn. Mae gan wefan Ymddiriedolaeth y Coetiroedd daflenni gweithgarwch defnyddiol a hefyd mae'n amlinellu'r dail y gallwch eu defnyddio.


**Casglu dail yr hydref wedi iddynt syrthio.** Mae'r plant yn dod o hyd i ddail ac yn eu gosod ar garrai esgidiau. Yna maent yn mynd â nhw allan ac yn gwneud arddangosfa symudol, collage neu'n mynd â nhw adref ar y llinyn.



**Gwneud masgiau** allan o gerdyn. Cyn y sesiwn, torrwch y llygaid allan ymlaen llaw oherwydd gall hyn fod yn anodd i blant. Rhowch elastig drwy ochrau'r masg. Rhowch dâp gludiog ar y ddwy ochr ar y masg ac yna annog y plant i ddod o hyd i laswellt, petalau a dail i'w gludo ar y masg.

**Seremoni gwisgo coeden** – mae hyn yn seiliedig ar hen arferion o bob cwr o'r byd. Mae'n tynnu sylw at ein cyfrifoldeb ni am ofalu am goed ac yn ein hatgoffa ni o'u pwysigrwydd diwylliannol ac amgylcheddol enfawr. Gall gynnwys adrodd straeon, dawnsio, cerddoriaeth, neu hongian rhubanau a gweddïau arbennig ar eich coeden benodol.

Pecyn addysgol - ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg, mae ein pecyn addysgol yn llawn gweithgareddau a syniadau.



### Cysylltiadau defnyddiol

Gofalu am Erw Duw, www.caringforgodsacre.org.uk

Common Ground, www.commonground.org.uk – am syniadau ac ysbrydoliaeth!

Gweithgareddau Plant Ymddiriedolaeth y Coetiroedd, www.naturedetectives.org.uk

### Darllen defnyddiol

Pecyn Addysgol Gofalu am Erw Duw, www.caringforgodsacre.org.uk

Play Lightly on the Earth, Nature Activities for Children 3 to 9 Years Old - Jacqueline Horsfall

# 4. Adrodd y Stori – Gwybodaeth

***Mae'r daflen hon yn egluro pwysigrwydd gwybodaeth dda ac yn rhoi cyngor ar greu gwybodaeth o'r fath ac ar gynnal digwyddiadau a dathliadau.***

## GWYBODAETH

### Manteision gwybodaeth dda

• Gwella ymweliadau pobl.

• Creu cefnogaeth a hysbysebu cadarnhaol wrth i un ddweud wrth y llall.

• Gallu dylanwadu ar agweddau a'u newid.

Nid 'addysgu' am ffeithiau yw gwybodaeth.

Mae gwybodaeth yn ffordd o gyfathrebu sy'n bleserus, yn adloniadol ac yn ystyrlon; gyda themâu clir fel bod y gynulleidfa'n gwrando ac yn dod yn rhan o'r man maent yn ymweld ag ef.

Cofiwch pwy oedd eich athrawon gorau chi. Roedd yr athrawon hyn yn cyfathrebu mewn ffordd a oedd yn hoelio eich sylw a'ch dychymyg ac yn eich helpu i gofio a deall.

Nid yw ymwelwyr â mynwentydd eglwysi a thiroedd claddu'n gynulleidfa barod; does dim rhaid iddyn nhw gymryd sylw. Gwnewch yn siŵr bod eich gwybodaeth yn hoelio eu sylw ac yn ysbrydoledig.

### Canllaw cam wrth gam i greu gwybodaeth




Cyn dechrau cyflwyno gwybodaeth, rhowch amser i gynllunio'n ofalus. Meddyliwch pam eich bod eisiau'r wybodaeth a faint o arian sydd gennych chi ar ei chyfer.

• Beth yw ei swyddogaeth?

• Ar gyfer pwy mae'r wybodaeth?

• Ble fydd yr wybodaeth yn cael ei dosbarthu?

Efallai ei bod yn briodol gadael i'r lleoliad siarad drosto'i hun, heb lunio gormod o wybodaeth.

### Ar ôl ateb y cwestiynau hyn, penderfynwch pa gyfryngau i'w defnyddio:

• Paneli gwybodaeth

• Taflenni

• Canllawiau sain

• Celf

• Digwyddiadau arbennig

• Teithiau tywys neu sgyrsiau

• Llwybrau gydag arwyddion

Rhaid profi unrhyw wybodaeth i weld a ydi'n gweithio:

**Cam 1** – Profwch yr wybodaeth cyn ei chynhyrchu'n derfynol; gofynnwch i'ch cynulleidfa ydi hi'n gweithio iddyn nhw!

**Cam 2** – Ar ôl ei gosod yn ei lle, ydi hi'n gweithio; ydi pobl yn stopio ac yn edrych ac a yw'n amser am newid? Mae gwybodaeth nad yw wedi'i chynnal a'i chadw ac sydd wedi dyddio'n cyfleu neges negyddol am le a'i gymuned.

### Llunio gwybodaeth eich hun

Bydd gwybodaeth rydych yn ei llunio eich hun yn fwy unigryw, ond heb ei chyflwyno mor broffesiynol, ac mae'n rhaid i chi wneud pethau'n iawn. Gwrandewch yn ofalus ar y cyngor canlynol a'r darllen a argymhellir. Os nad yw hyn i chi, edrychwch ar y grantiau i dalu i rywun proffesiynol (edrychwch ar daflen D5, Gwneud Cais am Grantiau). Adroddwch stori eich mynwent neu eich safle claddu gyda geiriau.

### Teitl

Meddyliwch am deitl y bydd pobl yn sylwi arno a chyfathrebwch thema. Er enghraifft, gallai'r teitl 'Mynwent Eglwys y Santes Fair' fod yn 'Hafan Gobaith – Stori Mynwent Eglwys y Santes Fair'.

### Pynciau

Y cam nesaf yw dewis y pynciau ar gyfer gwybodaeth. Gallant gynnwys: glaswelltiroedd, coed, anifeiliaid, pobl, gwaith carreg. Mae mwy na phump pwnc yn ormod o wybodaeth! Cofiwch fod llai yn well bob amser gyda gwybodaeth – does dim rhaid dweud popeth diddorol wrth bobl. Ar ôl dewis y pynciau, y cam nesaf yw penderfynu ar thema pob pwnc.

### Themâu

***Y themâu ydi'r pethau rydych chi am i'ch ymwelwyr eu deall, eu cofio neu eu teimlo wrth adael.***

Yn ogystal â bod yn gofiadwy, mae themâu'n rhoi ffocws i'r meddwl ac yn ei gwneud yn haws ysgrifennu

# 4. Adrodd y Stori – Gwybodaeth

gwybodaeth. Gellir datblygu faint bynnag a fynnir o themâu ar gyfer pob pwnc ond dim ond un prif syniad ddylai thema ei gyfathrebu.

*Er enghraifft*

**Teitl:** 'Hafan Gobaith' – stori mynwent Eglwys y Santes Fair

**Pynciau:** glaswelltir, coed, cerrig beddau, anifeiliaid, pobl



*Blodyn Menyn*

### *Themâu ar gyfer y pwnc 'cerrig beddau'*

- Edrychwch ar y gwahanol fathau o greigiau yn y fynwent yma; mae mwy yn y fan yma nag yn unrhyw le arall yn y plwyf.
- Fel hen adeiladau, mae cerrig beddau'n adlewyrchu ffasiwn mewn pensaernïaeth a barddoniaeth. Edrychwch am yr arddull gothig Fictoraidd flodeuog mewn cerfio ar gerrig coffa.
- Chwiliwch am hen gerrig beddau wedi'u cerfio gyda symbolau sy'n dynodi proffesiwn y person sydd wedi'i gladdu. Mae'n hawdd ysgrifennu themâu diflas ond mae themâu CRYF yn cymryd amser. Mae llun yn adrodd mil o eiriau; defnyddiwch ddigon o luniau o safon uchel.

### *Ysgrifennu gwybodaeth – cyngor call*

- Defnyddiwch ferfau gweithredol pwerus a byddwch yn gadarnhaol – mae hyn yn swnio'n fwy naturiol a bywiog. Mae 'rydyn ni'n rheoli....' yn llawer gwell na 'mae'r safle'n cael ei reoli gan...'
- Defnyddiwch drosiadau, cymariaethau a chyfatebiaethau – mae'r rhain yn helpu pobl i gysylltu'r hyn rydych chi'n ei ddweud wrthyn nhw â rhywbeth arall maent yn gwybod amdano.

Mae corystlumod mor fach fel eu bod yn ffitio i focs matsys bychan.

Mae'r goeden ywen feteran yn gofadail gwyrdd, byw.


Mae ystlumod hirglust yn ystlumod 'sibrwd'. Mae ganddynt gri dawel, eco-leoliad, i osgoi cael eu clywed gan wyfynod.

- Defnyddiwch drosiadau gweledol i ddisgrifio pethau.

Mae'r twmpathau morgrug glaswelltog, sydd wedi'u gwneud gan forgrug melyn diniwed y ddôl, fel mynyddoedd iâ – mae mwy o dan y ddaear nag uwch ei phen.

- Byddwch yn bersonol gan annerch y darllenydd yn y person cyntaf; cyfeiriwch atynt fel 'chi' neu 'ti'.

Fe welwch chi / weli di'r amrywiaeth o flodau haf yng nglaswelltir y fynwent.



*Corystlum*

- Gofynnwch gwestiynau a denwch ddychymyg y gynulleidfa, gyda maint neu amserlen efallai.

Pam ydych chi'n meddwl bod eirlysiau'n cael eu galw'n Glychau Gŵyl Fair y Canhwyllau hefyd?

Camwch yn ôl 500 o flynyddoedd ac fe welwch y dynion lleol yn ymarfer saethyddiaeth yn y fynwent yma.

Pe baech chi'n ddigon bach i fynd y tu mewn i gen, yna fe fyddech chi'n gweld ei fod yn ddau beth mewn un – ffwng ac algâu'n cydweithio.

- Ysgrifennwch mewn brawddegau a pharagraffau byrion. Mae rhai byrion yn rhoi mwy o ergyd! A chofiwch osgoi jargon a geirfa elitaidd.
- Gwnewch y testun yn ddigon mawr a chlir i bobl ei ddarllen yn rhwydd. Mae ymwelwyr yn cofio tua:

| |
|---|
| 10% o'r hyn maent yn ei glywed |
| 30% o'r hyn maent yn ei ddarllen |
| 50% o'r hyn maent yn ei weld |
| 90% o'r hyn maent yn ei wneud |

Felly po fwyaf o ran fydd yr ymwelwyr yn cael ei chwarae; 'chwiliwch am y…', 'aroglwch y…', 'cyffyrddwch â'r…', y mwyaf fyddant yn ei gofio.

## DIGWYDDIADAU A DATHLIADAU

Mae safleoedd claddu'n cynnig gofod gwerthfawr ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol. Ceisiwch gysylltu'r rhain â thraddodiadau, llên gwerin a hanes. Yn y gorffennol, defnyddiwyd mynwentydd eglwysi ar gyfer ymarfer saethyddiaeth a reslo, ar gyfer ffeiriau a marchnadoedd a 'chwrw eglwysi'. Mae byd natur a hanes adeiledig mynwentydd eglwysi neu safleoedd claddu'n gallu bod yn ysbrydoliaeth i ddigwyddiadau neu weithgareddau, gan helpu i gyflwyno gwybodaeth amdanynt i'r holl ymwelwyr.

- Beth am gynnal gweithgareddau arbennig ar eich safle i wella digwyddiadau trefi a phentrefi, fel Ffair Haf neu Garnifal. Gellir seilio'r gweithgareddau hyn ar ddiddordeb natur a hanesyddol (edrychwch ar daflen D3, Pethau i'w Gwneud).
- Beth am gynnal digwyddiadau gyda rhywbeth arbennig i'w weld, fel Sul yr Eirlysiau neu Crwydro drwy'r Coed, a gweini lluniaeth.
- Cysylltu digwyddiadau neu weithgareddau ag wythnosau neu ddyddiau a hybir yn genedlaethol – Wythnos Genedlaethol y Coed neu'r Wythnos Gwirfoddoli.
- Cysylltu ag arweinwyr grwpiau ar gyfer pobl ifanc. Egluro potensial y safle ar gyfer gweithgareddau a rhoi copi iddynt o daflen D3, Pethau i'w Gwneud.
- Gwahodd grwpiau lleol fel Sefydliad y Merched a grwpiau natur a bywyd gwyllt lleol ar daith dywys; yn arbennig os oes rhywbeth o ddiddordeb arbennig i'w

# 4. Adrodd y Stori – Gwybodaeth

weld neu ei glywed.

• Gweithio gydag eraill yn eich cymuned a chysylltu â digwyddiadau lleol eraill neu wybodaeth arall am eich ardal. Oes canllaw tref neu bentref yn cael ei lunio y gallech gyfrannu ato? Oes byrddau neu daflenni gwybodaeth eraill ar gael am yr ardal leol ac, os felly, ydych chi eisiau defnyddio'r un steil?

• Ystyriwch weithio gyda thiroedd claddu eraill gerllaw; gwybodaeth ar y cyd am yr holl fynwentydd yn y ddinas, efallai, neu lyfryn am yr holl fynwentydd mewn un plwyf.

Wrth drefnu digwyddiadau a gweithgareddau, cadwch at y canllawiau Iechyd a Diogelwch bob amser (edrychwch ar daflen D2, Iechyd a Diogelwch).



## RHAI ENGHREIFFTIAU O WYBODAETH AM SAFLEOEDD CLADDU

Panel gwybodaeth ar y safle neu yn yr adeilad.

Taith dywys gan wirfoddolwr gwybodus a brwd.


Arwydd wrth laswellt talach yn rhoi gwybodaeth am yr Ardal Cadwraeth Glaswelltir.


Taflen i ymwelwyr ei chadw gyda dolenni i wefan gyda rhagor o fanylion, lluniau a fideos.


Canllawiau sain yn y llaw.

Canllaw llwybrau ar gyfer y safle i bobl ifanc, gyda chwestiynau a chwis.

DVD am eich safle claddu drwy gydol y flwyddyn, i’w phrynu neu ei dangos yn ystod digwyddiadau.







**Cysylltiadau defnyddiol**

Y Gymdeithas ar gyfer Gwybodaeth am Dreftadaeth, www.ahi.org.uk

Rhwydwaith Twristiaeth Eglwysi Cymru, www.ctnw.co.uk

Y Gymdeithas Twristiaeth Eglwysi, www.churchestourismassociation.net

Cyngor a help i ysgrifennu Canllawiau Eglwysi, www.churchguides.co.uk

**Darllen defnyddiol**

Environmental Interpretation - Sam H. Ham

# 5. Gwneud Cais am Grantiau

***Mae gan y daflen hon ganllawiau defnyddiol ar wneud ceisiadau am grantiau a gwybodaeth am ble mae cael hyd i wybodaeth am grantiau lleol a chenedlaethol.***

Mae llawer o grantiau ar gael i grwpiau sy'n gwneud gwaith cadwraeth, gan ddarganfod am eu hardal leol a'i hanes, dysgu sgiliau traddodiadol a chynnwys pobl leol. Gall grŵp cymunedol gwirfoddol sy'n rheoli safle claddu fod yn addas iawn i feini prawf gofynnol rhai grantiau.

## GWNEUD CAIS AM GRANTIAU

### 1. Oes gennych chi'r strwythur priodol?


Mae sefydliadau sy'n dyfarnu grantiau'n datgan ei bod yn ofynnol i'r grŵp sy'n gwneud cais fod â chyfansoddiad neu gyfres o reolau ysgrifenedig. Rheolir mynwentydd eglwysi a safleoedd claddu gan sefydliad sy'n bodoli eisoes yn y rhan fwyaf o achosion, a bydd unrhyw gais am grant yn mynd drwy'r sefydliad hwnnw fwy na thebyg. Ar achlysur prin pan mae angen ffurfio grŵp annibynnol ar berchnogion neu reolwyr y safle, gofynnwch am gyngor (gweler y cysylltiadau defnyddiol).



### 2. Datblygwch eich prosiect yn syniad llwyddiannus

Gwnewch restr o'r pethau y mae eich prosiect angen cyllid ar eu cyfer. Gallai hyn gynnwys y canlynol:

- Cynllun rheoli
- Arolygon biolegol
- Arfau a storfa ar eu cyfer
- Atgyweirio'r wal derfyn
- Taflenni a digwyddiadau
- Gwybodaeth
- Atgyweirio cofebau




Rhannwch y rhestr yn hanfodol a dymunol. Cofiwch gynnwys y gymuned ehangach, i wneud yn siŵr bod buddiannau pawb yn cael eu hystyried.

### 3. Casglwch ffeithiau

Gwnewch yn siŵr bod yr holl wybodaeth am eich prosiect ar gael yn hwylus. Cefnogwch eich cynnig gyda ffeithiau a ffigyrau; pa mor fawr yw eich safle claddu chi? Faint o yw hynafol sydd ynddo? Faint o bobl sy'n defnyddio'r eglwys a'i mynwent? Faint o wirfoddolwyr sy'n ymwneud â'i rheoli? Sawl metr o wal gerrig sydd angen ei thrwsio? Rhaid cael amcan-brisiau am y gwaith a'r gwasanaethau, fel eich bod yn gwybod faint o arian rydych chi ei angen.

### 4. Ymchwilio a dewis cyllidwyr tebygol

Gosodwch eich prosiect ochr yn ochr â chyllidwyr tebygol. Gweithredwch drwy dargedu ychydig o gyllidwyr yn lle ysgrifennu llythyr cyffredinol at lawer ohonynt. Ffoniwch y cyllidwr am sgwrs. Darllenwch y meini prawf. Ydych chi'n gallu gwau'r hyn maent yn chwilio amdano yn eich prosiect?

Er enghraifft; os ydych chi eisiau atgyweirio wal gerrig sych ac os yw'r cyllidwr yn chwilio am gyfraniad gan y gymuned, yna ychwanegwch arddangosfa neu benwythnos hyfforddi at eich prosiect. Yn aml iawn, gall ychwanegu at eich prosiect i'w helpu i gyd-fynd â meini prawf y cyllidwr ei wella'n sylweddol! Gall ysgogi syniadau nad oeddech wedi meddwl amdanynt yn wreiddiol efallai.

### 5. Ysgrifennwch gynnig da

Gall un person fod yn gyfrifol am ysgrifennu'r cynnig tra bo eraill yn casglu gwybodaeth gefndir a llythyrau o gefnogaeth.

Darllenwch a dilynwch y cyfarwyddiadau. Gwiriwch y dyddiadau cau a chadwch gopïau o bopeth sy'n cael ei anfon. Os oes gan y cyllidwr ffurflen gais, llungopïwch hon i ddechrau a llenwi drafft cyn cwblhau fersiwn derfynol. Gall fod ar gael yn electronig.

Ysgrifennwch gais clir a chryno. Disgrifiwch pa gefnogaeth sydd gennych chi gan y gymuned leol;

ydych chi wedi ymgynghori â'r gymuned a sefydliadau lleol eraill? Gofynnwch i'r sefydliadau hynny ysgrifennu llythyrau o gefnogaeth. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos sut mae eich prosiect yn bodloni meini prawf y cyllidwr.

### 6. Dywedwch 'Diolch yn Fawr' a chadwch at eich addewidion os byddwch yn llwyddiannus

Lluniwch restr o unrhyw gyfyngiadau neu ymrwymiadau. Gall y rhain fod yn gydnabod cyllidwyr, cofnodi amser gwirfoddolwyr neu gofnodi nifer y bobl mewn digwyddiadau. Meddyliwch sut mae'n rhaid i chi werthuso effaith eich prosiect. Tynnwch lawer o luniau. Cofnodwch yn llawn sut mae'r arian yn cael ei wario a gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw pob derbynneb.

### 7. Dathlu!

Manteisiwch ar y cyfle i ddathlu ac i roi gwybod i bobl beth fyddwch yn ei wneud; yn y wasg leol a'r papur bro, dros baned a chacen neu yn y Gwasanaeth ar y Sul!

### 8. Os na fyddwch yn llwyddiannus

Gofynnwch i'r cyllidwr am adborth, ac a oes posib ailymgeisio. Chwiliwch am ffynonellau eraill o gyllid a chysylltwch â sefydliadau a all helpu.

### Gweithio mewn partneriaeth

Wrth wneud cais am grantiau, does dim angen gweithredu ar eich pen eich hun; gallwch uno â phobl eraill i wneud cais ar gyfer nifer o safleoedd? Oes grŵp neu fenter gymunedol leol y gallech gydweithio â hi? Gall hyn gynnwys datblygu prosiect gyda grŵp hanes lleol neu ymuno â chyngor tref i wneud gofod gwyrdd cyhoeddus yn lle gwell i fywyd gwyllt.

## SEFYDLIADAU A ALL HELPU

### Canolfannau Gwirfoddoli a Chynghorau Gwirfoddol Sirol

Ceir canolfannau a swyddfeydd gwirfoddoli ledled Lloegr. Gall y sefydliadau hyn eich helpu chi i sefydlu grŵp, dod o hyd i grantiau, recriwtio gwirfoddolwyr newydd a dweud wrth bobl eraill am yr hyn rydych chi'n ei wneud. Yng Nghymru mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar gael, a Chynghorau Gwirfoddol Sirol ac Amgylchedd Cymru.

### Yr Awdurdod Lleol

Mae gan lawer o awdurdodau lleol staff i helpu a chynghori grwpiau gwirfoddol. Efallai fod 'Gwasanaeth Cymunedol a Gwirfoddol' yn y cyngor. Unwaith eto, gall y staff yma eich helpu chi i ddod o hyd i arian addas neu wirfoddolwyr ac yn aml iawn mae ganddynt grantiau bychain addas eu hunain.

### Cynghorau Cymuned

Os ydych chi yn Lloegr, efallai fod cyngor cymuned yn eich ardal a allai helpu mwy arnoch chi. Ceir tri deg wyth o Gynghorau Cymuned Gwledig elusennol ledled Lloegr sy'n gyfrifol am ddatblygu cymunedau.

### Cyllid y Loteri

Mae gan y Gronfa Loteri grantiau bach a mawr ar gael i grwpiau cymunedol ac mae'n hawdd gwneud cais amdanynt. Edrychwch yng ngwefan y Gronfa Loteri Fawr a Chronfa Dreftadaeth y Loteri.

### Cysylltiadau defnyddiol


*Bedwen Arian*

Y Gronfa Loteri Fawr, www.biglotteryfund.org.uk

Eglwys Loegr, ChurchCare, www.churchcare.co.uk

Yr Eglwys yng Nghymru, www.churchinwales.org.uk/heritage

Cynghorau Gwirfoddol Sirol / Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, www.wcva.org.uk, www.sustainablefundingcymru.org.uk

Amgylchedd Cymru, www.environment-wales.org

Cronfa Dreftadaeth y Loteri, www.hlf.org.uk

Mae Cynghorau Cymuned wedi'u cysylltu gan yr elusen ACRE (Gweithredu gyda Chymunedau yn Lloegr Wledig), www.acre.org.uk, ac maent yn ffurfio'r Rhwydwaith Gweithredu Cymunedol Gwledig (RCAN)

Canolfannau Gwirfoddoli Awdurdodau Lleol (Lloegr), www.volunteering.org.uk

Gwirfoddoli yng Nghymru, www.volunteering-wales.net

### Darllen defnyddiol

Fundraising for a Community Project gan Simon Whaley

# 6. Cynaliadwyedd

***Mae'r daflen hon yn edrych ar gynaliadwyedd, beth ydi hynny a sut mae gwneud eich camau gweithredu'n fwy cynaliadwy.***


I greu'r math o fyd rydyn ni eisiau i ni ein hunain ac i'n plant, mae'n rhaid i ni ystyried beth rydym yn ei wneud, sut rydym yn ei wneud a pha effaith fydd yn ei gael ar bobl eraill a'r amgylchedd. Mewn geiriau eraill, ydi ein gweithredoedd ni'n gynaliadwy?

Ystyriwch: lleihau llygredd, gwarchod ynni a lleihau gwastraff. Pa effaith fydd eich cynllun yn ei gael ar y bywyd gwyllt sy'n bresennol?

## TANWYDDAU FFOSIL

Dyma danwyddau sydd wedi'u gwneud o blanhigion ac anifeiliaid sydd wedi datblygu'n ffosilau dros gyfnod daearegol o amser. Mae olew, nwy, glo a mawn i gyd yn danwyddau ffosil. Mae'r nwyon a gynhyrchir o losgi tanwyddau ffosil yn cyfrannu tuag at gynhesu byd-eang ac yn llygru'n gyffredinol. Rydym yn defnyddio tanwyddau ffosil i yrru ein ceir, i yrru sawl math arall o injan (strimars a pheiriannau torri gwair) ac i gynhyrchu llawer o'n trydan cenedlaethol.

Daw mawn, a ddefnyddir mewn llawer o gompostau masnachol, o gorsydd mawn ac mae'n danwydd ffosil. Drwy gloddio mawn i'w ddefnyddio mewn compost, bydd y nwyon tŷ gwydr a fydd wedi'u storio ynddo'n cael eu rhyddhau. Os oes arnoch angen prynu compost, yna chwiliwch am y geiriau DIM MAWN ar y bag. Bydd compost heb y geiriau hyn wedi'u nodi'n glir arno'n cynnwys mawn bob tro bron. Mae Milltiroedd Awyr, yn ogystal â'r tanwyddau ffosil a ddefnyddir yn uniongyrchol, yn ystyried y 'tanwydd cudd' neu'r milltiroedd awyr y mae cynhyrchion wedi'u teithio. Weithiau gellir cael darpariaeth gyfatebol yn lleol, er enghraifft, prynu afalau Prydeinig neu Ewropeaidd yn lle afalau o Seland Newydd.



## COED

Gall coed, papur a siarcol ddod o fforestydd a reolir yn gynaliadwy, sy'n golygu bod coed ifanc yn cael eu plannu yn lle coed sy'n cael eu torri. Mae'n hawdd prynu coed o fforestydd a reolir; mae gwerthwyr coed wedi arfer cael eu holi am hyn yn awr. Chwiliwch am nod fforest-gyfeillgar y Cyngor Stiwardiaeth Fforestydd. Peidiwch ag anghofio ystyried o ble mae'r coed mewn cynhyrchion eraill, fel siarcol a phapur, wedi dod.

## CEMEGAU

Efallai fod arnoch angen defnyddio cemegau ar eich safle; cadwolion ar ffens efallai neu baent ar gyfer gwaith coed neu fetel. Meddyliwch a oes arnoch angen defnyddio cemegyn ac, os oes, ceisiwch ddod o hyd i un na fydd yn niweidiol i'r amgylchedd. Mae cadwolion o bob math ar gael gyda chynhwysion gweithredol wedi deillio o blanhigion.

## LLEIHAU YN GYFFREDINOL

Efallai eich bod am feddwl yn fwy cyffredinol am yr hyn rydych yn ei wneud a sut rydych yn gweithio. Ceisiwch leihau faint rydych yn ei brynu yn ogystal â'r ynni tanwydd ffosil rydych yn ei ddefnyddio:

- Ystyriwch fenthyg neu logi arfau.
- Os yn prynu, beth am ail law?
- Os yn prynu'n newydd, chwiliwch am safon uchel a fydd yn para, ac sy'n bosib eu cynnal a'u cadw a'u hatgyweirio.
- Osgowch eitemau tafladwy neu fyrhoedlog.

## GWEITHGYNHYRCHU

Ydych chi'n gwybod sut cafodd yr eitemau rydych chi'n eu prynu eu gwneud? A gafodd y deunyddiau eu gweithgynhyrchu mewn ffordd nad oedd yn llygru nac yn dinistrio'r amgylchedd? Beth yw amodau byw a gweithio'r bobl sy'n eu gwneud? Weithiau mae problemau llygredd yn digwydd mewn gwlad arall ble nad yw'r cyfreithiau mor llym neu ddim yn cael eu gorfodi cystal. Efallai y byddwch yn dymuno ystyried amodau byw a gweithio'r bobl sy'n ymwneud â'r gweithgynhyrchu a'r bobl sy'n byw gerllaw.

***Mae llawer o bobl yn credu bod rhad i ni ystyried lles yr holl bobl yn y byd er mwyn bod yn wirioneddol gynaliadwy.***



*Onnen*

## MEDDYLIWCH AM WASTRAFF

Mae cynaliadwyedd yn cynnwys bywyd

cyflawn rhywbeth. Beth sy'n digwydd iddo ar ôl i chi orffen efo fo?

**LLEIHAU** y gwastraff

**AILDDEFNYDDIO** os yn bosib

**AILGYLCHU** popeth nad ydych yn gallu ei ddefnyddio.

Mae posib ailgylchu llawer iawn erbyn hyn.

Meddyliwch am osod biniau ailgylchu mewn digwyddiadau. Mae hyn yn annog ymwelwyr i wahanu eu gwastraff eu hunain, sy'n arbed gwaith amhleserus i chi ac yn dangos eich bod yn poeni am wastraff.

## DOD YN FWY CYNALIADWY

Unwaith rydych yn dechrau ystyried cynaliadwyedd, gall y rhestr o bethau i feddwl amdanynt ymddangos yn ofnadwy o hir ac efallai y byddwch yn teimlo'n ddi-rym. Peidiwch â cheisio mynd i'r afael â'r holl broblemau hyn ar un tro; rhowch sylw iddynt fesul un.

Er enghraifft:

Rydych chi'n bwriadu cynnal diwrnod gwaith i drwsio rhai darnau o ffens gydag estyll newydd a thrin y ffens gyfan gyda chadwolyn. Wedyn bydd pryd i bawb yn cael ei goginio ar farbeciw.



***Ystyriwch y canlynol:***

- O ble mae'r estyll ar gyfer eich ffens wedi dod? Chwiliwch am logo'r Cyngor Stiwardiaeth Fforestydd a choed o'r DU neu Ewrop.
- Pa fath o gadwolyn fyddwch chi'n ei ddefnyddio ar y ffens, ac oes posib i chi ddefnyddio un amgylcheddol-gyfeillgar?
- Pa fath o farbeciw ydych chi'n ei ddefnyddio? Ceisiwch osgoi un tafladwy.
- O ble mae siarcol y barbeciw yn dod? Mae siarcol o goetiroedd y DU yn cael ei gynaeafu'n gynaliadwy ac yn llosgi'n dda iawn.
- Ydych chi'n cyflenwi cwpanau a phlatiau? Oes posib i bobl ddod â rhai gyda nhw? Os oes rhaid i chi ddefnyddio rhai tafladwy, defnyddiwch rai papur nid plastig.
- Pa fwyd fyddwch chi'n ei goginio ac o ble mae wedi dod? Oes posib i chi siopa'n lleol?

Mae'r ffaith bod eich grŵp chi'n bodoli ac yn gofalu am y fynwent neu'r safle claddu'n gamp aruthrol ynddi'i hun, a dylid dathlu hynny.

Mae rheolaeth a gwaith cynnal a chadw rheolaidd gan grŵp o wirfoddolwyr lleol sy'n rhannu'r cyfrifoldeb ac yn cynnwys eu cymuned yn ffordd gynaliadwy iawn o ofalu am y safle claddu.

### Cysylltiadau defnyddiol

Cynghrair o Grefyddau a Chadwraeth, www.arcworld.org

Eco-Gynulleidfa, www.ecocongregation.org

Canolfan y Dechnoleg Amgen, www.cat.org.uk

Dolen Ecoleg Cristion, www.christian-ecology.org.uk

ChurchCare, www.churchcare.org.uk

Yr Eglwys yng Nghymru, www.churchinwales.org.uk

Mudiad Islamaidd dros Ecoleg a Gwasanaethau Amgylcheddol, www.envirolink.org

Crynwyr dros Gynaliadwyedd, www.livingwitness.org.uk

Lleihau'r Ôl Troed, www.churchcare.co.uk/shrinking-the-footprint

Y Rhwydwaith Amgylcheddol i Ferched, www.wen.org.uk

# CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

**Ambiwlans Sant Ioan** - www.sja.org.uk

**Amgylchedd Cymru** - 029 2043 1727, info@environment-wales.org, www.environment-wales.org

**Asiantaeth yr Amgylchedd** - 03708 506 506, enquiries@environment-agency.gov.uk, www.environment-agency.gov.uk

**Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon**
028 90540540, enquiries@doeni.gov.uk, www.doeni.gov.uk

**Buglife** - 01733 201 210, info@buglife.org.uk, www.buglife.org.uk

**Byd y Rhedyn – Cymdeithas Redynegol Prydain**
www.nhm.ac.uk/hosted_sites/bps

**Cadw** - 01443 336000, cadw@wales.gsi.gov.uk, www.cadw.wales.gov.uk

**Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid**
enquiries@arc-trust.org, www.arc-trust.org

**Cadwraeth Glöynnod Byw** - 01929 400 209, info@butterfly-conservation.org, www.butterfly-conservation.org

**Cadwraeth Gwenoliaid Duon**
mail@swift-conservation.org, www.swift-conservation.org

**Canolfannau Gwirfoddoli Lloegr**
www.volunteering.org.uk

**Canolfan y Dechnoleg Amgen** – 01654705950, www.cat.org.uk

**Church Guides** - www.churchguides.co.uk

**Common Ground** – 01747850820, info@commonground.org.uk, www.commonground.org.uk

**Cronfa Dreftadaeth y Loteri** – 020 7481 6000, enquire@hlf.org.uk, www.hlf.org.uk

**Crynwyr dros Gynaliadwyedd** – 01663 308656, info@livingwitness.org.uk, www.livingwitness.org.uk

**Cyfeillion Eglwysi Heb Gyfeillion** - 020 72363934, office@friendsoffriendlesschurches.org.uk, www.friendsoffriendlesschurches.org.uk

**Cyfoeth Naturiol Cymru** – 0300 065 3000
www.cyfoethnaturiol.cymru, www.naturalresourceswales

**Cymdeithas ar gyfer Gwybodaeth am Dreftadaeth**
0560 2747737, mail@ahi.org.uk, www.ahi.org.uk

**Cymdeithas Cennau Prydain**
www.britishlichensociety.org.uk

**Cymdeithas Coedyddiaeth** - 01242 522152
admin@trees.org.uk - www.trees.org.uk

**Cymdeithas Cofadeiladau Hynafol** - 020 7236 3934, office@ancientmonumentssociety.org.uk, www.ancientmonumentssociety.org.uk

**Cymdeithas Deialau Haul Prydain**
chairman@sundialsoc.org.uk, www.sundialsoc.org.uk

**Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain**
coordinator@bsbi.org.uk, www.bsbi.org.uk

**Cymdeithas Fycolegol Prydain**
admin@britmycolsoc.info, www.britmycolsoc.org.uk

**Cymdeithas Gwarchod Draenogod Prydain**
01584 890 801, info@britishhedgehogs.org.uk, www.britishhedgehogs.org.uk

**Cymdeithas Herpetolegol Prydain**
info@thebhs.org, www.thebhs.org

**Cymdeithas o Grwpiau Ffwng Prydain**
01460 221788, enquiries@abfg.org.uk, www.abfg.org

**Cymdeithas Prydain o Hanes Lleol** - 01283 585947, info@balh.co.uk, www.balh.co.uk

**Cymdeithas Waliau Cerrig Sych** - 015395 67953, information@dswa.org.uk, www.dswa.org.uk

**Cymdeithas y Daearegwyr** - 020 7434 9298, sarah@geologistsassociation.org.uk
www.geologistsassociation.org.uk

**Cymdeithas y Mamaliaid** – 02380 237874, info@themammalsociety.org, www.mammal.org.uk

**Cymdeithas y Pladur** - scytheassociation.org

**Cymdeithasau Hanes Lleol** – 01527 854228
www.local-history.co.uk/Groups

**Cynghrair o Grefyddau a Chadwraeth**
www.arcworld.org

**Cyngor Archeoleg Prydain** - 01904 671 417, webenquiry@archaeologyUK.org, www.archaeologyuk.org

**Cynnal ein Treftadaeth** - 01225 482228, timothy@maintainourheritage.co.uk
www.maintainourheritage.co.uk

**Dolen Ecoleg Cristion** - 0845 459 8460, info@christian-ecology.org.uk, www.christian-ecology.org.uk

**Eco-Gynulleidfa** - 0114 263 6421,

## CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

www.ecocongregation.org

**Eglwys Loegr, ChurchCare** - 0207 898 1863, churchcare@churchofengland.org, www.churchcare.co.uk

**Fforwm Coed Hynafol** - 01476 581135, ancient-tree-forum@woodland-trust.org.uk frontpage.woodland-trust.org.uk/ancient-tree-forum

**Flora Locale** - 01488 686186, www.floralocale.org

**Froglife** - 01733 558844, info@froglife.org, www.froglife.org

**Garden Organic** - 024 7630 3517, enquiry@gardenorganic.org.uk, www.gardenorganic.org.uk

**The Georgian Group** - 087 1750 2936, info@georgiangroup.org.uk, www.georgiangroup.org.uk

**Gofalu am Erw Duw** - 01588 673041, info@cfga.org.uk, www.caringforgodsacre.org

**Grwpiau Amffibiaid ac Ymlusgiaid y DU** www.arguk.org

**Grŵp Yw Hynafol a'r Gofrestr Coed** – 01234 768884, tim@ancient-yew.org, info@tree-register.org, www.ancient-yew.org

**Gwefan Capiau Cwyr** - 01970 622325, gwg@aber.ac.uk, www.aber.ac.uk/waxcap

**Gweithredu gyda Chymunedau yn Lloegr Wledig** www.acre.org.uk

**Gwirfoddoli yng Nghymru** www.volunteering-wales.net

**Hedge Link** - 0845 600 3078, enquiries@naturalengland.org.uk, www.hedgelink.org.uk

**Hen Fapiau** - www.old-maps.co.uk

**Historic England** – 020 7973 3700, customers@historicengland.org.uk, www.historicengland.org.uk

**Historic Scotland** - 0131 668 8600, hs.website@scotland.gsi.gov.uk, www.historic-scotland.gov.uk

**I Spot** - www.ispot.org.uk

**Lleihau'r Ôl Troed** - www.churchcare.co.uk/shrinking-the-footprint

**Mudiad Cadwraeth** - 020 7591 3111, info@conservationfoundation.co.uk, www.conservationfoundation.co.uk

**Natural England** - 0845 600 3078, enquiries@naturalengland.org.uk www.naturalengland.org.uk

**OPAL Explore Nature** – www.opalexplorenature.org

**Plantlife** – 01722 342730, enquiries@plantlife.org.uk, www.plantlife.org.uk

**Rhwydwaith Twristiaeth Eglwysi Cymru** 07815 6062040, www.ctnw.co.uk

**Scottish Natural Heritage** - 01463 725000, www.snh.gov.uk

**Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig** – 0131 240 1425, icf@charteredforesters.org www.charteredforesters.org

**Sefydliad yr Archeolegwyr** - 0118 378 6446, admin@archaeologists.net, www.archaeologists.net

**Stryd y Draenog** - 020 7498 4533, hedgehogs@ptes.org, www.hedgehogstreet.org

**Y Comisiwn Coedwigaeth** - www.forestry.gov.uk

**Y Cyfeirlyfr Cadwraeth Adeiladau** - 01747 871717, info@buildingconservation.com www.building conservation.com

**Y Cyngor ar gyfer Gofalu am Eglwysi** www.churchcare.co.uk

**Y Cyngor Astudiaethau Maes** - 01743 852100, enquiries@field-studies-council.org www.field-studies-council.org

**Y Cyngor Coed** – 020 7407 9992, info@treecouncil.org.uk, www.treecouncil.org.uk

**Y Ffederasiwn Genedlaethol o Gyfeillion Mynwentydd** - gwyneth1@btinternet.com, www.cemeteryfriends.org.uk

**Y Ffederasiwn o Gymdeithasau Hanes Teulu** 01455 203133, info@ffhs.org.uk, www.ffhs.org.uk

**Y Ganolfan Marwolaeth Naturiol** – 01962 712690, contact@naturaldeath.org.uk, www.naturaldeath.org.uk

**Y Gofrestr Coed** - 01234 768884 info@tree-register.org, www.treeregister.org

**Y Groes Goch Brydeinig** - 020 7562 2050, information@redcross.org.uk, www.redcross.org.uk

**Y Gweithgor Iechyd a Diogelwch** - www.hse.gov.uk

**Y Gwirfoddolwyr Cadwraeth** - 01302 388 883, information@tcv.org.uk, www.tcv.org.uk

**Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol** 0845 260 5000, www.rhs.org.uk

**Y Gymdeithas Cofadeiladau Eglwysi** churchmonuments@aol.com, www.churchmonumentssociety.org

**Y Gymdeithas Ddaearegol** - 020 7434 9944, www.geolsoc.org.uk

**Y Gymdeithas er Gwarchod Adeiladau Hynafol** - 020 7377 1644, info@spab.org.uk www.spab.org.uk

**Y Gymdeithas Fictoraidd** - 020 8994 1019,

# CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

admin@victoriansociety.org.uk,
www.victoriansociety.org.uk

**Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar**
01767 693690, wildlife@rspb.org.uk www.rspb.org.uk

**Y Gymdeithas Genedlaethol o Seiri Coffa**
01788 542264, enquiries@namm.org.uk,
www.namm.org.uk

**Y Gymdeithas Plygu Gwrychoedd Genedlaethol**
07788 526 106, nhls.enquiries@googlemail.com
www.hedgelaying.org.uk

**Y Gymdeithas Rheoli Cefn Gwlad**
01245 424116, cma@writtle.ac.uk,
www.countrysidemanagement.org.uk

**Y Gymdeithas Twristiaeth Eglwysi**
www.churchestourismassociation.net

**Y Loteri Fawr**
0845 4102030, www.biglotteryfund.org.uk

**Y Mudiad Islamaidd dros Ecoleg a Gwyddoniaethau Amgylcheddol,** 020 8886 9952,
harfiyah@lamaan.com, www.envirolink.org

**Y Rhwydwaith Amgylcheddol i Ferched**
020 7481 9004, www.wen.org.uk

**Y Rhwydwaith Compostio Cymunedol**
0114 258 0483, info@communitycompost.org,
www.communitycompost.org

**Ymddiriedolaeth Adareg Prydain**
01842 750050, info@bto.org, www.bto.org

**Ymddiriedolaeth y Bobl ar gyfer Rhywogaethau Mewn Perygl** - 020 7498 4533, enquiries@ptes.org
www.ptes.org

**Ymddiriedolaeth y Capeli Hanesyddol**
020 7481 0533, chapels@hct.org.uk, www.hct.org.uk

**Ymddiriedolaeth y Coetiroedd** - 01476 581135,
conservation@woodlandtrust.org.uk
www.woodlandtrust.org.uk

**Ymddiriedolaeth y Cofebau Rhyfel**
info@warmemorials.org,
conservation@warmemorials.org
www.warmemorials.org

**Ymddiriedolaeth y Mawsolea a'r Cofadeiladau**
07856 985974, info@mmtrust.org.uk
www.mmtrust.org.uk

**Ymddiriedolaeth y Moch Daear**
08458287878, enquiries@badgertrust.org.uk,
www.badger.org.uk

**Ymddiriedolaeth y Tylluanod Brech** - 01364 653026,
info@barnowltrust.org.uk, www.barnowltrust.org.uk

**Ymddiriedolaeth yr Hebog a'r Dylluan**
0844 984 2824, enquiries@hawkandowl.org,
www.hawkandowl.org

**Ymddiriedolaethau Daeareg**
www.thegeologytrusts.org

**Yr Eglwys yng Nghymru** - www.churchinwales.org.uk

**Yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Cadwraeth Cacwn** –
enquiries@bumblebeeconservation.org
www.bumblebeeconservation.org

**Yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Cadwraeth Eglwysi**
0845 303 2760, central@thecct.org.uk,
www.visitchurches.org.uk

**Yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Cadwraeth Ystlumod**
0845 1300 228, enquiries@bats.org.uk,
www.bats.org.uk

**Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyfer Eglwysi**
0207 600 6090, www.nationalchurchestrust.org

**Yr Ymddiriedolaethau Natur** - 01636 677711,
enquiry@wildlifetrusts.org, www.wildlifetrusts.org

